



Cyfoeth  
Naturiol  
Cymru  
Natural  
Resources  
Wales

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon

2019-2020



# Cynnwys

---

Rhagair y Cadeirydd	3
Adroddiad Perfformiad	6
Trosolwg	6
Dadansoddi perfformiad	22
Adroddiad Atebolrwydd	49
Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol	50
Adroddiad y Cyfarwyddwyr	50
Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu	52
Datganiad Llywodraethu	53
Adroddiad Cyflogau a Staff (wedi'i archwilio)	67
Adroddiad Seneddol ac Archwilio (wedi'i archwilio)	80
Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Annibynnol Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru	81
Datganiadau Ariannol	88
Atodiad 1 Adroddiad Amgylcheddol Corfforaethol	130

# Rhagair y Cadeirydd

Rwy'n ysgrifennu'r rhagair hwn i adroddiad blynyddol Cyfoeth Naturiol Cymru am y tro cyntaf ers dod yn gadeirydd parhaol yn swyddogol ym mis Tachwedd 2019 ar ôl bod yn gadeirydd dros dro ers mis Tachwedd 2018.

Rwyf hefyd yn ysgrifennu yn erbyn cefndir o argyfwng iechyd byd-eang digynsail. Mae pandemig y coronafeirws (COVID-19) yn cael effaith anferthol ar fywydau pobl, ac, mewn sawl man, mae'n cael canlyniadau trasig hefyd.

Mae'r flwyddyn adrodd hon eisoes yn teimlo fel amser hir yn ôl. Roedd yn flwyddyn pan gafodd Cyfoeth Naturiol Cymru sawl llwyddiant, ond hefyd yn gorfod wynebu heriau sylweddol.

Cafodd y cyfnod gaeaf eithriadol o wlyb a digwyddiadau llifogydd mis Chwefror effaith sylweddol ar deuluoedd a busnesau ledled Cymru. Mae pob adeilad dan ddwâ'r yn drasiedi personol ac mae cydymdeimlad Cyfoeth Naturiol Cymru gyda'r rhai nad ydynt wedi gallu dychwelyd i'w cartrefi neu adeiladau eu busnes ers hynny.

Roedd timau ymateb i ddigwyddiadau dynodedig a phrofiadol Cyfoeth Naturiol Cymru allan yn gweithio cyn, yn ystod ac ar ôl y stormydd, gan weithio'n agos gydag



Syr David Henshaw

awdurdodau lleol a'r gwasanaethau brys bob awr o'r dydd i baratoi ac ymateb i'r digwyddiadau.

Yn y pen draw, gwnaeth y Swyddfa Dywydd gadarnhau mai mis Chwefror 2020 oedd y mis Chwefror gwlypaf erioed.

Yn gyffredinol, gwnaeth ein hamddiffynfeydd weithio'n dda, gan ddangos tystiolaeth o'r camau enfawr rydym wedi'u cymryd wrth wella gallu Cymru i wrthsefyll llifogydd dros y degawdau. Mae ein rhagolygon yn well ac mae ein gwaith modelu wedi gwella, sy'n golygu bod effaith bosib stormydd difrifol wedi lleihau'n sylweddol.

Ond mae llawer y gallwn ei ddysgu yn sgil y digwyddiadau hyn. Aethom ati i gynnal proses adfer ac adolygu cynhwysfawr ar gyfer y llifogydd, gan weithio ochr yn ochr



Staff CNC yn gosod amddiffynfeydd yn Llanrwst yn ystod Storm Ciara



ag awdurdodau lleol ac asiantaethau partner ledled Cymru i ddysgu gwersi o effeithiau'r stormydd, a chyhoeddi ein canfyddiadau ym mis Hydref 2020.

Y consensws gwyddonol yw bod ein hinsawdd yn newid ac y bydd digwyddiadau tywydd eithafol fel y rhai a brofwyd dros y gaeaf hwn yn dod yn fwy cyffredin. Bydd helpu cymunedau ledled Cymru i adfer ar ôl y digwyddiadau hyn – a gweithio i sicrhau bod Cymru'n fwy gwydn yn y dyfodol – yn her y byddwn yn mynd i'r afael â hi'n uniongyrchol, ond un sy'n gallu cael ei goresgyn drwy weithio mewn partneriaeth yn unig.

Gan roi'r llifogydd o'r neilltu, rwyf wedi bod yn falch â'r ffordd y cafodd y gwaith o ailstrwythuro'r sefydliad cyfan ei gwblhau i fod yn fodel sy'n seiliedig ar leoedd, sy'n adlewyrchu amcanion Deddf yr Amgylchedd wrth lunio blaenoriaethau lleol a chyfleoedd ar gyfer adnoddau naturiol a sicrhau dull gweithredu mwy lleol a chysylltiadau agosach â'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.

Mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid, cyhoeddwyd y saith Datganiad Ardal cyntaf sy'n cwmpasu ardal ddaearyddol ac

ardal forol y glannau Cymru. Yn garreg filltir allweddol wrth weithredu Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, bydd y datganiadau hyn yn cefnogi'r gwaith o weithredu Polisi Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru, gan lywio a galluogi gwaith cyflawni ar draws yr holl Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, a'n helpu ni ac eraill i ganolbwyntio adnoddau lle bydd y budd mwyaf. Gwnaethom hefyd gyhoeddi ein hail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol dros dro, a fydd yn helpu Llywodraeth Cymru wrth ddatblygu'r Polisi Adnoddau Naturiol nesaf ac sy'n disgrifio materion newydd ac sy'n dod i'r amlwg y mae modd mynd i'r afael â hwy ar lefel genedlaethol.

Drwy'r prosiect llywodraethu gwerthiant pren, rydym wedi bod yn mynd i'r afael â'r materion a arweiniodd at ein cymhwyster cyfrifon yn ystod blynyddoedd blaenorol. Mae mwy o waith i'w wneud o hyd i sicrhau bod y ffyrdd newydd o weithio wedi'u sefydlu'n llawn, a bydd y Bwrdd yn parhau i sicrhau fod hyn yn digwydd. Ond rydym wedi gwneud cynnydd da ac rwy'n hyderus, drwy gydweithio â'n timau a'n partneriaid, y byddwn yn gallu dysgu o'r heriau hyn a'u rhoi y tu ôl i ni.



Syr David Henshaw a Richard Parks a phant lleol yn ystod Wythnos Dysgu yn yr Awyr Agored

Rydym yn parhau gyda'n gwaith i wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth, rheoli dŵr yn gynaliadwy, rheoli Ystad Goetir Llywodraeth Cymru a chreu coetir newydd.

Rydym hefyd yn parhau i weithio gyda phartneriaid i hyrwyddo canlyniadau iechyd a llesiant yn yr amgylchedd, mynd i'r afael â gwastraff anghyfreithlon, ymateb i danau gwyllt a gwasanaethu ein cymunedau lleol drwy alluogi'r defnydd cyfrifol a chynaliadwy o adnoddau naturiol.

Roedd datganiad o argyfwng yn yr hinsawdd gan Lywodraeth Cymru'r flwyddyn ddiwethaf yn cynrychioli galwad clir am gamau gweithredu ar y cyd er mwyn sicrhau twf amgylcheddol.

Heddiw, mae ein hymateb i'r argyfwng yn yr hinsawdd - i hwyluso'r defnydd o ynni adnewyddadwy a datgarboneiddio - yn flaenoriaeth allweddol o hyd ac mae pwysigrwydd hyn yn dod i'r amlwg yn ein Cynllun Busnes ar gyfer 2020/21.

Yn ogystal, mae pandemig y coronafeirws wedi amlygu'r angen i ddod o hyd i lwybr tuag at adferiad gwyrdd go iawn.

Fel corff amgylcheddol mwyaf Cymru, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn benderfynol o lunio'r ailddeffroad gwyrdd hwn a llywio'r drafodaeth gymdeithasol ehangach drwy gamau gweithredu a chydweithio difrifol a chynaliadwy yma yng Nghymru ac yn fyd-eang. Dyma pam roeddwn yn falch o dderbyn y gwahoddiad gan y Gweinidog i arwain Grŵp Gorchwyl a Gorffen Adfer Gwyrdd, sy'n cynnwys nifer o uwch swyddogion gweithredol o sefydliadau'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector ledled Cymru. Mae'r Grŵp wedi goruchwyllo'r gwaith o baratoi

adroddiad annibynnol ar yr heriau sy'n wynebu trydydd sector yr amgylchedd yng Nghymru gyda chyfres o argymhellion i feithrin cydnerthedd y sector yn y misoedd i ddod. Mae ail adroddiad yn nodi'r camau gweithredu wedi'u blaenoriaethu a fydd yn sicrhau manteision lluosog ar gyfer yr argyfwng natur a phrif argyfyngau'r hinsawdd, ac mae'r economi gylchol yn creu cyfleoedd gwirioneddol ar gyfer swyddi a datblygu sgiliau ar gyfer y cymunedau hynny sy'n cael eu taro galetaf gan y pandemig. Rwy'n falch tu hwnt bod y Grŵp wedi ymrwmo i barhau i gydweithio, i arwain y gwaith o gyflawni drwy Bartneriaeth Cyflawni Adferiad Gwyrdd

Bob wythnos, rwy'n parhau i gael fy siomi ar yr ochr orau gan ymrwymiad, arbenigedd a brwdfrydedd ein staff, a dyna pam rydw i'n gwybod y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn parhau i fynd o nerth i nerth yn y dyfodol.


Ond rydym yn parhau i weithredu mewn amseroedd cynyddol heriol ac ansicr.

Ynghyd â phawb arall, rydym wedi gorfod codi i'r her o weithio a chyflawni'n gwasanaethau allweddol yn ystod pandemig byd-eang. Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda phartneriaid a Llywodraeth Cymru ar gynllunio a pholisïau ôl-Brexit, a hyderaf, er gwaethaf y pwysau presennol ar yr holl gyrrff cyhoeddus ar hyn o bryd, y bydd y sefydliad yn parhau i gyflawni ei ddyheadau i Gymru, ein hamgylchedd a'n cymunedau.

Mae pen ein taith yn glir. Rydyn ni'n sefydliad sy'n gweithio'n galed i feithrin ymddiriedaeth yn ein cymunedau, sy'n cael ei werthfawrogi gan ein rhanddeiliaid, ac sy'n lle ysgogol ac ysbrydoledig i'n cyflogeion weithio ynddo. Rwy'n diolch iddyn nhw i gyd am eu hymroddiad.



**Syr David Henshaw  
Cadeirydd**



# Adroddiad Perfformiad

## Trosolwg

Ar y tudalennau canlynol, mae Clare Pillman, ein prif weithredwr, yn cynnig ei safbwynt ar ein perfformiad eleni ac rydym yn amlinellu diben ein sefydliad, ein prif rolau a chyfrifoldebau, a'r risgiau a phroblemau allweddol rydym yn eu hwynebu, yn ogystal ag esbonio sut rydym wedi rheoli'r gwaith o gyflawni ein hamcanion eleni.



Clare Pillman

## Datganiad y Prif Weithredwr

Pan wnes i baratoi'r datganiad hwn ar gyfer adroddiad y llynedd, gwnes i nodi'r heriau niferus roeddem yn eu hwynebu fel sefydliad. Flwyddyn yn ddiweddarach ac, wrth i mi ysgrifennu hwn, rydym yn wynebu'r her fwyaf i gymdeithas, ein hiechyd a'n ffordd o fyw am genedlaethau lawer.

Ni fydd yr argyfwng COVID-19 yn ymddangos rhyw lawer yn yr adroddiad hwn, gan iddo ymddangos mor agos at ddiwedd y flwyddyn berfformiad. Ond mae'n rhaid i mi nodi yma fod ein timau wedi bod yn gyflym i addasu i'r newidiadau mawr i'r ffordd rydym yn gweithio. Rwyf wedi fy syfrdanu gan ba mor wydn maent wedi bod, sut mae eu brwdfrydedd yn parhau i ymddangos, a sut maent wedi dod o hyd i ffyrdd newydd ac arloesol i sicrhau bod ein rhaglen waith bwysig yn parhau.

Ychydig cyn i Sefydliad Iechyd y Byd ddatgan pandemig byd-eang, profwyd trefniadau ymateb i ddigwyddiad ein sefydliad gan y llifogydd gwaethaf rydym wedi'u gweld yng Nghymru ers dros ddeugain o flynyddoedd.

Yn fuan wedi hynny, gwnaeth Storm Ciara a Storm Dennis achosi dinistr a dioddefaint helaeth i sawl cymuned yng Nghymru, gydag afonydd megis afon Elwy yn Llanelwy ac afon Taf ym Mhontypridd yn codi i'r lefelau uchaf erioed. Roedd hwn yn gyfnod eithriadol

o brysur ac anodd i'n staff, ond, unwaith eto, gwnaeth ymroddiad ac ymrwymiad ein timau ymateb i ddigwyddiadau fy ngwneud yn hynod o falch. Fel gyda phob digwyddiad llifogydd sylweddol, rydym yn adolygu'r hyn a ddigwyddodd ac yn ceisio nodi pa wersi y gallwn eu dysgu - ac mae'r gwaith pwysig hwn yn parhau. Cyhoeddwyd ein canfyddiadau ym mis Hydref, ac rydym eisoes wedi gweithredu sawl gwelliant allweddol.

### Datblygiadau allweddol

Wrth i mi fyfyrto ar y flwyddyn ddiwethaf, fy ail fel prif weithredwr, rwy'n meddwl am y camau mawr rydym wedi'u cymryd i ddod â ni'n agosach at ble'r ydym am fod fel sefydliad.

Yn ystod haf 2019 gwnaethom gwblhau ein rhaglen newid uchelgeisiol, gan symud i fodel 'seiliedig ar leoedd' a fyddai'n ein galluogi i gyflenwi ein gwasanaethau allweddol yn fwy lleol.

Yn unol â hyn, rydym wedi cyhoeddi'n Datganiadau Ardal cyntaf i Gymru. Mae'r Datganiadau Ardal yn amlinellu'r heriau, a'r cyfleoedd, sy'n wynebu pob lle, ac yn nodi sut byddwn yn gweithio gydag eraill - cyrff anlywodraethol, cymunedau, busnesau - i reoli'n hadnoddau naturiol yn well er lles cenedlaethau'r dyfodol.

Rydym eisoes yn gweld y manteision sy'n dod yn sgil gweithio yn y ffordd hon a chydweithio ag eraill i ddod o hyd i



Datganiadau Ardal fel pethau hyblyg, sy'n cael eu diweddarau a'u gwella'n rheolaidd wrth i ni gysylltu â mwy o bobl, casglu tystiolaeth newydd a chreu mwy o gyfleoedd.

Rwy'n hynod o falch o groesawu dau Gyfarwyddwr Gweithredol newydd, Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol, a Sarah Jennings, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol.

Gallaf adrodd fod cynnydd pellach yn y gwaith o wella ein Llywodraethiant Gwerthiannau Pren, yn dilyn adroddiad Grant Thornton ar ochr fasnachol ein gweithrediadau pren. Rydym wedi rhoi timau a strwythurau newydd ar waith, polisïau, gweithdrefnau newydd a hyfforddiant i staff, rydym wedi adnewyddu ein fframweithiau llywodraethu, wedi rhoi telerau ac amodau newydd ar gyfer contractau gwerthiannau pren ar waith, ac wedi dechrau datblygu cynllun Marchnata Pren newydd.

Rwy'n gwybod pa mor sylweddol fu'r rhwystr hwn i CNC, ac nid yw hunanfodddhad yn opsiwn. Rydym yn gwybod bod gennym fwy o waith i'w wneud i ailadeiladu a meithrin y perthnasoedd hynny gyda'r diwydiant ac i ymgorffori'r prosesau a'r ffyrdd gwell o weithio yn ddwfn yng ngwead y sefydliad, ac mae'r ddau gyfarwyddwr newydd yn chwarae rolau blaenllaw wrth fynd â'r gwaith hwn ymlaen.

Ers i mi ddechrau gweithio yn fy rôl, fy uchelgais oedd gwneud Cyfoeth Naturiol Cymru'n sefydliad y mae ein staff yn falch o weithio iddo. Rwy'n gwybod o brofiad blaenorol mor anodd y gall fod i ymgorffori diwylliant newydd o fewn sefydliad, ond rwy'n falch o'n lleoliad ar y daith hon.

Y llynedd, gwnaethom ail-lansio gwerthoedd ein staff, ac eleni rydym wedi cyflwyno rhaglen sefydlu staff i groesawu staff newydd i'r sefydliad. Rwyf eisoes wedi clywed adborth gwych o'r sesiynau hyn gan aelodau newydd #TîmCyfoeth.



## Edrych ymlaen at ddyfodol ansicr

Er bod hwn yn parhau i fod yn amser pryderus ac ansicr i bawb, rwy'n optimistaidd am ddyfodol ein hamgylchedd yma yng Nghymru. Ers i Lywodraeth Cymru ddatgan argyfwng yn yr hinsawdd yn ystod haf 2019, rydym wedi gweld ton o weithredu gan unigolion, busnesau a'r sector cyhoeddus - i gyd yn gwneud newidiadau sylweddol i'r ffordd maent yn byw eu bywydau neu'n gwneud busnes er budd yr amgylchedd.

Wrth gwrs, ar hyn o bryd, mae materion iechyd ac economaidd ar frig blaenoriaethau pobl ac mae hynny'n hollol ddealladwy. Ond am y tro cyntaf, mae'r amgylchedd a'r argyfwng yn yr hinsawdd yn flaenoriaethau hefyd, a beth bynnag fydd yn digwydd dros y misoedd nesaf, nid wyf yn meddwl y bydd hyn yn newid.

Mae'r argyfwng yn yr hinsawdd ac ym myd natur yn parhau i fod yn realiti. Mae ein hamgylchedd a'n bywyd gwyllt yn parhau i gael eu bygwth gan effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ac mae angen cymryd camau gweithredu brys os ydym am i'n plant a'n hwyron a'n hwyresau allu eu mwynhau yn yr un ffordd â ni.



**Clare Pillman**  
**Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu**

**25 Tachwedd 2020**

Mae hyn ar frig ein hagenda yn Cyfoeth Naturiol Cymru, a dyma lle byddwn yn canolbwyntio ein hymdrechion dros y flwyddyn nesaf. Rydym yn gwybod na allwn wneud hyn ar ein pennau ein hunain, ond byddwn yn parhau i yrru'r newid rydym am ei weld, i gynnwys pobl eraill ac i gadw'r sgwrs i fynd.

Dros yr ychydig fisoedd diwethaf, rydym oll wedi gorfod gwneud newidiadau sylweddol i'r ffordd rydym yn byw ein bywydau. Rydym wedi newid ein harferion, ein hymddygiad a'n ffordd o fyw. Ac er bod y sefyllfa bresennol yn anghynaliadwy i lawer o bobl - a'r economi - rwy'n gobeithio, cyn i ni i gyd fynd yn ôl at normalrwydd, ein bod yn ystyried yr hyn rydym am weld i'r 'normal' newydd fod.

Yn y pen draw, gallai'r penderfyniadau rydym yn eu gwneud nawr am sut rydym am fyw ein bywydau unwaith y byddwn yn dod allan o'r cyfnod hwn gael dylanwad cadarnhaol sylweddol o hyd ar sefyllfa yr argyfwng yn yr hinsawdd, ac ni ddylem danbriso grym hynny.





# Cyflwyno Cyfoeth Naturiol Cymru...

Rydym yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Ein diben craidd yw ceisio rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a defnyddio egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy fel a nodir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Cymru yw'r wlad gyntaf yn y byd i greu un sefydliad sy'n cyfuno llawer o'r dulliau sydd eu hangen i helpu i reoli ein hadnoddau naturiol yn gydlynol ac mewn ffordd integredig.

Mae adnoddau naturiol yng Nghymru yn wych – mynyddoedd a choetiroedd garw, tirweddau a morlinau hardd, a bywyd gwylt anhygoel. Maent yn hanfodol i'n goroesiad ac yn rhoi i ni y pethau sylfaenol sydd eu hangen arnom i fyw: aer glân, dŵr glân a bwyd. Maent yn creu swyddi i filoedd o bobl fel ffermwyr, coedwigwyr a gweithredwyr twristiaeth, gan greu cyfoeth a ffyniant.

## Mae ein rolau a'n cyfrifoldebau yn cynnwys:

**Cynghorydd** i Lywodraeth Cymru a diwydiant, tîrfeddianwyr / rheolwyr tir, y cyhoedd ehangach a'r sector gwirfoddol

**Rheoleiddiwr** safleoedd diwydiant a gwastraff, y môr, coedwigoedd a safleoedd dynodedig i amddiffyn pobl a'r amgylchedd naturiol

**Dynodwr** Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) a Pharciau Cenedlaethol, yn ogystal â Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol

**Ymatebwr** i dros 7,000 o ddigwyddiadau amgylcheddol yr adroddir amdanynt bob blwyddyn fel ymatebwr Categori 1 mewn argyfwng

**Ymgynghorai statudol** ar dros 7,000 o geisiadau cynllunio bob blwyddyn

**Rheolwr** 7% o arwynebedd tir Cymru, gan gynnwys Ystad Goetir Llywodraeth Cymru, Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol ac amddiffynfeydd rhag llifogydd, yn ogystal â chynnal cyfleusterau hamdden a labordy dadansoddol

**Partner, addysgwr a galluogwr**, gan gefnogi a hwyluso gwaith sefydliadau eraill a helpu pobl i ddysgu yn yr amgylchedd naturiol, amdano a drosto


**Casglwr tystiolaeth** sy'n monitro'r amgylchedd, yn comisiynu a gwneud ymchwil, yn datblygu a rhannu gwybodaeth, ac yn cadw cofnodion cyhoeddus

**Cyflogwr** dros 2,000 o bobl, gyda chyllideb o dros £200 miliwn

## Ein gwerthoedd

Mae ein gwerthoedd yn ganolog i'n diwylliant yn Cyfoeth Naturiol Cymru – gan adlewyrchu'r math o bobl ydyn ni a'r hyn mae'n ei olygu i fod yn rhan o #TîmCyfoeth:


- Rydym yn frwdfrydig am amgylchedd naturiol Cymru
- Rydym yn gofalu am ein gilydd a'r bobl rydym yn gweithio gyda nhw
- Rydym yn gweithio gydag uniondeb
- Rydym yn gwneud gwahaniaeth nawr ac ar gyfer y dyfodol
- Rydym yn falch o wasanaethu pobl Cymru



## Ein hamcanion

Ein prif amcan yw cyflawni'n cyfrifoldebau statudol a bodloni'r nodau sydd wedi'u sefydlu i ni gan Weinidogion Cymru. Caiff ein dyletswyddau allweddol eu gosod drwy ddull canlyniadau tymor hir ein Hamcanion Llesiant ac maent yn dangos ein cyfraniad at Nodau Llesiant Cymru. Rydym wedi defnyddio'r rhain i strwythuro'n Cynllun Corfforaethol pum mlynedd hyd at 2022 a'n gweithgareddau blynyddol yn ein Cynllun Busnes. Dyma'n hamcanion craidd ac rydym wedi defnyddio'r rhain i strwythuro'r wybodaeth am berfformiad yn yr adroddiad hwn.

- Hyrwyddo amgylchedd Cymru a rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy
- Sicrhau bod tir a dŵr yng Nghymru yn cael eu rheoli'n gynaliadwy ac mewn ffordd integredig
- Gwella cydnherthed ac ansawdd ein hecosystemau
- Lleihau'r risg i bobl a chymunedau o beryglon amgylcheddol fel llifogydd a llygredd
- Helpu pobl i fyw bywydau iachach a mwy cyflawn
- Hybu busnes llwyddiannus a chyfrifol, gan ddefnyddio adnoddau naturiol heb eu difrodi
- Datblygu Cyfoeth Naturiol Cymru yn sefydliad rhagorol sy'n darparu gwasanaeth cwsmeriaid o'r radd flaenaf





# CNC ar ffurf rhifau 2019/20

## Hyrwyddo amgylchedd Cymru a rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy

Hyfforddwyd **1,413** o staff smewn rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy

Aelod o bob un o'r **19** Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru

## Sicrhau bod tir a dŵr yng Nghymru yn cael eu rheoli'n gynaliadwy ac mewn ffordd integredig

Proseswyd

**4,284**

o drwyddedau amgylcheddol


Yn meddu ar achrediad Safon Sicr Coetiroedd y DU

Rheoli **7%** o dir Cymru



## Gwella gwydnwch ac ansawdd ein hecosystemau

Yn gyfrifol am y **12** milltir forol oddi ar y morlin



Cyhoeddwyd **1,527** o drwyddedau rhywogaethau

Yn rheoli **58** o Warchodfeydd Natur Cenedlaethol

## Lleihau'r risg i bobl a chymunedau o beryglon amgylcheddol fel llifogydd a llygredd

Cynnal a chadw **319** milltir o amddiffynfeydd perygl llifogydd

Mae **127,836** o adeiladau wedi eu cofrestru i dderbyn ein rhybuddion llifogydd

Derbyniwyd adroddiadau o **7,677** o ddigwyddiadau amgylcheddol

**Rhowch  
Wybod!**

## Helpu pobl i fyw bywydau iachach a mwy cyflawn

Yn rheoli **42** o lwybrau beicio mynydd

Yn rheoli **5** o ganolfannau ymwelwyr

Cynnal traciau a llwybrau wedi'u hyrwyddo a ddefnyddir gan **3** miliwn o ymwelwyr

## Hybu busnes llwyddiannus a chyfrifol, gan ddefnyddio adnoddau naturiol heb eu difrodi

Ymatebwyd i **7,323** o ymgynghoriadau cynllunio

Incom o **£25.2m** o bren

**62** o erlyniadau am droseddau amgylcheddol

## Datblygu Cyfoeth Naturiol Cymru yn sefydliad rhagorol sy'n darparu gwasanaeth cwsmeriaid o'r radd flaenaf

Wedi cyflawni Safon Iechyd Corfforaethol Arian

**152** o ym Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall

ISO14001: ardystiwyd yn 2015

Bwlch cyflog rhwng y rhywiau o

**5.3%**

**2,187** o gyflogeion

Cyllideb gwerth

**£204.5m**



## Rheoli'r risgiau a'r materion rydym yn eu hwynebu

Fel sefydliad â rolau a chyfrifoldebau amrywiol, rydym yn rheoli sawl risg a mater allweddol er mwyn lliniaru eu heffaith ar gyflawni ein gwaith. Fel amlinellwyd yn ddiweddarach yn ein Datganiad Llywodraethu, mae'r risgiau i gyflawni'n hamcanion wedi'u nodi, eu hasesu, eu rheoli, eu hadolygu a'u cofnodi drwy gofrestrau risg ar lefelau amrywiol o'r busnes.

Mae mesurau perfformiad yn nangosfwrdd ein Cynllun Busnes yn cynnwys meysydd gwaith sy'n cyfrannu at ein Hamcanion Llesiant. Rydym yn uchelgeisiol o ran ein cynllunio - gan gydnabod y risg gysylltiedig i waith cyflawni y mae hyn yn ei golygu os oes angen addasu strategaethau neu gynlluniau yn ystod y flwyddyn. Yn gyffredinol, fel rhan o ddangosfwrdd ein Cynllun Busnes, rydym yn ceisio cyflawni cydbwysedd priodol o fesurau, gan gynnwys risgiau perfformiad, amcanion llesiant a blaenoriaethau busnes. Lle mae angen mesurau Cynllun Busnes, ac nid yw manylion cyflawni'n sicr (fel arfer ar gyfer meysydd gwaith newydd / sy'n cael eu datblygu), mae ein targedau'n ceisio adlewyrchu hyn drwy ofyn am ddiweddariadau cynnydd ar bwyntiau allweddol rhagweledig yn ystod y flwyddyn.

Caiff y risgiau allweddol canlynol eu hamlygu ar ein cofrestr risg strategol:

- Methiant asedau - Oherwydd cymhlethdod ein hasedau (e.e. asedau llifogydd, cronfeydd dŵr, ystad coetir Llywodraeth Cymru, Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol) ac effaith y gallai methiant ei chael ar y cyhoedd, rydym yn rhoi llawer o ymdrech wrth reoli ein hasedau i gwrdd â safonau cytunedig. Mae lleihau'r potensial am fethiant asedau drwy raglenni archwilio, cynnal a chadw, a monitro sy'n rheolaidd ac yn gadarn yn flaenoriaeth gan y bydd hyn yn helpu i sicrhau diogelwch y bobl rydym yma i'w diogelu.
- Iechyd, diogelwch a llesiant ein staff, ein contractwyr a'n hymwelwyr - Mae gennym amrywiaeth amrywiol a chymhleth o waith risg uchel gweithredol. Er enghraifft, mae ein gwaith coedwigaeth yn cynnwys risgiau iechyd a diogelwch sylweddol, yn enwedig yn ystod gwaith cynaeafu, ac mae hyn yn cael ei gydnabod gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Rydym yn darparu hyfforddiant a chefnogaeth i staff a'r sail i hyn yw'r polisïau a'r gweithdrefnau sydd gennym ar waith.  
  
Mae asesiadau risg ar waith ynghyd â Strategaeth Iechyd a Diogelwch sy'n cynnwys camau gweithredu arfaethedig ar gyfer y dyfodol. Yn ystod 2020/21, byddwn yn gweithio tuag at ennill achrediad ISO45001.
- Cydymffurfiaeth (â pholisïau a phrosesau mewnol a rheoliadau allanol) - Mae cydymffurfiaeth gwael yn peryglu ein gallu i gyflawni ein hamcanion a ein rhwymedigaethau ac yn ein hamlygu i risgiau ariannol ac enw da.. Mae arweinyddiaeth Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymrwymedig i wella cydymffurfiaeth: rydym yn adolygu ein prosesau ac rydym wedi rhoi cynllun ar waith i wella'r holl agweddau ar gydymffurfiaeth.
- Cyllid - Mae risg na fydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn derbyn yr arian mae arno ei angen i gyflawni ei rwymedigaethau ar ôl 2021/22. Mae gwaith sylweddol yn cael ei wneud i wella prosesau mewnol, gan ein galluogi i reoli cyllidebau a'u rhagweld yn well. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â Llywodraeth Cymru, gan egluro ein gweithgareddau a'r manteision i Gymru drwy gyflawni'r gwaith a wnawn a chyfleu'r lefel o wasanaeth y gellir ei ddarparu gydag arian sydd ar gael.



- Ymateb i ddigwyddiadau – mae gennym ddyletswyddau statudol ar gyfer rheoli digwyddiadau fel ymatebwr Categori 1 o dan y Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl, gan gynnwys cyfrifoldebau i weithio gyda'n partneriaid i reoli a lliniaru effeithiau digwyddiadau amgylcheddol fel llifogydd, sychder a llygredd amgylcheddol ar bobl a'r amgylchedd. Rydym yn dibynnu ar ein staff medrus, ein systemau a'n gweithdrefnau wrth ymateb i ddigwyddiadau ac rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod y gwasanaeth hwn yn gallu gwrthsefyll effeithiau tebygol y newid yn yr hinsawdd.

## Rydym hefyd yn mynd i'r afael â'r materion canlynol


- Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd: Mae llawer o'n gwaith yn cael ei lywodraethu gan ddeddfwriaeth o'r Undeb Ewropeaidd, felly gallai unrhyw newidiadau effeithio ar ein hariannu yn ogystal â gofynion ein gwaith. Rydym yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid i baratoi ar gyfer newidiadau i ddeddfwriaeth ar lefel Cymru a'r DU. Ynghyd â chael effaith ar ein gwaith ein hunain, rydym yn cydnabod y gallai newidiadau posib newid sut mae pobl eraill yn gweithredu, e.e. o fewn arferion rheoli gwastraff ac ati, ac felly rydym yn paratoi i ymateb i unrhyw newidiadau fel rhan o'n rôl ein hunain.
- COVID-19: Wrth i'r argyfwng COVID-19 ddatblygu, gwnaethom ganolbwyntio'n gyflym ar yr hyn roedd angen inni ei wneud i reoli'r risg – i ni yn fewnol ac i'n gwasanaethau a'n cwsmeriaid allanol. Gwnaeth ein Grŵp Adfer ac Ymateb i Ddigwyddiadau sefydlu a chynnal cofrestr risg i ystyried risgiau i'n gwaith a oedd yn ymwneud â'r pandemig. Caiff y gofrestr hon ei hadolygu'n rheolaidd. Ein ffocws i ddechrau oedd ystyried staff a'r effeithiau ar eu hiechyd a'u llesiant, yn ogystal â sicrhau parhad busnes effeithiol o ran ein gweithgareddau busnes â blaenoriaeth. Rydym yn parhau i weithredu ac addasu i gyngor gan y llywodraeth ac rydym yn gweithio gyda staff, cwsmeriaid a phartneriaid i sicrhau diogelwch pawb a chyflawni gweithgareddau busnes â blaenoriaeth dros y misoedd nesaf. Ystyriwyd ein cofrestr risg strategol ar gyfer effeithiau'r pandemig, ond roedd yr effeithiau'n bennaf o ran cyflawni'r camau lliniaru yn hytrach na'r risgiau eu hunain.

## Rheoli ein cyllid 2019/20

### Cyllid


Cyfanswm ein hincwm am y flwyddyn oedd £73 miliwn. Yn ogystal, gwnaeth Llywodraeth Cymru ddarparu £90 miliwn mewn cymorth grant a grantiau eraill tuag at amrywiaeth o ganlyniadau, y dyrannwyd £25 miliwn o'r arian hwnnw i reoli perygl llifogydd ac arfordiroedd. Yn y datganiadau ariannol, caiff cymorth grant ei ystyried yn gyfraniad gan awdurdod â rheolaeth ac nid yn ffynhonnell o incwm. Mae'r siart isod yn dangos sut y dyrannwyd cyfanswm ein cyllid.

### Cyllid fesul math



Yn 2019/20, gwnaeth ein cyllid ostwng o £183 miliwn i £163 miliwn gyda'r gostyngiad mwyaf yn dod o grantiau Llywodraeth Cymru (£17 miliwn). Gwnaeth ein cyllid grant craidd ostwng £3 miliwn o'i gymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol, ond gwnaethom hefyd dderbyn llai o arian ychwanegol ar gyfer blaenoriaethau newydd ac roedd gennym raglen gyfalaf perygl llifogydd lai, gan felly dderbyn llai o gymorth grant. Gwnaeth y rhan fwyaf o'n ffrydiau incwm eraill gyflawni canlyniadau tebyg iawn i'r flwyddyn ariannol flaenorol, gyda'r farchnad incwm pren yn parhau i fod yn fywiog. Dangosir hyn yn y graff isod..


### Cyllid fesul blwyddyn ariannol



## Sut y gwnaethom wario ein harian


Cyfanswm ein gwariant oedd £206 miliwn. Gellir gweld y dadansoddiad manwl yn ôl categori gwariant yn y datganiadau ariannol, a chaiff hefyd ei ddangos isod.

### Gwariant fesul math




Yn 2019/20, cynyddodd ein gwariant o £201 miliwn i £206 miliwn. Mae'r newid mewn gwariant oherwydd sawl rheswm, ond yn bennaf cynnydd yng nghostau staff ar ôl cwblhau'r broses o gynllunio ein sefydliad a thaliadau i'r cynlluniau pensiwn. Dangosir hyn yn y graff isod.

### Gwariant fesul blwyddyn ariannol



Mae'r graff isod yn dangos sut y gwariwyd yr arian yn ôl cyfarwyddiaeth. Cafodd 43% o'n gwariant ei wario yn ein timau Gweithrediadau, a chafodd 22% arall ei wario yn ein timau Amgylchedd, Polisi a Thrwyddedu. Mae 22% ohono wedi'i gategoreiddio fel arian a reolir yn ganolog, sy'n ymwneud â symudiadau anariannol fel dibrisiad. Cafodd y 13% arall ei wario ar draws ein hadrannau gwasanaeth corfforaethol amrywiol, sydd wedi'u meincnodi yn erbyn cyrff eraill yn y sector cyhoeddus.

### Gwariant fesul cyfarwyddiaeth





## Rheoli ein harian

Yn 2019/20, gostyngwyd ein harian 'craidd' gan Lywodraeth Cymru £3 miliwn a chawsom raglen gyfalaf llifogydd lai. Nid ydym wedi derbyn arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru fel yn y blynyddoedd blaenorol, felly rydym wedi defnyddio'n cronfeydd wrth gefn ac, o ganlyniad, mae ein balansau arian wedi gostwng yn unol â hynny. Gwnaethom hefyd ddefnyddio taliadau inni a'n hincwm masnachol wrth gyflawni ein gweithgareddau. Cafodd yr holl ddyraniadau i gyllidebau eu craffu a'u cymeradwyo gan y Tîm Gweithredol a'r Bwrdd. Rydym hefyd wedi elwa o farchnad fywiog iawn a'n gwerthiannau pren (>£25 miliwn).

## Edrych i'r dyfodol

O ganlyniad i bandemig COVID-19, gwnaethom ailasesu ein blaenoriaethau ar gyfer 2020/21, a chânt eu nodi yn y Cynllun Busnes a gyhoeddwyd yn ddiweddar gennym. Gwnaethom lunio ein cynlluniau yn seiliedig ar ein dyraniad cymorth grant ac amcangyfrifon o daliadau ac incwm masnachol, er bod y rhain wedi eu newid o ganlyniad i effaith y pandemig.

Mae ein Cynllun Corfforaethol cyfredol yn rhedeg tan 2022. Nid ydym yn gwybod beth fydd ein dyraniadau cymorth grant ar gyfer 2021/22 ymlaen, ond mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi dangosyddion cyllid tymor hwy yn y dyfodol a fydd yn ein helpu gyda'n gwaith cynllunio ariannol. Rydym newydd weithredu cynllun newydd i'r sefydliad a oedd yn ystyried gostyngiadau diweddar mewn arian cymorth grant a chynnydd mewn incwm pren.

## Asedau anghyfredol

Gwerth ein hasedau anghyfredol oedd £1,241 miliwn ar 31 Mawrth 2020, sef cynnydd o 20% (£207 miliwn) o gymharu â'r flwyddyn ariannol ddiwethaf. Y gydran fwyaf arwyddocaol yw gwerth yr ystâd goedwig ac asedau biolegol, sy'n cynnwys £923 miliwn o'r cyfanswm. Yn ystod 2019/20, cafodd tri safle ffermydd gwynt arall eu cydnabod fel asedau, gan ddod â chyfanswm y safleoedd ffermydd gwynt ar y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol i bedwar.

Gwerth y pedair fferm wynt hyn yw £130 miliwn. Mae'n ofynnol i ni gynnal ailbrisiad annibynnol o dir rhydd-ddaliad, adeiladau a'r ystâd goedwig bob pum mlynedd, a bydd hwn yn cael ei gynnal nesaf yn 2020/21. Yn y blynyddoedd rhwng yr ailbrisiadau hyn, bydd ein hasedau anghyfredol, pan fyddant yn cael effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol, yn cael eu hailbrisiu trwy'r mynegeion priodol.

## Taliadau masnachol a thaliadau eraill

Mae gan Lywodraeth Cymru ymrwymiad i dalu 95% o gyflenwyr o fewn 30 diwrnod, ac rydym yn ceisio mynd y tu hwnt i'r targed hwn pan fo'n bosibl. Y perfformiad ar gyfer y flwyddyn gyfan oedd 96%, sef yr un peth â 2018/19. Mae hyn yn helpu i leddfu llif arian busnesau yn yr hinsawdd economaidd heriol sydd ohoni.

## Perfformiad dyledwyr

Mae ein rheolaeth barhaus o ddyled fasnachol wedi gweld cynnydd bach mewn dyled fasnachol, gyda nifer y diwrnodau ar gyfartaledd i gwsmeriaid dalu gynyddu i dridiau o gymharu â 2.6 diwrnod yn 2018/19.

Mae ein rheolaeth o ddyled reoleiddiol wedi gweld cynnydd o 1.86% yn 2018/19 i 4.36% ar ddiwedd 2019/20.

Nid oes unrhyw waith adennill dyledion wedi cael ei weithredu o ganol mis Chwefror oherwydd y sefyllfa bresennol gyda COVID-19 a chyfnod o addasu arferion yn y Tîm Cyllid Trafodiadol gyda ffocws ar weithio gartref. Roedd hyn yn cynnwys rhoi ffonau symudol i holl aelodau'r tîm.

Symudwyd blaenoriaeth y Tîm Cyllid Trafodiadol i dalu'n cyflenwyr, er mwyn helpu gyda llif arian yn ystod y pandemig COVID-19.

Yn y tymor byr, byddwn yn monitro'r sefyllfa bresennol drwy ddilyn canllawiau'r llywodraeth, gyda golwg tymor hwy ar gasglu dyledion yn y flwyddyn bresennol, os bydd y sefyllfa'n caniatáu hynny.

Colled credyd ddisgwyliedig Cyfoeth Naturiol Cymru oherwydd dyledion yw £0.7 miliwn ar 31 Mawrth 2020.

## Busnes hyfyw

Mae'r Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2019 yn dangos ecwiti trethdalwyr cadarnhaol o £1,088 miliwn. Bydd ein rhwymedigaethau yn y dyfodol yn cael eu hariannu gan gymorth grant Llywodraeth Cymru a chymhwysiad incwm yn y dyfodol. Rydym wedi cymeradwyo Cynllun Busnes ar gyfer 2020/21. Felly, mae'n briodol i ni fabwysiadu dull busnes hyfyw wrth baratoi'r datganiadau ariannol.

## Rheoli ystadau

Rydym yn rheoli ystâd goedwig gyhoeddus Cymru ar ran Gweinidogion Cymru yn unol â'n polisi caffael a gwaredu a'n Cynllun Menter.

Rydym yn cyflwyno Cynlluniau Adnoddau Coedwigoedd i ddisodli'r Cynlluniau Dylunio Coedwigoedd blaenorol. Dogfen reoli graidd yw'r Cynllun Adnoddau Coedwigoedd a ddefnyddir ar Ystad Goetir Llywodraeth Cymru. Mae'n gosod cynigion ar gyfer rheoli coetir yn y dyfodol yn unol â pholisi ac arferion presennol. Mae'r cynlluniau hyn yn bellgyrhaeddol, gyda phwyslais cryf ar gyflawni manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol a chynnwys y dull rheoli ar lefel yr ecosystem i'r gwaith o reoli tir. Mae'r cynlluniau wedi cael eu cymeradwyo am gyfnod cychwynnol o ddeng mlynedd, gyda'r cyfnod y tu hwnt i hynny (50+ o flynyddoedd) wedi'i gymeradwyo'n amlinellol. Mae hyn yn caniatáu i adolygu'r ddogfen a'i diwygio os oes angen. Mae'r holl gynlluniau'n cynnwys gweledigaeth tymor hir ar gyfer y coetir ac yn ffurfio'r fframwaith ar gyfer datblygu rhaglenni gwaith manwl. Mae'r cynlluniau'n cael eu gwirio gan staff o'n Tîm Stiwardiaeth Tir.

Mae'r holl Warchodfeydd Natur Cenedlaethol, gan gynnwys y rhai hynny sy'n eiddo i Cyfoeth Naturiol Cymru neu a reolir ganddo, y rhai a reolir trwy drefniadau partneriaeth, a'r rhai a reolir

gan drydydd partïon, yn cael eu rheoli yn unol â chynllun rheoli cymeradwy.

Mae'r cynlluniau hyn yn cynnwys amcanion cadwraeth ar gyfer yr holl nodweddion o ddi-ddordeb a gydnabuwyd ac yn nodi'r prosiectau a rhaglenni gwaith angenrheidiol. Mae'r cynlluniau ar gyfer cyfnod o bum mlynedd a chânt eu hadolygu'n flynyddol. Caiff cynlluniau rheoli a'r gwaith o'u gweithredu eu gwirio gan staff o'n Tîm Stiwardiaeth Tir drwy raglen dreigl o adolygiadau ac archwiliadau amgylcheddol.

## Pensiynau

Datgelir y rhwymedigaeth pensiwn yn y datganiadau ariannol ar sail Safon Cyfrifyddu Ryngwladol 19. Mae'r atebolrwydd wedi gostwng ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol o £56 miliwn i ychydig dros £1 filiwn yn ystod y flwyddyn.

Mae hyn yn wahanol i'r sylfaen a ddefnyddir ar gyfer cyfrifiadau cyllido. Cynhaliwyd yr ailbrisiad ffurfiol diwethaf o'r gronfa ar 31 Mawrth 2019, a dangoswyd sefyllfa ariannu gyffredinol o 106%.

## Archwilwyr

Caiff ein cyfrifon eu harchwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Y ffi archwilio ar gyfer 2019/20 oedd £223,000.

## Adroddiadau corfforaethol

Mae'r adroddiadau a chynlluniau blynyddol canlynol hefyd ar gael ar ein gwefan:

Dangosfwrdd Corfforaethol 2019/20

Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

- Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Strategol 2015 - 2020
- Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant 2019/20
- Dadansoddiad o'r Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau

Adroddiad Monitro Blynyddol ar y Gymraeg 2019/20

# Crynodeb o berfformiad

Ein cyfrifoldeb ni yn Cyfoeth Naturiol Cymru yw gofalu am adnoddau naturiol Cymru a'r hyn y maent yn ei ddarparu i ni: er mwyn helpu i leihau'r risg i bobl ac adeiladau o lifogydd a llygredd; i ofalu am fannau arbennig ar gyfer llesiant, bywyd gwyllt a phren; ac i weithio gydag eraill i'n helpu ni i gyd eu rheoli yn gynaliadwy.

Fel rhan o sicrhau ein bod yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar leoedd wrth gynnal gwaith cyflawni, mae saith Datganiad Ardal wedi cael eu cyhoeddi sy'n cwmpasu ein chwe ardal weithredol seiliedig ar le, yn ogystal â'r ardal forol - diolch i bawb sydd wedi gweithio gyda ni i'w datblygu. Diwedd glo dwy flynedd o waith ar y cyd gyda rhanddeiliaid, bwriad y Datganiadau Ardal yw nodi'r blaenoriaethau, yr heriau a'r cyfleoedd ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yng Nghymru, ac i ni i gyd weithio gyda'n gilydd i fynd i'r afael â'r argyfyngau yn yr hinsawdd ac ym myd natur.

Eleni, rydym wedi ymateb i ddigwyddiadau llifogydd sydd wedi effeithio ar gymunedau ledled Cymru. Gwnaeth afonydd gyrraedd y lefelau uchaf erioed mewn sawl man, cafwyd llifogydd mewn adeiladau, ac, mewn rhai cymunedau, roedd rhaid i bobl adael eu cartrefi. Roedd yr effeithiau'n sylweddol - ar bobl, eiddo, busnesau a bywoliaethau. Ni allwn ddweud bod pob storm yn rhan o effeithiau'r newid yn yr hinsawdd, ond mae tystiolaeth yn awgrymu, yn anffodus, ein bod yn debygol o weld mwy o'r digwyddiadau tywydd eithafol hyn. Nid oes un ateb ar gyfer llifogydd fel hyn, er ein bod yn parhau i fod yn ymrwymedig i weithio gyda phartneriaid i leihau effaith llifogydd yn y dyfodol. Dros y flwyddyn nesaf, byddwn hefyd yn cwblhau ein hadolygiad mewnol o'r digwyddiadau llifogydd sylweddol dros y gaeaf, gan gyflwyno mentrau gwella fel canlyniad.

Yn fewnol, mae ein rhaglen Cynllunio'r Sefydliad bellach wedi dod i ben, gan

ddod â strwythur, polisiau, prosesau a systemau newydd a chadarnhau aelodau staff yn eu swyddi - mae hyn wedi rhoi terfyn ar gyfnod o ansicrwydd mawr i staff yn ogystal ag aflonyddwch i barhad gwasanaethau i'n cwsmeriaid.

Rydym hefyd wedi bod yn gweithio i wneud y newidiadau mae eu hangen mewn perthynas â gwerthiannau pren, gydag adroddiadau terfynol yn cael eu cwblhau, newidiadau'n cael eu gwneud i bolisiau a phrosesau, a gwaith perthnasol yn cael ei drosglwyddo i fusnes fel arfer.

Ar adeg ysgrifennu hwn, rydym yn parhau i gefnogi'n cwsmeriaid wrth fynd i'r afael ag effeithiau COVID-19 ar eu gweithrediadau, wrth hefyd weithio i addasu ein ffyrdd mewnol ein hunain o weithio er mwyn gwneud hynny.

Fodd bynnag, drwy hyn i gyd, rydym wedi cynnal ein gweithgareddau craidd i sicrhau bod cynnydd tuag at ein nodau yn ein cynllun corfforaethol yn parhau i gael ei gyflawni:

- Ymateb i ddigwyddiadau llifogydd a llygredd
- Adeiladu a chynnal cynlluniau lliniaru llifogydd a chynorthwyo cymunedau trwy waith ymwybyddiaeth o lifogydd
- Gwarchod a hybu cydnerthed ecosystemau
- Rheoli coedwigoedd a gwarchodfeydd natur
- Darparu cyngor a chyfarwyddyd i ddatblygwyr a rheolwyr tir
- Cyflwyno trwyddedau a chydysyniadau a sicrhau cydymffurfiad â'u hamodau
- Encouraging businesses to operate sustainably;
- Datblygu cynlluniau ynni adnewyddadwy
- Darparu a chasglu tystiolaeth wyddonol.

Gwnaed y canlynol gennym eleni hefyd:

- Creu incwm pren gwerth £25.2 miliwn, gan dalu am gostau uniongyrchol gweithrediadau coedwigaeth, a hyrwyddo ein blaenoriaethau ar gyfer rheoli a chynnal a chadw Ystad Goetir Llywodraeth Cymru
- Gwneud cynnydd ar lunio'r ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol, gan gyhoeddi adroddiad dros dro sy'n tynnu sylw at yr argyfyngau yn yr hinsawdd ac ym myd natur fel yr heriau mwyaf i'r gwaith o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yng Nghymru
- Cynnal prosiectau cynnal a chadw cyfalaf, gan ddarparu amddiffyniad parhaus rhag llifogydd i dros 800 o adeiladau mewn lleoliadau yn y Bontnewydd (Caernarfon), Llanrwst, Llansamlet (Abertawe), Ynystanglwys (Abertawe) a Rhisga
- Rhoi'r fferm wynt ddiweddaraf ar waith ar ein tir - prosiect 27 tyrbin Coedwig Clocaenog Innogy, a fydd yn cyflawni amcangyfrif o £19 miliwn i gymunedau lleol dros oes y prosiect

- Cynnal ein hail ddiwrnod #TîmCyfoeth i ddod â 700 o'n haelodau staff at ei gilydd

Mae cymaint i'w wneud o hyd. Byddwn yn gweithio i ymateb i'r argyfyngau yn yr hinsawdd ac ym myd natur - gyda'r holl staff yn derbyn amcanion penodol i helpu fel rhan o gynlluniau gwaith personol. Bydd angen i ni chwarae ein rhan yn yr holl Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ledled Cymru, gan ddefnyddio'n Datganiadau Ardal newydd i helpu i nodi'r cyfleoedd y gallai'r amgylchedd naturiol eu darparu, a'r heriau y gallai atebion sy'n seiliedig ar natur fynd i'r afael â nhw. Byddwn yn parhau i weithio i fod yn sefydliad rhagorol sy'n gwasanaethu cymunedau Cymru, gan gefnogi staff a gweithio o fewn y strwythur sefydliadol newydd rydym wedi'i greu. Byddwn yn ymateb i'r DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd, gan fynd i'r afael ag anghenion amgylchedd naturiol Cymru ac unrhyw gyfleoedd y gallai hyn eu creu. Rhagwelir y bydd COVID-19 hefyd yn cael effaith eang ac anhysbys - sydd, yn rhannol, yn amhosibl ei gwybod - yn ystod y flwyddyn i ddod.



Diwrnod Tîm Cyfoeth



## Dadansoddi perfformiad

Mae ein dadansoddiad perfformiad yn disgrifio'r ffordd rydym yn cynllunio ac yn craffu ar ein fframwaith perfformiad; mae'n darparu gwybodaeth am ein mesurau a'n targedau allweddol ac enghreifftiau mwy manwl o sut yr ydym yn gweithio tuag at fodloni ein Hamcanion Llesiant.

Mae ein fframwaith perfformiad yn parhau i ddatblygu - rydym wedi derbyn canllawiau statudol eleni sy'n ymwneud â rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a'r ddyletswydd bioamrywiaeth, sydd ar yr holl awdurdodau cyhoeddus. Mae hyn bellach wedi'i adlewyrchu yn ein dull o weithio drwy'r adroddiad blynyddol a chyfrifon hyn.

Mae'r holl fesurau yn ein fframwaith perfformiad yn ymwneud â'n Hamcanion Llesiant, ac mae adrodd eleni'n cynnwys sut rydym yn defnyddio naw egwyddor rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy

a phum ffordd o weithio'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Mae'r monitro perfformiad lefel uwch hwn yn digwydd bedair gwaith y flwyddyn. Mae ein Bwrdd a Llywodraeth Cymru yn craffu ar ein perfformiad a chaiff ei gyhoeddi ynghyd â phapurau eraill ar gyfer cyfarfodydd ein Bwrdd.

Mae tudalennau canlynol yr adroddiad hwn yn amlinellu enghreifftiau o sut rydym yn gweithio i gyflawni'n Hamcanion Llesiant ac maent yn cynnwys gwybodaeth am berfformiad allweddol ar gyfer eleni. Maent hefyd yn dangos sut yr ydym yn gweithio tuag at wneud rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud.

O'r 26 o fesurau ar ddangosfwrdd Cynllun Busnes eleni:



# Amcan Llesiant 1

## Hyrwyddo amgylchedd Cymru a rheoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy

Rydym yn ceisio hyrwyddo'r amgylchedd naturiol ym mhopeth rydym yn ei wneud - yn y wybodaeth rydym yn ei darparu, wrth gefnogi'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, ac wrth roi rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ar waith ar draws ein holl waith - i helpu pobl i wneud y gorau o'r manteision mae'n eu cynnig yn ogystal â'i werthfawrogi er ei fwyn ei hun, yn yr oes sydd ohoni ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

### Ein mesurau

- Gweithio gydag eraill i ddatblygu gweledigaeth 2050 a rennir ar gyfer amgylchedd naturiol Cymru
- Gweithio gydag eraill i ddatblygu ein Datganiadau Ardal
- Lleihau ein hól troed carbon a galluogi datgarboneiddio sector cyhoeddus Cymru er mwyn cefnogi'r datganiad argyfwng hinsawdd
- Datblygu'r ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol
- Dyrannu arian grant i gefnogi'r gwaith o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwys

### Canlyniadau 2019/20

- Mae gwaith tuag at ddatblygu gweledigaeth 2050 a rennir wedi dechrau
- Mae saith Datganiad Ardal wedi'u creu ar y cyd â rhanddeiliaid
- Mae ein hól troed carbon wedi lleihau ac mae prosiectau datgarboneiddio wedi cael eu cyflawni
- Mae ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol dros dro wedi cael ei gyhoeddi
- Mae dulliau arian grant newydd wedi cael eu datblygu (gydag adolygiad o'r rownd ariannu blaenorol i ddod)



# Enghreifftiau o'n gwaith yn ystod 2019/20:

## Adeiladu ein hymateb i'r argyfwng yn yr hinsawdd

Ers datgan argyfwng hinsawdd gan Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2019, rydym wedi bod yn datblygu ein hymateb drwy sicrhau bod mynd i'r afael â'r argyfwng wrth wraidd ein gwaith. I ddechrau, roedd y ffocws ar nodi'r deg gweithgaredd allweddol â blaenoriaeth i leihau ein hallyriadau carbon a chynllunio'r adnoddau ar eu cyfer a sut i'w cyflawni. Mae'r blaenoriaethau hyn yn ymwneud â rheoli ein hystâd i leihau allyriadau o fawndiroedd a chynyddu storio carbon drwy greu coetir, yn ogystal â lleihau allyriadau o'n hadeiladau a'n fflyd drwy fabwysiadu technolegau carbon isel. Er enghraifft, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi ehangu'n defnydd o gerbydau trydan ac wedi gosod mwy o baneli solar ffotofoltäig i ddarparu trydan adnewyddadwy.

Yn ogystal, rydym wedi datblygu rhaglen newid hinsawdd a datgarboneiddio benodol i ymgorffori ystyriaeth o garbon a'r newid yn yr hinsawdd ymhlith ein staff ac yn ein prosesau, megis drwy weithdai staff a mwy o ystyriaeth o garbon wrth gynnal gwaith caffael. Drwy'r Prosiect Carbon Bositif, nid yn unig rydym wedi bod yn ymdrin â'n hallyriadau ein hunain, ond rydym wedi bod yn rhoi cyngor a chymorth i sefydliadau eraill, yn arbennig drwy Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, i hwyluso gwaith ehangach i leihau allyriadau ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru. Wrth edrych ymlaen, rydym wedi cychwyn adolygiad o'n rôl wrth gyflawni Cynllun Addasu Cymru, a gyhoeddwyd yn ddiweddar ac a fydd yn llywio gwaith yn y dyfodol i ystyried risgiau yn sgil y newid yn yr hinsawdd ar draws y sefydliad mewn ffordd strategol.

## Datganiadau Ardal – adeiladu amgylchedd iach gyda'n gilydd

Cyhoeddwyd y Datganiadau Ardal cyntaf ar ein gwefan ar 31 Mawrth 2020. Fel un o'r cynhyrchion newydd sy'n ofynnol o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru), maent yn nodi'r blaenoriaethau, yr heriau a'r cyfleoedd ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yng Nghymru, ac yn darparu mwy o gyfleoedd i ni i gyd weithio gyda'n gilydd i fynd i'r afael â'r argyfyngau yn yr hinsawdd ac ym myd natur.

Mae Datganiadau Ardal wedi cael eu datblygu gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar y cyd â rhanddeiliaid dros gyfnod o ddwy flynedd. Byddant yn parhau i addasu a newid dros amser er mwyn ymateb i'r argyfyngau yn yr hinsawdd ac ym myd natur. O ganlyniad, maent yn rhoi fframwaith pwysig i'n gwaith gydag eraill yn y timau seiliedig ar leoedd. Er enghraifft, byddant yn llywio sut rydym yn blaenoriaethu ein harian grant. Byddant yn rhoi ffocws ar y cyfleoedd ar gyfer cyflawni atebion seiliedig ar natur yng Nghymru, gan gynnwys rhwydweithiau ecolegol gwydn, creu coetir newydd, gwella ansawdd dŵr a lleihau perygl llifogydd.

## Asesu rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yng Nghymru

Cyhoeddwyd yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol Dros Dro ym mis Rhagfyr 2019 fel rhan o gylchred adrodd Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Dyma oedd ein hadroddiad gwe cyntaf yn y gylchred hon. Mae'r adroddiad yn seiliedig ar dystiolaeth a gwnaethom gynnal gwaith ymgysylltu eang wrth ei ddatblygu.

Mae'r adroddiad yn dynodi'r cam nesaf ar ein taith i ddeall a chyhoeddi pa mor gynaliadwy y mae Cymru'n rheoli ei hadnoddau naturiol. Mae'n tynnu sylw at y ffaith mai'r argyfyngau yn yr hinsawdd ac ym myd natur yw'r heriau mwyaf i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yng Nghymru ac mae'n argymhell datblygu economi gylchol (gynaliadwy) a chynyddu seilwaith gwyrdd (atebion seiliedig ar natur) fel ein hymateb iddynt.

Mae hefyd yn rhoi diweddariad ar ein hanghenion tystiolaeth ers Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2016 ac mae'n gofyn i randdeiliaid helpu wrth ddatblygu'r ail adroddiad llawn ar sefyllfa adnoddau naturiol (Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol), a fydd yn cael ei gyhoeddi yn rhannol ym mis Rhagfyr 2020, gyda'r penodau manwl ategol yn cael eu cyhoeddi ym mis Mawrth 2021.

## **Ymgorffori rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy mewn ymatebion i ymgynghoriadau ar asesu amgylcheddol strategol**

Eleni, rydym wedi bod yn chwilio am gyfleoedd i ymgorffori rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn ein hymatebion i ymgynghoriadau asesu strategol ar gyfer cynlluniau mewnol ac allanol (gan felly ddylanwadu ar y cynlluniau eu hunain), yn arbennig yr Asesiad Amgylcheddol Strategol. Yn ogystal ag adolygu llenyddiaeth, roedd y gwaith yn cynnwys nifer mawr o gyfweiliadau unigol, nifer o weithdai â ffocws bach gydag arbenigwyr perthnasol, a gweithio gyda grŵp arbenigol i ddatblygu canllawiau.

Cafodd y cyfleoedd a nodwyd drwy'r broses hon eu hymgorffori mewn canllawiau ysgrifenedig i staff, eu cynnwys mewn canllawiau ar y fewnrwyd sy'n cael eu datblygu, a'u gwneud yn hygyrch i ddigwyddiadau hyfforddi dilynol (wyneb yn wyneb a gweminarau), yn ogystal â chael eu cyflwyno mewn adroddiad terfynol.

## **Gweledigaeth a rennir ar gyfer yr amgylchedd naturiol yn 2050**

Rydym am greu gweledigaeth a rennir ar gyfer yr amgylchedd naturiol – yr hyn y gallai natur fod yng Nghymru erbyn 2050. Dan berchnogaeth pawb yng Nghymru, dyma rywbeth y gallwn oll weithio tuag ato, gan fynd i'r afael â'r argyfyngau yn yr hinsawdd ac ym myd natur, drwy ddealltwriaeth a rennir o'r rôl y mae natur yn ei chwarae yn ein bywydau i gyd a'r hyn y mae'n rhaid i bob un ohonom ei wneud i fyw mewn ffordd fwy gynaliadwy yn y dyfodol.

Eleni, rydym wedi bod yn cynllunio sut i sicrhau bod hyn yn digwydd a sut i gynnwys cynifer o bobl â phosib o gynifer o gefndiroedd gwahanol â phosib - y rheiny rydym eisoes yn gweithio gyda nhw a'r rheiny nad ydym wedi gweithio gyda nhw o'r blaen - gan gynnwys y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Bydd y rhanddeiliaid hyn yn cyd-gynhyrchu'r weledigaeth a rennir, gyda Cyfoeth Naturiol Cymru yno i hwyluso a chefnogi. Mae'r amgylchiadau presennol yn golygu efallai y bydd angen i ni addasu'r cynlluniau hyn, ond byddwn yn gwranddo ar randdeiliaid ac yn siarad yn eang â nhw yn ystod y flwyddyn nesaf, gan fwriadu cwblhau fersiwn gyntaf y weledigaeth a rennir erbyn diwedd 2021.

## **Creu cysylltiadau – digwyddiad partneriaethau'r Senedd**

Ym mis Ionawr, gwnaethom gynnal digwyddiad llwyddiannus i ddathlu gwaith yn datblygu partneriaethau i ymateb i'r heriau cynyddol sy'n wynebu amgylchedd Cymru. Roedd oddeutu 100 o gyfranogwyr, Gweinidogion, Aelodau o'r Senedd a rhanddeiliaid eraill yn gallu cwrdd â'n partneriaid a'n staff mewn arddangosfeydd arddull marchnad a oedd yn canolbwyntio ar bynciau penodol, gan gynnwys trosedd gwastraff, twristiaeth, y sector pren, rheoli tir,



addysg, iechyd a llesiant, cloddfeydd metel, llifogydd, a phrosiectau LIFE (a ariennir gan yr UE). Roedd partneriaid y digwyddiad yn cynnwys Awdurdod Cyllid Cymru, Confor, Dŵr Cymru, Parciau Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Sir Benfro ac Eryri, y Swyddfa Dywydd, Iechyd Cyhoeddus Cymru, yr Awdurdod Glo, Cyngor Dinas a Sir Caerdydd, a Chyswilt Ffermio.

Gwnaeth ein prif weithredwr amlygu pwysigrwydd Datganiadau Ardal wrth gyflawni gweledigaeth a rennir ar gyfer y dyfodol i'n hamgylchedd naturiol, gan gynnwys drwy gyflawni partneriaeth arian grant. Gwnaeth Lesley Griffiths AS, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, amlygu pwysigrwydd gwaith partneriaeth parhaus i fynd i'r afael â'r argyfyngau yn yr hinsawdd ac ym myd natur.

Roedd y digwyddiad yn llwyddiannus, gyda gwesteion yn dweud eu bod wedi dysgu rhywbeth newydd am y gwaith rydym yn rhan ohono. Bellach, rydym am i hyn fod yn ddigwyddiad blynyddol rheolaidd.

## Beth nesaf?

Fel rhan o'n Cynllun Busnes ar gyfer 2020/21, rydym wedi cynnwys ein hymrwymadau cyflawni diweddaraf, gan gynnwys ymrwymiad i wneud y canlynol:

- Ymgymryd â cham dadansoddi'r rhaglen i ddatblygu'r weledigaeth a rennir ar gyfer yr amgylchedd naturiol, a dechrau ar gam cyntaf digwyddiadau'r sgwrs genedlaethol;
- Datblygu ein blaenoriaethau yn y Prosiect Carbon Bositif, a datblygu dull sefydliadol ar gyfer addasu i'r newid yn yr hinsawdd
- Sicrhau ein bod yn chwarae ein rhan yn yr holl Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ledled Cymru, gan ddefnyddio'n Datganiadau Ardal i helpu i nodi'r cyfleoedd y gallai'r amgylchedd naturiol eu darparu yn yr ardal leol ac i ddarparu atebion seiliedig ar natur i heriau lleol
- Cyhoeddi ein hail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol



# Amcan Llesiant 2

## Sicrhau bod tir a dŵr Cymru yn cael eu rheoli'n gynaliadwy ac mewn modd integredig

Gall dull gweithredu llawn integredig ar gyfer rheoli tir a dŵr yn gynaliadwy yng Nghymru arwain at fanteision amryfal ar draws yr holl sectorau – ffermio, coedwigaeth, pysgodfeydd a'r amgylchedd trefol. Fodd bynnag, nid yw hyn yn digwydd eto. Rydym yn bwriadu rhoi'r dull hwn ar waith ar gyfer y tir a'r dŵr rydym ni ein hunain yn eu rheoli ac yn annog holl reolwyr tir a dŵr i fabwysiadu dull rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

### Ein mesurau

- Gwella rheoli tir yng Nghymru yn y dyfodol
- Creu coetir newydd ac ailblannu safleoedd lle mae'r coed wedi cael eu cwmpo
- Gweithredu Cynlluniau Rheoli Basn Afon
- Sicrhau bod cronfeydd dŵr yn parhau i gael eu rheoli mewn modd diogel a chyfrifol

### Canlyniadau 2019/20

- Mae gweithgareddau'n parhau ar draws nifer o ardaloedd i wella gwaith rheoli tir yng Nghymru yn y dyfodol
- Datblygu creu coetir a gweithgareddau ailblannu, gan gynnwys caffael dau safle i'w plannu â chyfanswm arwynebedd o 57 hectar ar Ystad Goetir Llywodraeth Cymru
- 94% o fesurau cenedlaethol a 64% o fesurau lleol ar gyfer Cynlluniau Rheoli Basn Afon yn weithredol
- 90% o'n cronfeydd dŵr yn cydymffurfio â'r Ddeddf Cronfeydd Dŵr, ac mae angen gwneud gwaith ar bedwar ohonynt





# Engbreiffiau o'n gwaith yn ystod 2019/20:

## Prosiect plannu coed canmlwyddiant

Gwnaethom ddechrau ein prosiect plannu coed canmlwyddiant i goffáu canmlwyddiant yr ystad goetir gyhoeddus a diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf. Gwnaeth y prosiect uno'r ddau goffâd mewn ffordd greadigol, gan bwysleisio'r manteision corfforol, meddyliol ac amgylcheddol, ac o ran gwydnwch rhywogaethau, y mae coed a choetiroedd yn dod â hwy i'n bywydau beunyddiol - gan greu etifeddiaeth deilwng a hiroes i bobl Cymru.

Fel rhan o'r prosiect, gwnaethom agor gardd goed Garwnant yn swyddogol ym mis Tachwedd 2019 gyda'r Arglwydd Dafydd Elis-Thomas AS, y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth, a'n prif weithredwr yn plannu coeden dderw ddigoes frodorol. Mae'r ardd goed, a blannwyd yn 2016, yn arddangos coed o 88 o rywogaethau o gyfandiroedd gwahanol, a bydd yn creu sioe o ddail a blodau lliwgar ar adegau gwahanol o'r flwyddyn, gan gynyddu mewn effaith wrth i'r safle aeddfedu. Mae'r ardd goed hefyd yn cynnwys dŵl blodau gwyllt sy'n gwella gwerth bioamrywiaeth y safle a'r profiad

i ymwelwyr, ac amrywiaeth o gerfluniau pren a gomisiynwyd sy'n gwneud defnydd effeithiol o fonion coed llarwydd a dorrwyd (oherwydd y clefyd coed *Phytophthora ramorum*) yn y ganolfan ymwelwyr.

Gwnaeth y staff hefyd goffáu'r canmlwyddiant drwy blannu coed derw digoes mewn lleoliadau ledled Cymru, yn aml yng nghwmni eu plant a'u hwyron a'u hwyresau - gan rannu atgofion gyda chydweithwyr a wahoddwyd o'r gorffennol a rhai presennol.



Teulu yn yn plannu coeden dderw ddigoes frodorol



Yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas a Clare Pillman yn agor Gardd Goed Garwnant

## Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar lygredd amaethyddol

Mae Fforwm Rheoli Tir Cymru yn rhoi cyfle i ni a sefydliadau aelodaeth eraill i rannu gwybodaeth, nodi diddordebau cyffredin, a chydweithio ar faterion rheoli tir strategol. Gwnaeth Fforwm Rheoli Tir Cymru sefydlu is-grŵp ym mis Ionawr 2017 er mwyn canolbwyntio ar fynd i'r afael â llygredd amaethyddol. Heb unrhyw ffordd unigol o ddatrys y broblem hon, mae'r is-grŵp wedi bod yn ystyried cyfuniad o bum egwyddor wahanol, y mae angen cefnogi pob un â ffyrdd newydd o feddwl. Roedd y prif feysydd yn cynnwys y canlynol: datblygu dull gwirfoddol a arweinir gan ffermwyr tuag at reoli maethynnau, sicrhau y darperir cyngor ac arweiniad gwell, hyrwyddo arloesedd, a gwella cyfleoedd buddsoddi, gyda thirwedd reoleiddiol glir a chyson yn sail i bob un o'r rhain.

Mae rhaglen a ariennir gan bartneriaeth gydag Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru ar ddulliau gwirfoddol wedi cyflawni Adroddiad Safon Dŵr arloesol a fydd bellach yn cael ei adeiladu arno. Mae rheoliadau drafft newydd hefyd wedi cael eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru a bydd y grŵp yn ystyried pa fesurau ychwanegol y gellir eu hyrwyddo i gyflawni cyfres llawer ehangach o ddulliau i helpu i reoli maethynnau'n gynaliadwy a lleihau faint o lygredd amaethyddol sy'n digwydd. Mae'r is-grŵp yn parhau i gwrdd yn fisol i sicrhau y diwallir yr angen brys i wneud cynnydd ar y mater hwn.

## Sut mae creu coetir yn cefnogi rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy

Gwnaeth Cyfoeth Naturiol Cymru hwyluso ymarfer i archwilio sut mae'r broses sgrinio bresennol ar gyfer asesu effeithiau amgylcheddol creu coetir yn ystyried y diben craidd (fel a nodir yn y canllawiau statudol i Cyfoeth Naturiol

Cymru ar Ran 1 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Gyda'i gilydd, gwnaeth y grŵp gorchwyl fapio'r prosesau a oedd ynghlwm ac asesu sut mae amcan ac egwyddorion rheolaeth gynaliadwy'n cael eu defnyddio yn y gwaith rydym yn ei wneud.

Gwnaeth cymysgedd o arbenigwyr pwnc, staff gweithredol, staff polisi a swyddogion Llywodraeth Cymru gasglu tystiolaeth drwy gyfres o weithdai ac roedd grŵp diddordeb ehangach wedi'i gynnwys yn y cyfarfodydd dilynol. O ganlyniad, mae Cyfoeth Naturiol Cymru bellach yn gallu archwilio argymhellion a chyfleoedd eraill a fydd yn sicrhau bod tir yn cael ei reoli'n gynaliadwy mewn ffordd integredig. Roedd yr argymhellion yn cynnwys:

- Gwelliannau i'r broses ymgeisio ar gyfer creu coetir, gan gyfeirio'n glir at amcanion rheolaeth gynaliadwy
- Ystyried ymgysylltu'n gynt â pherchnogion tir cyn y broses sgrinio
- Adolygu a diweddarau canllawiau ar gyfer coedwigo

## Gweithredu Cynlluniau Rheoli Basn Afon

Mae 94% o fesurau cenedlaethol a 69% o fesurau lleol mewn Cynlluniau Rheoli Basn Afon bellach yn weithredol, gan gynnwys datblygu ein dull strategol ar gyfer cemegion (gweler 'Nodi risgiau cemegol newydd mewn dŵr' isod), comisiynu cynlluniau adfer afonydd i fynd i'r afael â materion sy'n codi o'r rhesymau pam nad ydym wedi cyflawni statws 'da' dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, a datblygu ein dull rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ar gyfer dŵr.

Diwygiadau ffisegol (rhwystrau pysgod, amddiffynfeydd rhag llifogydd, effeithiau carthu ac ati) yw'r prif reswm dros gyrff dŵr yn methu â bodloni statws 'da' y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yng Nghymru. Sefydlwyd prosiect i ddatblygu blaenoriaethu gwelliannau yn y cyrff dŵr hynny lle gellid disgwyl y manteision





(cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol, economaidd) mwyaf. Mae cynllun adfer afonydd bellach wedi cael ei gwblhau ar gyfer pob un o'r dalgylchoedd â'r flaenoriaeth uchaf ym mhob ardal Cyfoeth Naturiol Cymru.

Rydym wedi datblygu dalgylchoedd â chyfleoedd gan ddefnyddio'r dull rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ar gyfer cylchred nesaf y Gyfarwyddiaeth Fframwaith Dŵr. Bydd y rhain yn arwain ar hyrwyddo mentrau mewn dalgylchoedd penodol sydd â'r cyfle gorau o gyflawni manteision lluosog (ar gyfer blaenoriaethau'r amgylchedd a llesiant). Ar gyfer trydedd gylchred y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, byddwn yn canolbwyntio ar y dalgylchoedd â chyfleoedd hyn, gan weithio gyda'n partneriaid i sbarduno gwelliannau.

## **Nodi risgiau cemegol newydd mewn dŵr**

Mae cemegion newydd yn cael eu cynhyrchu drwy'r amser i fodloni gofynion diwydiannol ac amaethyddol newydd ac i ddisodli cemegion eraill y mae cyfyngiadau wedi cael eu gosod arnynt. Gall cemegion

cael eu trosglwyddo i'r amgylchedd dŵr, lle gallant gael effeithiau annisgwyl neu negyddol ar ddefnydd bywyd gwyllt a dynol o'r dŵr. Yn flaenorol, roedd cemegion newydd yr oedd angen eu rheoleiddio'n cael eu nodi'n bennaf gan Ewrop ond, o ganlyniad i adael yr Undeb Ewropeaidd, mae'n rhaid i ni bellach roi camau monitro ar waith i wneud hynny ein hunain. Rydym mewn sefyllfa wych i wneud hynny yng Nghymru oherwydd mai Gwasanaethau Dadansoddol Cyfoeth Naturiol Cymru yw arbenigwyr y DU yn y gwaith o gyflawni technegau samplu a dadansoddol trwy ddulliau 'monitro goddefol'. Mae hyn yn cynnwys rhoi cyfarpar yn yr amgylchedd dŵr am sawl wythnos ac yna ddadansoddi'r hyn sydd wedi cael ei amsugno gan ddefnyddio dull sganio sy'n nodi cemegion newydd. Mae canlyniadau cychwynnol wedi canfod amrywiaeth fawr o gemegion a fydd bellach yn cael eu cymharu yn erbyn crynodiadau sy'n debygol o gael effaith negyddol ar ecosystemau - gan nodi cemegion newydd y gallai fod angen eu rheoleiddio'n well yn unol â'n dull strategol o reoli cemegion mewn dŵr.

## Mapiau cyfleoedd adnoddau naturiol ar-lein (porth SCCAN)

Nod porth SCCAN yw hyrwyddo rheolaeth fwy cyfannol o adnoddau naturiol – gan ddangos mapiau sy'n adlewyrchu gofodau cyfleoedd a fodelwyd ar gyfer ymyriadau rheoli tir dewisol ar raddfa ranbarthol. Mae'r mapiau'n canolbwyntio ar flaenoriaethau Polisi Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru (2017), sy'n pwysleisio defnyddio dull seiliedig ar le a chyflawni atebion seiliedig ar natur. Dyma'r pum thema polisi o'r Polisi Adnoddau Naturiol: Ansawdd Dŵr Croyw, Rheoli Llifogydd yn Naturiol, Plannu Coetir, Rheoli ac Addasu Parthau Arfordirol, Ardaloedd Trefol ac o Gwmpas Trefi, Seilwaith Gwyrdd.

Bwriad y mapiau a fodelwyd yw bod yn ffynhonnell o dystiolaeth ar gyfer ystyriaeth a thrafodaeth, yn hytrach na chyfarwyddyd terfynol o ran y dewis rheoli tir mwyaf priodol mewn lleoliad penodol. Dylai'r mapiau gael eu defnyddio ar y cyd â ffynonellau tystiolaeth eraill (gofodol a heb fod yn ofodol), a gallant gael eu hatodi â data gofodol newydd.

## Rhaglen cynnal a chadw cronfeydd dŵr

Rydym yn rheoli ac yn cynnal a chadw 37 o gronfeydd dŵr cofrestredig o dan Ddeddf Cronfeydd Dŵr 1975 (dros 70 i gyd) ac yn gwneud gwaith i sicrhau diogelwch pobl, eiddo a'r amgylchedd i lawr yr afon o'n cronfeydd dŵr mewn achos o ddŵr yn cael ei ryddhau'n sydyn a heb ei reoli. Nid oes un o'n cronfeydd dŵr yn parhau i fod yn gronfeydd dŵr defnydd unigol fel y'i dyluniwyd yn wreiddiol. Yn lle hynny, mae gan yr holl gronfeydd dŵr fanteision lluosog, gan gynnwys lliniaru llifogydd, amwynder, pysgota, cadwraeth, cyflenwad dŵr a hamdden.

Gwnaethom wario £507,000 ar waith cynnal a chadw cronfeydd dŵr (nid yn ymwneud â llifogydd) yn 2019/20. Mae gwaith cynnal a chadw'n canolbwyntio ar sicrhau hygyrchedd addas at ddibenion archwilio

cronfeydd dŵr yn drwyadl ac fel y gall cydrannau allweddol o'r gronfa ddŵr weithredu'n effeithlon. Mae'n cynnwys ystyried cynefin a ffactorau ecolegol y safle. Mae gweithgareddau cynnal a chadw gofynnol yn aml yn cynnwys clirio llystyfiant, torri gwair ar argloddiau, rheoli coed, rheoli anifeiliaid sy'n tyllu, clirio sianeli gorlifan, glanhau gwaddodion mewn gollyngfeydd, ac iro falfiau a llifddorau. Yn achlysurol, bydd angen i ni hefyd ymgymryd â gweithgareddau anarferol neu atgyweiriadau bach fel llenwi neu atgyweirio craciau bach, atgyweirio difrod dŵr, a disodli neu atgyweirio ffensys, arwyddion neu eitemau diogelwch cyhoeddus eraill. Er enghraifft, yn Llyn yr Wyth Eidion (Gwarchodfa Natur Genedlaethol Cors Erddreiniog), rydym wedi gwneud gwaith atgyweirio estynedig dros dro i ysgol bysgod ar ôl difrod gan storm nes bod gwaith yn cael ei wneud i adeiladu ysgol barhaol newydd.

## Beth nesaf?

Fel rhan o'n Cynllun Busnes ar gyfer 2020/21, rydym wedi cynnwys ein hymrwymiaidau cyflawni diweddaraf, gan gynnwys ymrwymiad i wneud y canlynol:

- Darparu cyngor, arweiniad a chymorth i hyrwyddo rheoli tir yn gynaliadwy, a gweithredu fel enghreifftiau ar y tir rydym yn ei reoli
- Cefnogi mwy o waith partner ar draws tirweddau dynodedig Cymru
- Datblygu a chyflawni'n rhaglen creu coetir, helpu i gyflawni creu coetir newydd fel rhan o'r Goedwig Genedlaethol, a chefnogi cynllun ariannu Glastir Llywodraeth Cymru
- Datblygu archwiliadau fel rhan o'n rhaglen ar gyfer y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr a chyhoeddi Cynlluniau Rheoli Basn Afon drafft
- Rheoleiddio'r holl gronfeydd dŵr yng Nghymru i sicrhau cydymffurfiaeth barhaus â'r Ddeddf Cronfeydd Dŵr a rheoli ein cronfeydd dŵr ein hunain i sicrhau cydymffurfiaeth.

# Amcan Llesiant 3

## Gwella cydnerthedd ac ansawdd ein hecosystemau


Nododd ein Hadroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2016 na fydd llawer o ecosystemau yn ddigon hyblyg i ymdrin â'r newid yn yr hinsawdd a phwysau eraill yn y dyfodol ac felly efallai na fyddant yn gallu darparu'r gwasanaethau sydd eu hangen arnom - fel aer a dŵr glân. Rydym yn dynodi safleoedd arbennig fel Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol a Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, er enghraifft - ond mae ein gwaith yn llawer ehangach na hyn. Ein nod yw cymryd bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau i ystyriaeth yn ein holl swyddogaethau, gweithgareddau a phenderfyniadau a helpu cyrff cyhoeddus eraill i wneud yr un fath.

### Ein mesurau

- Gweithredu 'Natur Hanfodol' - adfer, creu a gwella cynefinoedd a gwella bioamrywiaeth
- Monitro a mynd i'r afael â materion iechyd coed a phlanhigion
- Rheoli a gweithredu ein rhaglenni ar gyfer rhaglen pysgodfeydd gynaliadwy, gan gynnwys mesurau i hyrwyddo adfer poblogaethau (salmonidau) drwy ein cynlluniau adfer afonydd a chynefinoedd

### Canlyniadau 2019/20

- Cynnydd ar brosiectau a chamau gweithredu cynlluniedig sy'n ymwneud â Natur Hanfodol, ond mae'r rhaglen flynyddol o gamau gweithredu ar safleoedd ar ei hôl hi
- 90% o hysbysiadau iechyd planhigion statudol wedi'u cyhoeddi o fewn 60 o ddiwrnodau (sefyllfa yn y pedwerydd chwarter)
- Cynnydd ar y rhaglen pysgodfeydd gynaliadwy



Gwyllo adar yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Cors Caron



# Enghreifftiau o'n gwaith yn ystod 2019/20:

## **Ymgorffori dyletswydd Adran 6**

Fel corff cyhoeddus, rydym yn destun gofynion cyflawni ac adrodd ar ein dyletswydd Adran 6, i geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer ein swyddogaethau mewn perthynas â Chymru, ac wrth wneud hynny, hyrwyddo gwydnwch ecosystemau. Diben Cyfoeth Naturiol Cymru yw rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Fel rhan annatod o'r gwaith o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, mae dyletswydd Adran 6 yn hanfodol i'n gwaith.

I ystyried y berthynas agos hon a chydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru, mae ein gwaith cyflawni mewn perthynas â dyletswydd Adran 6 yn cael ei integreiddio ar draws ein holl weithgareddau (gan gynnwys wrth osod targedau corfforaethol, o fewn prosesau, ac wrth wneud gwaith adrodd wedi hynny), h.y. nid ymdrinnir ag Adran 6 fel pwnc ar wahân lle ceir adroddiadau ar wahân, er enghraifft. Mae'r dull hwn wedi cael ei ddisgrifio'n fwy manwl yn ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2018/19, sydd hefyd yn tynnu sylw at enghreifftiau o feysydd gwaith sy'n dangos bod y ddyletswydd Adran 6 a rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy wedi cael eu cyflawni.

Rydym wedi parhau i weithio i sicrhau bod gwaith cyflawni mewn perthynas â bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau yn cael ei wneud ym mhopeth rydym yn ei wneud, a bod ymwybyddiaeth o Adran 6 a gwaith i'w chyflawni yn cael eu hymgorffori'n well ar draws ein sefydliad. I helpu i arwain hyn, rydym yn ymgymryd ag asesiadau o'r graddau y mae bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau yn cael eu hystyried ar draws ein holl weithgareddau. Mae hyn yn ein helpu

i nodi lle gallai gwelliannau gael eu gwneud, i flaenoriaethu gofynion ar gyfer arweiniad a hyfforddiant, ac i ddarparu ffocws y camau nesaf. Mae hyn hefyd yn ategu'r gwaith o ddatblygu canllawiau a dulliau cyflawni manwl ar wydnwch ecosystemau i'n staff, yr ydym wedi bod yn eu datblygu.

## **Is-ddeddfau pysgota newydd**

Mae holl stociau eogiaid Cymru mewn trafferth ddifrifol ac maent wedi disgyn i lefelau hanesyddol isel. Gellir dweud yr un peth am y rhan fwyaf (70%) o'n stociau brithyllod y môr. Felly, mae is-ddeddfau newydd, ynghyd ag amrywiaeth o fesurau brys eraill fel ymdrin â llygredd amaethyddol, gwella ansawdd dŵr, gwella cynefinoedd a rheoli bygythiadau posib ysglyfaethwyr yn hanfodol i statws stociau eogiaid a brithyllod y môr yn y dyfodol yng Nghymru.

Eleni, daeth is-ddeddfau newydd, a gadarnhawyd gan Lesley Griffiths AS, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, i rym - gan ddiogelu stociau eogiaid bregus yn afonydd trawsffiniol afon Dyfrdwy ac afon Gwy yng Nghymru. Mae'r is-ddeddfau newydd yn dyblygu dull yr is-ddeddfau i Gymru gyfan a ddaeth i rym ar ddechrau'r flwyddyn, ac maent yn golygu bod yn rhaid rhyddhau pob eog sy'n cael ei ddal yn fyw a heb niwed nac oedi. Mae'r ddwy set o is-ddeddfau yn darparu amddiffyniad pwysig ar gyfer eogiaid a brithyllod y môr, a byddant ar waith am gyfnod o ddeng mlynedd ond gan gael eu hadolygu ar ôl pum mlynedd.

Rhan hanfodol o weithredu'r mesurau cadwraeth hyn a mynd i'r afael â phroblemau sylfaenol sy'n effeithio ar boblogaethau pysgod fu gwaith targedig i ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan gynnwys cynnal digwyddiadau gyda Fforwm Pysgodfeydd Cymru a grwpiau pysgodfeydd lleol. Mae gwaith



allweddol yn y dyfodol sy'n ymwneud â chamau gweithredu ar gyfer eogiaid a brithyllod y môr yn cynnwys comisiynu cynlluniau adfer cynefin i bysgodfeydd ar gyfer yr holl afonydd eraill yng Nghymru a chyflawni gwaith sydd wedi'i flaenoriaethu mewn partneriaeth ag Afonydd Cymru a'r ymddiriedolaethau afonydd.

## Beth nesaf?

Fel rhan o'n Cynllun Busnes ar gyfer 2020/21, rydym wedi cynnwys ein hymrwymiaidau cyflawni diweddaraf, gan gynnwys ymrwymiad i wneud y canlynol:

- Ymateb i'r argyfyngau yn yr hinsawdd ac ym myd natur, gan gynnwys drwy nodi cyfleoedd a fydd o fantais i'r ddau, yn arbennig ar draws

cynefinoedd sy'n gallu storio carbon a helpu i liniaru llifogydd;

- Datblygu blaenoriaethau 'Natur Hanfodol', sef strategaeth Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer natur, gan ymgorffori ystyriaeth o fioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau ar draws holl swyddogaethau Cyfoeth Naturiol Cymru a helpu cyrff cyhoeddus eraill i wneud yr un peth
- Cyflwyno mesurau adfer dalgylchoedd i wella ansawdd dŵr neu bysgodfeydd, gan wella cyfathrebu â'r cyhoedd
- Cymryd mesurau i atal achosion o glefydau planhigion a chanfod ac ymateb yn gyflym i unrhyw achosion sy'n digwydd a lleihau effaith rhywogaethau estron goresgynnol.

# Amcan Llesiant 4

## Lleihau'r risgiau i bobl a chymunedau gan beryglon amgylcheddol megis llifogydd a llygredd

Rydym yn cynghori ar y tebygolrwydd o lifogydd, yn ei ragweld ac yn ei fonitro, ac, yn ogystal â datblygu cynlluniau amddiffyn rhag llifogydd, rydym yn cefnogi cymunedau lleol i leihau'r perygl a wynebir ganddynt. Yn yr un modd, rydym yn cynghori ac yn rheoleiddio diwydiant a safleoedd gwastraff i leihau'r tebygolrwydd o lygredd yn mynd i'r amgylchedd naturiol ehangach - rydym hefyd yn darparu ymateb i ddigwyddiadau amgylcheddol sy'n digwydd er gwaethaf ein hymdrechion gorau. Gan anelu at fod yn gadarn ond yn deg, rydym yn ymchwilio i ddigwyddiadau ac yn defnyddio'n hystod lawn o bwerau i fynd i'r afael â throseddau amgylcheddol pan fo angen.

### Ein mesurau

- Cyflawni ymateb rheoli digwyddiadau effeithiol ac effeithlon
- Cynnal a chadw asedau rheoli perygl llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru mewn lleoliadau risg uchel yn eu cyflwr gweithredu targed
- Mynd i'r afael ag effaith diwydiant a safleoedd gwastraff
- Cyflawni ein rhaglen gyfalaf rheoli perygl llifogydd

### Canlyniadau 2019/20

- Caiff 96% o ddigwyddiadau eu hasesu o fewn awr ond roedd ymateb i ddigwyddiadau a chau digwyddiadau y tu ôl i'r targed a osodwyd
- Mae 97.6% o asedau rheoli perygl llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru mewn lleoliadau risg uchel yn eu cyflwr gweithredu targed
- Wedi mynd i'r afael ag effaith diwydiant a safleoedd gwastraff sy'n perfformio'n wael, gan gymryd camau gweithredu gorfodi lle y bo angen. Mae problemau'n parhau gyda dau safle sydd â risg uchel o dân
- Cwblhawyd llai o brosiectau cyfalaf perygl llifogydd eleni nag a fwriadwyd, gyda'r prosiectau hyn yn debygol o gael eu cyflawni bellach yn 2020/21



# Enghreifftiau o'n gwaith yn ystod 2019/20:

## Stormydd Ciara a Dennis

Eleni, rydym wedi ymateb i ddigwyddiadau llifogydd sydd wedi effeithio ar gymunedau ledled Cymru - gyda Storm Ciara, yna Storm Dennis wythnos yn ddiweddarach yn unig ym mis Chwefror 2020. Gwnaeth afonydd gyrraedd y lefelau uchaf erioed, cafwyd llifogydd mewn adeiladau, ac, mewn rhai cymunedau, roedd rhaid i bobl adael eu cartrefi. Roedd yr effeithiau'n sylweddol - ar bobl, ar adeiladau, ar fusnesau a bywoliaethau - er gwaethaf ein hamddiffynfeydd yn atal llifogydd yn nhref Brynbuga, Pontarddulais a sawl rhan yng nghymoedd de Cymru. Gwnaeth ein timau ymateb i ddigwyddiadau a'n daroganwyr weithio gyda gwasanaethau brys eraill bob awr o bob dydd i rybuddio pobl. Roedd timau o weithredwyr yn cael eu rhoi ar waith i sicrhau bod ein hamddiffynfeydd rhag llifogydd yn y cyflwr gweithredu gorau.

O ganlyniad i Storm Dennis, gwnaeth ein daroganwyr ragweld y byddai afon Gwy yn Nhrefynwy yn cyrraedd lefel o 7.20 metr (y lefel uchaf a gofnodwyd erioed o'r blaen oedd 6.54 metr). Mewn cytundeb â'n partneriaid ymateb mewn argyfwng, gwnaethom gyhoeddi dau Rybudd Llifogydd Difrifol, gan olygu y gallai fod perygl i fywyd. Gwnaeth y rhybuddion arwain at wagio ardaloedd o Drefynwy heb amddiffynfeydd, yn ogystal â chau pont Trefynwy. Rhoddwyd ein timau o weithredwyr ar waith gyda phympiau'n barod a chafodd drysau llifogydd Trefynwy eu cloi. Ar y brig, lefel yr afon oedd 7.15 metr, ac nid gorlifodd ein hamddiffynfa rhag llifogydd, gan olygu amddiffyniad i'r rhan helaeth o Drefynwy - wedi'i helpu gan waith i glirio rhwystrau sylweddol yn nhri o fwâu pont Trefynwy ar ôl llifogydd blaenorol.

Er ein bod yn cydnabod na all amddiffynfeydd rhag llifogydd atal yr holl llifogydd, ledled Cymru mae ein hamddiffynfeydd yn diogelu 73,000 o adeiladau y byddent yn dioddef o llifogydd pe na bai ein hamddiffynfeydd yno.

## Rhaglen gyfalaf rheoli perygl llifogydd

Lleihau'r perygl llifogydd i bobl ac adeiladau yw rhan graidd o'n gwaith a chaiff ei gyflawni drwy ein rhaglen gyfalaf rheoli perygl llifogydd. Mae gwaith rheoli perygl llifogydd yn parhau i ymgorffori egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, gan ystyried y tymor hir drwy ein cynllun tymor canolig (gan alluogi'r busnes i gynllunio rheoli risg a phenderfyniadau buddsoddi ar gyfer y deng mlynedd nesaf) a sicrhau bod rheoli perygl llifogydd yn naturiol ar flaen ein meddyliau mewn gwaith dylunio cynlluniau llifogydd (gan gydweithio â thimau mewnol i gwmpasu opsiynau lleihau llifogydd posib a manteision lluosog posib).

Drwy ein prosiectau cynnal a chadw cyfalaf, gwnaethom ddarparu diogelwch parhaus i dros 800 o adeiladau mewn lleoliadau fel y Bontnewydd (Caernarfon), Llanrwst, Llansamlet (Abertawe), Ynystanglwys (Abertawe) a Rhisga.

Gwnaethom barhau gyda gwaith adeiladu sylweddol yng Nghrindau (Casnewydd) a Llanfair Talhaearn, a gwnaeth gwaith arfarnu a dylunio pwysig i gefnogi cynlluniau adeiladu yn y dyfodol fel Llyn Tegid (y Bala), Rhydaman a Stryd Stephenson (Casnewydd) hefyd ddatblygu. Cychwynnwyd ar sawl asesiad cychwynnol y llynedd, gwaith sy'n hanfodol wrth sicrhau bod ein cynllun tymor canolig yn wydn ar gyfer y dyfodol. Roedd prosiectau fel Llangefni, Ceredigion a Phorthmadog i gyd yn destun gwaith arfarnu, gan arwain o bosib at gynlluniau ar raddfa fawr yn y dyfodol agos.

Gwnaeth ein rhaglen foddelu barhau i gefnogi prosiectau ar draws y wlad, sy'n sail i'n holl waith cyfalaf. Roedd hyn yn cynnwys gwaith ar gynlluniau posib mewn lleoliadau sy'n uwch ar y Gofrestr Cymunedau mewn Perygl (fel

Llanelli, y Rhyl a Phrestatyn) a lleoliadau y mae llifogydd wedi effeithio arnynt yn ddiweddar fel Dwyran ar Ynys Môn, yn ogystal â gwaith i adolygu perfformiad cynlluniau presennol fel Tragaron a Sanclêr.

Rydym hefyd yn cydnabod efallai na fydd cymunedau'n dymuno cael cynlluniau bob tro lle bo'n tystiolaeth yn awgrymu y gallai fod mantais. Dyma gysyniad gweddol newydd i'r rheiny sy'n mynd i'r afael â pherygl llifogydd oherwydd, yn hanesyddol, roedd pobl am gael amddiffyniad, ond rydym wedi gweithio'n galed i ddod o hyd i ffordd ymlaen mewn lleoliadau o'r fath. Dwy enghraifft a oedd yn gynhennus yn adroddiad y llynedd oedd yn y Rhath yng Nghaerdydd ac yn Ninas Powys ym Mro Morgannwg. Rydym wedi gweithio mewn cymunedau yn y ddau leoliad i gytuno ar ffordd ymlaen sy'n dderbyniol i bawb.

Gwnaethom hefyd greu 30 hecтар o gynefin wedi'i alinio â blaenoriaethau'r cynllun gweithredu bioamrywiaeth. Roedd y cynlluniau'n cynnwys gweithredu dulliau seiliedig ar natur yn Ffrwd Wylt (Port Talbot), dal dŵr yn ôl yn naturiol (yn Nant Olwy, Brynbuga) ac adfer mawndir (yng Nghwm Rhondda).

## Beth nesaf?

Fel rhan o'n Cynllun Busnes ar gyfer 2020/21, rydym wedi cynnwys ein hymrwymadau cyflawni diweddaraf, gan gynnwys ymrwymiad i wneud y canlynol:

- Amddiffyn pobl, cymunedau ac ecosystemau rhag digwyddiadau amgylcheddol, gan gynnwys gweithio gydag eraill i leihau llygredd damweiniol a chefnogi mentrau i baratoi ar gyfer llifogydd ac ymateb iddynt, yn ogystal â phroblemau eraill
- Gweithio gyda phartneriaid i gyflawni strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru, Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol, gan gynnwys sicrhau bod mapiau a gwybodaeth fodelu newydd ar gael
- Mynd i'r afael â phroblemau'n ymwneud â throedd amgylcheddol a safleoedd trwyddedig sy'n perfformio'n wael, gan gynnwys cyflawni cynlluniau gwella cydymffurfiaeth
- Cyflawni gwaith cynnal a chadw i sicrhau bod y perygl llifogydd llai yn parhau i gael ei gynnal mewn cymunedau sy'n byw mewn ardaloedd sy'n cael eu hamddiffyn
- Cwblhau ein hadolygiad mewnol o'r digwyddiadau llifogydd sylweddol yn y gaeaf, gan gyflawni mentrau gwella o ganlyniad



# Amcan Llesiant 5

## Helpu pobl i fyw bywydau mwy iach a bodlon

Yn ogystal â darparu amrywiaeth eang o gyfleoedd ar gyfer hamdden ar y tir rydym yn ei reoli ein hunain, rydym yn gweithio gyda phartneriaid i annog pawb i gael mynediad i'r awyr agored ledled Cymru a gwella eu hiechyd a'u llesiant. Rydym yn cefnogi prosiectau cymunedol ac yn helpu pobl i ddysgu am werth yr amgylchedd naturiol, ei bwysigrwydd mewn bywyd o ddydd i ddydd, a'i ran yn niwylliant a threftadaeth Cymru.

### Ein mesurau

- Mynd i'r afael â llygredd aer
- Cyflawni rhaglenni Llwybr Arfordir Cymru a Llwybrau Cenedlaethol
- Datblygu ein cytundeb gweithio ar y cyd gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chwaraeon Cymru
- Paratoi strategaeth a rhaglen seilwaith gwyrdd

### Canlyniadau 2019/20

- Gwnaed gwaith olrhain priodol o ran pob achos o beidio â chydymffurfio sy'n ymwneud ag effaith ar ansawdd aer
- Mae gweithgaredd ar Llwybr Arfordir Cymru wedi cynnwys arolygon o gyflwr y llwybr a llunio amserlenni cerdded aml-ddiwrnod newydd
- Gwnaeth waith Partneriaeth Gweithgarwch Corfforol Cymru barhau
- Mae'r strategaeth a rhaglen waith seilwaith gwyrdd wedi oedi



# Engbreiffiau o'n gwaith yn ystod 2019/20:

## Wythnos Dysgu yn yr Awyr Agored Cymru

Cynhaliwyd yr Wythnos Dysgu yn yr Awyr Agored gyntaf i Gymru rhwng 1 a 7 Ebrill 2019, wedi'i threfnu ar y cyd â Chyngor Dysgu Awyr Agored Cymru. Gwnaeth yr ymgyrch lwyddiannus annog ac ysbrydoli athrawon, grwpiau dysgu a theuluoedd ledled Cymru i ymgorffori dysgu awyr agored ym mywyd yr ysgol a'r teulu – gan ddysgu yn yr amgylchedd naturiol, dysgu amdano a dysgu ar ei gyfer.

Fe wnaeth hyrwyddo ffyrdd ymarferol i bobl gysylltu â natur a thynnu sylw at y rôl bwysig y mae dysgu awyr agored yn ei chwarae yn y Cwricwlwm i Gymru a'r manteision lluosog ar gyfer dysgu gydol oes a'r amgylchedd – gan adeiladu ar ein gwaith i hwyluso, galluogi ac amlygu pwysigrwydd rheoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy yng nghyd-destun addysg.

Drwy gydol yr wythnos, gwnaethom gynnal cyfres o ddigwyddiadau, gan gynnwys sesiynau hyfforddi addysgwyr a chynhadledd gyda thros 120 o gynrychiolwyr. Mewn digwyddiad dathlu a gefnogwyd gan yr anturiaethwr Richard Parks, gwelwyd y glasbrennau derw Miri Mes cyntaf (o brosiect sy'n ein helpu i blannu mwy o goed sy'n cael eu tyfu o hadau lleol) yn dychwelyd i Gymru i gael eu plannu mewn coetir ger Rhuthun.

Drwy gydol yr wythnos, gwnaethom gynnal cyfres o ddigwyddiadau, gan gynnwys sesiynau hyfforddi addysgwyr a chynhadledd gyda thros 120 o gynrychiolwyr. Mewn digwyddiad dathlu a gefnogwyd gan yr anturiaethwr Richard Parks, gwelwyd y glasbrennau derw Miri Mes cyntaf (o brosiect sy'n ein helpu i blannu mwy o goed sy'n cael eu tyfu o hadau lleol) yn dychwelyd i Gymru i gael eu plannu mewn coetir ger Rhuthun.







## Llwybrau beicio mynydd newydd a gwell yng nghanolfannau ymwelwyr Coed y Brenin a Bwlch Nant yr Arian

Wedi'u hariannu gan gynllun Cymorth Buddsoddi mewn Amwynderau Twristiaeth Croeso Cymru, adeiladwyd adrannau o lwybrau beicio mynydd newydd eleni - gan wneud ein llwybr beicio mynydd mwyaf poblogaidd, y MinorTaur (ym Mharc Coedwig Coed y Brenin) yn hirach ac adeiladu llwybr newydd sbon o'r enw Melindwr (ym Mwlch Nant yr Arian). I fwyafu eu hapêl, mae'r ddau ddatblygiad wedi'u dylunio ar gyfer beicwyr canolradd. Mae'r llwybrau'n ddigon anodd a diddorol i annog uchafswm nifer y beicwyr a sicrhau gwerth gorau ar gyfer y buddsoddiad. Maent hefyd yn cyd-fynd â'r cynnig beicio mynydd presennol yn y ddwy ganolfan ymwelwyr.

Fodd bynnag, roedd yn rhaid i leoliad a dyluniad y llwybrau sicrhau bod ecosystemau'r ddwy goedwig yn parhau i fod yn wydn. Roedd angen i waith i osod llwybrau sengl ag amddiffyniad cerrig drwy bob goedwig gael ei wneud yn ofalus i sicrhau bod y llwybrau'n cael eu sefydlu'n gyflym ac yn effeithiol. Roedd rhoi sylw manwl i'r cynllun, draeniau a gwaith adeiladu'n hanfodol i gyflawni rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn llwyddiannus yn y safleoedd hyn - gan leihau'r effaith amgylcheddol a sicrhau bod y llwybrau'n gynaliadwy ar gyfer y tymor hir ar ôl i filoedd o feicwyr yrru drostynt.

Gwnaeth dros 30,000 o feicwyr ddefnyddio'r MinorTaur yn 2019, gyda Melindwr yn cael croeso brwd gan feicwyr pan agorodd ym mis Hydref.

## Cydweithio i fynd i'r afael ag anweithgarwch corfforol yng Nghymru

Mae llawer o bobl yng Nghymru yn peidio â gwneud digon o ymarfer corff i ddiogelu eu hiechyd.<sup>2</sup> Eleni, gwnaethom gryfhau'n cydweithio ar weithgarwch corfforol gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chwaraeon Cymru, drwy ddatblygu partneriaeth newydd – Partneriaeth Gweithgarwch Corfforol Cymru.

Mae'r meysydd blaenoriaethol ar gyfer cydweithio ar draws y tri sefydliad bellach wedi cael eu cytuno fel a ganlyn:

- Cyfathrebu. Dull cyffredin o yfathrebu am weithgareddau corfforol, gan gytuno ar iaith gyffredin i ddarparu negeseuon clir sy'n helpu i lywio newid ymddygiad unigolion
- Datblygu arsyllfa gweithgarwch corfforol. Atgyfnerthu dull 'Unwaith i Gymru' ar gyfer data a thystiolaeth ar weithgarwch corfforol a gweithio tuag at fframwaith gwerthuso a monitro cyffredin ar gyfer prosiectau sy'n ymwneud â gweithgarwch corfforol
- Lleoliadau addysg. Mae gwaith yn cynnwys datblygu rhaglen datblygiad proffesiynol ar y cyd ar gyfer y proffesiwn addysgu sy'n ymwneud â'r Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles yn y Cwricwlwm i Gymru ac adolygu'r Cynllun Ysgolion Iach

- Y Gronfa Iach ac Egnïol. Cyflawni cyllid grant i 17 prosiect ledled Cymru, i wella iechyd meddwl a chorfforol drwy alluogi ffyrdd iach ac egnïol o fyw, mynd i'r afael â maetheg wael, torri cyfraddau smygu ac atal yfed gormodedd o alcohol

Wrth wraidd y bartneriaeth hon y mae cydweithio – ceisio gwella systemau sy'n gweithio ar draws ein sefydliadau a rhanddeiliaid eraill. Byddwn hefyd yn cysylltu'n eang â rhanddeiliaid ehangach i sicrhau ein bod yn datblygu'r neges gywir ac yn ei chyfleu yn y ffordd gywir i yrru newid cadarnhaol a chynnwys eraill fel partneriaid lle y bo modd.

## Beth nesaf?

Fel rhan o'n Cynllun Busnes ar gyfer 2020/21, rydym wedi cynnwys ein hymrwymadau cyflawni diweddaraf, gan gynnwys ymrwymiad i wneud y canlynol:

- Diogelu iechyd a llesiant ein cymunedau a'n hecosystemau drwy gyflawni blaenoriaethau rheoleiddiol allweddol
- Cefnogi Cynllun Gweithredu Twristiaeth Llywodraeth Cymru, gan gynnwys Llwybr Arfordir Cymru a'r Llwybrau Cenedlaethol
- Cefnogi mentrau sy'n gwella iechyd corfforol a meddwl fel rhagnodi cymdeithasol;
- Gweithredu a chefnogi gwaith i gynllunio a chyflawni seilwaith gwyrdd.



# Amcan Llesiant 6

## Hyrwyddo busnesau llwyddiannus a chyfrifol sy'n defnyddio adnoddau naturiol heb eu difrodi

Rydym am i Gymru gael ei chydnabod fel lle gwych i wneud busnes sy'n cofleidio twf gwyrdd, sectorau newydd, ymchwil ac arloesedd. Yn ogystal â'n gweithgareddau masnachol ein hunain, rydym am annog busnesau i ddefnyddio adnoddau mewn ffordd effeithlon a gweithio tuag at economi gylchol. Rydym yn defnyddio ein pwerau rheoleiddiol – trwyddedu a monitro i wirio cydymffurfiaeth a gorfodi – i amddiffyn yr amgylchedd naturiol ac i sicrhau nad yw busnesau cyfreithiol yn cael eu tanseilio.

### Ein mesurau

- Cyflwyno pren a reolir yn gynaliadwy i'r farchnad
- Cyflwyno pren a reolir yn gynaliadwy i'r farchnad
- Cyflawni'n cynllun gweithredu ar gyfer trechu troseddau gwastraff

### Canlyniadau 2019/20

- Pren a gynigiwyd ac a ddyrannwyd i'r farchnad hyd at gyfaint o 889,000 m<sup>3</sup>
- 441.5 MW o ynni adnewyddadwy yn cael ei greu ar ein hystâd
- Adroddiad blynyddol ar effaith ein cynllun gweithredu ar gyfer trechu troseddau gwastraff i ddod yn 2020/21



# Engreifftiau o'n gwaith yn ystod 2019/20:

## Fferm Wynt Coedwig Clocaenog yn dechrau gweithredu

Mae symud Cymru tuag at ffynonellau ynni adnewyddadwy yn rhan hanfodol o fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd. Eleni, rydym wedi bod yn dathlu'r prosiect fferm wynt diweddaraf ar ein tir. Yn dilyn gwaith cychwynnol gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru yn 2005, rydym wedi helpu i adeiladu ffermydd gwynt ym Mhen y Cymoedd (2017), Gorllewin Coedwig Brechfa (2018) a bellach Coedwig Clocaenog – gan weithio gyda dau ddatblygwr rhyngwladol, Vattenfall ac Innogy, i adeiladu'r ffynonellau newydd sylweddol hyn o ynni gwyrdd.

Y fferm wynt fwyaf diweddar i ddechrau gweithredu ar ddiwedd 2019 oedd prosiect 27 tyrbin Coedwig Clocaenog Innogy, sydd bellach yn gallu pweru bron 64,000 o gartrefi bob blwyddyn. Drwy bweru'r cartrefi hyn gydag ynni adnewyddadwy, gallwn arbed dros 170,000 o dunelli o allyriadau CO<sub>2</sub> yn flynyddol rhag mynd i'r atmosffer. Bydd y prosiect hefyd yn cyfrannu £19 miliwn i gymunedau lleol dros oes y prosiect drwy'r Gronfa Buddsoddi Cymunedol (gyda disgwyl i beth o hwn, ar adeg ysgrifennu, fynd i'r grwpiau cymunedol sy'n darparu cymorth COVID-19 ar y rheng flaen). Nid yn unig y mae'r prosiectau ynni gwyrdd hyn yn fanteisiol i'r economïau amgylchynol ond maent hefyd yn cynhyrchu incwm sylweddol dros eu hoes i Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru drwy daliadau breindal.

Mae integreiddio ffermydd gwynt yn llawn yn ein coedwigoedd gweithiol yn llwyddiant go iawn, gan gyflawni manteision lluosog, ac mae dwy fferm wynt arall ar y tir ar raddfa fawr ar y gorwel ar dir Cyfoeth Naturiol Cymru – prosiect Alwen (gogledd Cymru) a phrosiect y Bryn (de Cymru).

## Rheoli adnodd cynaliadwy – gwerthiannau pren

Rydym yn rheoli Ystad Goetir Llywodraeth Cymru ar ran Gweinidogion Cymru, ac mae dyletswydd arnom i hyrwyddo buddiannau coedwigaeth, coedwigo, a chynhyrchu a chyflenwi pren a chynhyrchion coedwig eraill. Mewn perthynas â'r ddyletswydd hon, rydym yn cynhyrchu cynllun marchnata gwerthiannau pren. Caiff y cynllun hwn ei gyhoeddi i sicrhau bod yr ystad goetir yn cael ei rheoli'n gynaliadwy ac mae'n cynnwys y lefelau disgwyliedig o gynhyrchu a chyflenwi pren yn y dyfodol.

Yn 2019/20, gwnaethom gynnig a dyrannu pren i'r farchnad hyd at gyfaint o 889,000 m<sup>3</sup>. Yr alldro terfynol oedd 654,000 m<sup>3</sup> wedi'i anfon, gan gyflawni incwm o £25.2 miliwn. Ardystiwyd y pren hwn o dan Gynllun Ansawdd Coetiroedd y Deyrnas Unedig.

Rydym hefyd wedi gweithio i wneud y newidiadau angenrheidiol mewn perthynas â gwerthiannau pren, gydag adroddiadau terfynol yn cael eu cwblhau a newidiadau sydd wedi eu gwneud i bolisiâu a phrosesau'n cael eu hymgorffori yn y sefydliad.

## Trechu troseddau gwastraff a gwaith gorfodi

Yn 2019/20, cafwyd 62 o erlyniadau ar gyfer troseddau amgylcheddol. Gall troseddau gwastraff (sy'n cynnwys safleoedd trwyddedig nad ydynt yn cydymffurfio, tipio anghyfreithlon ar raddfa fawr a bach, safleoedd gwastraff anghyfreithlon a safleoedd gwag) achosi difrod uniongyrchol a hirhoedlog ac effeithio ar y cyfleoedd sydd ar gael i genedlaethau cyfredol a chenedlaethau'r dyfodol. Mae mynd i'r afael â'r broblem hon yn sicrhau chwarae teg i weithredwyr dilys, yn cefnogi swyddi a'r economi, ac yn diogelu'n hamgylchedd naturiol ar gyfer y dyfodol.



Rydym wedi cymryd camau gweithredu cadarn ar gyfer troseddau difrifol. Er enghraifft, carcharwyd gweithredwr llogi peiriannau am 15 mis eleni am ollwng symiau mawr o wastraff a reolir yn anghyfreithlon, gan gynnwys gwastraff domestig cyffredinol fel cewynnau, matresi a rhewgell-rewgistiau, yn ogystal â phridd halogedig o safle adeiladu mawr. Fel rhan o'r ymchwiliad hwn, rhoddwyd dirwy o £109,000 i gwmni peirianeg am fethu â sicrhau bod ei wastraff yn cael ei drin yn gywir.

Rydym wedi cymryd camau gweithredu cadarn ar gyfer troseddau difrifol. Er enghraifft, carcharwyd gweithredwr llogi peiriannau am 15 mis eleni am ollwng symiau mawr o wastraff a reolir yn anghyfreithlon, gan gynnwys gwastraff domestig cyffredinol fel cewynnau, matresi a rhewgell-rewgistiau, yn ogystal â phridd halogedig o safle adeiladu mawr. Fel rhan o'r ymchwiliad hwn, rhoddwyd dirwy o £109,000 i gwmni peirianeg am fethu â sicrhau bod ei wastraff yn cael ei drin yn gywir.

## Rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a'r fframwaith rheoleiddiol

Eleni, gwnaethom gynnal ymarfer i archwilio sut mae'r broses reoleiddiol gyfredol ar gyfer asesu gosodiadau diwydiannol yn cefnogi ein diben craidd

(fel a nodir yn y canllawiau statudol a roddwyd i ni yn Rhan 1 o Ddeddf yr Amgylchedd). Gwnaethom fapio sut mae nod ac egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy wedi'u hymgorffori yn y fframwaith rheoleiddiol.

Gwnaeth cymysgedd o arbenigwyr pwnc, staff gweithredol a staff polisi gasglu tystiolaeth drwy gyfres o weithdai, ac roedd grŵp diddordeb ehangach wedi'i gynnwys trwy gynnal cyfarfodydd dilynol. O ganlyniad, rydym bellach yn gallu archwilio mwy o argymhellion a chyfleoedd a fydd yn arwain at ganlyniadau gwell o bosib i fusnesau, pobl a'r amgylchedd, gan gynnwys y canlynol:

- Gwelliannau i'r broses ymgeisio
- Ymgysylltiad uniongyrchol cynharach â gweithredwyr
- Creu cysylltiadau ar draws ein sefydliad i yrru canlyniadau ar y cyd

## Beth nesaf? 🌍

Fel rhan o'n Cynllun Busnes ar gyfer 2020/21, rydym wedi cynnwys ein hymrwymiaidau cyflawni diweddaraf, gan gynnwys ymrwymiad i wneud y canlynol:

- Cefnogi Llywodraeth Cymru gyda'i nod o ddatblygu economi fwy cylchol, trwy reoleiddio diwydiant a monitro'r defnydd o adnoddau a mynd i'r afael â gwastraff anghyfreithlon;
- Datblygu ein strategaeth fasnachol, gan gynnwys datblygu Cynllun Gwerthiannau a Marchnata Pren diwygiedig ac ymgynghori arno, a chyflawni Cynllun Busnes Labordy Cyfoeth Naturiol Cymru
- Cyflawni blaenoriaethau mewn rhaglenni ynni adnewyddadwy (ar y tir ac ar y môr)
- Mynd i'r afael â phroblemau'n ymwneud â throedd amgylcheddol a safleoedd trwyddedig sy'n perfformio'n wael, gan gynnwys cyflawni cynlluniau gwella cydymffurfiaeth

# Amcan Llesiant 7

## Datblygu Cyfoeth Naturiol Cymru yn sefydliad rhagorol sy'n darparu gwasanaeth cwsmeriaid o'r radd flaenaf

Rydym am fod y sefydliad gorau y gallwn fod ar gyfer ein staff, ein cwsmeriaid a'r amgylchedd naturiol. Mae hyn yn golygu ein bod wedi mynd drwy newidiadau sylweddol fel sefydliad. Mae cwblhau'r gwaith o ailstrwythuro ein trefniadau staffio bellach yn ein galluogi i ganolbwyntio ar ddatblygu'n sefydliad i gefnogi staff a chwsmeriaid i fodloni amcanion personol a busnes.

### Ein mesurau

- Parhau i ddatblygu gwaith i ddatblygu'r sefydliad
- Gweithredu'r argymhellion ar gyfer llywodraethu ein gwerthiannau pren
- Bodlonrwydd cwsmeriaid (gyda rhyngweithiadau Cyfoeth Naturiol Cymru)

### Canlyniadau 2019/20

- Mae rhaglen cynllunio'r sefydliad wedi dod i ben. Mae rhaglen y gweithlu wedi cael ei chymeradwyo
- Mae ffyrdd newydd o weithio mewn perthynas â llywodraethu ein gwerthiannau pren yn cael eu hymgorffori
- Mae'r dangosfwrdd wedi'i gwblhau, a bydd cynllun trawsnewid y flwyddyn nesaf



Gweinidogion Llywodraeth Cymru yn ymweld â Swyddfa Caerdydd



# Enghreifftiau o'n gwaith yn ystod 2019/20:

## Y rhaglen Cynllunio'r Sefydliad wedi'i chwblhau

Gwnaethom gwblhau ein rhaglen newid sefydliadol ym mis Hydref 2019, gan gyflwyno cynllun sefydliadol newydd sy'n adlewyrchu strwythur mwy gwastad, gyda thimau mwy i sicrhau bod mwy o wydnwch a bod gweithgareddau'n cael eu hintegreiddio. I gefnogi'r strwythur newydd, gwnaethom greu disgrifiadau rôl newydd i ddisgrifio gofynion y rolau (gan gynnwys elfennau ynghylch diogelwch gwybodaeth, rheoli digwyddiadau, rheoli cyllidebau a rhoi sylw i gwsmeriaid) a gwneud newidiadau eraill i'n prosesau a'n systemau i alluogi'r strwythur newydd i weithio ar y diwrnod cyntaf. Roedd pethau allweddol i'w cyflawni i gefnogi'n ffyrdd newydd o weithio yn cynnwys Cynlluniau Parhad Busnes newydd eu diweddarau a'u profi. Gwnaeth ein rhaglen Cynllunio'r Sefydliad i ben wedyn ym mis Tachwedd 2019, gydag aelodau o staff yn cael eu cadarnhau yn eu swyddi yn ein strwythur newydd.

## Paratoi ar gyfer / parodrwydd am Brexit

Fel rhan o'n gwaith i baratoi ar gyfer Brexit, rydym yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, ein rhanddeiliaid a'n partneriaid i ddeall yr effaith bosibl ar rôl Cyfoeth Naturiol Cymru fel sefydliad ac i gefnogi datblygiad deddfwriaeth yn y dyfodol. Fel y soniwyd uchod, cafwyd llawer o ymdrech wrth baratoi ar gyfer gadael yr UE heb gytundeb ac mae pob un o'n Cynlluniau Parhad Busnes wedi'u diweddarau a'u profi.

Rydym wedi cydnabod y cyfleoedd y gellir dod yn sgil Brexit o ran ein galluogi i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a'r risgiau sydd ynghlwm o ran peidio â gwireddu'r cyfleoedd hyn. Rydym wedi parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid i ddatblygu'r corff newydd

a fydd yn goruchwyllo egwyddorion amgylcheddol a llywodraethu yng Nghymru yn dilyn Brexit. Rydym wedi olrhain newid deddfwriaethol ar lefel y DU a Chymru, gan gynnwys biliau amaethyddiaeth, pysgodfeydd ac egwyddorion amgylcheddol arfaethedig er mwyn paratoi ar gyfer diwedd y cyfnod pontio. Rydym wedi gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru ac asiantaethau partner i ddeall yr hyn y gallai hyn ei olygu i'n cylch gwaith ac amgylchedd Cymru, a'r 'swyddogaethau' neu atebolrwydd ychwanegol a allai gael eu trosglwyddo i Cyfoeth Naturiol Cymru.

Mae oedi i'r DU yn gadael yr UE wedi gofyn am hyblygrwydd yn ein hamserlenni paratoi a pharodrwydd. Rydym yn parhau i roi'r newyddion diweddaraf i staff, gweithredwyr a rhanddeiliaid i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau a'n rôl barhaus fel rheoleiddiwr.

## Cyflawni gwelliannau i'r Rhaglen Gwsmeriaid

Mae ein Rhaglen Gwsmeriaid wedi bod yn cyflawni prosiectau gwella sy'n canolbwyntio ar sicrhau bod yr elfennau sylfaenol yn gywir, gan wella safonau ansawdd a chefnogi cynnwys cwsmeriaid ar gam cynnar. Rydym wedi gwneud y canlynol:

- Uwchsgilio a hyfforddi staff yn ein Canolfan Cwsmeriaid
- Gwneud ein gwefan yn symlach, gan ddefnyddio dulliau fel arolygon, dadansoddiadau ar y dudalen a chyfweliadau i lunio gwelliannau i'r wefan – gan alluogi pobl i ddarganfod a chwblhau tasgau angenrheidiol lle bynnag a phryd bynnag sydd fwyaf cyfleus iddynt
- Cynyddu'r defnydd o'r porth hunanwasanaethu ar-lein (fel ar gyfer cofrestru cludwyr, broceriaid a delwyr gwastraff) – mewn rhai achosion,

mae hyn wedi lleihau ein hamser prosesu'n fawr a rhyddhau adnoddau staff sylweddol

- Profi ein gwefan am broblemau sy'n gysylltiedig â phobl yn defnyddio technoleg gynorthwyol. Byddwn yn nodi ein cynllun ar gyfer gwelliannau'r flwyddyn nesaf
- Dechrau trwsio materion sy'n ymwneud â 'phrif dasgau' (y pethau mwyaf cyffredin y mae pobl sy'n dod i'n gwefan yn eu gwneud), gan gyflawni gwelliannau sylweddol. Er enghraifft, roedd is-ddeddfau genweirio'n annarllenadwy ar ddyfais symudol, ond ar ôl cyhoeddi'r rhain fel cynnwys gwefan clir, maent bellach wedi cael eu gweld 6,000 o weithiau drwy ddyfeisiau symudol
- Llunio canllaw arddull ar gyfer staff, ar gyfathrebiadau ysgrifenedig, ar y wefan ac wyneb yn wyneb, gan ei gyflwyno yn ystod sesiynau hyfforddi
- Cynnal digwyddiadau i'r staff sy'n gweithio mewn rolau cyhoeddus, gan gasglu cipolwg ar yr hyn y mae angen i ni ei wneud i gyflawni gohebiaeth ac arddull cyfathrebu cyson. Adolygwyd ac addaswyd hyfforddiant a rhaglenni peilot wrth iddynt gael eu cyflwyno gydag adborth cadarnhaol iawn ac mae'r hyfforddiant hwn bellach yn cael ei ddefnyddio'n rheolaidd.

## Hyfforddiant rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy - ymgorffori'r egwyddorion

Rydym wedi rhoi rhaglen ddysgu ar waith i feithrin gallu staff i ddefnyddio'r ffyrdd o weithio a nodwyd yn Neddf yr Amgylchedd a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Drwy gyflawni cyrsiau deuddydd, gwnaeth staff o ar draws y sefydliad gyflwyno'u profiadau o ddefnyddio'r ffyrdd o weithio, gan archwilio ystyr y rhain yn fwy manwl. Ers i'r cyrsiau hyn ddechrau ym mis Medi

2017, mae 1,413 o aelodau staff wedi eu mynychu hyd yn hyn ac mae 93 bellach wedi cwblhau ac ennill yr achrediad Lefel 2 cysylltiedig gyda mwy i ddilyn.

Wrth i'n sefydliad ddatblygu o ran gwybodaeth am reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a'r naw egwyddor, a'r defnydd ohonynt, mae diddordeb staff mewn mynychu'r cyrsiau hyn a'r opsiwn i ennill achrediad wedi tyfu.

O ganlyniad i'r cyrsiau, mae gan staff ddealltwriaeth well am ein rôl a'n diben a sut mae rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn ymwneud â'u rolau priodol, yr heriau rydym yn dod ar eu traws wrth gymhwyso'r ffyrdd o weithio, a sut y gallwn eu goresgyn. Mae hyn yn ei dro'n caniatáu canlyniadau gwell i bobl ac amgylchedd Cymru.

## Diwrnod #TîmCyfoeth 2019

Ym mis Tachwedd 2019, cynhaliwyd ein hail gynhadledd flynyddol yn Aberystwyth - digwyddiad wedi'i ddylunio i ymgysylltu ac ysbrydoli ar draws ein sefydliad. Gwnaeth y digwyddiad ddathlu'r gwaith hanfodol rydym i gyd yn ei wneud, gan annog pawb i ddysgu oddi wrth ei gilydd wrth weithio tuag at reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yng Nghymru.

Over 700 hundred staff attended this Daeth dros 700 o aelodau staff eleni, gydag adborth yn dangos sut roedd pobl wir wedi gwerthfawrogi'r cyfle i ddod ynghyd â chydweithwyr ar draws ein sefydliad amrywiol i ddysgu a siarad am yr amrywiaeth eang o brosiectau a chyfrifoldebau sydd gennym a sut orau i gynnal a gwella'n hadnoddau naturiol.

Gyda sgysiau tîm a gweithdai diddorol, ac areithiau ysgogol gan ein prif weithredwr, eleni cawsom gwmni cyflwynydd y BBC Will Millard fel ein prif siaradwr ysbrydoledig, a siaradodd am sut mae gwaith Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyfrannu at lesiant. Unwaith eto, cawsom gwmni Richard Parks, yr anturiaethwr, a rhan o deulu estynedig

#TîmCyfoeth, i helpu i rannu'r stori o ba mor bwysig y mae adnoddau naturiol i Gymru a'i phobl.

Mae ein diwrnod #TîmCyfoeth yn mynd o nerth i nerth ac wedi dod yn ddigwyddiad allweddol gwerthfawr yn nyddiaduron ein holl staff ar gyfer datblygu a hyrwyddo'r ymdrechion rhagorol rydym oll yn eu gwneud.



**Clare Pillman**  
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

## Beth nesa?

Fel rhan o'n Cynllun Busnes ar gyfer 2020/21, rydym wedi cynnwys ein hymrwymiaidau cyflawni diweddaraf, gan gynnwys ymrwymiad i wneud y canlynol:

- Ymgorffori rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a'i egwyddorion, a phum ffordd o weithio Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ar draws ein sefydliad
- Sicrhau bod timau seiliedig ar leoedd yn ymgysylltu ag anghenion cymunedol gwahanol ac yn eu deall yn eu hardaloedd fel ein bod yn clywed ac yn deall y materion llawer yn well
- Cefnogi Llywodraeth Cymru wrth drosglwyddo swyddogaethau o'r UE i weinyddiaethau'r DU a Chymru
- Cyflawni llywodraethu da ar draws Cyfoeth Naturiol Cymru, gan sicrhau ein bod yn dilyn y drefn briodol a'n bod yn atebol am ein camau gweithredu
- Ymgorffori gwerthoedd ac ymddygiad #TîmCyfoeth yn y sefydliad

25 Tachwedd 2020

# Adroddiad Atebolrwydd

Mae ein Hadroddiad Atebolrwydd yn amlinellu nodweddion allweddol sut rydym yn rheoli ein sefydliad. Mae iddo dair adran.

Dros y tudalennau canlynol mae ein hadroddiad Llywodraethu Corfforaethol yn esbonio pwy yw ein Bwrdd a'n huwch dîm rheoli, sut maen nhw'n gweithio a'r trefniadau llywodraethu sydd ar waith i sicrhau rheolaeth a goruchwyliaeth effeithiol o'n hadnoddau i gyflawni ein hamcanion.

Mae ein Hadroddiad Tâl a Staff yn disgrifio sut rydym yn mynd i'r afael â chyflog y Bwrdd ac uwch reolwyr ynghyd â darparu trosolwg o gyfansoddiad ein niferoedd staff.

Mae ein Hadroddiad Atebolrwydd ac Archwilio Seneddol yn dwyn ynghyd ofynion ychwanegol y gofynnir amdanynt i ddangos ein hatebolrwydd i Lywodraethau'r DU a Chymru, rheoleiddra gwariant a'r farn derfynol gan ein Archwiliwr.



# Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol

## Adroddiad y Cyfarwyddwyr

Caiff y prif weithredwr ei chefnogi gan dîm o gyfarwyddwyr gweithredol a chyfarwyddwyr sy'n dod ynghyd i ffurfio'n Tim Gweithredol.

Rydym wedi gweld rhai newidiadau i'n Tîm Gweithredol eleni: gwnaeth Niall Reynolds, Cyfarwyddwr y Portffolio Trawsnewid, adael ym mis Ebrill 2019; gwnaeth Catherine Love, Cyfarwyddwr Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Gwybodaeth,

adael ym mis Mai 2019; gwnaeth Tim Jones, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau (Gogledd a Chanolbarth Cymru) adael ym mis Hydref 2019; a gwnaeth Kevin Ingram, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol adael ym mis Ebrill 2020.

Gwnaeth Prys Davies ddechrau fel ein Cyfarwyddwr Strategaeth a Datblygu Corfforaethol newydd ym mis Ebrill 2019 a daeth Gareth O'Shea yn Gyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau pan adawodd Tim Jones (yn flaenorol, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau (De Cymru) oedd Gareth).

Swydd	Deiliad y swydd	Hyd gwasanaeth yn y Tîm Gweithredol
Prif Weithredwr	Clare Pillman	26 Chwefror 2018 - presennol
Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu	Ceri Davies	1 Ebrill 2013 - presennol
Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol	Kevin Ingram	1 Ebrill 2013 - 9 Ebrill 2020
Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau (Gogledd a'r Canolbarth)	Tim Jones	1 Ebrill 2013 - 9 Hydref 2019
Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau (De) yna Gyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau	Gareth O'Shea	27 Ebrill 2015 - presennol
Cyfarwyddwr Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Gwybodaeth	Catherine Love (Smith gynt)	27 Ebrill 2014 - 31 Mai 2019
Cyfarwyddwr y Portffolio Trawsnewid	Niall Reynolds	1 Ebrill 2013 -30 Ebrill 2019
Cyfarwyddwr Strategaeth a Datblygu Corfforaethol	Prys Davies	1 Ebrill 2019 - presennol

Fe ymunodd dau gyfarwyddwr gweithredol newydd â ni ym mis Medi 2020: Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol, a Sarah Jennings, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol.

Mae Cofrestr Buddiannau ein Tîm Gweithredol fel yr oedd ym mis Chwefror 2020 wedi'i chynnwys yma.

Enw	Swydd	Buddiant	Unigolyn	Rôl
Clare Pillman	Prif Weithredwr	Aelodaeth weithredol neu anweithredol o fwrdd, pwyllgor neu ymddiriedolaeth	Personol	Aelod Bwrdd - Theatr Cenedlaethol Cymru
Ceri Davies	Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu	Aelodaeth weithredol neu anweithredol o fwrdd, pwyllgor neu ymddiriedolaeth	Personol	Aelod o Fwrdd Cyngori FLEXIS, sef prosiect Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru sy'n cefnogi ymchwil ynghylch ynni yng Nghymru.
Ceri Davies	Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu	Arall	Personol	Aelod o'r Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff
Prys Davies	Cyfarwyddwr Strategaeth a Datblygu Corfforaetho	Aelodaeth weithredol neu anweithredol o fwrdd, pwyllgor neu ymddiriedolaeth	Personol	Llywodraethwr ysgol, Ysgol Pen-cae, Caerdydd
Kevin Ingram	Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol	Cyflogaeth, crefft, proffesiwn neu alwedigaethau â thâl	Priod	Swyddog cyfreithiol yn Ymddiriedolaeth Adar Gwyllt a Gwlyptiroedd
Gareth O'Shea	Cyfarwyddwr Gweithredol	Aelodaeth weithredol neu anweithredol o fwrdd, pwyllgor neu ymddiriedolaeth	Personol	Aelod o banel ariannu annibynnol yn ardal Merthyr Tudful i sgorio ceisiadau prosiect ar ran y rhaglen Buddsoddi'n Lleol a ariennir gan yr UE ac argymell i grŵp llywio ar addasrwydd prosiectau

Mae'r Gofrestr Buddiannau ar gyfer aelodau ein Bwrdd ar gael ar ein gwefan <https://naturalresources.wales/about-us/our-chair-and-board/members-of-our-board/?lang=cy>



Clare Pillman  
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

25 Tachwedd 2020

# Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

Mae paragraff 23 (1) o'r Atodlen i Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012 yn gofyn i Cyfoeth Naturiol Cymru gynhyrchu datganiad o gyfrifon bob blwyddyn ariannol, ar y ffurf a'r sail a nodir yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon. Caiff y cyfrifon eu paratoi ar ffurf croniadau, a rhaid iddynt roi darlun gwir a theg o sefyllfa Cyfoeth Naturiol Cymru ac o'r incwm a gwariant, y newidiadau yn ecwiti trethdalwyr, a'r llifoedd arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, rhaid i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth a gwneud y canlynol:

- cadw at y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Drysorlys ei Mawrhydi, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a chymhwyso polisïau cyfrifyddu priodol yn gyso
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon rhesymol
- nodi a ddilynwyd y safonau cyfrifyddu perthnasol a nodwyd yn y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol, a datgelu ac egluro unrhyw amrywiadau materol yn y datganiadau ariannol
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes hyfyw
- cadarnhau nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad oedd archwilwyr Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymwybodol ohoni, a chymryd pob cam i wneud ei hunan yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol a sicrhau bod archwilwyr Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymwybodol o'r wybodaeth honno
- cadarnhau bod yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy, a chymryd cyfrifoldeb personol amdanynt ac am y dyfarniadau sydd eu hangen i bennu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Mae Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol Llywodraeth Cymru wedi dynodi Prif Weithredwr Cyfoeth Naturiol Cymru fel ei Swyddog Cyfrifyddu. Cyfrifoldebau'r Prif Weithredwr, fel Swyddog Cyfrifyddu, yw sicrhau priodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'n atebol amdano; cadw cyfrifon priodol; gweinyddu mewn modd darbodus ac economaidd; osgoi gwastraff a gorwario; a sicrhau bod yr holl adnoddau'n cael eu defnyddio mewn modd effeithlon ac effeithiol, fel y nodwyd yn y Memorandwm ar gyfer Swyddog Cyfrifyddu Cyfoeth Naturiol Cymru.

# Datganiad Llywodraethu

Mae'r datganiad hwn yn nodi'r strwythurau llywodraethu, y rheolaethau mewnol a'r fframweithiau sicrwydd sydd wedi bod ar waith yn Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystod blwyddyn ariannol 2019/20 ac mae'n dilyn y canllawiau a geir gan Drysorlys ei Mawrhydi ac yn nogfen Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru.

Fel y Swyddog Cyfrifyddu dynodedig i Cyfoeth Naturiol Cymru, fy rôl hefyd yw diogelu arian cyhoeddus ac asedau sefydliadol drwy roi trefniadau ar waith ar gyfer llywodraethu ein materion ac arfer ein swyddogaethau mewn modd effeithiol. Gallaf gadarnhau fod yr wybodaeth yn ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon yn gyfrif cywir a theg o sut mae'r sefydliad wedi cyflawni ei swyddogaethau eleni. Gallaf hefyd gadarnhau nad oes unrhyw wybodaeth sy'n weddill sydd wedi dod i'm sylw nag yr wyf yn ymwybodol ohoni nad yw wedi cael ei dwyn i sylw Archwilio Cymru.

## Ein strwythur llywodraethu

Mae ein strwythur sefydliadol yn dangos sut rydym wedi cael ein sefydlu i weithio ac i gyflawni ein hamcanion.

Caiff aelodau ein Bwrdd eu penodi gan Weinidogion Cymru yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Penodiadau gan Weinidogion i Gyrff Cyhoeddus, ac felly mae ein cadeirydd yn atebol i Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig yn Senedd Cymru.

Ar hyn o bryd, mae gennym 13 o aelodau Bwrdd a delir, wedi'u harwain gan ein cadeirydd, ynghyd ag 11 o aelodau anweithredol a fi fel aelod gweithredol o'r Bwrdd. Ym mis Medi 2019, penodwyd Syr David Henshaw fel ein cadeirydd am bedair blynedd arall ar ôl ein harwain am y deuddeg mis diwethaf mewn swyddogaeth dros dro yn dilyn ymddiswyddiad ein cadeirydd blaenorol


yn 2018. Mae'r Athro Steve Ormerod hefyd wedi'i benodi'n Ddirprwy Gadeirydd Cyfoeth Naturiol Cymru ac mae Julia Cherrett wedi cael ei phenodi fel uwch-gyfarwyddwr annibynnol. Mae'r rôl uwch-gyfarwyddwr annibynnol wedi cael ei chyflwyno i gefnogi'r cadeirydd yn ei rôl, i weithredu fel cyfryngwr ar gyfer cyfarwyddwyr anweithredol eraill pan fo'n briodol, i arwain y cyfarwyddwyr anweithredol wrth oruchwylio'r cadeirydd, ac i sicrhau bod cyfrifoldebau'n cael eu rhannu'n glir rhwng y cadeirydd a'r prif weithredwr. Ni fu unrhyw newidiadau ychwanegol i aelodau ein Bwrdd eleni.

I gyflawni ein dyletswyddau, rydym yn cwrdd fel Bwrdd llawn ac mae gwaith craffu ychwanegol yn cael ei wneud gan bum pwyllgor. Mae ein Tîm Gweithredol yn darparu diweddariadau strategol a gweithredol i'n Bwrdd a'n pwyllgorau yn ôl y gofyn fel rhan o'r broses graffu a gwneud penderfyniadau. Rydym wrthi'n creu chweched pwyllgor i graffu ar ein gwaith tystiolaeth, mae aelodau wedi eu penodi a bydd cyfarfodydd ffurfiol yn cychwyn cyn bo hir.

Heblaw am Bwyllgor Cynghori ar Dystiolaeth caiff pob pwyllgor ei gadeirio gan aelod o'r Bwrdd ac mae'n cynnwys o leiaf tri aelod anweithredol arall o'r Bwrdd. Mae gan ein cadeirydd wahoddiad agored i ddod i gyfarfodydd pwyllgorau mewn swyddogaeth heb bleidlais. Nid oes gennym Bwyllgor Enwebu gan fod ein haelodau'n cael eu penodi gan Weinidogion Cymru. Mae'r adrannau canlynol yn amlinellu'r meysydd gwaith ffocws a phresenoldeb yng nghyfarfodydd ein Bwrdd a'n pwyllgorau.



Enw	Cyfnod	Dyddiad dechrau	Dyddiad gorffen cyfredol
Sir David Henshaw (Cadeirydd)	1	1 Tachwedd 2018	31 Hydref 2023
Yr Athro Steve Ormerod	1	1 Tachwedd 2018	31 Hydref 2022
Karen Balmer	2	9 Tachwedd 2015	8 Tachwedd 2022
Chris Blake	2	9 Tachwedd 2015	21 Awst 2021
Catherine Brown	1	1 Tachwedd 2018	31 Hydref 2022
Julia Cherrett	1	1 Tachwedd 2018	31 Hydref 2021
Geraint Davies	1	1 Ionawr 2019	31 Hydref 2024
Howard Davies	2	9 Tachwedd 2015	31 Awst 2021
Elizabeth Haywood	2	9 Tachwedd 2015	31 Awst 2021
Zoe Henderson	2	9 Tachwedd 2015	8 Tachwedd 2022
Dr Rosie Plummer	1	1 Tachwedd 2018	31 Hydref 2021
Yr Athro Peter Rigby	1	1 Tachwedd 2018	31 Hydref 2021



## Cyfarfodydd y Bwrdd

Gwnaethom gynnal chwe chyfarfod deuddydd a dau ddiwrnod datblygu ledled Cymru eleni. Mae eitemau sefydlog ar ein hagenda yn cynnwys y canlynol: adroddiadau ar gyllid a pherfformiad yn ystod y flwyddyn, yr ymateb i adael yr Undeb Ewropeaidd, yr ymateb i'r argyfyngau yn yr hinsawdd ac ym myd natur, a diweddariadau strategol a gweithredol gan y cadeirydd, y prif weithredwr a'r pwyllgorau.

Rydym yn cyhoeddi ystod eang o wybodaeth ynghylch ein gwaith ar ein gwefan, gan gynnwys papurau i'w hystyried gan y Bwrdd cyn y cyfarfodydd hynny a gynhelir yn gyhoeddus. Mae papurau Bwrdd yn cael eu paratoi gan ddefnyddio'r dystiolaeth ddiweddaraf sydd ar gael ac yn destun gwaith craffu a chymeradwyo mewnol cyn cyfarfodydd y Bwrdd.

Mae holl ddyddiadau cyfarfodydd yn y dyfodol, ac agendâu blaenorol, ar gael

ar ein gwefan, yn ogystal â'r papurau a'r cofnodion o'n sesiynau cyhoeddus.

Mae ein Bwrdd a'n pwyllgorau wedi parhau i gwrdd drwy gydol cyfyngiadau symud COVID-19 dros Skype. Mae sesiynau wedi bod yn fyrrach ac â mwy o ffocws er mwyn gallu mynd i'r afael â busnes y dydd. Oherwydd y cyfyngiadau symud, nid ydym wedi gallu cwrdd yn gyhoeddus. I ddechrau, y rheswm dros hyn oedd cyflymdra'r newid ac addasu i'r trefniadau newydd ond ers mis Medi rydym wedi cynnal cyfarfodydd rhithwir gan alluogi'r cyhoedd i'w gweld. Mae'r diffyg cyfarfodydd wyneb yn wyneb wedi golygu nad yw'r Bwrdd wedi gallu symud o amgylch rhanbarthau gwahanol yng Nghymru fel sy'n digwydd fel arfer, na chynnig sesiynau ymgysylltu â rhanddeiliaid fel a gynlluniwyd. Ymgysylltu allanol yw un o elfennau ein gwaith yr effeithiwyd arni fwyaf, gan arwain at oedi mewn rhaglenni ymgysylltu a hyfforddi ar raddfa fawr.

## Presenoldeb aelodau Bwrdd 2019/20

Enw	Presenoldeb yn y cyfarfod	Presenoldeb ar ddiwrnodau datblygu
Syr David Henshaw (Cadeirydd)	6/6	2/2
Yr Athro Steve Ormerod	6/6	2/2
Karen Balmer	5/6	2/2
Chris Blake	5/6	2/2
Catherine Brown	4/6	2/2
Julia Cherrett	6/6	2/2
Geraint Davies	6/6	2/2
Howard Davies	4/6	2/2
Elizabeth Haywood	5/6	1/2
Zoe Henderson	6/6	2/2
Dr Rosie Plummer	5/6	2/2
Yr Athro Peter Rigby	5/6	2/2
Clare Pilman (Prif Weithredwr)	6/6	2/2

### Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

Prif rôl y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yw cynghori'r Bwrdd a chynorthwyo'r Swyddog Cyfrifyddu yn y gwaith o fonitro, craffu a herio'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer archwilio, llywodraethu, rheolaethau mewnol a rheoli risg. Eleni, gwnaeth Catherine Brown ddisodli Karen Balmer fel cadeirydd y pwyllgor hwn. Mae'r prif weithredwr yn mynychu pob cyfarfod fel Swyddog Cyfrifyddu Cyfoeth Naturiol Cymru, ynghyd â'n Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol.

Daeth Syr David Henshaw i ddau gyfarfod eleni mewn swyddogaeth heb bleidlais. Mae aelodau'r Tîm Gweithredol bellach yn mynychu'r pwyllgor i drafod unrhyw adroddiadau archwilio sicrwydd

cyfyngedig. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg bellach wedi cytuno i gwrdd bob deufis yn hytrach na phob chwarter i sicrhau y ceir gwaith craffu a goruchwyllo priodol.

Y flwyddyn hon, rhoddodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg sylw i amrediad o faterion, gan gynnwys y canlynol:

- Craffu'n barhaus ar Adroddiad Blynnyddol a Chyfrifon 2015/16 gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
- Grant Thornton: Adroddiad Llywodraethu Gwerthiannau Pren
- Gwelliannau i'n dull o reoli risg
- Cynllun Archwilio Mewnol 2019/20
- Adroddiad Blynnyddol a Chyfrifon 2018/19 a chynlluniau ar gyfer yr adroddiad hwn, 2019/20
- Rheolaethau mewnol seiberddiogelwch

## Presenoldeb aelodau'r Bwrdd mewn cyfarfodydd o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn 2019/20

Enw	Nifer y cyfarfodydd	Nifer y cyfarfodydd llawn a fynychwyd
Catherine Brown (Cadeirydd)	5	5
Karen Balmer	5	5
Rosie Plummer	5	4
Peter Rigby	5	5

### Pwyllgor Pobl a Chyflogau

Mae'r Pwyllgor Pobl a Chyflogau yn ystyried materion sy'n ymwneud â rheoli pobl, taliadau a newid sefydliadol. Mae hyn yn cynnwys goruchwyllo tâl ac amodau cyflogaeth staff ar y lefel uchaf, strategaeth dâl gyffredinol ar gyfer yr holl staff a gyflogir gan Cyfoeth Naturiol Cymru, darparu cynllun pensiwn, cynllunio'r sefydliad, llesiant, iechyd a diogelwch, gofal cwsmeriaid, cydraddoldeb ac amrywiaeth, a datblygu cynllun y Gymraeg. Mae'r prif weithredwr yn mynychu pob cyfarfod.

Aeth y pwyllgor i'r afael ag amrywiaeth o faterion yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys y canlynol:

- Gweithredu rhaglen Cynllunio'r Sefydliad a chau'r prosiect
- Llesiant, iechyd a diogelwch ac Adolygiadau o Ddigwyddiadau Difrifol
- Craffu ar bolisiau rheoli pobl arfaethedig, e.e. adolygu lwfansau
- Tâl cyfarwyddwyr

## Presenoldeb aelodau'r Bwrdd mewn cyfarfodydd o'r Pwyllgor Pobl a Chyflogau yn 2019/20

Enw	Nifer y cyfarfodydd	Nifer y cyfarfodydd llawn a fynychwyd
Zoe Henderson (Cadeirydd)	4	4
Karen Balmer	4	3
Howard Davies	4	3
Julia Cherrett	4	3

## Pwyllgor Cyllid, Cynllunio a Pherfformiad

Dechreuodd y Pwyllgor Cyllid, Cynllunio a Pherfformiad gwrdd yn ffurfiol eleni, gan ddod â gwaith sawl is-grŵp y Bwrdd ynghyd a wnaeth graffu elfennau gwaith cyn cyfarfodydd Bwrdd llawn. Mae'r pwyllgor yn darparu cyngor, trosolwg a gwaith craffu ar strategaeth, rheolaeth a pherfformiad mewn perthynas â chyllid, cynllunio a pherfformiad busnes, cynlluniau codi tâl, a materion masnachol. Wrth gyflawni ei rôl, mae'r Pwyllgor Cyllid, Cynllunio a Pherfformiad yn

canolbwyntio ar gyfeiriad a datblygiad strategol, ond bydd hefyd yn chwarae rôl wrth graffu perfformiad a chyflawniad.

Eleni, gwnaeth y pwyllgor ystyried y canlynol:

- Monitro perfformiad ariannol yn ystod y flwyddyn
- Gosod y gyllideb ar gyfer 2020/21
- Cynllun Busnes 2020/21
- Datbygu'r Dangosfwrdd Perfformiad ar gyfer 2020/21
- Rhaglen Adolygiad Strategol o Daliadau

## Presenoldeb aelodau'r Bwrdd mewn cyfarfodydd o'r Pwyllgor Cyllid, Cynllunio a Pherfformiad yn 2019/20

Enw	Nifer y cyfarfodydd	Nifer y cyfarfodydd llawn a fynychwyd
Chris Blake (Cadeirydd)	6	6
Julia Cherrett	6	6
Elizabeth Haywood	6	6
Rosie Plummer	6	6

## Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig

Mae'r Bwrdd wedi dirprwyo ei gyfrifoldebau statudol mewn perthynas â deddfwriaeth sy'n ymwneud â chadwraeth natur a thirweddau gwarchodedig i'r Pwyllgor Ardaloedd

Gwarchodedig. Mae aelodau'r Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig hefyd yn cefnogi'r weithrediaeth a'r Bwrdd llawn drwy ddarparu cyngor ar faterion a gwaith achos strategol ehangach sy'n ymwneud ag ardaloedd gwarchodedig.

## Presenoldeb aelodau'r Bwrdd mewn cyfarfodydd o'r Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig yn 2019/20

Enw	Nifer y cyfarfodydd	Nifer y cyfarfodydd llawn a fynychwyd
Howard Davies (Cadeirydd)	1	1
Geraint Davies	1	1
Elizabeth Haywood	1	1
Zoe Henderson	1	1
Rosie Plummer	1	1



## Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd (grŵp cynghori gynt)

Mae'r pwyllgor yn gynghorol ac mae'n adrodd i Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru. Ei brif gyfrifoldebau yw craffu ar raglenni buddsoddi presennol ar gyfer rheoli perygl llifogydd a rhai ar gyfer y blynyddoedd i ddod, ac ystyried materion allweddol a allai effeithio ar gyflawni gwaith sy'n ymwneud â rheoli perygl llifogydd yng Nghymru. Ym mis Mai 2020, gwnaeth Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru gymeradwyo cais i'r grŵp newid ei enw er mwyn cyd-daro â phwyllgorau Bwrdd eraill.

Mae'r pwyllgor yn cynnwys pedwar aelod anweithredol o'r Bwrdd ynghyd â'r Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol, y Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth,

Polisi a Thrwyddedu, y Pennaeth Rheoli Perygl Llifogydd a Digwyddiadau, a'r Pennaeth Cyllid.

Gwnaeth y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd adolygu meysydd a oedd yn cynnwys:

- blaenoriaethu gweithgareddau rheoli perygl ll
- llywodraethu'r rhaglen gyfalaf ar gyfer rheoli perygl llifogydd
- y cynllun tymor canolig diweddaraf ar gyfer ein rhaglen gyfalafe
- y dangosyddion perfformiad cyfredol sy'n ymwneud â chyflwr yr asedau perygl llifogydd a gedwir gan Cyfoeth Naturiol Cymru
- ardrethi a phraeseptau Ardaloedd Draenio Mewnol ar gyfer 2020/21

## Presenoldeb aelodau'r Bwrdd mewn cyfarfodydd o'r Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd yn 2019/20

Enw	Nifer y cyfarfodydd	Nifer y cyfarfodydd llawn a fynychwyd
Elizabeth Haywood (Cadeirydd)	3	3
Chris Blake	3	2
Julia Cherrett	3	3

## Effeithiolrwydd y Bwrdd

Yn dilyn cyfnod sefydlu i aelodau Bwrdd newydd, mae aelodau ein Bwrdd wedi ymgymryd â dwy sesiwn ddatblygu ym mis Rhagfyr 2019 a mis Ionawr 2020 i ystyried eu heffeithiolrwydd a'u ffyrdd o weithio eu hunain. Roedd un o'r rhain yn sesiwn wedi'i hwyluso i gytuno ar ba welliannau a allai gael eu gwneud o ran ffyrdd o weithio gyda'r Tîm Gweithredol, a wnaeth ymgymryd â'r un ymarfer. Mae'r syniadau wedi cael eu nodi a bydd mwy o gydweithio'n digwydd yn hwyrach yn y flwyddyn. Cafodd proses 360 hefyd ei dylunio a'i gweithredu i gasglu adborth i aelodau'r Bwrdd ac mae ein cadeirydd yn gweithio gydag aelod o'n Bwrdd ar sut orau i ddefnyddio'r adborth hwnnw i ddatblygu effaith y Bwrdd, yn unigol ac ar y cyd, ymhellach. Mae ein cadeirydd hefyd wedi cwblhau arfarniadau perfformiad gyda holl aelodau'r Bwrdd.

## Ein gweithrediaeth


Caiff y gwaith o reoli ein sefydliad o ddydd i ddydd ei gyflawni drwy'r Tîm Gweithredol, sy'n fy nghynnwys i fel y prif weithredwr a phum cyfarwyddwr gweithredol a chyfarwyddwyr sy'n atebol i mi. Mae'r Tîm Gweithredol yn cwrdd yn fisol i ystyried busnes corfforaethol craidd fel diweddariadau i'r gyllideb, gwybodaeth am berfformiad, llesiant, iechyd a diogelwch, y gofrestr risg strategol, trefniadau noddi Llywodraeth

Cymru ac ati. Mae hefyd yn craffu ac yn ystyried penderfyniadau sy'n ymwneud â materion strategaeth, polisi a gweithredol. Mae ein hagendâu a'n cofnodion yn cael eu cyhoeddi ar y fewnwyd bob mis i'r holl staff eu darllen.

Rydym yn llunio cynllun busnes blynyddol sy'n amlinellu'r camau y byddwn yn eu cymryd tuag at fodloni ymrwymadau yn ein Cynllun Corfforaethol tymor hwy hyd at 2022. Mae hyn yn cynnwys targedau a chanlyniadau corfforaethol yr ydym yn monitro cyflawniad yn eu herbyn. Caiff gwybodaeth reoli fanwl ei hadolygu'n fisol yng nghyfarfodydd y Tîm Gweithredol gyda chrynodeb o'r Dangosfwrdd Perfformiad Corfforaethol yn cael ei adolygu cyn i Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru graffu arno bob chwarter.

Nid oeddem wedi cyhoeddi ein Cynllun Busnes blynyddol eto ar gyfer 2020/21 pan weithredwyd cyfyngiadau symud sylweddol, felly rydym wedi cytuno gyda Llywodraeth Cymru i oedi cyhoeddi ein cynllun cyflawni nes ei adolygu yng ngoleuni COVID-19. Fe gyhoeddwyd y cynllun diwygiedig hwn ym mis Tachwedd 2020.

Rydym wedi gweithio ar y cyd gydag 11 o gyrff cyhoeddus eraill i ddatblygu Cynllun Cydraddoldeb Strategol a rennir a rhagwelir y bydd yn cael ei chwblhau



o fewn yr amserlenni dymunol. Ochr yn ochr â hyn, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn trosi'r amcanion a rennir yn Gynllun Cydraddoldeb Strategol sy'n benodol i Cyfoeth Naturiol Cymru, gan sicrhau bod canlyniadau clir ar waith. Er ein bod wedi cael cynllun gweithredu ar waith ar gyfer 2020/21, mae COVID-19 wedi cael effaith ar ein gallu i gyflawni'r amcanion hynny yn y tymor byr, yn arbennig o ran gweithredu amcanion sy'n ymwneud ag ymgysylltu â'r gymuned.

Islaw ein Tîm Gweithredol, mae ein Tîm Arwain yn chwarae rôl arweiniol wrth reoli'r busnes o ddydd i ddydd. Aelodau'r tîm yw'r holl bennaethiaid adrannau sy'n atebol i'r Tîm Gweithredol, gan gynnwys y rheiny yn ein swyddogaethau corfforaethol (fel Cyllid, Adnoddau Dynol, Cyfathrebu). Mae Grŵp y Tîm Arwain yn cwrdd yn fisol i ddatrys materion trawsbynciol, fel y gwaith cychwynnol o amgylch blaenoriaethau'r gyllideb, ac i adolygu perfformiad manwl, fel ein gwytodaeth reoli fisol.

Mae ein strwythur newydd yn pwysleisio cyflawni sy'n seiliedig ar leoedd: mae saith Pennaeth Lle o fewn y Gyfarwyddiaeth Gweithrediadau unigol yn goruchwyllo'r gwaith o gyflawni ein holl swyddogaethau, bob un mewn rhanbarth penodol yng Nghymru. Yna mae gennym Bennaethiaid Gwasanaeth enwebedig (y mae pob un ohonynt yn Bennaeth Lle hefyd) sy'n arwain wrth oruchwyllo'r gwaith o gyflawni swyddogaeth benodol ledled Cymru. Mae'r Pennaethiaid Gwasanaeth yn gweithio'n agos gyda'n harweinwyr polisi - o'r enw Pennaethiaid Busnes - sy'n goruchwyllo cyfeiriad strategol ein gwaith ledled Cymru.

Er mwyn sicrhau bod y gwaith o feddwl yn strategol a chyflawni'n weithredol yn cael ei gydlynu, mae gennym gyfres o Fyrddau Busnes sy'n nodi'r gofynion polisi ac sy'n cynllunio natur weithredol ein gwaith ar draws y strwythur seiliedig

ar leoedd newydd. Mae pob un o'r rhain yn cael ei arwain gan ein Pennaeth Busnes / Pennaeth Gwasanaeth.

Rydym yn ffodus nad yw absenoldeb o ganlyniad i COVID-19 wedi bod yn broblem sylweddol. Fodd bynnag, gwnaethom roi cynlluniau parhad busnes ar waith i sicrhau parhad gwaith unigolion allweddol, e.e. y cadeirydd a'r prif weithredwr, neu i fynd i'r afael ag absenoldebau lluosog a gytunwyd â Llywodraeth Cymru.

Fel ymatebwr Categori 1 o dan Ddeddf Argyfyngau Sifil 2004, rydym yn brofiadol o ran ymateb i ddigwyddiadau a allai effeithio ar sawl rhan o'r sefydliad. I ddechrau, gwnaethom drin ein hymateb i COVID-19 fel digwyddiad. Gwnaethom sefydlu'r Grŵp Adfer ac Ymateb i Ddigwyddiadau, er iddo gael ei gadeirio'r tro hwn gan y prif weithredwr gyda chynrychiolaeth o ar draws y sefydliad, i fynd i'r afael â newidiadau a threfniadau angenrheidiol drwy is-grwpiau perthnasol gwrdd yn ddyddiol, gan adolygu parhad a chydnerthedd busnes ar draws ein gweithgareddau. Roeddem hefyd yn rhagweld effeithiau posib ar ein cwsmeriaid a'n cyflenwyr ac yn chwilio i addasu ein dull lle y bo'n bosib i'w cefnogi, e.e. newid telerau talu ac ati. Wrth i ni weithio drwy gamau cychwynnol effeithiau'r pandemig, gwnaeth y grŵp symud tuag at ystyried effeithiau tymor hwy ar ein gwaith strategol.

## Cyfarwyddiadau Gweinidogol

Nid ydym wedi derbyn unrhyw Gyfarwyddiadau Gweinidogol eleni.

## Ein fframwaith rheoli mewnol

Mae ein fframwaith rheoli mewnol yn cynnwys polisiau, gweithdrefnau, mesurau ac achrediadau rydym wedi'u rhoi ar waith i ddiogelu ein hadnoddau wrth inni gyflawni'n hamcanion.

Mae cyflymder y newidiadau i addasu i gyfyngiadau'r pandemig wedi bod yn gyflym ond dan reolaeth hefyd. Mae ein rheolaethau ariannol allweddol o fewn systemau awtomatig a'n cynlluniau dirprwyo i sicrhau bod dyletswyddau'n cael eu gwahanu'n briodol yn parhau i fod ar waith. Lle roedd newidiadau sylweddol wedi cael eu gweithredu, nodwyd rheolaethau newydd, e.e. i reoli mwy o weithio gartref a gweithio gartref yn barhaus, gofynnwyd i reolwyr gynnal rhestrau asedau TGCh o eitemau ychwanegol a aethpwyd â nhw adref i gefnogi gwaith staff.

### Rheoli risg

Mae fframwaith rheoli risg cadarn yn elfen gadarnhaol wrth reoli ein busnes ac wrth ddiogelu ein hadnoddau a'n henw da. Eleni, rydym wedi rhoi llawer o ymdrech i mewn i wella'n fframwaith rheoli risg, gan adeiladu ar adolygiad allanol gan PricewaterhouseCoopers (PwC). Rydym wedi penodi Rheolwr Risg newydd, sydd wedi bod yn gweithio gyda'r Tîm Gweithredol i ddatblygu'r fframwaith, gyda chefnogaeth PwC. Mae gwelliannau sylweddol wedi cael eu gwneud i'r gwaith o reoli ac adrodd am risgiau, gan gynnwys y fformat a'r gwaith monitro, ac rydym wedi cael sawl trafodaeth ystyrion yng nghyfarfodydd y Tîm Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.

Mae'r Bwrdd wedi cytuno ar yr egwyddorion rheoli risg, ac mae'r Tîm Gweithredol wedi cytuno ar y polisi a fframwaith rheoli risg. Yn ogystal â nodi'n fanwl y ffordd y dylai risgiau gael eu rheoli a'r rolau a chyfrifoldebau, mae'r polisi hefyd yn rhoi arweiniad clir ar sut y caiff risgiau eu huwchgyfeirio. Mae'r

Tîm Gweithredol yn berchen ar y gofrestr risg strategol gyda chyfarwyddwr yn berchen ar bob risg strategol. Islaw'r Tîm Gweithredol, bydd pob Pennaeth Lle a Phennaeth Busnes yn berchen ar risgiau penodol ac yn eu monitro, gan gael ei graffu a'i herio gan y Bwrdd Busnes perthnasol, a bydd Grŵp ein Tîm Arwain yn archwilio materion trawsbynciol ac yn penderfynu ar ba risgiau i'w huwchgyfeirio i'r gofrestr risg strategol.

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn craffu ar y gofrestr risg strategol drwy adolygu a herio camau gweithredu a gymerir gan reolwyr i reoli risgiau. Mae'n ennill sicrwydd ar effeithiolrwydd y fframwaith rheoli risg ac yn rhoi cyngor i'r Bwrdd er mwyn iddo sicrhau ei hunan ar effeithiolrwydd y fframwaith rheoli risg. Gallai'r sicrwydd gynnwys adroddiadau at wraidd risgiau strategol neu ddiweddariadau sylweddol yn sgil monitro risgiau.

Bydd y Bwrdd yn gosod ac yn cyfleu awydd y Bwrdd am risg yn 2020/2, gan gynnwys adolygiadau blynyddol i sicrhau bod hwn yn parhau i fod yn briodol.

Mae rhai meysydd o'r sefydliad yn fwy datblygedig o ran rheoli eu risgiau na rhai eraill. Cafodd rhaglen hyfforddi ei sefydlu yn 2020/21 ar gyfer staff sy'n gysylltiedig â'r gwaith o reoli risg.

### Sicrwydd gwybodaeth

Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod data a gwybodaeth yn cael eu llywodraethu a'u rheoli'n dda a'u bod yn parhau i gyflawni cydbwysedd rhwng bod yn agored a diogelwch, gan sicrhau bod staff a chwsmeriaid yn cael eu sicrhau am lefelau diogelwch priodol. Mae'r Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth yn parhau i arwain rhaglen integredig o waith i gryfhau ein hymateb mewn perthynas â gwydnwch yn erbyn bygythiadau seiberddiogelwch a gwybodaeth. Unwaith eto, rydym wedi ennill ein hachrediad Cyber Essential Plus blynyddol, sy'n cael ei gymeradwyo gan y Ganolfan Seiberddiogelwch



Genedlaethol a'i harchwilio'n annibynnol gan arbenigwr trydydd parti cymwys. Byddwn yn parhau i gyflawni rhaglen seiberddiogelwch o waith yn seiliedig ar ein strategaeth seiber ddiweddar. Bydd hon yn cynnwys mentrau ar gyfer gwella ymwybyddiaeth staff, gan gynnwys sesiynau wyneb yn wyneb a hyfforddiant seiberddiogelwch ar-lein.

Eleni, roeddwn yn falch na chawsom unrhyw doriadau gwybodaeth yr oedd yn rhaid eu hadrodd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Mae gennym gyrsiau dysgu blynyddol ar-lein sy'n orfodol i staff ar y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a diogelwch gwybodaeth i sicrhau bod pawb yn ymwybodol ac yn gwybod y diweddaraf am sut rydym yn rheoli'r wybodaeth rydym yn ei derbyn a'i chadw.

#### Nifer yr achosion yr adroddwyd amdanynt i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

2019/20	2018/19	2017/18
0	1	1

### Datganiad o fuddiant

Mae ein polisi a'n canllawiau Rheoli Gwrthdaro Buddiannau yn cefnogi'r holl staff a'r Bwrdd gyda'n proses barhaus i ddatgan unrhyw fuddiannau personol i'n helpu i reoli unrhyw wrthdaro posibl neu ganfyddedig â'u rolau proffesiynol.

### Chwythu'r chwiban

Rydym yn ymrwymedig i'r safonau uchaf o ran uniondeb, atebolrwydd a bod yn agored. Felly, rydym wedi sefydlu mesurau i godi pryderon difrifol am gamymddwyn neu amhrioldeb.

Gwnaethom ymgymryd ag adolygiad o'n polisi a'n gweithdrefnau chwythu'r chwiban eleni, gan eu hail-lansio i'n staff.

Mae ein fframwaith bellach yn cynnwys mynediad i linell adrodd allanol newydd lle mae modd codi pryderon yn ddiennw O 2020/21, daeth Cyfoeth Naturiol Cymru yn 'berson rhagnodedig'. Cawsom ein hychwanegu at restr o sefydliadau ac unigolion y gall gweithiwr fynd atynt y tu allan i'w weithle i adrodd am gamarfer tybiedig neu'n hysbys.

#### Nifer yr achosion yr adroddwyd amdanynt

2019/20	2018/19	2017/18
2	0	0

### Twyll

Caiff ein Strategaeth Atal Twyll ei chefnogi gan bolisiau ac asesiadau risg ar gyfer gwrth-dwyll a gwrth-lwgrwobrwyo a llygredigaeth i strwythuro sut rydym yn ffocysu ein gwaith yn y maes hwn. Mae gennym gyrsiau dysgu blynyddol ar-lein sy'n orfodol i staff ar wrth-dwyll a gwrth-lwgrwobrwyo a llygredigaeth i sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau proffesiynol.

Rydym wedi derbyn saith honiad o dwyll, yr ymdriniwyd â hwy yn unol â phroses gwrth-dwyll, llwgrwobrwyo a llygredigaeth Cyfoeth Naturiol Cymru. Adroddwyd am y rhain gerbron ein Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ac maent wedi cael eu trin gan ddefnyddio gweithdrefnau cytunedig, naill ai gan ymchwilyr mewnol hyfforddedig neu ymchwilyr allanol sydd wedi derbyn hyfforddiant tebyg. Caiff yr adroddiad terfynol ar bob achos ei gyfeirio i banel o uwch-staff annibynnol.

Rydym wedi derbyn saith honiad o dwyll, yr ymdriniwyd â hwy yn unol â phroses gwrth-dwyll, llwgrwobrwyo a llygredigaeth Cyfoeth Naturiol Cymru. Adroddwyd am y rhain gerbron ein Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ac maent wedi cael eu trin gan ddefnyddio gweithdrefnau cytunedig, naill ai gan

ymchwilwyr mewnol hyfforddedig neu ymchwilwyr allanol sydd wedi derbyn hyfforddiant tebyg. Caiff yr adroddiad terfynol ar bob achos ei gyfeirio i banel o uwch-staff annibynnol.

Nifer yr honiadau yr adroddwyd amdanynt		
2019/20	2018/19	2017/18
7	23	14

### Cydymffurfio â Chod Llywodraethu Corfforaethol y Deyrnas Unedig

Rydym wedi cwblhau adolygiad sylfaenol ac wedi sicrhau bod ein strwythur, ein polisiau a'n gweithdrefnau sefydliadol yn unol â Chod Llywodraethu Corfforaethol y DU.

Mae ein harweinyddiaeth yn gyson gyda rolau a chyfrifoldebau uwch-reoli disgwylidig; mae gweithdrefnau cefnogol ar waith i sicrhau y gall rolau'r Bwrdd weithredu'n effeithiol; mae ein llwybrau adrodd yn glir i sicrhau atebolrwydd, bod dyletswyddau wedi cael eu rhannu'n briodol, a bod rheolaethau mewnol allweddol ar waith; caiff taliadau cydnabyddiaeth

i uwch-staff eu hystyried gan aelodau anweithredol i sicrhau annibyniaeth; ac rydym yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda'n rhanddeiliaid allweddol i feithrin perthnasoedd gwaith adeiladol.

Y flwyddyn nesaf, rydym yn bwriadu ymgymryd ag adolygiad mwy cynhwysfawr fel rhan o'n Cynllun Llywodraethu a Gwella Risg.

### Ein fframwaith sicrwydd

Mae ein fframwaith sicrwydd yn cynnwys y mesurau canlynol sydd ar waith i sicrhau fy mod yn derbyn tystiolaeth amserol i ddangos bod y rheoliadau gofynnol ar waith ac yn gweithio'n briodol.

### Archwilio mewnol

Mae gennym dîm Archwilio Mewnol sy'n gweithredu yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Bob blwyddyn, caiff cynllun archwilio blynyddol ei ddatblygu yn seiliedig ar flaenoriaethu meysydd risg allweddol mewn perthynas â gweithgareddau hanfodol Cyfoeth Naturiol Cymru, a'i gynllun corfforaethol, gan ystyried ffynonellau sicrwydd eraill. Mae'r cynllun wedi'i ddylunio drwy ymgynghoriad â mi fy hun a'm Tîm Gweithredol.

Nifer yr archwiliadau 2019/20	Sgôr archwilio sylweddol	Sgôr sicrwydd cymedrol	Sgôr sicrwydd cyfyngedig	Sgôr sicrwydd anfoddhaol	Mewn drafft
19	1	7	9	0	2

### Statws

### Diffiniad

Sylweddol	Mae'r fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth yn ddigonol ac yn effeithiol.
Cymedrol	Mae angen rhai gwelliannau i wella digonolrwydd ac effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth.
Cyfyngedig	Mae gwendidau sylweddol yn y fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fel y gallai fod yn annigonol ac yn aneffeithiol neu ddod felly..
Anfoddhaol	Mae gwendidau sylfaenol yn y fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth sy'n golygu ei fod yn annigonol ac yn aneffeithiol neu'n debygol o fethu.

O ganlyniad i COVID-19, gwnaeth y tîm Archwilio Mewnol ddilyn cyngor gan y cyrff proffesiynol (Sefydliad Siartredig yr Archwilwyr Mewnol (CIIA) a Chymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig (ACCA)). Gwnaethom adolygu'r cynllun archwilio a oedd yn weddill ar gyfer y flwyddyn i sefydlu'r archwiliadau mwyaf hanfodol, a oedd yn debygol o gael dylanwad sylweddol ar farn yr archwiliad, a rhoddwyd blaenoriaeth i'r rheiny gennym, a'r rheiny yr oedd modd eu hoedi, eu gohirio neu eu diddymu. Gwnaeth y tîm Archwilio Mewnol hefyd ystyried gallu'r busnes i fynd i'r afael ag archwiliadau ynghyd â mynd i'r afael â'r digwyddiad ei hun. Cafodd yr holl newidiadau i'r cynllun archwilio eu cadarnhau gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ym mis Ebrill 2020. O ganlyniad i hyn, cafodd yr adolygiadau allweddol o gynllun 2019/20 eu cyflawni heb unrhyw effaith wirioneddol ar y farn gyffredinol ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae ein tîm Archwilio Mewnol yn cyflawni'r cynllun archwilio, gan gynnwys adborth a diweddariadau ar gynnydd rheolaidd, i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. Dyma farn y Rheolwr Archwilio Mewnol, fel a nodir yn ei adroddiad sicrwydd blynyddol:

*Yn 2019/20, gwnaeth Cyfoeth Naturiol Cymru gyflawni sawl menter sylweddol, yn fwyaf nodedig rhaglen Cynllunio'r Sefydliad a'r Prosiect Gwella Llywodraethu Pren. Ceir buddsoddiadau pellach hefyd i wella arferion llywodraethu da a gwella gwaith rheoli risg drwy'r Rhaglen Gwella Llywodraethu a Risg. Yn ogystal, mae rheolwyr wedi penderfynu sefydlu Swyddfa Rheoli Portffolios a phrosiect i wella'r gwaith o reoli contractau ar draws y sefydliad. Cafwyd newid hefyd mewn agweddau rheolwyr, sydd bellach yn rhoi mwy o werth ar gyngor archwilio, ac mae cynnydd da wedi cael ei wneud o ran rheolwyr yn cyflawni argymhellion archwilio mewn ffordd amserol. Dyma*

*lwybr cadarnhaol a fydd, os parhawn ar ei hyd, yn debygol o arwain at welliannau i'r fframwaith rheoli a gwaith llywodraethu a rheoli risg mewn blynyddoedd i ddod.*

*Fodd bynnag, mae fy ngwerthusiad proffesiynol o reolaethau mewnol a gwaith llywodraethu a rheoli risg wedi fy arwain at y casgliad, yn 2019/20, fod nifer o reolaethau allweddol yn absennol neu'n peidio â chael eu defnyddio i fodloni amcanion y busnes. Felly, gallaf gynnig barn sicrwydd cyfyngedig yn gyffredinol am y flwyddyn ddiwethaf.*

*Mae'r farn archwilio flynyddol wedi'i hwyluso'n bennaf gan y gwaith o gyflawni'r Cynllun Archwilio Mewnol. Eleni, gwnaethom ddarparu sicrwydd cyfyngedig mewn naw maes busnes allweddol. Roedd y rhain yn cynnwys Cyfrifon Derbyniadwy, Atal Twyll a Gwrth-lwgrwobrwyo, Cwynion Allanol, Rheoli Prosiectau a Rhaglenni, Rheoli Contractau, Recriwtio, Datganiadau Ardal, Gwrthdaro Buddiannau a Diogelwch Cronfeydd Dŵr.*

*Roedd y gwaith archwilio hefyd yn cynnwys Cyfrifon Taladwy, Gweithredoedd Tendrau Unigol, Cynhyrchu Pren yn Unionyrchol, Treth Gwarediadau Tirlenwi, y Rhaglen Gyfalaf Llifogydd, Ynys Ynni a'r Cynllun Gwella Rheoli Risg, y derbyniodd pob un farn sicrwydd cymedrol. Gwnaeth y gyflogres dderbyn barn sicrwydd sylweddol.*

*Mae nifer y meysydd lle mae gwendidau rheoli sylweddol wedi cael eu nodi gan archwilwyr wedi cynyddu o'u cymharu â'r llynedd (pan oedd gennym saith barn sicrwydd cymedrol a chwe barn sicrwydd cyfyngedig).*

*Er i Cyfoeth Naturiol Cymru roi rhaglen Cynllunio'r Sefydliad ar waith ym mis Gorffennaf 2019, cyflawnwyd rhai elfennau llywodraethu allweddol, fel y Cynllun Dirprwyo Statudol a Chyfreithiol, sefydlu dau Fwrdd Busnes, a chylch gorchwyl y grwpiau llywodraethu allweddol, dros y misoedd nesaf. Mae*

*effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu mewnol yn parhau i esblygu. Nid ymdriniwyd ag agweddau eraill, fel hyfforddiant staff, ym mhob maes eto. Mae sawl archwiliad mewnol wedi canfod effaith negyddol ar y busnes oherwydd hyfforddiant ac adnoddau annigonol.*

*Roedd gwendidau hirsefydlog sylweddol o ran rheoli contractau'n effeithiol o safbwynt caffael a rheoli prosiectau a rhaglenni yn parhau i fodoli, gyda rheolwyr bellach yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r rheiny a gyrru gwelliannau.*

*Yn ystod y flwyddyn, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi parhau i ganolbwyntio ar wella trefniadau llywodraethu ym maes gwerthiannau pren, drwy'r Prosiect Gwella Llywodraethu Pren. Daeth y prosiect i ben ym mis Ebrill 2020. Oherwydd bod hwn yn ddatblygiad diweddar, nid ydym eto wedi gallu gwerthuso effeithiolrwydd y gwelliannau'n annibynnol. Byddwn yn ailymweld â'r meysydd hyn yn 2020/21.*

## **Archwiliad allanol**

Mae craffu annibynnol yn ffurfio rhan bwysig o'n gwaith sicrhau, gan ddarparu tystiolaeth o'n ffyrdd o weithio mewn perthynas ag arfer gorau a safonau'r diwydiant. Mewn rhai rhannau o'r sefydliad, rydym yn destun archwiliadau neu adolygiadau allanol o'n gwaith neu'n dewis eu cael. Mae rhywfaint o'r rheiny'n flynyddol - er enghraifft, Cynllun Ansawdd Coetiroedd y Deyrnas Unedig neu ISO 14001:2015 i gynnal ein system rheoli amgylcheddol. Rydym yn gofyn am rai eraill fel un o lawer o ddarnau o waith i roi mwy o wybodaeth i ni am feysydd gwaith neu weithgareddau penodol.

O bryd i'w gilydd, mae'r gwaith dilynol o'r archwiliadau hyn yn parhau dros sawl blwyddyn. Rydym wedi bod yn dilyn yn agos y gwaith o gyflawni argymhellion yn dilyn adolygiad annibynnol Grant Thornton o'n gweithrediadau gwerthiannau pren. Gwnaethom gyhoeddi'r adolygiad

hwn a'i rannu â Phwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Senedd Cymru yn dilyn pryder a fynegwyd ganddo ynglŷn â statws amodol cyfrifon Cyfoeth Naturiol Cymru mewn blynyddoedd blaenorol. Gwnes i fynychu'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ym mis Ionawr 2020 gyda'n cadeirydd, Syr David Henshaw, i drafod y cynnydd a wnaed hyd yn hyn o ran mynd i'r afael â'r argymhellion. Rwy'n falch fod y gwaith hwn yn datblygu drwy gam adfer y prosiect a bod gwaith yn mynd rhagddo bellach i ymgorffori newidiadau a gwelliannau o fewn trefniadau busnes fel arfer ar draws y sefydliad.

## **Effeithiolrwydd rheolaeth fewnol**

Er mwyn darparu sicrwydd ychwanegol fod y rheolaethau hyn ar waith ac yn gweithio'n dda o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru, mae pob aelod o'r Tîm Gweithredol wedi llofnodi Tystysgrif Sicrwydd ac wedi cwblhau Rhestr Gwirio Rheolaethau Fewnol a oedd yn gofyn iddynt gynnal asesiad seiliedig ar dystiolaeth o effeithiolrwydd y fframwaith rheoli sydd ar waith yn eu cyfarwyddiaeth. Eleni, mae'r rhain wedi cael eu hategu gan ddatganiadau gan gadeiryddion y Byrddau Busnes, sydd wedi rhoi sylwadau ar reolaethau sydd bellach yn cael eu goruchwylio drwy'r Byrddau Busnes, e.e. cynllunio, perfformiad a rheoli risg.

Yn gyffredinol, mae canlyniadau eleni'n parhau i fod yn gadarnhaol gydag aelodau'r Tîm Gweithredol yn cadarnhau bod ein fframwaith rheoli yn parhau i gael ei ddatblygu a'i ddefnyddio ar draws yr holl feysydd gwaith. Mae polisïau a gweithdrefnau yn parhau i gael eu cyflwyno neu eu hadolygu fel y bo angen er mwyn addasu i newidiadau allanol neu fylchau mewnol a ganfyddir.

Roedd mwyafrif y datganiadau gan y Tîm Gweithredol a'r Byrddau Busnes yn cydnabod anawsterau wrth weithredu ein fframwaith rheoli risg yn gyson ar draws y sefydliad. Rydym yn croesawu'r newidiadau o'n blaenau yn dilyn penodi ein Rheolwr Risg dynodedig cyntaf a'r



gwaith i ddatblygu Fframwaith Rheoli Risg newydd ac yn disgwyl i gynnydd sylweddol gael ei wneud yn y maes hwn yn 2020/21.

Mae cysondeb defnydd yn parhau i fod yn bryder mewn rhai meysydd – er enghraifft, adolygiadau rheoli perfformiad, hyfforddiant gorfodol ar-lein, rheoli cofnodion – oherwydd gwaith parhaus i flaenoriaethu gwaith allweddol arall, fel gweithredu rhaglen Cynllunio'r Sefydliad, a digwyddiadau sylweddol, fel llifogydd a COVID-19.

Sefydliad, a digwyddiadau sylweddol, fel llifogydd a COVID-19.

Mae yna ymdeimlad yn y datganiadau – a ninnau wedi cwblhau ein rhaglen Cynllunio'r Sefydliad a staff wedi ymgartrefu yn eu rolau newydd – y bydd lle am fwy o ffocws ar gydymffurfiaeth a chysondeb ym mhob rhan o'r sefydliad y flwyddyn nesaf.

Er bod COVID-19 wedi cyflwyno sawl her, yr un fwyaf sylweddol fu ein gwaith ymgysylltu – gyda staff a rhanddeiliaid



**Clare Pillman**  
**Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu**

allanol, partneriaid a chwsmeriaid. Rydym yn gorfod newid ein ffyrdd o weithio i ddod o hyd i ffyrdd newydd o ymgysylltu a bydd rhywfaint o hyn yn oedi gwaith, e.e. ymgysylltu â'r gymuned, modiwlau hyfforddi staff, wrth inni gytuno ar sut rydym yn mynd i'w wneud, ond nid yw hyn wedi cyflwyno unrhyw faterion sylweddol o ran llywodraethu neu reolaethau mewnol.

**25 Tachwedd 2020**

# Adroddiad Cyflogau a Staff (wedi'i archwilio)

## Adroddiad Cyflogau

### Polisi cyflogau

Mae'r Bwrdd wedi sefydlu Pwyllgor Pobl a Chyflogau i ystyried materion sy'n ymwneud â chyflog ac amodau cyflogaeth y staff lefel uchaf a'r strategaeth gyflog gyffredinol ar gyfer yr holl staff a gyflogir gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r Pwyllgor Pobl a Chyflogau yn cynnwys pedwar aelod Bwrdd anweithredol. Mae cadeirydd y Bwrdd yn aelod ex officio o'r pwyllgor.

Gosodir cyflogau'r cadeirydd ac aelodau'r Bwrdd gan Weinidogion Cymru. Mae telerau contract cyflogaeth uwch (aelodau o'r Tîm Gweithredol) yn seiliedig ar delerau ac amodau Cyfoeth Naturiol Cymru. Ni ellir cydfargeinio'r polisi cyflogau ar gyfer y staff ar y lefel uchaf, a gosodir y pecyn cyflog trwy gyfeirio at gyfres o rolau wedi'u meincodi yng ngwasanaeth cyhoeddus Cymru ac at sefydliadau cyffelyb yn y DU.

Mae cytundeb partneriaeth cymdeithasol ar waith gyda phum undeb lafur, a chaiff y telerau ac amodau ar gyfer staff sydd o dan yr aelodau o'r Tîm Gweithredol eu gosod trwy gyd-gytundeb â'r partneriaid cymdeithasol. Mae Llywodraeth Cymru'n cymeradwyo unrhyw newidiadau i gyflogau, telerau ac amodau ac yn gosod cylch cyflog y mae'n rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru cyflawni o'i fewn. Fel rhan o gynnig cyflog eleni, gwnaethom gytuno, drwy ymgynghoriad ffurfiol, ar gytundeb cyflog dwy flynedd am y cyfnod rhwng 1 Gorffennaf 2018 a 30 Mehefin 2020 o 3% a dyfarniad cyflog anghyfunol o £1,000. Nid oedd y cynnig hwn, fel a gytunwyd eisoes wrth ymgynghori ar y Cynllun Gwerthuso Swyddi, yn berthnasol i'r rheiny a oedd eisoes wedi dewis peidio â bod yn rhan o'r Cynllun Gwerthuso Swyddi.

### Contractau gwasanaeth

Caiff yr holl benodiadau i'r Bwrdd eu gwneud ar ran Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig. Penodir aelodau'r Bwrdd am gyfnod penodol ac mae'n ofynnol iddynt roi tri mis o rybudd pe byddent yn dymuno gadael cyn hynny.

Caiff y Prif Weithredwr ac aelodau'r Tîm Gweithredol eu cyflogi o dan gontractau parhaol.

Caiff penodiadau eu gwneud yn unol â'n polisi recriwtio, sy'n gofyn i benodiad gael ei wneud yn ôl haeddiant ac ar sail cystadleuaeth deg ac agored.

Oni nodir yn wahanol isod, mae gan yr aelodau o'r Tîm Gweithredol a gynhwysir yn yr adroddiad hwn benodiadau penagored. Rhaid i'r swyddogion hyn ddarparu tri mis o rybudd o'u bwriad i adael..

### Cyflog a hawliau pensiwn

Mae'r adrannau canlynol yn darparu manylion cyflog aelodau'r Bwrdd a chyflogau a buddiannau pensiwn aelodau'r Tîm Gweithredol. Nid oes gan aelodau Bwrdd yr hawl i ymuno â Chynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil nac i dderbyn buddiannau eraill. Pe bai aelodaeth yn cael ei therfynu'n gynnar, am reswm heblaw am gamymddwyn, byddai'r aelod hwnnw o'r Tîm Gweithredol yn derbyn iawndal sy'n gyson â Chynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil. Nid oes gan aelodau Bwrdd yr hawl i gael iawndal.

## Cyflogau aelodau'r Bwrdd

Aelod Bwrdd	Contract cyflogaeth	Cyflog 2019/20 (graddfa £5,000)	Cyflog 2018/19 (graddfa £5,000)
Karen Balmer <sup>1,2</sup>	9-11-16 i 8-11-22	10-15	15-20
Chris Blake <sup>1,16</sup>	9-11-15 i 31-8-21	10-15	10-15
Catherine Brown <sup>14,15</sup>	1-11-18 i 31-10-22	15-20	5-10
Julia Cherrett <sup>15</sup>	1-11-18 i 31-10-21	10-15	5-10
Geraint Davies <sup>15, 16</sup>	1-1-19 i 31-10-24	10-15	0-5
Howard Davies <sup>1,11,16</sup>	9-11-15 i 31-8-21	10-15	10-15
Dr Ruth Hall CBE <sup>9</sup>	1-11-17 i 31-10-18	0	5-10
Dr Madeleine Havard (dirprwy gadeirydd a chadeirydd gweithredol) <sup>3</sup>	1-11-17 i 31-10-18	0	10-15
Elizabeth Haywood <sup>1,12,16</sup>	9-11-15 i 31-8-21	10-15	10-15
Syr David Henshaw (Cadeirydd) <sup>13</sup>	1-11-18 i 31-10-23	45-50	15-20
Zoë Henderson <sup>1,10</sup>	9-11-15 i 8-11-22	15-20	15-20
Diane McCrea MBE (cyn Gadeirydd) <sup>4</sup>	1-12-15 to 19-7-18	0	20-25
Andy Middleton <sup>5</sup>	1-11-17 to 31-10-18	0	5-10
Steve Ormerod (Is- gadeirydd) <sup>8,15</sup>	1-11-18 i 31-10-22	15-20	5-10
Rosie Plummer <sup>15</sup>	1-11-18 i 31-10-21	10-15	5-10
Nigel Reader CBE <sup>6</sup>	1-11-17 i 31-10-18	0	5-10
Peter Rigby <sup>15</sup>	1-11-18 i 31-10-21	10-15	5-10
Syr Paul Williams OBE <sup>7</sup>	1-11-17 i 31-10-18	0	5-10

1 Ailbenodwyd Geraint Davies. Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw penodi Aelodau Bwrdd CNC ac fe'u penodir am gyfnodau amrywiol.

2 Penodwyd Karen Balmer fel cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg o 1 Medi 2017 tan 31 Mai 2019. Ei chyflog cyfwerth â blwyddyn lawn fel cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg oedd £15,000 i £20,000 ac ei chyflog o 1 Mehefin 2019 yw £10,000 i £15,000.

3 Madeleine Havard oedd dirprwy gadeirydd y Bwrdd nes 19 Gorffennaf 2018. Ei chyflog cyfwerth â blwyddyn gyfan fel dirprwy gadeirydd oedd £15,000 i £20,000. Fe'i penodwyd fel cadeirydd gweithredol Cyfoeth Naturiol Cymru am y cyfnod rhwng 20 Gorffennaf 2018 a 31 Hydref 2018. Ei chyflog cyfwerth â blwyddyn lawn fel cadeirydd gweithredol oedd £30,000 i £35,000, a oedd yn seiliedig ar 72 o ddiwrnodau'r flwyddyn. Roedd hefyd yn gadeirydd y Grŵp Cyngori ar Reoli Perygl Llifogydd tan 31 Hydref 2018.

4 Yn ystod 2018/19, gwnaeth Diane McCrea dderbyn ôl-gyflog am y diwrnodau ychwanegol yr oedd wedi gweithio arnynt rhwng 1 Medi 2017 a 19 Gorffennaf 2018, a oedd yn seiliedig ar ymrwymiad amser o 96 o ddiwrnodau y flwyddyn. Ei chyflog cyfwerth ag amser llawn, yn seiliedig ar 96 o ddiwrnodau'r flwyddyn, oedd £40,000 i £45,000.

- 5 Andy Middleton oedd cadeirydd y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchoddedig nes iddo orffen ar 31 Hydref 2018. Ei gyflog cyfwerth â blwyddyn lawn am 2018/19 oedd £10,000 i £15,000.
- 6 Cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn Nigel Reader ar gyfer 2018/19 oedd £10,000 i £15,000.
- 7 Syr Paul Williams oedd cadeirydd y Pwyllgor Pobl a Chyflogau tan 31 Awst 2018. Ei gyflog cyfwerth â blwyddyn lawn fel cadeirydd y Pwyllgor Pobl a Chyflogau oedd £15,000 i £20,000. O 1 Medi 2018, ei gyflog cyfwerth ag amser llawn oedd £10,000 i £15,000.
- 8 Penodwyd Steve Ormerod fel dirprwy gadeirydd o 1 Mehefin 2019. Ei gyflog cyfwerth â blwyddyn lawn am y cyfnod rhwng 1 April 2019 a 31 Mai 2019 oedd £10,000 i £15,000 a'i gyflog am y cyfnod rhwng 1 Mehefin 2019 a 31 Mawrth 2020 oedd £15,000 i £20,000.
- 9 Cyflog cyfwerth â bwyddyn lawn Ruth Hall ar gyfer 2018/19 oedd £10,000 i £15,000.
- 10 Cafodd Zoë Henderson ei phenodi fel cadeirydd y Pwyllgor Pobl a Chyflogau ar 1 Medi 2018. Ei chyflog cyfwerth â blwyddyn lawn ar gyfer 1 Ebrill 2018 tan 31 August 2018 oedd £10,000 i £15,000 a'i chyflog fel cadeirydd y Pwyllgor Pobl a Chyflogau yw £15,000 i £20,000.
- 11 Penodwyd Howard Davies fel cadeirydd y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchoddedig o 1 Tachwedd 2018.
- 12 Penodwyd Elizabeth Haywood fel cadeirydd y Grŵp Cynghori ar Reoli Perygl Llifogydd (yn ddiweddarach Pwyllgor Rheoli Risg Llifogydd) o 1 Tachwedd 2018.
- 13 Cyflog cyfwerth â bwyddyn lawn Syr David Henshaw ar gyfer 2018/19 oedd £45,000 i £50,000. Mae ei contract wedi cael ei ymestyn am bedair blynedd arall.
- 14 Penodwyd Catherine Brown fel cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg o 1 Mehefin 2019. Ei chyflog cyfwerth â blwyddyn lawn ar gyfer 1 Ebrill 2019 tan 31 August 2019 oedd £10,000 i £15,000 a'i chyflog fel cadeirydd y Pwyllgor Pobl a Chyflogau yw £15,000 i £20,000.
- 15 Penodwyd Catherine Brown fel cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg o 1 Mehefin 2019. Ei chyflog cyfwerth â blwyddyn lawn ar gyfer 1 Ebrill 2019 tan 31 August 2019 oedd £10,000 i £15,000 a'i chyflog fel cadeirydd y Pwyllgor Pobl a Chyflogau yw £15,000 i £20,000.
- 16 Mae cyfnod aelodau'r Bwrdd yma wedi eu hymestyn

Aelod Tîm Gweithredol	Cyflog (graddfa £5,000) 2019/20	Cyflog (graddfa £5,000) 2018/19	Budd- iannau mewn nwyddau (i'r £100 agoaf) 2019/20	Budd- iannau mewn nwyddau (i'r £100 agosaf) 2018/19	Budd- iannau Pensiwn (i'r £1000 agosaf) 2019/20	Budd- iannau Pensiwn (i'r £1000 agosaf) 2018/19	Cyfanswm (graddfa £5,000) 2019/20	Cyfanswm (graddfa £5,000) 2018/19
Clare Pillman <sup>1</sup> (Prif Weithredwr)	140-145	130-135	0	0	112,000	284,000	250- 255	410-415
Ceri Davies	105-110	100-105	0	0	33,000	38,000	135-140	140-145
Prys Davies <sup>2</sup>	85-90	0	0	0	63,000	0	145-150	0
Ashleigh Dunn <sup>3</sup>	0	30-35	0	0	0	8,000	0	40-45
Kevin Ingram	95-100	95-100	0	0	22,000	18,000	120-125	115-120
Tim Jones <sup>4</sup>	50-55	90-95	0	0	7,000	0	55-60	90-95
Catherine Love <sup>5</sup>	10-15	75-80	0	0	5,000	30,000	15-20	105-110
Gareth O'Shea	95-100	90-95	0	0	32,000	26,000	125-130	115-120
Niall Reynolds <sup>6</sup>	5-10	75-80	0	0	0	8,000	5-10	85-90



- 1 Mae rôl Clare Pillman o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru wedi golygu cynnydd sylweddol yn y pensiwn a'r cyfandaliad a gronnwyd ar 31 Mawrth 2019 ac felly'r ffigur buddiannau pensiwn ar gyfer 2018/19 uchod, sy'n cael ei gyfrifo yn unol â throednodyn 7. Derbyniodd Clare Pillman ddyfarniad cyflog yn 2019/20 a arweiniodd at gynnydd pellach yn ei buddion pensiwn cronodig fel y datgelir yn y tabl uchod. Cyfraniad pensiwn y cyflogwr oedd 30.3% o'i chyflog.
- 2 Penodwyd Prys Davies ar 1 Ebrill 2019 fel y Cyfarwyddwr Strategaeth a Datblygu Corfforaethol.
- 3 Gorffennodd Ashleigh Dunn ar 31 Gorffennaf 2018. Ei chyflog cyfwerth â blwyddyn lawn ar gyfer 2018/19 oedd £90,000 i £95,000.
- 4 Gorffennodd Tim Jones ar 10 Hydref 2019. Ei gyflog cyfwerth â blwyddyn lawn ar gyfer 2019/20 yw £90,000 i £95,000.
- 5 Gorffennodd Catherine Love ar 31 Mai 2019. Ei chyflog cyfwerth â blwyddyn lawn ar gyfer 2019/20 yw £75,000 i £80,000.
- 6 Gorffennodd Niall Reynolds ar 30 Ebrill 2020. Ei gyflog cyfwerth â blwyddyn lawn ar gyfer 2019/20 yw £75,000 i £80,000. Dewisodd Mr Reynolds optio allan o'r cynllun pensiwn o 30/03/2019 ac felly ni wnaeth gronni unrhyw fuddiannau pensiwn yn ystod 2019/20.
- 7 Cyfrifir gwerth buddiannau pensiwn a gronnwyd yn ystod y flwyddyn fel y cynnydd pensiwn gwirioneddol wedi'i luosi ag 20, a'r cynnydd gwirioneddol mewn unrhyw gyfandaliad, llai y cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn. Mae'r cynnydd gwirioneddol yn eithrio cynnydd o ganlyniad i chwyddiant neu unrhyw gynnydd neu ostyngiad o ganlyniad i drosglwyddo hawliau pensiwn. Nid yw'r gwerth hwn yn cynrychioli'r swm a fydd yn cael ei dderbyn gan yr unigolyn. Bwriad y cyfrifiad yw cyfleu i ddarllenwyd y cyfrifon amcangyfrifiad o'r budd y gallai bod yn aelod o'r cynllun pensiwn ei ddarparu. Mae'r tabl buddion pensiwn yn rhoi mwy o wybodaeth am y buddiannau pensiwn sy'n cael eu cronni gan yr unigolyn.

## Cyflog

Mae cyflog yn ymwneud â symiau pensiynadwy a symiau nad ydynt yn bensiynadwy ac mae'n cynnwys cyflog gros, goramser, ac unrhyw lwfansau neu daliadau sy'n gymwys o dan drethiant y DU. Nid yw'n cynnwys symiau sy'n ad-daliad o dreuliau sydd wedi deillio'n uniongyrchol o berfformio dyletswyddau unigolyn.

## Cyflog cysylltiedig â pherfformiad

Ar gyfer aelodau o'r Tîm Gweithredol, mae unrhyw symudiad rhwng y pwyntiau cyflog a'r tu hwnt ar gyfer perfformiad rhagorol cyson yn unig, yn ôl asesiad gan y prif weithredwr sydd wedi'i gadarnhau gan y Pwyllgor Pobl a Chyflogau.

## Buddiannau mewn nwyddau

Mae gwerth ariannol buddiannau mewn nwyddau'n cynnwys unrhyw fuddiannau a ddarperir gan y cyflogwr ac a ymdrinnir fel enillion y gellir eu trethu gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Ni wnaeth yr un aelod o'r Bwrdd na'r Tîm Gweithredol dderbyn buddiannau mewn nwyddau yn ystod 2018/19 a 2019/20.

Ni wnaeth yr un aelod o'r Bwrdd na'r uwch-staff dderbyn unrhyw daliadau eraill ar wahân i'r symiau a ddangosir uchod.

Aelod y Tîm Gweithredol	Pensiwn cronus ar oed pensiwn fel ag yr oedd ar 31/03/20	Cyfandaliad cronus ar oed pensiwn fel ag yr oedd ar 31/03/20	Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn ar oed pensiwn	Cynnydd gwirioneddol mewn cyfandaliad cronus ar oed pensiwn	Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod ar 31/03/19	Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod ar 31/03/19	Cynnydd gwirioneddol mewn Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod
	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000
Clare Pillman (Prif Weithredwr)	55-60	135-140	5-7.5	7.5-10	1115	976	88
Ceri Davies	45-50	65-70	0-2.5	0-2.5	876	819	19
Prys Davies	25-30	50-55	2.5-5	2.5-5	425	365	40
Kevin Ingram	35-40	40-45	0-2.5	(0-2.5)	579	528	20
Tim Jones <sup>1</sup>	1 40-45	130-135	2.5-5	10-12.5	991	908	4
Catherine Love <sup>2</sup>	5-10	0	0-2.5	0	101	97	2

<sup>1</sup> hyd at 10 Hydref 2019.

<sup>2</sup> hyd at 31 Mai 2019.

## Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod

Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod yw gwerth cyfalafol buddiannau'r cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar bwynt penodol o amser fel ei fod wedi'i asesu ar sail tybiaethau actwaraidd. Y buddiannau a werthusir yw'r buddiannau a gronnir gan yr aelod ac unrhyw bensiwn priod wrth gefn sy'n daladwy o'r cynllun. Mae Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn er mwyn diogelu buddiannau pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn penderfynu trosglwyddo'r buddiannau y mae wedi'u cronni yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddiannau y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i gyfanswm ei aelodaeth ar y cynllun pensiwn, ac nid ei wasanaeth mewn

swydd uwch y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef yn unig.

Mae'r ffigurau yn cynnwys gwerth unrhyw fuddiannau pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r aelod wedi'i drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddiannau pensiwn ychwanegol a gronnwyd gan yr aelod o ganlyniad i brynu buddiannau pensiwn ychwanegol ar gost i'w hun. Caiff Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod eu cyfrifo yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygiad) 2008, ac nid ydynt yn cynnwys unrhyw ostyngiad gwirioneddol na phosibl i fuddiannau a ddaw yn sgil Treth Lwfans Gydol Oes a allai fod yn ddyledus pan gaiff buddiannau pensiwn eu cymryd.

## **Cynnydd real mewn Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod**

Mae hyn yn dangos y cynnydd mewn Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod a ariennir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys cynnydd mewn pensiwn a gronwyd oherwydd chwyddiant neu gyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddiannau a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall), ac mae'n defnyddio ffactorau prisiau'r farchnad cyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

## **Iawndal ar gyfer colli swydd**

Gadawodd Tim Jones yn wirfoddol ar 10 Hydref 2019. Derbyniodd iawndal o rhwng £95,000 a £100,000.

Cytunodd Kevin Ingram i adael yn wirfoddol yn ystod 2019/20 ac, fel y cyfryw, mae ei becyn gadael wedi cael ei gynnwys yn y tabl 'Pecynnau gadael' ar dudalen 76. Derbyniodd iawndal o rhwng £95,000 a £100,000 ym mis Ebrill 2020.

## **Datgelu cyflog teg**

Rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru a chyrrff tebyg ddatgelu'r berthynas rhwng cyflog y cyfarwyddwr a delir fwyaf yn eu sefydliad a chyflog canolrifol gweithlu'r sefydliad. Mae'r cyfanswm cyflog yn cynnwys cyflog a buddiannau mewn nwyddau pan fo'n berthnasol. Nid yw'n cynnwys taliadau diswyddo, cyfraniadau pensiwn cyflogwr na'r Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod.

Yn 2019/20, roedd tri aelod o staff contract (2018/19: dau) yn cael eu talu ar gyfradd uwch na'r cyfarwyddwr a delir fwyaf. Band cyflog y cyfarwyddwr (Prif Swyddog Gweithredol) a dalwyd uchaf yn ystod blwyddyn ariannol 2019/20 oedd £140,000 i £145,000 (2018/19: £130,000 i £135,000). Roedd hyn bedair gwaith yn fwy (2018/19: pedair gwaith yn fwy) na chyflog canolrifol y gweithlu, a oedd yn £35,503 (2018/19: £33,424). Mae graddfeydd cyflog staff yn amrywio o £17,942 i £67,020. Dangosir cyflogau cyfarwyddwyr yn y tabl uchod.

## Adroddiad staff

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth am gyfansoddiad a chostau'n gweithlu.

### Nifer y cyflogeion a staff eraill fesul pen a chyfwerth ag amser llawn (CALL) ar 31 Mawrth 2020

	Gwrywaidd Fesul pen	Gwrywaidd CALL	Benywaidd Fesul Pen	Benywaidd CALL	Cyfanswm	Cyfanswm
Yr holl gyflogeion a staff eraill:	1,221	1,196	966	896	2,187	2,092
Tîm Arwain	11	11	11	9	22	20
Tîm Gweithredol	3	3	2	2	5	5

### Nifer y cyflogeion a staff eraill fesul pen a chyfwerth ag amser llawn ar 31 Mawrth 2019

	Gwrywaidd Fesul pen	Gwrywaidd CALL	Benywaidd Fesul Pen	Benywaidd CALL	Cyfanswm	Cyfanswm
Yr holl gyflogeion a staff eraill:	1,155	1,130	905	827	2,060	1,957
Tîm Arwain	14	14	7	6	21	20
Tîm Gweithredol	4	4	3	3	7	7

	Staff parhaol 2019/20	Eraill 2019/20	Cyfanswm 2019/20	Cyfanswm 2018/19
Wedi'u cyflogi'n uniongyrchol	1,788	51	1,839	1,832
Staff asiantaeth a chontract	0	168	168	123
<b>Cyfanswm</b>	<b>1,788</b>	<b>219</b>	<b>2,007</b>	<b>1,955</b>

Gwnaeth y niferoedd godi o ganlyniad i recriwtio i'r strwythur sefydliadol newydd a grëwyd o'r broses ailgynllunio a weithredwyd ar ddechrau 2019/20.

Nifer cyfartalog cyfwerth ag amser llawn y staff a gyflogwyd ar brosiectau cyfalaf oedd 178.9 (2018/19: 141.9).



## Costau staff

	2019/20 Staff parhaol £1'000	2019/20 Staff eraill £1'000	Cyfanswm £1'000	Cyfanswm £1'000
Taliadau a chyflogau	65,050	12,555	77,605	68,755
Costau nawdd cymdeithasol a threthi eraill	6,858	437	7,295	6,417
Costau pensiwn eraill	20,999	268	21,267	13,416
<b>Cyfanswm costau cyflogau net</b>	<b>92,907</b>	<b>13,260</b>	<b>106,167</b>	<b>88,588</b>
<b>Gwariant arall ar gyfer staff</b>		<b>Nodyn</b>		
Costau pecyn gadael			1,470	354
Tâl gwasanaeth ychwanegol Safon Cyfrifyddu Ryngwladol		14	12,513	13,865
Heb gostau pensiwn ymddeoliad cynnar			(260)	0
Heb gyfraniadau pensiwn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn ystod y flwyddyn			(11,699)	(7,089)
Trosglwyddo i ddarparu Taliadau lawndal Blynyddol			39	2
Costau staff eraill			0	0
Symudiad mewn cyflog gwyliau a gronnyd			(59)	880
<b>Cyfanswm gwariant arall ar gyfer staff</b>			<b>2,004</b>	<b>8,012</b>
Heb symiau a godwyd ar brosiectau cyfalaf			(7,919)	(6,466)
<b>Cyfanswm costau staff</b>			<b>100,252</b>	<b>90,134</b>

Gellir gweld manylion rhwymedigaethau pensiwn Cyfoeth Naturiol Cymru yn nodyn 14. Mae manylion cyflogau aelodau'r Bwrdd a chyfarwyddwyr yn yr adroddiad cyflogau. Mae'r gwasanaethau a brynwyd i mewn yn nodyn 5 (gwariant arall) yn cynnwys £7.7 miliwn o wariant ar ymgynghorwyr. Mae costau pecynnau gadael yn cynnwys costau pensiwn ychwanegol gwerth £222,000 a thaliadau yn gyfnewid am rybudd gwerth £27,000.

### Cynlluniau pensiwn

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn aelod o ddau gynllun pensiwn. Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil yn gynllun agored, ac mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n aelod caeedig o Gronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd o dan gytundeb derbyn cymunedol. Dangosir rhagor o fanylion am y cynlluniau pensiwn hyn isod.

### Cyfraniadau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil

Cynlluniau buddiannau diffiniedig aml-gyflogwr na chânt eu hariannu yw Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) a'r Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill (CSOPS) - a elwir yn "Alpha". Fodd bynnag, ni all Cyfoeth Naturiol Cymru nodi ei gyfran o'r asedau

a rhwymedigaethau sylfaenol. Gwnaeth actiwari'r cynllun brisio'r PCSPS fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2012. Gallwch weld y manylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Blwydd-daliadau sifil yn [www.civilservicepensionscheme.org.uk/about-us/resource-accounts/](http://www.civilservicepensionscheme.org.uk/about-us/resource-accounts/)

Ar gyfer 2019/20, roedd £9,472,000 o gyfraniadau cyflogwr yn ddyledus i'r PCSPS (2018/19: £6,939,000) ar un o bedair cyfradd yn yr amrediad 26.6% i 30.3% o enillion pensiynadwy (20% i 24.5% ar gyfer 2018/19), yn seiliedig ar fandiau cyflog. Fel arfer, mae actiwari'r cynllun yn adolygu cyfraniadau cyflogwr bob pedair blynedd yn dilyn prisiad o'r cynllun llawn. Mae'r cyfraddau cyfrannu wedi'u gosod er mwyn talu costau'r buddiannau a gronnwyd yn ystod 2019/20, sydd i gael eu talu pan fydd yr aelod yn ymddeol, ac nid y buddiannau a dalwyd yn ystod y cyfnod hwn i bensiynwyr cyfredol.

### **Pensiynau partneriaeth rhanddeiliaid**

Gall cyflogeion ddewis agor cyfrif pensiwn partneriaeth, sef pensiwn rhanddeiliaid gyda chyfraniad cyflogwr. Talwyd cyfraniadau cyflogwr gwerth £97,000 (2018/19: 94,000) i un neu ragor o'r panel o dri darparwr pensiwn rhanddeiliaid penodedig. Mae cyfraniadau'r cyflogwr yn seiliedig ar oedran ac yn amrywio o 8% i 14.75%. Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu arian sy'n gyfatebol i gyfraniadau cyflogeion hyd at 3% o enillion pensiynadwy. Yn ogystal, roedd cyfraniadau cyflogwr gwerth £4,000, sef 0.5% o'r cyflog pensiynadwy (£3,000 yn 2018/19), yn daladwy i'r PCSPS i dalu costau darparu buddiannau cyfandaliad yn y dyfodol oherwydd marwolaeth mewn gwasanaeth neu ymddeoliad oherwydd salwch y cyflogeion hyn.

Nid oedd unrhyw gyfraniadau'n ddyledus i'r darparwyr pensiwn partneriaeth ar ddyddiad y fantolen, ac ni chafodd unrhyw gyfraniadau eu talu ymlaen llaw.

### **Cyfraniadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol**

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gwneud taliadau i Gronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd (EAPF), fel yr awdurdod gweinyddu ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS), trwy Capita, gweinyddwyr y gronfa bensiwn.

Cynllun pensiwn statudol i'r gwasanaethau cyhoeddus yw'r LGPS, sydd wedi'i ariannu ac sy'n gwneud cyfraniadau diffiniedig. Bob tair blynedd, mae'r EAPF yn prasio'r pensiwn ar y cyd ag actiwari'r cynllun. Ar 31 Mawrth 2019, asesodd y prisiad fod sefyllfa ariannol yr EAPF ar lefel ariannu o 106% (2016: 103%). Prif ddiben y prisiad actiwaraid yw adolygu sefyllfa ariannol y gronfa a phennu faint bydd cyflogwyr yn cyfrannu at y gronfa yn y dyfodol.

Cyflwynodd Llywodraeth y DU reoliadau yn 2016 a oedd yn ei gwneud hi'n ofynnol i gronfeydd LGPS gyfuno buddsoddiadau er mwyn gwella effeithlonrwydd. Crëwyd Partneriaeth Bensiwn Brunel, a oedd yn cynnwys yr EAPF a naw cronfa LGPS arall, er mwyn cyflawni'r rhwymedigaeth hon.

Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru gytundeb derbyn cymunedol gyda'r EAPF i gymryd rhan yn yr LGPS, a gymeradwywyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gymunedau a Llywodraeth Leol mewn perthynas â staff yr hen Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, a drosglwyddodd i Cyfoeth Naturiol Cymru ar 1 Ebrill 2013. Cafodd y rhwymedigaethau ar gyfer cyn-aelodau a gyflogwyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd o ran swyddogaethau Cymru (pensiynau mewn taliad ac aelodau gohiriedig) eu trosglwyddo hefyd. Mae Llywodraeth Cymru wedi cael gwarantiaid gan yr EAPF i'w hindemnio am unrhyw rwymedigaethau a ddaw yn sgil cyfranogiad Cyfoeth Naturiol Cymru yn yr EAPF.

Cyfradd y cyfraniad cyflogwr yn ystod 2019/20 oedd 23.9% (2018/19: 21.9%).

Yn ystod 2019/20, talwyd £11,699,000 o gyfraniadau cyflogwr i'r LGPS (2018/19: £7,089,000), aoedd yn cynnwys taliad ychwanegol i leihau'r balans ar gronfa bensiwn Safon Cyfrifyddu Ryngwladol 19. Yn ogystal, talwyd £260,000 o gostau straen o ymddeoliadau cynnar fel rhan o becynnau ymadael.

## Pecynnau gadael

Cyfanswm nifer y pecynnau gadael yn ôl band cost:	2019/20	2018/19
Llai na £10,000	3	0
£10,001 - £25,000	7	0
£25,001 - £50,000	6	3
£50,001 - £100,000	15	3
£100,001 - £150,000	0	0
<b>Cyfanswm</b>	<b>31</b>	<b>6</b>
<b>Cost adnoddau</b>	<b>£1,470,000</b>	<b>£354,000</b>

Nid oedd unrhyw ddiswyddiadau gorfodol yn 2019/20 nac yn 2018/19.

Mae costau gadael gwirfoddol wedi'u talu yn unol â darpariaethau Cynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil, sef cynllun statudol a sefydlwyd o dan Ddeddf Pensiynau 1972.

Mae'r tabl uchod yn dangos cyfanswm cost y pecynnau gadael y cytunwyd arnynt ac a gafodd eu cyfrif yn ystod y flwyddyn, ond caiff taliadau eu gwneud yn y flwyddyn ymadael. Talwyd £1,143,000 mewn costau gadael yn 2019/20. Lle mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cytuno ar ymddeoliadau cynnar, caiff y costau ychwanegol eu talu gan Cyfoeth Naturiol Cymru ac nid gan Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Caiff costau ymddeoliad oherwydd salwch eu talu gan y cynllun pensiwn ac nid ydynt wedi'u cynnwys yn y tabl.

Pan gytunoedd y cyrff etifeddiaeth ar ymddeoliadau cynnar, cyfrifwyd am y costau yn llawn yn y flwyddyn y cytunwyd arnynt, a gwnaed darpariaeth ar gyfer ymrwymadau yn y dyfodol. Dengys y taliadau iawndal blyneddol o ran y rhain yn nodyn 13 ('Darpariaethau').

Mae'r cynlluniau pensiwn yn talu am gostau ymddeoliad oherwydd salwch, ac nid ydynt wedi'u cynnwys yn y tabl.

### **Absenoldeb oherwydd salwch (nad yw'n cael ei archwilio)**

Dangosodd ein cyfradd absenoldeb oherwydd salwch ar gyfer y flwyddyn dreigl (rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020) y collodd pob cyflogai 8.2 o ddiwrnodau ar gyfartaledd, sy'n cyfateb i 3.7%. Roedd hyn yn erbyn targed o gollu hyd at saith diwrnod ar gyfartaledd, sy'n cyfateb i 3.1% o ddiwrnodau gwaith sydd ar gael.

## Polisiâu anabledd (nad ydynt yn cael eu harchwilio)

### Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd

Ym mis Mai 2019, gwnaethom gwblhau ein hymarfer hunanasesu'n llwyddiannus ac, o ganlyniad, mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi ailachredu Cyfoeth Naturiol Cymru fel Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd tan 27 Mai 2020.

### Cynllun Gwarantu Cyfweliad 'Tic Dwbl'

Yn ystod blwyddyn galendr 2019, gwnaethom barhau i gydymffurfio 100% â'n Cynllun Gwarantu Cyfweliad 'Tic Dwbl', lle mae ymgeiswyr sy'n datgan bod ganddynt anabledd, yn unol â diffiniad Deddf Cydraddoldeb 2010, ac sy'n bodloni'r meini prawf sylfaenol ar gyfer y rôl y gwneir cais amdani, yn derbyn cyfweliad yn awtomatig.

Yn allanol, gwnaethom dderbyn ceisiadau gan 1,704 o bobl, yr oedd 37 (2.2%) ohonynt yn gofyn am gyfweliad gwarantedig. Cafodd 18 o'r rheini eu gwahodd am gyfweliad ac nid oedd yr 19 a oedd yn weddill yn bodloni'r meini prawf sylfaenol.

Yn fewnol, gwnaethom dderbyn ceisiadau gan 833 o bobl, yr oedd saith (0.84%) ohonynt yn gofyn am gyfweliad gwarantedig. Cafodd pump o'r rheini eu gwahodd am gyfweliad ac nid oedd y ddau a oedd yn weddill yn bodloni'r meini prawf sylfaenol.

### Grŵp Defnyddwyr a Gynorthwyr

Mae gennym rwydwaith staff gweithredol, sef y Grŵp Defnyddwyr a Gynorthwyr, sy'n cynnig cyngor a barn ar faterion TG a theleffoni cyfredol a newydd i aelodau o'r staff sydd wedi cael addasiadau rhesymol wedi'u gwneud i'w

gweithfannau. Rydym wedi canfod bod y grŵp hwn yn arbennig o ddefnyddiol oherwydd ei allu i brofi mentrau newydd, fel hygyrchedd ein harolygon staff a gynhelir yn allanol. Mae'r rhwydwaith yn allweddol wrth sicrhau bod ein holl staff yn gallu defnyddio'n systemau, ac mae'n rhannu arferion gorau gydag aelodau'r grŵp defnyddwyr ac yn profi systemau newydd arfaethedig yn rheolaidd i ddefnyddwyr ar ran y sefydliad.

### Cyfeillion Dementia

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn dod at ddiwedd ei drydedd flwyddyn yn gweithio i ddod yn Gymuned sy'n Deall Dementia achrededig. Gwnaethom greu ein trydydd cynllun gweithredu, ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2020, a gwnaethom benodi Cynghorydd Prosiect sy'n Deall Dementia yn ystod mis Rhagfyr 2019 i helpu i ddatblygu'r gwaith hwn.

Roedd ein ffocws eleni ar ddau beth. Yn gyntaf, i barhau i nodi prosiectau sy'n deall dementia. Roedd hyn yn cynnwys adolygu cyfleusterau yn ein canolfannau ymwelwyr ledled Cymru a chwilio am fwy o gyfleoedd i weithio gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a phartneriaid eraill yn y maes hwn. Yn ail, gwnaethom gryfhau ein gwaith ymgysylltu yn fewnol ac yn allanol, i gyfeirio cydweithwyr a chwsmeriaid at adnoddau perthnasol, ac i gynyddu'r sylw yn y cyfryngau o ran ein dysgu a'n llwyddiannau ac annog eraill i ddilyn ein harweiniad.

Wrth edrych i'r dyfodol, rydym yn ystyried sut orau i ymgorffori'n huchelgeisiau yn y maes gwaith hwn o fewn ein prosesau adrodd a chynllunio'r



sefydliad, i'n galluogi i olrhain a choladu tystiolaeth o'n cynnydd.

Yn olaf, rydym yn bwriadu cyflwyno tystiolaeth o'n gwaith dros y tair blynedd diwethaf i'r Gymdeithas Alzheimer er mwyn iddi ein hystyried fel Cymuned sy'n Deall Dementia'r Flwyddyn (y categori sefydliad mawr) ar gyfer 2020.

### **Rhwydwaith gofal Cwtsh**

Cafodd rhwydwaith newydd ei greu i gydnabod, cefnogi a gwerthfawrogi ein cydweithwyr o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gofalu am eu hanwyliaid am amryw o resymau.

Prif nod rhwydwaith Cwtsh yw rhoi ffocws ar gyfer newid diwylliannol yn y sefydliad i'n cydweithwyr â chyfrifoldebau gofalu, a llywio gweithle mwy cynhwysol ac amrywiol wrth symud ymlaen. Drwy

- Ddod â phobl at ei gilydd i gysylltu a sgwrsio am eu cyfrifoldebau gofalu
- Darparu amgylchedd sy'n cefnogi ei gilydd lle caiff pawb eu clywed
- Rhannu gwybodaeth a mewnwleidiad yn seiliedig ar brofiadau personol ac ymchwil gyfredol
- Cyfeirio i ffynonellau gwybodaeth a sefydliadau eraill sy'n gallu helpu
- Annog staff a rheolwyr i ddechrau sgwrs am ofalu i hyrwyddo dealltwriaeth ac empathi gwell ac i annog gofalwyr i ddod ymlaen am gymorth

Mae grŵp Yammer wedi cael ei sefydlu, sy'n parhau i dyfu, ac rydym eisoes wedi cyrraedd 23% o'r 155 o unigolion sydd wedi datgan bod ganddynt gyfrifoldebau gofalu.

### **Materion cyflogeion eraill (nad ydynt yn cael eu harchwilio)**

Yn ystod 2019/20, gwnaethom barhau i ddatblygu, mewn partneriaeth â'r undebau llafur, bolisi Taliadau Chwyddo a Thaliadau newydd Bydd hwn yn destun ymgynghoriad ffurfiol ym mis Ebrill/Mai 2020.

## Contractau cyflogaeth oddi ar y gyflogres (nad ydynt yn cael eu harchwilio)

Mae gofyn i Cyfoeth Naturiol Cymru gyhoeddi gwybodaeth am benodi ymgynghorwyr neu aelodau staff am gyfnod sy'n hwy na chwe mis a lle mae'r unigolion yn ennill mwy na £245 y dydd, pan ydym yn talu drwy anfoneb yn hytrach na thrwy'r gyflogres.

Mae'r tablau canlynol yn dangos ein sefyllfa mewn perthynas â'r gofynion hyn.

### Contractau cyflogaeth oddi ar y gyflogres ar 31 Mawrth 2020, am fwy na £245 y dydd ac sy'n para'n hwy na chwe miss

Nifer y contractau cyflogaeth presennol ar 31 Mawrth 2020 sydd wedi bodoli am:	Nifer y contractwyr
llai na blwyddyn	16
rhwng un a dwy flynedd	27
rhwng dwy a thair blynedd	13
rhwng tair a phedair blynedd	4
pedair blynedd neu'n fwy	13
<b>Cyfanswm</b>	<b>73</b>

Mae mwyafrif y contractwyr yn cefnogi'r tîm Trawsnewid wrth ddatblygu a thrawsnewid ein systemau TGCh.

### Contractau cyflogaeth newydd oddi ar y gyflogres, neu'r rhai a barhaodd am chwe mis, rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020, am fwy na £245 y dydd ac sy'n para'n hwy na chwe mis

Nifer y contractau cyflogaeth newydd, neu'r rhai a barhaodd am chwe mis, rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020.	Nifer y contractwyr
Cyfanswm, o'r rhain:	78
Y nifer a aseswyd fel rhai sy'n dod o dan drefniadau IR35	0
Y nifer a aseswyd fel rhai nad ydynt yn dod o dan drefniadau IR35	78
Y nifer a gyflogwyd yn uniongyrchol ac sydd ar gyflogres Cyfoeth Naturiol Cymru	0
Nifer y swyddi a gafodd eu hailasesu at ddibenion cysondeb/sicrwydd yn ystod y flwyddyn	0
Nifer y swyddi a welodd newid i'w statws IR35 ar ôl yr adolygiad cysondeb	0

## Adroddiad Seneddol ac Archwilio (wedi'i archwilio)

### Colledion a thaliadau arbennig

Mae rheolau Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru Llywodraeth Cymru'n gofyn am ddatgelu colledion a thaliadau arbennig yn ôl categori, math a gwerth lle maent yn rhagori ar £300,000 yn eu cyfanrwydd ac am unrhyw eitemau unigol â gwerth £300,000 neu fwy.

### Colledion unigol o £300,000 neu ragor

Nid oedd unrhyw golledion na thaliadau arbennig o £300,000 neu fwy drwy gydol 2019/20.

### Colledion a thaliadau arbennig yn ôl categori

Mae'r tabl isod yn nodi nifer y ceisiadau am ddiddymu taliadau a thaliadau arbennig a gymeradwywyd yn ystod y flwyddyn.

Categori neu fath o golled	2019/20 Nifer	2019/20 £'000	2018/19 Nifer	2018/19 £'000
Diddymu dyledion na ellir eu hadennill	16	23	118	133
Asedau a gollwyd	14	294	15	21
Colledion eraill (colledion ariannol, taliadau ofer, hawliadau na ellir eu gorfodi, neu anrhegion)	10	6	1	12
Taliadau arbennig	2	2	7	316
<b>Cyfanswm</b>	<b>42</b>	<b>325</b>	<b>141</b>	<b>482</b>



**Clare Pillman**  
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

25 Tachwedd 2020

# Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd

## Adroddiad ar archwiliad y datganiadau ariannol

### Barn

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Cyfoeth Naturiol Cymru am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 o dan baragraff 23 o'r Atodlen i Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012. Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad o'r Gwariant Net Cynhwysfawr, y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, y Datganiad o Lifau Arian Parod, y Datganiad o'r Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr a nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisiâu cyfrifyddu o bwys. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisiâu cyfrifyddu a nodir ynnddynt. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a Llawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys EM sy'n seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRSs) fel y'u mabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o gyflwr materion Cyfoeth Naturiol Cymru ar 31 Mawrth 2020 ac o'i gostau gweithredu net ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a gyhoeddwyd o dan Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012.

### Sail dros farn

Cynhelais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol yn y DU (ISAs (DU)). Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r archwilydd dros archwilio datganiadau ariannol yn fy adroddiad. Rwyf yn annibynnol ar y corff yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gefais yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail dros fy marn.

### Pwyslais ar Fater

- **Effeithiau COVID-19 ar brisiadau interim yr Ystad Goedwigoedd, Asedau Biolegol, Tir arall, Adeiladau a strwythurau Gweithrediadol** Tynnaf sylw at Nodyn 7 i'r datganiadau ariannol, sy'n disgrifio'r cymalau ansicrwydd prisio sylweddol yn yr adroddiadau prisio, ar yr Ystad Goedwigoedd, Asedau Biolegol, Tir arall, Adeiladau a strwythurau Gweithrediadol, sydd wedi deillio o amgylchiadau a achoswyd gan bandemig COVID-19. Nid yw fy marn wedi'i haddasu mewn perthynas â'r mater hwn.
- **Effeithiau Covid-19 ar brisio asedau eiddo'r gronfa bensiwn** Tynnaf sylw at Nodyn 14 i'r datganiadau ariannol sy'n disgrifio cymal ansicrwydd prisio sylweddol yn yr adroddiadau prisio, ar rai o asedau'r gronfa bensiwn, sy'n deillio o amgylchiadau a achoswyd gan bandemig COVID-19. Nid yw fy marn wedi'i haddasu mewn perthynas â'r mater hwn.



## Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol y mae'r ISAs (DU) yn gofyn imi adrodd wrthyich yn eu cylch, lle

- nad yw'r defnydd o sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol; neur
- nad yw'r Swyddog Cyfrifyddu wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd o bwys a ganfuwyd, a allai fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r corff i barhau i fabwysiadu'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r dyddiad yr awdurdoddir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

## Gwybodaeth arall

Nid yw deddfwriaeth a chyfarwyddiadau a roddwyd i Gyfoeth Naturiol Cymru yn nodi cynnwys a ffurf y wybodaeth arall sydd i gael ei chyflwyno gyda'r datganiadau ariannol. Y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn yr adroddiad blynyddol ac eithrio'r datganiadau ariannol ac adroddiad fy archwilydd arnynt. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn ymdrin â'r wybodaeth arall ac nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd arni, ac eithrio i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn fy adroddiad.

Gyda golwg ar f'archwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall er mwyn canfod pethau o bwys sy'n anghyson â'r datganiadau ariannol archwiliedig, a nodi unrhyw wybodaeth sydd, i bob golwg, yn sylweddol anghywir yn seiliedig ar y wybodaeth a gasglwyd gennyf wrth gyflawni'r archwiliad neu'n sylweddol anghyson â'r wybodaeth honno. Os deuaif yn ymwybodol o'r hyn sy'n ymddangos yn gamddatganiadau neu anghysondebau o bwys, byddaf yn ystyried eu goblygiadau ar gyfer f'adroddiad.

## Barn amodol ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ac eithrio effeithiau posibl y materion a ddisgrifir ym mharagraffau 'sail ar gyfer barn amodol ar reoleidd-dra' isod, ym mhob ystyr o bwys mae'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio i'r dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli

## Sail dros farn amodol ar reoleidd-dra

Mae Nodyn 6 i'r datganiadau ariannol yn cofnodi incwm coed o £25.2 miliwn yn 2019-20 (£26.3 miliwn yn 2018-19).

Rhwng 2016 a 2018, gosododd Cyfoeth Naturiol Cymru 82 o gontractau coed a adwaenir fel contractau gwerthiannau sefydlog a mwy. Roedd prisiau coed o dan y contractau hyn yn adlewyrchu gofyniad i'r prynwr gynaeafu'r coed, ymgymryd ag unrhyw waith peirianeg sifil gofynnol a, lle bo hynny'n berthnasol, ailstocio'r safle.

Amodais fy marn ar reoleidd-dra 2018-19 gyda golwg ar ddyfarnu cyfres o gontractau gwerthiannau coed sefydlog a mwy. Yn ystod 2019-20 parhaodd Cyfoeth Naturiol Cymru i dderbyn incwm sylweddol gwerth cyfanswm o £2.6 miliwn (£3.1 miliwn yn 2018-19) mewn perthynas â'r un contractau. Felly, rwyf wedi amodi fy marn ar reoleidd-dra 2019-20 am yr un rhesymau ag yn 2018-19, sydd fel a ganlyn:

- Wrth osod yr 82 o gontractau gwerthiannau coed sefydlog a mwy, mae gennyf ansicrwydd sylweddol a wnaeth Cyfoeth Naturiol Cymru weithredu yn unol ag egwyddorion cyfraith gyhoeddus, rheolau caffael yr UE, ei Gynllun Dirprwyo Ariannol na'i Orchymyn Sefydlu ei hun.

- At hynny, o dan fframwaith awdurdod Cyfoeth Naturiol Cymru mae'n ofynnol iddo gyfeirio unrhyw weithgareddau sy'n ymddangos yn newydd, yn ddadleuol a/neu'n adlamol at ei adran nawdd o fewn Llywodraeth Cymru. Ni chyfeiriodd Cyfoeth Naturiol Cymru ei benderfyniad i ymrwymo i'r 82 o gontractau gwerthu coed, yr wyf i'n eu hystyried yn newydd, yn ddadleuol a/neu'n adlamol, i'w adran nawdd. Felly, credaf fod y trafodion sy'n ymwneud â'r contractau hyn yn anghyfreithlon.

Ceir rhagor o fanylion am y materion hyn yn fy Adroddiad cysylltiedig ar dudalennau 85 i 87.

## Adrodd ar ofynion eraill

### Barn ar faterion eraill

Er nad oes unrhyw ofynion deddfwriaethol ar gyfer Adroddiad Taliadau, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi paratoi adroddiad o'r fath ac yn fy marn i cafodd y rhan honno, y mae'n ofynnol ei harchwilio fel arfer, ei pharatoi yn unol â chanllawiau Trysorlys EM

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod f'archwiliad:

- mae'r wybodaeth a roddir yn y Datganiad Llywodraethu ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Datganiad Llywodraethu wedi cael ei baratoi yn unol â chanllawiau Gweinidogion Cymru;
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Adroddiad Blynyddol wedi cael ei baratoi yn unol â chanllawiau Gweinidogion Cymru.

### Materion yr adroddaf amdanynt drwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r corff a'i amgylchedd a gasglwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi canfod camddatganiadau o bwys yn yr Adroddiad Blynyddol na'r Datganiad Llywodraethu..

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd gyda golwg ar y materion canlynol, y byddwn yn adrodd amdanynt os, yn fy marn i:

- na chadwyd cofnodion cyfrifyddu priodol;
- nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Taliadau sydd i'w harchwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion cyfrifyddu a'r ffurflenni; neu or
- nad yw'r wybodaeth a bennwyd gan Weinidogion Cymru ynghylch y taliadau a thrafodion eraill wedi cael ei datgelu.

Ac eithrio mewn perthynas â'r trafodion y cyfeirir atynt yn y paragraffau 'sail ar gyfer barn amodol ar reoleidd-dra' uchod, rwyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau y mae arnaf eu hangen ar gyfer f'archwiliad

## Cyfrifoldebau

### Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu am y datganiadau ariannol

Fel yr esboniwyd yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012 a chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed yno, am sicrhau ei fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg ac am unrhyw reolaeth fewnol y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn penderfynu ei bod yn angenrheidiol er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiadau o bwys, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am asesu gallu'r corff i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio'r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu onid ystyrir ei fod yn amhriodol.

### **Cyfrifoldebau'r Archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol**

Fy amcanion yw caffael sicrwydd rhesymol p'un a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd neu beidio o gamddatganiadau o bwys, boed hynny oherwydd twyll neu oherwydd camgymeriad, a rhoi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (DU) bob amser yn canfod camddatganiad o bwys pan fydd un yn bodoli. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu o gamgymeriad ac fe'u hystyrir o bwys os gellir yn rhesymol ddisgwyl iddynt, yn unigol neu gyda'i gilydd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol [www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities](http://www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities). Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o adroddiad fy archwilydd.

### **Cyfrifoldebau am reoleidd-dra**

Mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol.

Cefais ddigon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm wedi cael eu defnyddio i'r dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Adrian Crompton  
Archwilydd Cyffredinol Cymrus  
30 Tachwedd 2020

24 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd  
CF11 9LJ

*Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio'r cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r Saesneg gwreiddiol yw'r fersiwn hwn. Cyfoeth Naturiol Cymru sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.*

# Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ar Ddatganiadau Ariannol 2019-20 Cyfoeth Naturiol Cymru: Contractau Gwerthiannau Sefydlog

- 1 Corff a noddir gan Lywodraeth Cymru yw Cyfoeth Naturiol Cymru a grëwyd er mwyn sicrhau bod amgylchedd ac adnoddau naturiol Cymru:
  - yn cael eu cynnal a'u cadw'n gynaliadwy;
  - eu gwella'n gynaliadwy; a'u
  - defnyddio'n gynaliadwy[1].
- 2 Daeth Cyfoeth Naturiol Cymru yn weithredol o 1 Ebrill 2013, gan gymryd y cyfrifoldeb am gyflawni swyddogaethau Gyngor Cefn Gwlad Cymru gynt, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru.
- 3 O dan baragraff 23 o Atodlen 1 i Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012 (y 'Gorchymyn Sefydlu'), mae'n ofynnol i mi archwilio, ardystio ac adrodd ar ddatganiad cyfrifon Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae fy nhystysgrif archwilio ar dudalennau 81 i 84 yn cynnwys fy marn fod y datganiadau ariannol yn rhoi 'darlun cywir a theg'.
- 4 Mae fy nhystysgrif hefyd yn cynnwys fy marn ar 'reoleidd-dra', h.y. fy marn ynghylch a yw'r gwariant a'r incwm a ddangosir yn y cyfrifon wedi cael eu defnyddio i'r dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac a yw'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.
- 5 Ym mis Gorffennaf 2019, fe wnes i amodi fy marn ar reoleidd-dra cyfrifon 2018-19 CNC. Roedd hyn yn ymwneud â chontractau a elwir yn gontractau Gwerthiannau Sefydlog a Mwy (SS+), oedd yn cyfuno gwerthiannau coed â'r gofyniad i ymgymryd â gwaith peirianeg sifil ac ailstocio safleoedd lle roedd coed wedi eu torri. Roedd y rhesymau dros yr amod fel a ganlyn:
  - Er mwyn i benderfyniad corff cyhoeddus fod yn gyfreithlon rhaid iddo gael ei wneud yn unol â deddfwriaeth berthnasol ac egwyddorion cyfraith gyhoeddus. Rhaid i gyrff cyhoeddus (a) ystyried a (b) dilyn polisiau perthnasol, oni bai bod ganddynt reswm da dros wyro oddi wrthynt. O leiaf, mae'n rhaid iddynt fod wedi datgan rhesymau clir dros y gwyriadau. Mewn perthynas â chyflwyno a dyfarnu contractau SS+ canfûm fod CNC wedi gwyro oddi wrth ei bolisiau ei hun heb fedru dangos rheswm da dros wneud hynny yn y ffyrdd canlynol:
    - i. Yn ei Gynllun Marchnata Coed 2017-22, dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru y byddai'n asesu perfformiad cynllun peilot o gontractau SS+ yn ofalus er mwyn sicrhau bod y dull newydd hwn o werthu coed yn medru sicrhau canlyniadau Cyfoeth Naturiol Cymru a darparu gwerth da am arian a budd i'r cwsmeriaid. Ni wnaeth CNC gynnal asesiad ond, serch hynny, estynnodd ei ddefnydd o gontractau SS+.

[1] Diwygiodd Deddf Amgylchedd Cymru 2016 ddiben cyffredinol Corff Adnoddau Naturiol Cymru i: 'Rhaid i'r Corff fynd ati i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy mewn perthynas â Chymru, a chymhwyso egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, wrth arfer ei swyddogaethau, cyn belled ag y mae hynny'n gyson â'u hymarfer priodol.'

- ii. In its procurement policies NRW set out how it would procure works and services. NRW did not comply with its procurement policies when procuring civil engineering works and restocking services as part of SS+ contracts
- Mae'n ofynnol i CNC gydymffurfio â rheolau caffael yr UE. Mae'r rheolau sy'n llywodraethu dyfarnu contractau am nwyddau, gwaith a gwasanaethau wedi'u hymgorffori yng nghyfraith y DU drwy Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 (PCR 2015). Canfûm nad oedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cydymffurfio'n llawn â PCR 2015 wrth gaffael contractau SS+.
  - Mae cyfraith gyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ystyried yr holl ystyriaethau perthnasol a diystyru ystyriaethau amherthnasol wrth wneud penderfyniadau. Nid oedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn gallu rhoi dogfennau cyfoes i mi yn nodi ei resymeg dros gyflwyno contractau SS+ a sut yr ystyriodd risgiau a manteision posibl y dull newydd hwn o werthu coed..
  - Mae'n ofynnol i CNC gydymffurfio â'i Ddogfen Fframwaith a Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru, a oedd ar y pryd yn gofyn i CNC gyfeirio cynigion newydd, dadleuol a/neu adlamol at Lywodraeth Cymru. Roeddwn yn ystyried y cynnig i gyflwyno contractau SS+ yn newydd a chyflwyno contractau SS+ yn ddadleuol a/neu'n adlamol. Ni wnaeth Cyfoeth Naturiol Cymru atgyfeirio at Lywodraeth Cymru fel sy'n ofynnol dan ei Ddogfen Fframwaith a Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru.
  - Fe wnaeth Bwrdd CNC Gynllun Dirprwyo o dan ddarpariaethau Gorchymyn Sefydlu Corff Adnoddau Naturiol Cymru 2012 (y Gorchymyn). Mae'r Cynllun Dirprwyo hwn yn rhoi pwerau dirprwyedig i ddeiliaid swyddi penodedig Cyfoeth Naturiol Cymru gytuno ar gontractau gwerthu coed ar ran Cyfoeth Naturiol Cymru. Canfûm nad oedd nifer o gontractau SS+ ac estyniadau contract wedi'u hawdurdodi'n briodol o dan y Cynllun Dirprwyo Ariannol a gymeradwywyd gan Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru. O ganlyniad, ni chafodd y contractau hyn eu gwneud yn gyfreithlon.
  - ae erthygl 8 o Orchymyn Sefydlu Cyfoeth Naturiol Cymru yn nodi bod yn rhaid i CNC, wrth ystyried p'un a ddylai arfer neu beidio unrhyw bŵer a roddir iddo drwy neu o dan unrhyw ddeddfiad, ystyried costau a manteision tebygol arfer y pŵer hwnnw neu beidio. Canfûm nad oedd defnyddio prisio cyfartalog o fewn contractau SS+ yn gymorth i asesu costau a manteision. Ymhellach, ni welais unrhyw dystiolaeth fod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ystyried costau a manteision tebygol pan gyflwynodd SS+ am y tro cyntaf yn 2016-17 na chynnal asesiad dilynol o gostau a manteision parhau i'w defnyddio.
- 6 Tua diwedd 2018 daeth Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymwybodol o bryderon ynghylch contractau SS+ a chymerodd gamau ar unwaith i atal dyfarnu'r math hwn o gontract. Nid yw wedi dyfarnu unrhyw gontractau SS+ ers hynny. Fodd bynnag, parhaodd 82 o gontractau SS+, a ddyfarnwyd cyn yr ataliad, mewn grym yn ystod blwyddyn ariannol 2019-20. Derbyniodd CNC £2.6 miliwn mewn incwm o'r contractau hyn sydd wedi'i gynnwys yn natganiadau ariannol Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer 2019-20.



- 7 Rwyf o'r farn fod incwm SS+ o fewn datganiadau ariannol 2019-20 CNC yn afreolaidd am yr un rhesymau ag yr amodais fy marn ar reoleidd-dra am 2018-19 (fel y nodwyd ym mharagraff 5) ac felly rwyf yn amodi fy marn ar reoleidd-dra datganiadau ariannol 2019-20 Cyfoeth Naturiol Cymru.
- 8 Mae fy amod yn perthyn i benderfyniadau hanesyddol a wnaed gan Gyfoeth Naturiol Cymru, yr wyf wedi adrodd amdanynt o'r blaen, ac nid yw'n codi unrhyw faterion newydd sy'n peri pryder.
- 9 Yn ystod 2019-20 ceisiodd Cyfoeth Naturiol Cymru ddod â'r contractau SS+ hynny, oedd yn dal i redeg, i ben yn gynnar drwy negodi â chontractwyr. Golygai'r trafodaethau hyn fod contractwyr yn gwneud taliadau i Gyfoeth Naturiol Cymru yn gyfnewid am eu rhyddhau o'u rhwymedigaethau cytundebol i ailstocio safleoedd lle roedd coed wedi cael eu torri. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cwblhau'r trafodaethau hyn yn llwyddiannus gyda phob contractwr SS+ ond dau. Mae CNC wedi cynnwys £0.5 miliwn mewn incwm o fewn ei gyfrifon ar gyfer 2019-20 sy'n gysylltiedig â'r trafodaethau a gwblhawyd.

DATGANIADAU ARIANNOL  
a  
NODIADAU AR Y CYFRIFON

ar gyfer 2019/20

## Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr

Ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2020

	Nodyn	2019/20 £'000	2018/19 £'000
Costau staff	3	100,252	90,134
Gwaith cyfalaf a wariwyd yn y flwyddyn	4	11,751	17,654
Gwariant arall	5	95,139	93,544
<b>Cyfanswm y gwariant gweithredu</b>		<b>207,142</b>	<b>201,332</b>
Incwm taliadau	6	(38,223)	(39,468)
Incwm masnachol ac arall	6	(34,333)	(35,076)
Cyllid Ewropeaidd a chyllid allanol arall	6	(1,141)	(1,543)
<b>Cyfanswm yr incwm gweithredu</b>		<b>(73,697)</b>	<b>(76,087)</b>
<b>Gwariant gweithredu net</b>		<b>133,445</b>	<b>125,245</b>
Cyllido asedau a rhwymedigaethau'r cynllun pensiwn	14.2.5	1,369	930
<b>Gwariant net am y flwyddyn</b>		<b>134,814</b>	<b>126,175</b>
<b>Gwariant net cynhwysfawr arall</b>			
Ailfesuriadau actiwaraidd ar y cynllun pensiwn	14.2.5	(56,500)	15,898
<b>Ailbriso</b>			
Enillion net ar ailbriso		(18,660)	(19,296)
<b>Cyfanswm gwariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn</b>		<b>59,654</b>	<b>122,777</b>

Mae'r nodiadau ar dudalennau 93 i 129 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

## Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol

Ar 31 Mawrth 2020

		31 Mawrth 2020	31 Mawrth 2019 (Ailddatganwyd)	31 Mawrth 2018 (Ailddatganwyd)
	Nodyn	£'000	£'000	£'000
<b>Asedau tymor hir</b>				
Eiddo, peiriannau ac offer	7.1	1,066,515	880,805	812,436
Asedau treftadaeth	7.1	7,099	7,000	6,432
Asedau biolegol	7.1	135,744	122,538	113,125
Asedau anniriaethol	7.2	22,049	16,604	14,809
Asedau ariannol	9	5,521	4,663	95
Derbyniadau tymor hir	10	3,982	2,052	0
<b>Cyfanswm asedau tymor hir</b>		<b>1,240,910</b>	<b>1,033,662</b>	<b>946,897</b>
<b>Asedau cyfredol</b>				
Asedau a ddelir i'w gwerthu		1,133	238	451
Rhestrau eiddo		1,295	2,436	798
Dyledwyr masnachol a symiau derbyniadwy eraill	10	16,111	15,067	13,821
Arian parod ac arian parod cyfatebol	11	25,101	49,025	43,539
<b>Cyfanswm yr asedau cyfredol</b>		<b>43,640</b>	<b>66,766</b>	<b>58,609</b>
<b>Cyfanswm yr asedau</b>		<b>1,284,550</b>	<b>1,100,428</b>	<b>1,005,506</b>
<b>Rhwymedigaethau cyfredol</b>				
Credydwyr masnachol a symiau taladwy eraill	12	(27,904)	(21,562)	(22,055)
Darpariaethau	13	(412)	(1,078)	(1,227)
<b>Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol</b>		<b>(28,316)</b>	<b>(22,640)</b>	<b>(23,282)</b>
<b>Asedau llai rhwymedigaethau cyfredol</b>		<b>1,256,234</b>	<b>1,077,788</b>	<b>982,224</b>
<b>Rhwymedigaethau tymor hir</b>				
Rhwymedigaethau pensiwn	14.2.5	(1,511)	(56,088)	(32,484)
Rhwymedigaethau ariannol	8	(39,942)	(39,973)	(39,992)
Symiau taladwy tymor hir	12	(4,722)	(2,968)	(915)
<b>Cyfanswm rhwymedigaethau tymor hir</b>		<b>(46,175)</b>	<b>(99,029)</b>	<b>(73,391)</b>
<b>Asedau llai rhwymedigaethau</b>		<b>1,210,059</b>	<b>978,759</b>	<b>908,833</b>
<b>Ecwiti trethdalwyr a chronfeydd eraill</b>				
Cronfa gyffredinol	DoNET	234,407	242,669	218,501
Cronfa ailbrisió	DoNET	977,163	792,178	722,816
Cronfa pensiynau	DoNET	(1,511)	(56,088)	(32,484)
<b>Cyfanswm ecwiti trethdalwyr</b>		<b>1,210,059</b>	<b>978,759</b>	<b>908,833</b>

Mae'r sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2019 a 31 Mawrth 2018 wedi'i hailddatgan i adlewyrchu addasiad i brisiad Ystad y Goedwig. Mae manylion yr ailddatganiad wedi'u cynnwys yn nodyn 1.11

Mae'r cymariaethau ar gyfer 18/19 yn cynnwys ac addasiad o incwm wedi'i amddiffyn o £300k yn ymwneud â thaliadau a bondiau ac adneuo £190k sydd wedi'u hailddosbarthu o'r rhwymedigaethau cyfredol i rwymedigaethau anghyfredol.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 93 i 129 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.



Clare Pillman  
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

Dyddiad: 25 Tachwedd 2020

## Datganiad o lif arian

Ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2020

		2019/20	2018/19
	Nodyn	£'000	£'000
<b>Llif arian o weithgareddau gweithredu</b>			
Gwariant gweithredu net	DoWNC	(133,445)	(125,245)
Addasiad ar gyfer trafodion anariannol		26,868	34,643
Cynnydd mewn dyledwyr masnachol a symiau derbyniadwy eraill	10 *	(1,835)	(1,675)
Cynnydd / (Gostyngiad) mewn credydwyr masnachol a symiau taladwy eraill	12 *	4,977	(570)
Gostyngiad mewn darpariaethau	DoSA *	(54)	(31)
<b>Llif arian net o weithgareddau gweithredu</b>		<b><u>(103,489)</u></b>	<b><u>(92,878)</u></b>
<b>Llif arian o weithgareddau buddsoddi</b>			
Prynu assedau diriaethol	7.1 *	(3,411)	(4,384)
Prynu asedau anniriaethol	7.2 *	(7,508)	(4,791)
Elw ar waredu eiddo, offer a chyfarpar		436	521
<b>Llif arian net o weithgareddau buddsoddi</b>		<b><u>(10,483)</u></b>	<b><u>(8,654)</u></b>
<b>Llif arian o weithgareddau ariannu</b>			
Grantiau gan Lywodraeth Cymru	DoNET	90,048	107,018
<b>Ariannu net</b>		<b><u>90,048</u></b>	<b><u>107,018</u></b>
<b>Cynnydd net mewn arian parod a chyfwerthoedd arian yn y cyfnod</b>		<b><u>(23,924)</u></b>	<b><u>5,486</u></b>
<b>Arian parod chyfwerthoedd arian ar ddechrau'r cyfnod</b>		<b><u>49,025</u></b>	<b><u>43,539</u></b>
<b>Arian parod a chyfwerthoedd arian ar ddiwedd y cyfnod</b>	11	<b><u>25,101</u></b>	<b><u>49,025</u></b>

Mae'r nodiadau ar dudalennau 93 i 129 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

- 7.1 \* Mae'r all-lif arian parod o £3,411k yn cynrychioli pryniannau cyfalaf diriaethol yn ystod y flwyddyn yn unol â nodyn 7.1 o £4,888k wedi'i addasu ar gyfer anfonebau cyfalaf heb eu talu o £1,121k ac adneuo a dalwyd mewn blynyddoedd blaenorol yn ymwneud ag ychwanegiadau yn y flwyddyn gyfredol o £356k.
- 7.2 \* Mae'r all-lif arian parod o £7,508k yn cynrychioli pryniannau cyfalaf anniriaethol yn ystod y flwyddyn yn unol â nodyn 7.2 o £7,698k wedi'i addasu ar gyfer pryniannau cyfalaf heb eu talu o £190k.
- 10 \* Mae'r all-lif arian parod oherwydd y symudiad mewn dyledwyr masnachol a symiau derbyniadwy eraill o £1,835k yn cynrychioli'r cynnydd mewn dyledwyr masnachol ac eraill fel yn nodyn 10 o £2,974k wedi'i addasu ar gyfer trafodion anariannol o £1,495k a £356k mewn perthynas ag adneuo a dalwyd mewn blynyddoedd blaenorol yn ymwneud ag asedau anghyfredol y flwyddyn gyfredol ac yr adroddwyd arnynt o dan weithgareddau buddsoddi.
- 12 \* Mae'r mewn-lif arian parod oherwydd y symudiad mewn credydwyr masnachol a symiau taladwy eraill o £4,977k yn cynrychioli cynnydd mewn credydwyr masnachol ac eraill fel yn nodyn 12 o £8,096k ar ôl addasu ar gyfer trafodion anariannol o £1,808k a £1,311k yn ymwneud â gweithgareddau buddsoddi.
- DoSA \* Mae'r all-lif arian parod oherwydd gostyngiad mewn darpariaethau o £54k yn cynrychioli'r symudiad mewn darpariaethau yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol o £666k wedi'i addasu ar gyfer trafodion anariannol o £612k.



## Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr

Ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2020

	Cronfa gyffredinol £'000	Cronfa ailbriso £'000	Cronfa pensiynau £'000	Cyfanswm £'000
<b>Balans agoriadol (Ailddatganwyd)</b>	<b>242,669</b>	<b>792,178</b>	<b>(56,088)</b>	<b>978,759</b>
Gwariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn	(59,654)	0	0	(59,654)
<b>Symudiad o fewn y flwyddyn</b>				
Ailbrisiad yn y flwyddyn	0	200,906	0	<b>200,906</b>
Ailbrisiad a wireddwyd	15,921	(15,921)	0	<b>0</b>
Enillion actiwaraidd ar y cynllun pensiwn	(56,500)	0	56,500	<b>0</b>
Gostyngiad mewn rhwymedigaeth pensiwn	1,923	0	(1,923)	<b>0</b>
<b>Cyfanswm y symudiad yn ystod y flwyddyn</b>	<b>(38,656)</b>	<b>184,985</b>	<b>54,577</b>	<b>200,906</b>
<b>Ariannu</b>				
Grantiau gan Lywodraeth Cymru	90,048	0	0	<b>90,048</b>
<b>Balans ar 31 Mawrth 2019</b>	<b>234,407</b>	<b>977,163</b>	<b>(1,511)</b>	<b>1,210,059</b>

Cronfa gyffredinol - yn adlewyrchu sefyllfa gronpus y gwariant net a'r cyllid gan Lywodraeth Cymru.

Cronfa ailbriso - yn adlewyrchu balans cronol ailbriso a mynegeoio asedau tymor hir.

Cronfa pensiwn - yn adlewyrchu sefyllfa gronpus rhwymedigaethau net y cynllun pensiwn.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 93 i 129 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

## Ffigurau cymharol ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2019 (Ailddatganwyd)

	Cronfa gyffredinol £'000	Cronfa ailbriso £'000	Cronfa pensiynau £'000	Cyfanswm £'000
<b>Balans agoriadol (Ailddatganwyd)</b>	<b>218,501</b>	<b>722,816</b>	<b>(32,484)</b>	<b>908,833</b>
Gwariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn	(122,777)	0	0	(122,777)
<b>Symudiad o fewn y flwyddyn</b>				
Ailbrisiad yn y flwyddyn	0	85,685	0	<b>85,685</b>
Ailbrisiad a wireddwyd	16,323	(16,323)	0	<b>0</b>
Enillion actiwaraidd ar y cynllun pensiwn	15,898	0	(15,898)	<b>0</b>
Gostyngiad mewn rhwymedigaeth pensiwn	7,706	0	(7,706)	<b>0</b>
<b>Cyfanswm y symudiad yn ystod y flwyddyn (Ailddatganwyd)</b>	<b>39,927</b>	<b>69,362</b>	<b>(23,604)</b>	<b>85,685</b>
<b>Ariannu</b>				
Grantiau gan Lywodraeth Cymru	107,018	0	0	<b>107,018</b>
<b>Balans ar 31 Mawrth 2019 (Ailddatganwyd)</b>	<b>242,669</b>	<b>792,178</b>	<b>(56,088)</b>	<b>978,759</b>

## Nodyn 1 Polisiau Cyfrifyddu

### 1.1 Gofyniad i baratoi cyfrifon

Mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol (FReM) 2018/19 a gyhoeddwyd gan Drysorlys ei Mawrhydi ac â'r cyfarwyddyd cyfrifon a roddwyd gan Lywodraeth Cymru yn unol â pharagraff 23(1) orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012.

Mae'r polisiau cyfrifyddu sydd yn y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol (FReM) yn cymhwyso Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y cawsant eu haddasu neu eu dehongli yn gyd-destun y sector cyhoeddus. Lle mae'r FReM yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifyddu, mae'r cyfrifon hyn yn dilyn y polisi sy'n fwyaf priodol i roi darlun cywir a theg ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC).

Mae'r polisiau a fabwysiadwyd yn cael eu disgrifio isod ac yn yr amrywiol nodiadau ar y cyfrifon. Maent wedi cael eu cymhwyso'n gyson wrth ddelio ag eitemau a ystyrir yn faterol berthnasol i'r cyfrifon.

Mae'r gwaith o baratoi'r datganiadau ariannol yn gofyn am wneud amryw o amcangyfrifon a thybiaethau sy'n effeithio ar bolisiau cyfrifyddu a symiau a adroddwyd. Mae'r holl amcangyfrifon a dyfarniadau o'r fath yn cael eu hadolygu ar sail barhaus. Mae diwygiadau i amcangyfrifon cyfrifyddu yn cael eu cydnabod yn y cyfnod y mae'r amcangyfrif yn cael ei ddiwygio ac mewn unrhyw gyfnod yn y dyfodol yr effeithir arno. Mae'r holl amcangyfrifon yn seiliedig ar wybodaeth o ffeithiau ac amgylchiadau cyfredol, tybiaethau ynglŷn â digwyddiadau yn y gorffennol a rhagolygon o ddigwyddiadau yn y dyfodol.

Mae'r meysydd mwyaf arwyddocaol o ran amcangyfrif a dyfarniadau critigol yn cael eu dangos yn erbyn y nodiadau perthnasol. Sylwch y gall y canlyniadau gwirioneddol yn y dyfodol fod yn wahanol i'r amcangyfrifon hyn.

### 1.2 Arferion cyfrifo

Mae'r cyfrifon hyn wedi cael eu paratoi ar sail cronïadau, o dan y confensiwn cost hanesyddol, a addaswyd i roi cyfrif am ailbrisio eiddo, offer a chyfarpar, asedau tymor hir anniriaethol i werth teg fel y pennwyd gan y safon cyfrifo berthnasol.

Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi'u seilio ar egwyddor busnes hyfyw.

### 1.3 Cymorth grant

Mae cymorth grant a grantiau eraill a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru yn cael eu trin fel cyllid a dderbyniwyd gan barti rheoli. Mae'r derbyniadau hyn yn cael eu credydu yn uniongyrchol i'r gronfa gyffredinol yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ac nid drwy'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

## 1.4 Incwm, gwariant a grantiau

Mae cyfrifyddu ar sail croniadau yn golygu bod incwm a gwariant a ddatgelir yn y cyfrifon yn cael eu cyfrif yn y flwyddyn y mae'r gweithgaredd perthnasol yn digwydd, yn hytrach na phan fydd taliadau arian parod yn cael eu gwneud neu eu derbyn.

Ffioedd opsiynau ac incwm cysylltiedig a dderbynnir gan weithredwyr ffermydd gwynt yw'r unig eithriad, bydd cyfrif amdanynt yn y flwyddyn y'u derbyniwyd. Mae'r incwm a gynhyrchir gan ffermydd gwynt sy'n ddarostyngedig i Nodyn Cyngor Technegol 8: Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy (TAN 8) yn cael ei drosglwyddo i Lywodraeth Cymru. Cesglir yr incwm gan Cyfoeth Naturiol Cymru, tynnir y gwariant perthnasol oddi ar yr incwm a throsglwyddir y balans i Lywodraeth Cymru. Mae'r brydles ar gyfer fferm wynt Cefn Croes yn eithriad yn yr ystyr bod yr incwm a gynhyrchir gan y brydles hon yn cael ei gadw gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Er mwyn cyfateb i'r driniaeth gyfrifyddu gan Lywodraeth Cymru, dangosir gwerth net incwm ffermydd gwynt ar ôl didynnu'r taliad i Lywodraeth Cymru o fewn incwm ynni adnewyddadwy yn nodyn 6.

Mae incwm a dderbyniwyd cyn i'r gwaith gael ei wneud yn cael ei drin fel incwm gohiriedig.

Lle mae incwm a gwariant wedi cael eu cydnabod ond nad yw'r arian parod wedi ei dderbyn na'i dalu, mae swm taladwy neu dderbyniadwy am y swm perthnasol yn cael ei gofnodi yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol. Lle mae posibilrwydd na fydd dyledion yn cael eu talu, caiff balans y symiau derbyniadwy ei ysgrifennu i lawr a chodir tâl ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr am yr incwm a allai beidio â chael ei gasglu.

Mae trafodion gwerthu a phrynu sydd yn gynhenid gysylltiedig, ac y gwneir neu y derbynnir un taliad unigol ar eu cyfer, yn cael eu cyfrif fel un trafodiad. Defnyddir y polisi cyfrifyddu sy'n briodol i brif elfen y trafodiad.

Cydnabyddir cyfraniadau grant nad ydynt yn gymorth grant neu a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru fel incwm yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

## 1.5 Rhestrau Eiddo

Mae rhestrau eiddo yn cynnwys stociau coed cwmpedig ac yn cael eu prasio fel gwerth teg llai costau gwerthu amcangyfrifedig i gwblhau a'u gwaredu. Amcangyfrifir gwerth teg gan ddefnyddio prisiau gwerthu disgwylidig.

## 1.6 Treth ar Werth

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael ei ddsbarthu fel corff sydd yn gymwys i adran 33 o Ddeddf Treth Ar Werth (TAW) 1994 ac yn unol â hynny mae'n adennill treth a dalwyd ar weithgareddau busnes a gweithgareddau nad ydynt yn ymwneud â busnes. Mae adennill TAW ar gyflenwadau eithriedig yn dibynnu ar y trothwy ar gyfer gweithgareddau eithriedig. Ym mhob achos, lle codir treth wrth werthu, neu lle mae treth wrth brynu yn adenilladwy, mae'r symiau a gynhwysir yn y cyfrifon hyn yn cael eu nodi heb gynnwys TAW.

## 1.7 Rhanbarthau draenio mewnol

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithredu fel y bwrdd draenio sy'n rhedeg pedair ar ddeg o ardaloedd draenio yng Nghymru. Mae'r gwaith a wnaed ym mhob ardal yn cael ei ariannu gan gyfuniad o gyfraddau draenio a godir ar feddianwyr tir amaethyddol ac ardollau arbennig a delir gan awdurdodau lleol o ran tir an-amaethyddol.

Mae'n ofynnol i Gyfoeth Naturiol Cymru gan adran 40 o Ddeddf Draenio Tir 1991, bennu cyfraddau draenio a chan reoliad 7 o Reoliadau Byrddau Draenio Mewnol (Cyllid) 1992 gyhoeddi ardollau arbennig cyn 15fed Chwefror y flwyddyn ariannol cyn y flwyddyn y maent yn berthnasol iddi.

Gosodwyd y cyfraddau draenio, yr ardollau arbennig a'r praeseptau ar gyfer 2019/20 gan Cyfoeth Naturiol Cymru, yn gweithredu fel y bwrdd draenio. Mae'r incwm hwn yn cael ei gynnwys yn Nodyn 6.

## 1.8 Mabwysiadu dehongliadau newydd a diwygiedig Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) neu'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol (FReM) a newidiadau mewn polisiau cyfrifyddu

### Newidiadau mewn polisiau cyfrifyddu

Pan sefydlwyd Cyfoeth Naturiol Cymru, roedd yr asedau a drosglwyddwyd o'r cyrff blaenorol yn cynnwys un fferm wynt, Cefn Croes, a oedd wedi'i chydabod yn y cam gweithredol. Rhennir datblygiad fferm wynt yn dri cham. Mae pob cam yn gofyn am fath gwahanol o gytundeb prydles.

- Y cam cyntaf yw'r Cytundeb Prydles Opsiwn. Mae hyn yn rhoi hawl i ddatblygwr y fferm wynt ddefnyddio'r opsiwn i adeiladu ar y tir. Ar y cam hwn, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn derbyn ffi opsiwn yn seiliedig ar fformiwla ariannol a nodir yn y cytundeb.
- Yr ail gam yw'r Cytundeb Prydles Ddatblygu. Mae caniatâd cynllunio wedi'i roi ac mae'r gwaith adeiladu yn digwydd yn ystod y cam hwn. Yn debyg i'r cam cyntaf, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn derbyn ffi opsiwn yn seiliedig ar fformiwla ariannol a nodir yn y cytundeb.
- Y trydydd cam yw'r Cytundeb Prydles Weithredu. Mae'r fferm wynt yn gwbl weithredol ac yn cynhyrchu trydan. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn derbyn dwy elfen o incwm; rhent sylfaenol gwarantiedig a rhent breindal yn seiliedig ar gynhyrchu trydan.

Cytunwyd bellach y byddai fferm wynt yn cael ei chydabod cyn gynted ag y bydd o fewn ei phrydles ddatblygu oherwydd y newidiadau yn nhelerau rhent y cytundeb. Pan fydd fferm wynt yn symud o'r cam opsiwn i'r cam datblygu, cynhyrchir mwy o incwm ac mae mwy o sicrwydd y bydd yn symud i'r cam gweithredol yn y pen draw. Yn ystod 2019/20, mae dwy fferm wynt arall, Pen y Cymoedd a Gorllewin Brechfa, wedi dod yn weithredol a chafwyd prisiad a'u gydnabuwyd yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol. Cydnabuwyd Clocaenog, sydd yn y cam datblygu hefyd. Mae hyn yn cynrychioli newid yn y polisi cyfrifyddu y dylid rhoi cyfrif amdano yn ôl-weithredol yn y datganiadau ariannol. Fodd bynnag, mae'n anymarferol pennu gwerth y tair fferm wynt yn ôl-weithredol ar gyfer 31 Mawrth 2019.

Pan fydd fferm wynt yn cael ei chyfalafu fel ased, tynnir gwerth y tir oddi ar brisiad yr ystad goedwig ac fe'i datgelir o fewn Tir Arall a'i gynnwys gyda phrisiad y fferm wynt. Mae prisiadau'r tair fferm wynt newydd, sydd hefyd wedi'u cynnwys yn Nhir Arall yn nodyn 7, ar 31 Mawrth 2020 fel a ganlyn:

	£000
Pen y Cymoedd	80,400
Gorllewin Brechfa	14,400
Clocaenog	<u>28,690</u>
<b>Cyfanswm</b>	<b>123,490</b>

Gweler nodyn 1.4 am wybodaeth ar driniaeth incwm ffermydd gwynt. Gweler nodyn 7.1.2 am fanylion pellach ar gydnabod a mesur ffermydd gwynt.

### Y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) sy'n weithredol yn y datganiadau ariannol hyn.

Mae'r holl Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS), dehongliadau a diwygiadau sydd ar waith yn ystod y cyfnod adrodd hwn wedi'u mabwysiadu yn y datganiadau hyn.

### Y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) a fydd yn weithredol mewn blynyddoedd ariannol y dyfodol

Mae Safon Cyfrifyddu Ryngwladol (IAS) 8, Polisiau Cyfrifyddu, Newidiadau mewn Amcangyfrifon a Gwallau Cyfrifyddu yn mynnu datgeliadau mewn perthynas â Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) newydd, a diwygiadau a dehongliadau sydd, neu a fydd yn berthnasol ar ôl y cyfnod adrodd. Mae yna nifer o Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS), diwygiadau a dehongliadau a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol a fydd yn weithredol mewn cyfnodau adrodd yn y dyfodol. Amlinellir y rhai sy'n berthnasol i Cyfoeth Naturiol Cymru isod. Nid yw Cyfoeth Naturiol Cymru wedi mabwysiadu unrhyw Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) newydd yn gynnar, a bydd yn cymhwyso'r safonau ar ôl iddynt gael eu mabwysiadu'n ffurfiol yn y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol (FReM).

### Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol (IFRS) 16 - Prydlesi

Gohiriwyd gweithredu'r safon hon ac bydd bellach yn effeithiol yn y sector cyhoeddus o 1 Ebrill 2021. Bydd yn disodli'r holl Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) presennol ar brydlesi. Y brif effaith yw bod safon IFRS 16 yn cyflwyno model cyfrifyddu unffurf ar gyfer prydleseion ac yn ei gwneud yn ofynnol i brydlesai gydnabod asedau a rhwymedigaethau ar gyfer bron pob prydles. Disgwylir i safon (IFRS) 16 gael effaith sylweddol yn nhermau adrodd ariannol sy'n cael ei hasesu ar hyn o bryd.

### Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol (IFRS) 17 - Contractau Yswiriant.

Bydd y safon hon yn berthnasol i bob math o contract yswiriant ac yn cynnig dull blociau adeiladu yn seiliedig ar werth presennol disgwylidiedig llifoedd arian yn y dyfodol ar gyfer mesur rhwymedigaethau contractau yswiriant. Bydd safon (IFRS) 17 yn weithredol mewn cyfnodau blynyddol sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2023.

## 1.9 Darpariaethau Ariannol (Safleoedd tirlenwi)

Ar gyfer yr holl safleoedd tirlenwi, mae angen sefydlu trefniadau darpariaeth ariannol cyn y gellir rhoi trwydded. Rhaid i'r trefniadau darpariaeth ariannol fod ar waith cyn cychwyn gweithrediadau gwaredu, ac mae angen i ddarpariaethau o'r fath fod yn ddigonol (mewn termau ariannol), yn ddiogel ac ar gael pan fo eu hangen. Mae safleoedd tirlenwi yn cynnwys yr holl safleoedd gwastraff sy'n destun y gyfarwyddeb tirlenwi.

Y canlynol yw'r prif fecanweithiau y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn eu derbyn i ddangos trefniadau darpariaeth ariannol:

- Bondiau adnewyddadwy (a ddangosir yn nodyn 12)
- Adneuon arian parod gyda Cyfoeth Naturiol Cymru (a ddangosir yn nodyn 12)
- Cyfrifon escrow
- Cytundebau gweithredoedd Awdurdodau Lleol
- Gwarantau rhiant-gwmnïau
- Cytundebau ymbarél (yn cwmpasu nifer o safleoedd)

## 1.10 Nodiadau i'r cyfrifon

Mae Nodyn 2 yn rhoi dadansoddiad o incwm a gwariant i segmentau gweithredol.

Mae Nodiadau 3 i 14 yn darparu dadansoddiad o ffigurau perthnasol a adroddwyd yn y datganiadau o wariant net cynhwysfawr, y sefyllfa ariannol a llifau arian parod.

Mae Nodiadau 15 i 23 yn ymwneud â ffigurau nad ydynt wedi eu datgelu mewn manau eraill yn y cyfrifon hyn.



### 1.11 Ailddatgan cyfnodau blaenorol

Dyblygwyd gwerth y tir ar fferm wynt Cefn Croes trwy gamgymeriad gan iddo gael ei gynnwys yn Ystâd y Goedwig a Thir Eraill. Mae'r gwall yn dyddio'n ôl i gorff etifeddiaeth. Fe'i cywirwyd trwy ailddatgan y datganiadau ariannol a ddangosir isod.

#### Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol

	31 Mawrth 2019 £'000	31 Mawrth 2018 £'000
<b>Asedau tymor hir</b>		
Eiddo, peiriannau a chyfarpar adroddwyd yn wreiddiol	882,963	814,430
Cywiriad i Eiddo, peiriannau a chyfarpar	(2,158)	(1,994)
	<hr/>	<hr/>
Eiddo, peiriannau a chyfarpar fel a'r ailddatganwyd	880,805	812,436
<b>Cronfa Gyffredinol</b>		
Adroddwyd yn wreiddiol	240,998	216,830
Cywiriad hanesyddol	188	188
	<hr/>	<hr/>
Ailddatganwyd	241,186	217,018
<b>Cronfa Ailbrisió</b>		
Adroddwyd yn wreiddiol	796,007	726,481
Cywiriad hanesyddol	(2,345)	(2,182)
	<hr/>	<hr/>
Ailddatganwyd	793,662	724,299

#### Datganiad o newidiadau mewn Exciti Trethdalwyr Ffigyrau cymharol ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2019

	Balans ar ddiwedd y flwyddyn 2018/19 £'000	Balans agoriadol 2018/19 £'000
<b>Cronfa Gyffredinol</b>		
Adroddwyd yn wreiddiol	240,998	216,830
Cywiriad hanesyddol	188	188
	<hr/>	<hr/>
Ailddatganwyd	241,186	217,018
<b>Cronfa Ailbrisió</b>		
Adroddwyd yn wreiddiol	796,007	726,481
Cywiriad hanesyddol	(2,182)	(2,182)
Cywiriad 2018/19	(163)	0
	<hr/>	<hr/>
Ailddatganwyd	793,662	724,299

## 2. Dadansoddiad o wariant gweithredu net yn ôl segment

Ar gyfer y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2020

Mae'r segmentau hyn yn elfennau y mae gwybodaeth ariannol yn cael ei reoli a'i adrodd yn fewnol ar eu cyfer.

Roedd incwm a gwariant a ddangosir uchod wedi'u priodoli'n uniongyrchol i'r segmentau.

	Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol	Gweithrediadau	Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu	Cyfathrebu a Gwybodaeth Cwsmeriaid	Strategaeth a Datblygu Corfforaethol	Swyddogaethau a reolir yn ganolog	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
<b>Adroddwyd yn ôl segmentau</b>							
Gwariant	40,029	87,803	44,897	2,311	4,847	27,255	207,142
Incwm	(42,064)	(31,061)	(528)	0	(44)	0	(73,697)
<b>Cyfanswm</b>	<b>(2,035)</b>	<b>56,742</b>	<b>44,369</b>	<b>2,311</b>	<b>4,803</b>	<b>27,255</b>	<b>133,445</b>
<b>Gwariant cyfalaf</b>	<b>5,138</b>	<b>1,028</b>	<b>6,420</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>12,586</b>

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn penderfynnu y gellir defnyddio'r categorïau canlynol i gwrdd â gofyniad datgeliad dadgyfuno Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol (IFRS) 15.

	Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol	Gweithrediadau	Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu	Cyfathrebu a Gwybodaeth Cwsmeriaid	Strategaeth a Datblygu Corfforaethol	Swyddogaethau a reolir yn ganolog	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
<b>Adroddwyd yn ôl segmentau</b>							
Incwm taliadau	37,756	467	0	0	0	0	38,223
Incwm masnachol ac arall	4,308	29,746	235	0	44	0	34,333
Cyllid Ewropeaidd a chyllid allanol arall	0	848	293	0	0	0	1,141
<b>Cyfanswm</b>	<b>42,064</b>	<b>31,061</b>	<b>528</b>	<b>0</b>	<b>44</b>	<b>0</b>	<b>73,697</b>
<b>Adroddwyd yn ôl segmentau</b>							
Llywodraethol	1,517	946	478	0	44	0	2,985
Anllywodraethol	40,547	30,115	50	0	0	0	70,712
<b>Cyfanswm</b>	<b>42,064</b>	<b>31,061</b>	<b>528</b>	<b>0</b>	<b>44</b>	<b>0</b>	<b>73,697</b>

## Dadansoddiad o wariant gweithredu net yn ôl segment (parhad)

### Disgrifiad o'r segmentau

Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol	Mae'r Gyfarwyddiaeth Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol yn darparu gwasanaethau ariannol, archwilio a sicrhau risg, gwasanaethau TGCh, rheoli adeiladau a'r fflyd. Yn ystod 2019-20, darparodd yn ogystal gymorth cyfreithiol, gwasanaethau sefydliadol a rheoli pobl, gwasanaethau masnachol a chymorth caffael.
Gweithrediadau	Mae gan y Gyfarwyddiaeth Gweithrediadau'r prif gyfrifoldeb am gyflawni'r gwaith o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn ardal ddaearyddol Cymru, gan gynnwys ei hamgylchedd morol, ar draws yr ystod o gylch gwaith Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae hefyd yn darparu rheolaeth o raglenni cyfalaf, gweithrediadau a chynllunio masnachol a gwasanaethau morol ar gyfer Cymru gyfan.
Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu	Mae'r Gyfarwyddiaeth Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu yn darparu cydgysylltiad canolog ar gyfer gwaith allanol y sefydliad, gan arwain ar ddatblygu polisi a strategaeth, tystiolaeth, offer, safonau, arweiniad a chynngor i alluogi timau eraill Cyfoeth Naturiol Cymru a chydweithwyr a phartneriaid Llywodraeth Cymru i gyflawni eu cylch gwaith. Mae yna hefyd rai rolau cyflawni uniongyrchol yn y gyfarwyddiaeth fel y Gwasanaeth Darogan Llifogydd. O 2019-20, crëwyd adran Stiwardiaeth Tir newydd.
Cyfathrebu a Gwybodaeth Cwsmeriaid	Cysylltiadau allanol, cyfathrebu a chanolfan gyswllt cwsmeriaid.
Strategaeth a Datblygu Corfforaethol	Mae'r Gyfarwyddiaeth Strategaeth a Datblygu Corfforaethol yn arwain nifer o swyddogaethau trawsbynciol Cyfoeth Naturiol Cymru, gan gynnwys cynllunio strategol a pherfformiad, gwelliant parhaus a rheoli rhaglenni, datblygu sefydliadol ac ymgysylltu â staff, a llywodraethu corfforaethol. Mae hefyd yn cefnogi Bwrdd a Phrif Weithredwr Cyfoeth Naturiol Cymru.
Swyddogaethau a reolir yn ganolog	Incwm a gwariant a reolir yn ganolog ac na ddyrennir i gyfarwyddiaethau. Mae'n cynnwys dibrisiant, gwerth llyfr cwmpiaidau coed, a chroniadau diwedd blwyddyn ar gyfer darpariaethau.

Yn ystod 2019/20 gwnaethom gwblhau ein rhaglen newid Cynllunio'r Sefydliad. Unodd ein dwy gyfarwyddiaeth Gweithrediadau (Gogledd a De), a ddechreuodd weithredu trwy saith ardal ddaearyddol yng Nghymru. Creodd ein Cyfarwyddiaeth Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu adran newydd, Stiwardiaeth Tir, i oruchwylio ein polisi rheoli tir ar draws Ystad Goetir Llywodraeth Cymru.

Gwnaethom hefyd ailstrwythuro ein cyfarwyddiaethau canolog. Creodd y Gyfarwyddiaeth Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol adran Fasnachol newydd i gyflawni ein gweithgareddau gwerthu a chaffael, symudodd y tîm Archwilio Mewnol i mewn i'r gyfarwyddiaeth, ymgorfforwyd gwasanaethau Rheoli Pobl. Crëwyd y Gyfarwyddiaeth Strategaeth a Datblygu Corfforaethol, a gwnaeth hon amsugno swyddogaethau'r adran Llywodraethu a Chynllunio a'r Gyfarwyddiaeth Trawsnewid a chreu adran newydd i arwain Datblygiad Sefydliadol.

### Ffigurau cymharol ar gyfer y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2019

	Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol	Gweithrediadau'r Gogledd a'r Canolbarth	Gweithrediadau'r De	Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu	Syddfa'r Prif Weithredwr a Thrawsnewid	Swyddogaethau a reolir yn ganolog	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
<b>Adroddwyd yn ôl segmentau</b>							
Gwariant	34,245	67,117	32,450	42,069	4,832	20,619	201,332
Incwm	(38,818)	(39,807)	(2,707)	(569)	0	5,814	(76,087)
<b>Cyfanswm</b>	<b>(4,573)</b>	<b>27,310</b>	<b>29,743</b>	<b>41,500</b>	<b>4,832</b>	<b>26,433</b>	<b>125,245</b>
<b>Gwariant cyfalaf</b>	<b>6,750</b>	<b>1,570</b>	<b>47</b>	<b>1,068</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>9,435</b>

Nid yw'r tabl hwn wedi'i ailddatgan i ystyried newidiadau i'r strwythur sefydliadol yn ystod 2019/20 ac felly nid oes modd ei gymharu.

### 3. Costau staff

Mae mwy o fanylion costau a niferoedd y staff yn cael eu datgelu yn yr Adroddiad cyflogau a staff ar dudalen 73.

	2019/20			2018/19
	Staff Parhaol £'000	Staff Arall £'000	Cyfanswm £'000	Cyfanswm £'000
Cyflog a phae	65,050	12,555	77,605	68,755
Costau nawdd cymdeithasol a threthi eraill	6,858	437	7,295	6,417
Costau pensiwn eraill	20,999	268	21,267	13,416
<b>Cyfanswm costau cyflog net</b>	<b>92,907</b>	<b>13,260</b>	<b>106,167</b>	<b>88,588</b>
Gwariant arall i staff			2,004	8,012
Llai symiau a godwyd ar brosiectau cyfalaf			(7,919)	(6,466)
<b>Cyfanswm costau staff</b>			<b>100,252</b>	<b>90,134</b>

### 4. Gwaith cyfalaf a wariwyd yn y flwyddyn

Categoriâu	2019/20	2018/19	31 Mawrth 2020	31 Mawrth 2019
	Gwirioneddol £'000	Gwirioneddol £'000	Ymrwymedig £'000	Ymrwymedig £'000
Gwaith gweithredol	10,709	16,985	9,036	5,000
Grantiau cyfalaf	1,042	669	54	76
<b>Cyfanswm</b>	<b>11,751</b>	<b>17,654</b>	<b>9,090</b>	<b>5,076</b>

Mae gwaith cyfalaf a wariwyd yn ystod y flwyddyn yn ymwneud â gwariant sy'n waith cyfalaf o ran ei natur ond lle nad yw Cyfoeth Naturiol Cymru yn cadw'r risgiau a gwobrwyon sy'n gysylltiedig â pherchenogaeth.

#### Mae gwaith gweithredol yn cynnwys:

Asedau rheoli perygl llifogydd ac arfordirol a adeiladwyd ar dir nad yw Cyfoeth Naturiol Cymru yn berchen arno ond lle mae ganddo bwerau caniatool i gynnal amddiffyniad, megis:

- Adfer ac adnewyddu  
Gweithio i sicrhau bod cyflwr yr amddiffynfeydd rhag llifogydd yn cael eu cadw yn y cyflwr priodol a'u hadfer i'r cyflwr hwnnw yn ôl yr angen.
- Argloddiau  
Creu, gwella neu gynyddu uchder argloddiau ar hyd cyrsiau dŵr er mwyn lleihau'r risg y bydd y dŵr yn dianc o sianel yr afon.
- Mapio Llifogydd  
Cynhyrchu mapiau aml-haenog sy'n rhoi gwybodaeth am lifogydd o ddŵr daear, afonydd a'r môr ar gyfer Cymru, ac yn cynnwys gwybodaeth am amddiffynfeydd rhag llifogydd a'r ardaloedd sy'n elwa o'r amddiffynfeydd hynny.
- Pentyrru  
Gosod pyst ar hyd glannau'r afonydd i'w cryfhau a chadw'r tir cyfagos yn ddiogel ac atal tirlithriadau i'r afon gan achosi rhwystrau. Byddai'r gwaith hwn i raddau helaeth o dan y ddaear.
- Cwlfertau a gwelliannau i'r sianel  
Trwsio neu ailosod cwlferei o dan dir, ffyrdd ac eiddo a gwelliannau i'r sianeli sy'n cynorthwyo llif y cyrsiau dŵr.
- Strategaethau rheoli risg llifogydd  
Datblygu strategaethau i ddarparu opsiynau perygl llifogydd yn y tymor hir i gwmpasu ardal fawr. O'r strategaethau hirdymor y mae prosiectau unigol i reoli perygl llifogydd yn cael eu datblygu.
- Flood management plans  
Paratoir Cynlluniau Rheoli Lefel Dŵr a Chynlluniau Rheoli Llifogydd Dalgylch gyda'r nod o sefydlu polisïau rheoli risg llifogydd sy'n darparu rheoli risg llifogydd yn gynaliadwy yn y tymor hir ar draws dalgylch.
- Gwaith arall  
Gwelliannau i lociau a dyfrffyrdd eraill, amnewid telemetreg a gwella cynefinoedd pysgod.

Gwelliannau i gronfeydd lle bydd y Ddeddf Cronfeydd 1975 yn gosod y cyfrifoldeb hynny ar berchennog y gronfa. Cymerwyd y camau hyn er lles diogelwch yn benodol.

#### Grantiau cyfalaf

Mae'r rhain yn grantiau, i Awdurdodau Lleol yn bennaf, sy'n ariannu gwaith cyfalaf. Mae'n cynnwys gwaith ar Lwybr Arfordir Cymru a hefyd grantiau i gynorthwyo gyda phrynu tir.

## 5. Gwariant arall

	2019/20	2018/19
	£'000	£'000
<b>Eitemau arian parod</b>		
Gwasanaethau a brynwyd i mewn	20,058	19,037
Cytundebau gweithredu cronfeydd dŵr	9,456	9,112
Costau TGCh	6,538	5,245
Costau cynnal swyddfeydd	4,108	3,378
Deunyddiau ac offer	4,044	4,046
Costau fflyd	3,639	3,568
Cynnal a chadw rhwydwaith ffyrdd y goedwig	3,227	2,407
Grantiau	2,713	2,436
Cytundebau Lefel Gwasanaeth	2,470	3,228
Costau sy'n gysylltiedig â staff	2,443	2,527
Rhenti	2,056	1,825
Cytundebau cydweithredol	1,727	1,820
Ffioedd a chostau llys	1,445	1,385
Teithio a chynhaliaeth	1,290	1,367
Ardrethi	978	808
Costau gweithredol	612	760
Ffioedd archwilio statudol	177	246
Grantiau Ewropeaidd	105	100
Colledion a thaliadau arbennig	2	328
Llog ar brydlesi cyllid	0	3
<b>Is-gyfanswm</b>	<b>67,088</b>	<b>63,626</b>
<b>Gwariant nad yw'n arian parod</b>		
Gwerth pren wedi'i werthu	18,117	18,410
Dibrisiant, amorteiddio ac amhariad	8,177	9,037
Costau atgyweirio cronfeydd dŵr	1,777	2,052
(Ennillion)/Colled ar waredu assedau	203	290
Symudiad ar y ddarpariaeth ar gyfer colled credyd disgwylidig	254	95
Colledion	174	154
Symudiad ar ddarpariaethau eraill	(651)	(120)
<b>Is-gyfanswm</b>	<b>28,051</b>	<b>29,918</b>
<b>Cyfanswm</b>	<b>95,139</b>	<b>93,544</b>

Mae manylion y dyledion sy'n cael eu dileu a'r taliadau arbennig yn cael eu dangos yn yr adran Atebolrwydd ar dudalen 80.



## 6. Dadansoddiad o incwm

Ar gyfer y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2020

	2019/20 £'000	2018/19 £'000
Taliadau tynnu dŵr	21,122	21,245
Rheoliadau trwyddedu amgylcheddol: ansawdd dŵr	6,242	6,414
Rheoliadau trwyddedu amgylcheddol: gosodiadau	3,139	3,035
Rheoliadau trwyddedu amgylcheddol: gwastraff	2,156	2,267
Taliadau eraill i ddiogelu'r amgylchedd	1,350	1,240
Rheoleiddio niwclear	1,142	2,073
Trwyddedau pysgota	1,107	1,142
Gwastraff peryglus	842	876
Gwaith y gellir ailgodi tâl amdano ar gyfer adnoddau dŵr	658	645
Allryiadau masnachu ac ymrwymiad i leihau carbon	241	291
Trwyddedu morol	224	240
<b>Incwm o daliadau</b>	<b>38,223</b>	<b>39,468</b>
Incwm o bren <sup>1</sup> .	25,198	26,349
Incwm o ynni adnewyddadwy <sup>2</sup> .	3,997	3,791
Incwm o ystadau	2,416	2,431
Incwm ardaloedd draenio mewnol	1,607	1,338
Darparu gwybodaeth a gwasanaethau	824	726
Adennill costau cyfreithiol ac incwm o'r Ddeddf Elw Trosedd	178	356
Incwm amrywiol	68	36
Llog derbyniadwy	45	43
Incwm tuag at gostau glanhau safleoedd	0	6
<b>Incwm masnachol ac arall</b>	<b>34,333</b>	<b>35,076</b>
Incwm Ewropeidd <sup>3</sup> .	919	1,093
Grantiau a chyfraniadau	222	450
<b>Cyllid Ewropeidd a chyllid allanol arall</b>	<b>1,141</b>	<b>1,543</b>
<b>Cyfanswm yr incwm</b>	<b>73,697</b>	<b>76,087</b>

<sup>1</sup> Mae incwm pren yn cynnwys taliadau iawndal sy'n ymwneud ag ailtrafod contractau Gwerthiant Coed yn Sefyll a Mwy (SS+) o £493k

<sup>2</sup> Dangosir incwm ynni adnewyddadwy yn net o ffioedd opsiwn perthnasol i incwm ynni gwynt sy'n ddyledus i Lywodraeth Cymru. Mae'r balans o £3,997k yn cynrychioli incwm o £11,891k (in 2018/19 £8,936k) ar ôl didynnu'r taliad ffi opsiwn i Lywodraeth Cymru o £7,894k (2018/19 £5,145k).

<sup>3</sup> Gan gynnwys incwm a hawliwyd drwy Swyddfa Cyllid Ewropeidd Cymru neu Lywodraeth Cymru ar gyfer prosiectau a ariennir gan Ewrop.

## 6.1 Dadansoddiad o ffioedd a thaliadau

<b>Blwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2020</b>	<b>Incwm a gafodd ei filio £'000</b>	<b>Gwariant £'000</b>	<b>Gwarged/ (Difyg) £'000</b>
Taliadau tynnu dŵr	21,215	21,122	93
Rheoliadau trwyddedu amgylcheddol: ansawdd dŵr	6,230	6,242	(12)
Rheoliadau trwyddedu amgylcheddol: gosodiadau	3,325	3,139	186
Rheoliadau trwyddedu amgylcheddol: gwastraff	2,300	2,156	144
Taliadau diogelu'r amgylchedd eraill	1,224	1,350	(126)
Rheoleiddio niwclear	1,049	1,142	(93)
Trwyddedau pysgota	1,107	1,107	0
Gwastraff peryglus	1,061	842	219
Gwaith adnoddau dŵr y gellir ailgodi tâl amdano	658	658	0
Allyriadau masnachu ac ymrwymiad i leihau carbon	207	241	(34)
Trwyddedau morol	232	224	8
<b>Cyfanswm</b>	<b>38,608</b>	<b>38,223</b>	<b>385</b>

<b>Ffigurau cymharol - y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2019</b>	<b>Income billed £'000</b>	<b>Expenditure £'000</b>	<b>Surplus/ (Deficit) £'000</b>
Taliadau tynnu dŵr	20,239	21,245	(1,006)
Rheoliadau trwyddedu amgylcheddol: ansawdd dŵr	6,449	6,414	35
Rheoliadau trwyddedu amgylcheddol: gosodiadau	3,015	3,035	(20)
Rheoliadau trwyddedu amgylcheddol: gwastraff	2,239	2,267	(28)
Taliadau diogelu'r amgylchedd eraill	1,239	1,240	(1)
Rheoleiddio niwclear	2,062	2,073	(11)
Trwyddedau pysgota	1,141	1,142	(1)
Gwastraff peryglus	1,101	876	225
Gwaith adnoddau dŵr y gellir ailgodi tâl amdano	645	645	0
Allyriadau masnachu ac ymrwymiad i leihau carbon	284	291	(7)
Trwyddedau morol	230	240	(10)
<b>Cyfanswm</b>	<b>38,644</b>	<b>39,468</b>	<b>(824)</b>

Cydnabyddir referniw ar sail yr ystyriaeth a bennir mewn contract gyda'r cwsmer. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cydnabod referniw yn unol â'r pum cam a nodir yn Safon Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) 15. Caiff referniw ei gydnabod pan mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn bodloni neu wrth i Cyfoeth Naturiol Cymru fodloni rhwymedigaeth perfformiad.

Mae incwm o daliadau am reoleiddio busnesau yng Nghymru i fonitro a rheoli eu heffaith ar yr amgylchedd, boed yn aer, yn ddŵr neu'n dir, yn deillio o gyfuniad o ffioedd a thaliadau. Mae incwm taliadau yn perthyn i ddau brif gategori: cais am drwydded neu ganiatâd y cydnabyddir referniw ar eu cyfer ar adeg y cais, a'r tâl cynhalieth sy'n gysylltiedig â thrwyddedau a chaniatadau, sy'n rhoi hawl gyfreithiol i'r cwsmer gyflawni ei weithrediad ar gyfer cyfnod o amser o dan reoliad Cyfoeth Naturiol Cymru. Caiff incwm cynhalieth o'r fath ei gydnabod pan gaiff ei filio ar yr adeg y mae cyfnod y drwydded newydd yn dechrau.

Ar gyfer trafodion masnachol, mae'r cwsmer yn derbyn ac yn defnyddio'r buddion a ddarperir ar yr un pryd, a chydabyddir y referniw ar adeg benodol.

Yn unol â Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru, gosodir ffioedd a thaliadau ar sail adennill costau llawn gan ystyried balansau cynlluniau. Mae gwargedion a diffygion cronedig sy'n gysylltiedig â'n cynlluniau codi tâl yn cael eu trin fel incwm gohiriedig neu incwm cronedig yn dibynnu a oes gwarged neu ddiffyg yn y cynllun codi tâl. Mae'r balansau hyn yn cael eu trin fel incwm gohiriedig neu incwm cronedig yn unig os byddent wedi codi yn ddamweiniol o ganlyniad i amgylchiadau heb eu cynllunio yn unol â diffiniad Arian Cyhoeddus Cyhoeddus Cymru, neu lle mae cynllun yn y dyfodol i ddefnyddio'r balansau hynny. Ystyrir y balansau incwm gohiriedig ac a gronnwyd wrth bennu ffioedd a thaliadau blyneddod i ddod, fel y gellir cyflawni sefyllfa adennill costau dros gyfnod rhesymol o amser, oherwydd gwahaniaethau amseru nid yw'n cael ei ystyried yn briodol gwneud hyn mewn blwyddyn ariannol unigol.

Mae gennym drefniant trosiannol lle bydd balansau sylweddol heb gynllun yn cael eu lleihau erbyn 31 Mawrth 2022 (estynnwyd yn ddiweddar yn dilyn effaith Covid). Mae'r driniaeth hon yn drech na'r meini prawf cydnabod refeniw safonol a amlinellir yn y paragraff cyntaf uchod.

### **Dyfarniad arwyddocaol**

Gwneir dyfarniad ynghylch bodloni rhwymedigaethau perfformiad ar ffioedd a thaliadau, ac incwm masnachol yn ôl Safon Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) 15. O fewn symiau derbyniadwy (Nodyn 10) a symiau taladwy (Nodyn 12) mae balansau incwm cronedig a gohiriedig ar gyfer ffioedd a thaliadau lle mae gwarged neu ddiffyg. Fel y crybwyllwyd uchod, mae'n ofynnol i gynlluniau codi tâl adennill costau dros gyfnod rhesymol o amser ac mae angen dyfarnu wrth asesu'r ffactorau y tu ôl i p'un a fydd y gwarged neu'r diffyg yn arwain at sefyllfa adennill costau dros y cyfnod rhesymol hwn (a adroddir yn nodiadau 10 a 12).

Mae costau a ariennir gan gymorth grant wedi cael eu heithrio o'r tabl uchod. Nid yw'r tabl uchod yn cynnwys effaith addasiadau pensiwn Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol (IAS) 19 gan nad yw'r costau/buddion hyn yn cael eu trosglwyddo i rai sy'n talu taliadau. Yr amcan ariannol yw adennill costau llawn gan gynnwys dibrisiad costau cyfredol a chyfradd enillion ar asedau perthnasol.

Mae gweithgareddau allweddol pob adran yn cael eu rhestru isod:

- Taliadau tynnu dŵr - codi tâl ar fusnesau sy'n defnyddio tynnu dŵr o afonydd neu ddŵr daear. Mae'r incwm a adroddwyd hefyd yn cynnwys elfennau eraill o incwm adnoddau dŵr.
- Gwaith adnoddau dŵr y gellir ailgodi tâl amdano - incwm i adennill costau am ymdrechion CNC ar gyfer adnoddau dŵr, megis costau gweithredol yn nhalgylch Hafren Uchaf (ar ochr Cymru o'r ffin), sy'n dod o dan awdurdodaeth Asiantaeth yr Amgylchedd.
- Trwyddedau Pysgota - codi tâl ar unigolion am drwyddedau i bysgota.
- Rheoliadau trwyddedu amgylcheddol: ansawdd dŵr - codi tâl am ollyngiadau gan fusnesau i'r amgylchedd.
- Rheoliadau trwyddedu amgylcheddol: gosodiadau - caniatáu i reoli a lleihau llygredd o weithgareddau diwydiannol
- Environmental permitting regulations: waste management licensing and exemptions.
- Rheoliadau trwyddedu amgylcheddol: gwastraff - trwyddedu rheoli gwastraff ac eithriadau.
- Masnachu allyriadau ac ymrwymiad i leihau carbon - rheoleiddio busnesau o dan gynlluniau'r UE.
- Rheoleiddio niwclear - rheoleiddio safleoedd niwclear a di-niwclear, a safleoedd niwclear newydd.
- Trwyddedau morol – rheoleiddio dyddodion, symud, prosiectau adeiladu ar neu o dan wely'r môr a phob ffurf o garthu.
- Gwarchodaeth arall ar yr amgylchedd - trwyddedu ar gyfer cofrestru cludwyr a broceriaid gwastraff, cludiadau trawsffiniol, trwyddedu cyfrifoldeb y cynhyrhydd ar gyfer gwastraff offer electroneg a thrydanol, cerbydau diwedd oes, biffenylau polychlorinedig, caniatâd amddiffyn rhag llifogydd, cydymffurfiaeth chronfeydd dŵr, cyngor cynllunio datblygu a rheoleiddio busnesau dan gynlluniau fel rheoli peryglon damweiniau mawr.

## 7. Asedau tymor hir

Mae dau gategori o asedau tymor hir - asedau diriaethol a ddangosir yn Nodyn 7.1 ac asedau anniriaethol a ddangosir yn Nodyn 7.2.

### Cydnabyddiaeth

Mae'r holl dir yn cael ei gyfalafu waeth beth fo'i werth. Y trothwy ar gyfer cyfalafu asedau eraill sydd ag oes economaidd ddefnyddiol o fwy na blwyddyn yw £5,000. Gellir grwpio eitemau unigol sy'n costio llai na £ 5,000 fel un ased os yw cyfanswm y gost yn fwy na £5,000 a bod yr asedau hyn yn gweithredu fel rhan o rwydwaith. Mae gwariant dilynol ar ased yn cael ei gyfalafu os bodlonir y meini prawf ar gyfer cyfalafu cychwynnol, mae'n debygol y bydd buddion economaidd ychwanegol yn llifo i Cyfoeth Naturiol Cymru a gellir mesur cost y gwariant yn ddibynadwy. Mae costau dilynol wedi'u cynnwys yn swm cario ymlaen yr ased neu'n cael eu cydnabod fel ased ar wahân, os yw'n briodol.

Mae asedau ar brydles i bartïon allanol o dan brydles weithredu yn cael eu cyfalafu o dan y polisi cyfrifyddu priodol.

Gwneir dyfarniad i gategoreiddio gwariant fel gwaith cyfalaf a godir yn ystod y flwyddyn, ac asedau diriaethol ac anniriaethol.

### Mesur

Mae'r holl asedau nad ydynt yn gyfredol ar wahân i asedau treftadaeth ac asedau sy'n cael eu hadeiladu yn cael eu hadrodd naill ai ar eu gwerth cyfredol yn y defnydd presennol neu werth teg yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol.

Ar gyfer asedau arbenigol lle nad oes cymariaethau marchnad, amcangyfrifwyd 'gwerth teg' gan ddefnyddio dull cost amnewid dibrisiedig.

Mae asedau sy'n cael eu dosbarthu fel asedau treftadaeth yn cynnwys tir o fewn ardaloedd cadwraeth dynodedig. Mae'r tir hwn yn cael ei gynnal i gefnogi diben Cyfoeth Naturiol Cymru. Oherwydd natur amrywiol y tir a ddelir a diffyg gwerthoedd cymharol ar y farchnad, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystyried y byddai cael prisiadau allanol yn golygu cost anghymesur. Mae asedau treftadaeth, felly, yn cael eu cynnal yn ôl y gwerth cost. Mae costau cadwraeth (y gwariant sydd ei angen i warchod yr ased treftadaeth) yn cael eu cydnabod yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr pan gânt eu talu. Mae rhagor o wybodaeth am asedau treftadaeth yn Nodyn 7.1.2.

Mae asedau sy'n cael eu cyfalafu fel rhai sy'n cael eu hadeiladu yn cael eu cario ar gostau y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i ddod â'r ased i'r lleoliad a'r cyflwr sy'n angenrheidiol er mwyn iddo allu gweithredu yn y modd a fwriadwyd gan y rheolwyr. Ni chânt eu hailbrisio ac fe'u trosglwyddir i'r categori asedau tymor hir priodol pan fyddant wedi'u cwblhau ac yn barod i'w defnyddio.

Defnyddir strwythurau gweithredol wrth ddarparu gwasanaethau Cyfoeth Naturiol Cymru ac maent yn benodol o ran eu math, eu lleoliad neu eu swyddogaeth. Nid yw'n bosibl ailbrisio'r asedau hyn yn effeithiol gan ddefnyddio cymariaethau marchnad neu brisiadau proffesiynol. Yn nodweddiadol mae'r asedau hyn yn cynnwys gwaith rheoli perygl llifogydd fel gorsafoedd mesur ac asedau adnoddau dŵr fel tyllau turio. Rhoddir cyfrif am yr asedau hyn yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol gan ddefnyddio'r gost amnewid ddibrisiedig.

### Mynegeo ac ailbrisio

#### Prisiad pum mlynedd

Mae tir ac adeiladau a strwythurau cyhoeddus (a adroddir o fewn strwythurau gweithredol) yn destun prisiad proffesiynol llawn bob pum mlynedd yn unol â Safonau Gwerthuso a Phrisio Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS) (y Llyfr Coch). Cafodd yr asedau hyn eu prisiu'n llawn ddiwethaf ar 31 Mawrth 2016 gan syrfewyr siartredig a'u cymeradwyo gan brisiwr cofrestredig. Y syrfewyr siartredig oedd John Clegg & Co, Cooke & Arkwright, Lambert Smith Hampton, Llewellyn Humphreys, Williams Rural & Commercial, Strutt & Parker, Bidwells ac asiantau tir mewnol.

Roedd yr holl briswyr a ymgwymerodd â'r ailbrisiad pum mlynedd yn aelodau o'r RICS ac yn briswyr cofrestredig yn unol â Chynllun Cofrestru Prisiwyr RICS, ar wahân i'r prisiwyr hynny sydd wedi ymgymryd â phrisiadau seilwaith penodol ar asedau treftadaeth. Sicrhawyd ansawdd y prisiadau hynny gan Brif Syrfêwr Cyfoeth Naturiol Cymru. Roedd gan bob prisiwr ddigon o wybodaeth leol a chenedlaethol gyfredol am y farchnad benodol, a'r sgiliau a'r ddealltwriaeth i gyflawni'r prisiad yn gymwys.

Cafodd ein holl swyddfeydd rhydd-ddaliol a phrydlesol a'n heiddo masnachol eu prisio ddiwethaf ar 31 Mawrth 2016 gan briswyr allanol, Elizabeth Hill ac Alan Jones o syrfewyr siartredig Cooke & Arkwright.

Trefnwyd prisiadau tir, strwythurau cyhoeddus ac asedau arbenigol eraill gan ein tîm mewnol o syrfewyr siartredig, o dan gyfarwyddyd y Prif Syrfêwr. Defnyddiwyd syrfewyr proffesiynol allanol ar gyfer yr asedau hynny lle byddwn yn cael incwm rhent yn y dyfodol ar ein tir. Rhoddwyd pris ar fferm wynt Cefn Croes gan Bidwells a'r portffolio telathrebu gan Strutt & Parker.

#### Prisiadau interim

Rhwng prisiadau llawn, mae asedau'n destun prisiad interim blynyddol. Ar gyfer 2019/20, darparwyd y prisiadau hyn gan y cwmnïau perthnasol syrfewyr siartredig neu gan briswyr mewnol ar gyfer yr amrywiol asedau fel y nodir isod. Ymgwymerwyd â'r prisiadau ar gyfer yr asedau hyn hefyd yn unol â gofynion Llyfr Coch RICS fel y cyfeiriwyd atynt uchod.

Yr ystad goedwig - Clegg & Co  
Ffermydd Gwynt - Savills  
Adeiladau Swyddfa a Gweithredol - Cooke & Arkwright  
Tir Amaethyddol heb Adeiladau (Un eiddo dangosol) - Cooke & Arkwright  
Tir Amaethyddol gydag Gdeiladau - McCartneys  
Forest Holidays – Avison Young

Darparodd Savills brisiad proffesiynol llawn yn 2019/20 ar gyfer pob un o'r pedair fferm wynt yn unol â Llyfr Coch RICS. Fodd bynnag, bu gwyrriad oddi wrth safonau RICS gan na chynhaliwyd ymweliad safle oherwydd cyfyngiadau Covid-19.

Roedd cynlluniau trydan hydro, mynediad trydydd parti, safleoedd mwynau, mastiau telathrebu ac asedau eraill sy'n gysylltiedig â thir yn destun prisiad bwrdd desg mewnol ar 31 Mawrth 2020.

Cafodd tir amaethyddol heb adeiladau (Dau eiddo dangosol), anheddau, adeiladau arbenigol, strwythurau gweithredol a strwythurau cyhoeddus eu prisio'n fewnol ar 31 Mawrth 2020 gan ddefnyddio mynegeion addas.

Ni fynegeiwyd offer a pheiriannau, cyfarpar technoleg gwybodaeth ac asedau anniriaethol yn 2019/20 gan fod y symudiad yn cael ei ystyried yn amherthnasol. Pan fo symudiad yn y mynegeion ar gyfer offer a pheiriannau, technoleg gwybodaeth ac asedau anniriaethol yn berthnasol, caiff yr asedau hyn eu hailbrisio o dan y confensiwn cost hanesyddol wedi'i haddasu.

Mae addasiadau sy'n codi o fynegeio ac ailbrisiadau yn cael eu symyd i'r gronfa ailbrisio oni bai fod y balans wrth gefn mewn perthynas ag ased penodol wedi'i ddefnyddio'n llawn yn erbyn ailbrisio ar i lawr, ac os felly cydnabyddir y symudiad yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Trosglwyddir unrhyw ostyngiadau parhaol mewn gwerth i'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

#### **Effaith COVID-19**

Mae'r cynnydd mewn achosion o COVID-19 yn gynnar yn 2020 a'r cyfyngiadau a ddilynodd ym mis Mawrth 2020 wedi taflu rhywfaint o ansicrwydd ar draws y marchnadoedd a gall sectorau unigol ymateb yn wahanol i'r sefyllfa. Mae pob prisiad o asedau Cyfoeth Naturiol Cymru ar 31 Mawrth 2020 a dderbyniwyd gan gwmnïau allanol syrfewyr siartredig a phriswyr mewnol yn ddarostyngedig i'r cymal canlynol sy'n egluro, oherwydd yr ansicrwydd a gyflwynir gan y pandemig COVID-19 cyfredol, fod ansicrwydd sylweddol yn bodoli o amgylch y prisiadau a ddarperir.



"Mae'r brigiad o achosion o'r coronafeirws newydd (COVID-19), y datganodd Cafodd y cyhoeddodd gan Sefydliad Iechyd y Byd ei fod yn 'bandemig byd-eang' ar 11 Mawrth 2020, wedi cael fod y cynnydd mewn achosion Coronavirus Nofel (COVID-19) yn sefyllfa "Pandemig Byd-eang", effaith ar farchnadoedd ariannol byd-eang. Mae cyfyngiadau teithio wedi cael eu gweithredu gan lawer o wledydd. Mae gweithgaredd y farchnad yn cael ei effeithio mewn sawl sector.

Ar y dyddiad priso, rydym o'r farn y gallwn roi llai o bwysau ar dystiolaeth flaenorol y farchnad at ddibenion cymharu, i lywio barn am werth. Yn wir, mae'r ymateb cyfredol i COVID-19 yn golygu ein bod yn wynebu cyfres ddigynsail o amgylchiadau i seilio dyfarniad arni.

Felly adroddir ar ein prisiadau ar sail 'ansicrwydd priso sylweddol' yn unol â Safon 3 y Safonau Technegol a Pherfformiad Priso (VPS) a Chanllaw 10 y Canllawiau Ymarfer Priso Cymwysiadau (VPGA) o Lyfr Coch Byd-eang RICS. O ganlyniad, dylid rhoi llai o sicrwydd a mwy o rybudd ynghlwm wrth ein prisiad nag a fyddai fel arfer. O ystyried yr effaith anhysbys y gallai COVID-19 ei chael ar y farchnad eiddo tirol yn y dyfodol, rydym yn argymhell eich bod yn adolygu prisiadau ystad Cyfoeth Naturiol Cymru yn aml."

### **Dibrisiant ac amorteiddiad**

Nid yw tir (Yr ystâd goedwig a thir nad yw'n goedwig) na hawl anniriaethol i diroedd yn cael ei ddibrisio, oni bai ei fod yn ffurfio elfen hanfodol o strwythur gweithredol. Mae'r asedau hyn yn cael eu dibrisio dros oes y strwythur gweithredol perthnasol. Ni chaiff asedau sy'n cael eu hadeiladu eu dibrisio nes eu bod yn gallu gweithredu yn y dull a fwriadwyd gan y rheolwyr.

Mae cerbydau a ddangosir yn y categori offer a pheiriannau yn cael eu dibrisio ar sail balans sy'n gostwng ar gyfradd o 21%. Mae'r holl asedau eraill yn cael eu dibrisio / hamorteiddio ar sail llinell syth dros eu bywyd economaidd defnyddiol disgwylidig. Caiff dibrisiant ei godi yn y mis y caiff ased ei waredu i'r Datganiad o Wariant Cynhwysfawr, ond nid yn y mis y caiff ased ei gaffael.

Gwneir dyfarniad ar y bywydau economaidd defnyddiol sy'n ffurfio'r sail ar gyfer dibrisio eiddo, offer a chyfarpar ac amorteiddio asedau anniriaethol. Caiff bywydau asedau wedi'u hamcangyfrif eu hadolygu, a'u haddasu os yw'n briodol, ar bob dyddiad adrodd. Mae'r prif fywydau economaidd a ddefnyddir at ddibenion dibrisiant fel a ganlyn:

<b>Categori o Asedau</b>	<b>Prif fywyd economaidd</b>
<b>Asedau diriaethol</b>	
Adeiladau ac anheddau	10 - 60 o flynyddoedd
Offer a pheiriannau	4 - 25 o flynyddoedd
Technoleg Gwybodaeth	3 - 10 o flynyddoedd
Strwythurau gweithredol	5 - 100 o flynyddoedd
<b>Asedau anniriaethol</b>	
Trwyddedau meddalwedd	5 - 25 o flynyddoedd
Trwyddedau eraill	5 - 50 o flynyddoedd
Datblygu meddalwedd	3 - 10 o flynyddoedd
Gwefan	5 - 10 o flynyddoedd

Mae'r ystod yn y bywydau defnyddiol uchod yn adlewyrchu'r amrywiaeth o asedau o fewn y categorïau asedau. Eithriad o fewn Adeilad ac anheddau fyddai asedau gwella lesddaliad, sy'n cael yr un oes â'r brydles gymharol.

Mae trwyddedau eraill hefyd yn cynnwys asedau fydd yn cael eu dal am byth.

### **Gwarediadau**

Pan fydd ased yn cael ei waredu, mae ei swm cario yn cael ei ddileu i'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr fel rhan o'r enillion neu golled ar waredu. Mae derbyniadau o warediadau (os oes rhai) yn cael eu credydu i'r un llinell hefyd. Caiff unrhyw enillion ailbriso cronedig ar gyfer yr ased yn y Gronfa Ailbriso Wrth Gefn eu trosglwyddo i'r Gronfa Gyffredinol.

## **Y gronfa ailbrisió**

Mae'r gronfa ailbrisió yn dangos yr enillion a wnaed gan Gyfoeth Naturiol Cymru sy'n deillio o'r cynnydd yng ngwerth asedau tymor hir. Caiff y balans ei leihau pan gaiff asedau ag enillion cronedig:

- Eu hailbrisió tuag at i lawr neu pan gaiff eu gwerth ei leihau a chollir yr enillion.
- Eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau a chaiff yr enillion eu colli trwy ddibrisiant.
- Eu gwaredu a gwireddir yr enillion.

Caiff swm sy'n cynrychioli'r gwahaniaeth rhwng y dibrisiant a godir ar yr asedau a ailbrisir a'r hyn a fyddai wedi cael ei godi pe bai'r asedau wedi'u dangos ar gost ei drosglwyddo o'r gronfa ailbrisió i'r gronfa gyffredinol.

## **Amhariad**

Mae asedau tymor hir yn destun adolygiadau amhariad blynyddol. Caiff amhariadau eu cydnabod pan fydd y swm y gellir ei adennill o asedau tymor hir yn disgyn islaw eu gwerth llyfr net, o ganlyniad i naill ai ostyngiad mewn gwerth oherwydd amodau'r farchnad neu golled mewn budd economaidd neu ostyngiad i botensial gwasanaeth. Mae ailbrisiadau tuag i lawr o ganlyniad i newidiadau yn y gwerth ar y farchnad yn arwain at amhariad dim ond lle mae'r ased yn cael ei ailbrisió yn is na'i swm cario cost hanesyddol. Mae'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol (FRM) yn ei gwneud yn ofynnol mai dim ond y colledion o'r amhariadau hynny nad ydynt yn deillio o ddefnydd clir o fudd economaidd neu leihad mewn potensial gwasanaeth ddylai gael eu gosod yn gyntaf yn erbyn unrhyw falans cronedig yn y gronfa ailbrisió. Caiff unrhyw swm yn ychwanegol at hyn ei gydnabod fel amhariad drwy'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Dylid cydnabod colledion amhariad sy'n deillio o ddefnydd clir o fudd economaidd neu leihad mewn potensial gwasanaeth yn llawn yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Trosglwyddir swm i werth yr amhariad o'r gronfa ailbrisió i'r gronfa gyffredinol ar gyfer yr asedau unigol dan sylw.

## **Asedau tymor hir a ddelir i'w gwerthu**

Dosberthir asedau tymor hir yn asedau a ddelir i'w gwerthu os caiff y swm cario ei adennill yn bennaf drwy werthu'r asedau yn hytrach na thrwy barhau i'w defnyddio ac mae'n debygol iawn y bydd y gwerthiant hynny'n digwydd o fewn 12 mis o ddyddiad yr adroddiad hwn. Mae'r rheolwyr wedi ymrwmo i werthu'r asedau hyn ac maent yn cael eu marchnata yn eu cyflwr presennol am bris sy'n rhesymol mewn perthynas â'u cyflwr presennol.

Daw'r broses ddibrisio i ben ar unwaith ar ôl i'r asedau gael eu dosbarthu'n rhai sy'n cael eu dal i'w gwerthu. Maent yn cael eu datgan ar yr isaf o'u swm cario a gwerth teg llai costau gwerthu. Maent yn cael eu cofnodi fel asedau cyffredol yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol.

## 7.1 Asedau tymor hir diriaethol

	Yr ystâd goedwig	Tir arall	Adeiladau	Offer a pheiriannau	Technoleg gwybodaeth	Strwythurau gweithredol	Asedau sy'n cael eu hadeiladu	Cyfanswm eiddo peiriannau ac offer	Asedau biolegol	Asedau treftadaeth	Cyfanswm asedau diriaethol
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
<b>Cost neu Brisiad</b>											
<b>Ar 1 Ebrill 2019</b>	736,567	60,168	16,463	22,535	13,464	82,770	510	932,477	122,538	7,000	1,062,015
Ychwanegiadau	0	1,145	206	375	13	230	2,919	4,888	0	0	4,888
Asedau a gomisiynwyd yn ystod y flwyddyn	0	0	0	19	34	161	(214)	0	0	0	0
Gwarediadau a datgydnabod	(22)	(508)	(133)	(1,335)	0	(192)	0	(2,190)	0	0	(2,190)
Symudiad o / (i) asedau a ddelir i'w gwerthu	21	(309)	(492)	(23)	0	0	0	(803)	0	0	(803)
Coed wedi eu cwmpo	(12,489)	0	0	0	0	0	0	(12,489)	(4,487)	0	(16,976)
Mynegeoio ac ailbriso	64,440	127,986	2,902	0	0	7,740	0	203,068	17,693	0	220,761
Ailddosbarthu	0	(99)	0	18	0	0	0	(81)	0	99	18
<b>Ar 31 Mawrth 2020</b>	<b>788,517</b>	<b>188,383</b>	<b>18,946</b>	<b>21,589</b>	<b>13,511</b>	<b>90,709</b>	<b>3,215</b>	<b>1,124,870</b>	<b>135,744</b>	<b>7,099</b>	<b>1,267,713</b>
<b>Dibrisiant</b>											
<b>Ar 1 Ebrill 2019</b>	0	0	2,527	14,822	13,077	21,246	0	51,672	0	0	51,672
Tâl a godwyd yn y flwyddyn	0	0	711	1,392	56	3,791	0	5,950	0	0	5,950
Gwarediadau a datgydnabod	0	0	(133)	(1,201)	0	(90)	0	(1,424)	0	0	(1,424)
Symudiad o / (i) asedau a ddelir i'w gwerthu	0	0	113	(21)	0	0	0	92	0	0	92
Mynegeoio ac ailbriso	0	0	316	(6)	0	1,744	0	2,054	0	0	2,054
Ailddosbarthu	0	0	0	11	0	0	0	11	0	0	11
<b>Ar 31 Mawrth 2020</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>3,534</b>	<b>14,997</b>	<b>13,133</b>	<b>26,691</b>	<b>0</b>	<b>58,355</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>58,355</b>
<b>Swm a gariwyd ar 1 Ebrill 2019</b>	<b>736,567</b>	<b>60,168</b>	<b>13,936</b>	<b>7,713</b>	<b>387</b>	<b>61,524</b>	<b>510</b>	<b>880,805</b>	<b>122,538</b>	<b>7,000</b>	<b>1,010,343</b>
<b>Swm a gariwyd ar 31 Mawrth 2020</b>	<b>788,517</b>	<b>188,383</b>	<b>15,412</b>	<b>6,592</b>	<b>378</b>	<b>64,018</b>	<b>3,215</b>	<b>1,066,515</b>	<b>135,744</b>	<b>7,099</b>	<b>1,209,358</b>
<b>Ariannu Asedau</b>											
Wedi'u perchnogi	745,101	183,656	15,412	6,592	378	64,018	3,215	1,018,372	135,744	7,099	1,161,215
Wedi'u prydlesu	43,416	4,727	0	0	0	0	0	48,143	0	0	48,143
<b>Swm a gariwyd ar 31 Mawrth 2020</b>	<b>788,517</b>	<b>188,383</b>	<b>15,412</b>	<b>6,592</b>	<b>378</b>	<b>64,018</b>	<b>3,215</b>	<b>1,066,515</b>	<b>135,744</b>	<b>7,099</b>	<b>1,209,358</b>

Mae adeiladau yn cynnwys anheddau gyda swm cario o £296k. Swyddfeydd a lleoliadau gwaith yw'r adeiladau eraill.

Y swm a ddelir yn y Gronfa Ailbriso ar gyfer yr asedau hyn ar 31 Mawrth 2020 oedd £976,506k.

**Ffigurau cymharol ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2019 (Ailddatganwyd)**

	Yr ystâd goedwig (Ailddatganwyd)	Tir arall (Ailddatganwyd)	Adeiladau	Offer a pheiriannau	Technoleg gwybodaeth	Strwythurau gweithredol	Asedau sy'n cael eu hadeiladu	Cyfanswm eiddo peiriannau ac offer (Ailddatganwyd)	Asedau biolegol	Asedau treftadaeth	Cyfanswm asedau diriaethol (Ailddatganwyd)
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
<b>Cost neu Brisiad</b>											
<b>Ar 1 Ebrill 2018 (Ailddatganwyd)</b>	670,864	56,899	15,889	21,473	13,280	80,446	671	859,522	113,125	6,432	979,079
Ychwanegiadau	0	0	132	2,236	45	324	1,461	4,198	0	295	4,493
Asedau a gomisiynwyd yn ystod y flwyddyn	0	29	0	0	287	965	(1,281)	0	0	0	0
Gwarediadau a datgydnabod	(7)	(183)	0	(1,305)	(148)	(663)	(8)	(2,314)	0	0	(2,314)
Symudiad o / (i) asedau a ddelir i'w gwerthu	6	169	0	131	0	0	0	306	0	0	306
Coed wedi eu cwmpo	(14,750)	0	0	0	0	0	0	(14,750)	(5,298)	0	(20,048)
Mynegeo ac ailbriso	80,454	3,527	326	0	0	1,814	0	86,121	18,444	0	104,565
Ailddosbarthu	0	(273)	116	0	0	(116)	(333)	(606)	(3,733)	273	(4,066)
<b>Ar 31 Mawrth 2019 (Ailddatganwyd)</b>	<b>736,567</b>	<b>60,168</b>	<b>16,463</b>	<b>22,535</b>	<b>13,464</b>	<b>82,770</b>	<b>510</b>	<b>932,477</b>	<b>122,538</b>	<b>7,000</b>	<b>1,062,015</b>
<b>Dibrisiant</b>											
<b>Ar 1 Ebrill 2018</b>	0	0	1,564	14,440	13,181	17,901	0	47,086	0	0	47,086
Tâl a godwyd yn y flwyddyn	0	0	884	1,471	42	3,391	0	5,788	0	0	5,788
Gwarediadau a datgydnabod	0	0	0	(1,182)	(146)	(386)	0	(1,714)	0	0	(1,714)
Symudiad o / (i) asedau a ddelir i'w gwerthu	0	0	0	93	0	0	0	93	0	0	93
Mynegeo ac ailbriso	0	0	29	0	0	390	0	419	0	0	419
Ailddosbarthu	0	0	50	0	0	(50)	0	0	0	0	0
<b>Ar 31 Mawrth 2019</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>2,527</b>	<b>14,822</b>	<b>13,077</b>	<b>21,246</b>	<b>0</b>	<b>51,672</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>51,672</b>
<b>Swm a gariwyd ar 1 Ebrill 2018 (Ailddatganwyd)</b>	<b>670,864</b>	<b>56,899</b>	<b>14,325</b>	<b>7,033</b>	<b>99</b>	<b>62,545</b>	<b>671</b>	<b>812,436</b>	<b>113,125</b>	<b>6,432</b>	<b>931,993</b>
<b>Swm a gariwyd ar 1 Ebrill 31 March 2019 (Ailddatganwyd)</b>	<b>736,567</b>	<b>60,168</b>	<b>13,936</b>	<b>7,713</b>	<b>387</b>	<b>61,524</b>	<b>510</b>	<b>880,805</b>	<b>122,538</b>	<b>7,000</b>	<b>1,010,343</b>
<b>Ariannu Asedau</b>											
Wedi'u perchnogi (Ailddatganwyd)	694,474	55,497	13,936	7,668	387	61,524	510	833,996	122,538	7,000	963,534
Wedi'u prydlesu (Ailddatganwyd)	42,093	4,671	0	45	0	0	0	46,809	0	0	46,809
<b>Swm a gariwyd ar 31 Mawrth 2019 (Ailddatganwyd)</b>	<b>736,567</b>	<b>60,168</b>	<b>13,936</b>	<b>7,713</b>	<b>387</b>	<b>61,524</b>	<b>510</b>	<b>880,805</b>	<b>122,538</b>	<b>7,000</b>	<b>1,010,343</b>

Mae adeiladau yn cynnwys anheddau gyda swm cario o £294k. Swyddfeydd a lleoliadau gwaith yw'r adeiladau eraill.

Y swm a ddelir yn y Gronfa Ailbriso ar gyfer yr asedau hyn ar 31 Mawrth 2019 oedd £791,492k.

Mae'r prisiad ar gyfer ystâd y goedwig yn y tabl uchod wedi'i addasu i lawr o £2,158k i gywiro dyblygiad hanesyddol o brisiad tir ar fferm wynt Cefn Croes. Gweler nodyn 1.11 am fwy o fanylion.

Mae gwerth tir ar brydles ar gyfer ystâd goedwig a thir arall wedi'i ailddatgan o £49,520k i £42,093 ac o £5,342 i £4,671k yn y drefn honno i adlewyrchu gostyngiad o 15% ym mhrisiad tir ar brydles.

Ailddosbarthwyd £3,733k sy'n cynrychioli gwerth yr ased yn Llyn Efnwy ar 1 Ebrill 2018 yn ystod y flwyddyn ac fe'i trosglwyddwyd o asedau biolegol i asedau ariannol (nodyn 9).

### 7.1.1 Yr ystad goedwig

Cafodd perchnogaeth gyfreithiol Ystâd Coetir Llywodraeth Cymru ei roi i Weinidogion Cymru. Mae wedi ei gynnwys yn Natganiad o Sefyllfa Ariannol Cyfoeth Naturiol Cymru gan ei fod yn cario'r risg ariannol a'r gwobrau sy'n gysylltiedig â'r ystâd ac yn ymgymryd â holl weithgareddau rheoli ystadau. Mae'r stad yn cynnwys tir a choed sy'n tyfu. Mae perchnogaeth gyfreithiol y pren, gan gynnwys coed heb eu cwmpo, yn cael ei roi i Cyfoeth Naturiol Cymru.

Mae coetiroedd a choedwigoedd yn cael eu dal a'u rheoli'n bennaf i fodloni'r amcanion rheoli coedwigoedd cynaliadwy a nodir yn Goetiroedd i Gymru (strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer coetiroedd a choed). Gall eu pwrpas gael ei rannu rhwng pwrpas economaidd (cyfraniad at economi Gymreig ffyniannus a chynaliadwy) a phwrpasau eraill (cymdeithasol, amgylcheddol, newid yn yr hinsawdd). O dan Safon Archwilio Ryngwladol (IAS) 41 (Amaethyddiaeth), rhaid i bren a dyfir ar gyfer pwrpas economaidd gael ei ddsbarthu fel asedau biolegol. Mae gweddill y pren, ynghyd â'r holl dir gwaelodol, yn cael ei ddsbarthu fel eiddo, offer a chyfarpar a chyfeirir ato fel yr ystâd goedwig.

Dangosir yr asedau yn y ddau gategori yn ôl eu gwerth teg. Mae priswyr proffesiynol allanol yn cynnal prisiad o'r ystâd bob pum mlynedd. Penodwyd John Clegg a'i Gwmni fel priswyr ar gyfer y prisiad diwethaf ar 31 Mawrth 2016. Yn unol â Gwerthusiad a Safonau Priso Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS) (y Llyfr Coch), mae'r ystâd yn cael ei phrisio fel y bo'n briodol ar gyfer cael gwerth teg. Yn y blynyddoedd rhyngddynt, defnyddir mynegeion arfer a ddarparwyd gan John Clegg a'i Gwmni i ailddatgan gwerthoedd. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru a'i briswyr proffesiynol allanol wedi datblygu prosesau, gan gynnwys rhagdybiaethau allweddol, sy'n cynhyrchu amcangyfrif rhesymol o brisiad cydffurfiol.

Cymerir addasiadau sy'n deillio o ailbriso'r ystad goedwig i'r gronfa ailbriso ac maent yn cael eu rhyddhau i'r Gronfa Gyffredinol pan wneir enillion wrth dorri coed. Mae addasiadau sy'n deillio o ailbriso asedau biolegol yn cael eu cydnabod yn y Datganiad o Wariant

#### **Technegau amcangyfrif, rhagdybiaethau a barnau**

Mae elfennau o'r prisiad ac felly cyfrifo am yr asedau hyn yn dibynnu ar dechnegau amcangyfrif.

Nid yw'n cael ei ystyried yn gost-effeithiol cynnal prisiad proffesiynol allanol pum mlynedd sy'n cwmpasu pob rhan o goetir. Yn dilyn cyngor gan briswyr cymwys, bernir y gellir cael prisiad rhesymol trwy gynnal prisiadau ar y safle o sampl ar hap o safleoedd sy'n cynrychioli rhwng 8% a 10% o'r ystad ac yna allosod y rhain ar gyfer yr ystad gyfan, gan ddefnyddio'r ffactorau lleoliad, rhywogaeth, oedran ac ansawdd (dosbarth cynnyrch) y coed.

Ystyrir hefyd fod y dystiolaeth fwyaf priodol o werth yn seiliedig ar y farchnad yn deillio o'r farchnad ar gyfer gwerthu coetiroedd a choedwigoedd ac arwynebedd o dros 50 hectar. Cydnabyddir y gall fod ystod eang o werthoedd o hyd a gall y rhain fod yn ddyfarniadau goddrychol braidd. Felly bydd unrhyw brisiad o goetiroedd yn dibynnu rhywfaint ar farn broffesiynol. Yn dilyn hynny, mae'r priswyr allanol yn dosrannu gwerthoedd i dir a phren. Amcangyfrifir bod gwerth tir prydlesol 15% yn llai na thir rhydd-ddaliadol.

Rhannwyd coed rhwng asedau biolegol ac eiddo, peiriannau ac offer gan staff Cyfoeth Naturiol Cymru gan ddefnyddio dyfarniadau ac amcangyfrifon. Gwnaed asesiad o'r gyfran a ddelir yn bennaf at ddibenion economaidd a defnyddiwyd y ganran ganlynol i bennu gwerth coed a ddsbarthwyd fel ased biolegol. Pe bai achos o dir yn cael ei gaffael neu ei waredu a fyddai'n creu newid llwyr yn ein daliad tir ystad goedwig o ddeg y cant neu fwy, byddai adolygiad interim o'r asesiad yn cael ei gynnal. Ni fu unrhyw newid o'r fath yn ystod y cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020. Y rhaniad canrannol ar hyn o bryd yw 27.6% ar gyfer asedau biolegol a 72.4% ar gyfer eiddo, peiriannau ac offer. Fel sy'n ofynnol o dan Safon Cyfrifyddu Ryngwladol (IAS) 41, mae gwerth teg asedau biolegol yn cael ei leihau yn ôl y costau amcangyfrifedig i'r pwynt gwerthu. Amcangyfrifir bod y costau hyn yn bump y cant o werthoedd pren ac yn adlewyrchu costau gwerthu'r coetir neu goedwig.



## Ansicrwydd prisio sylweddol oherwydd coronafirws newydd (COVID-19)

Mae priswyr yr ystad goedwig, Clegg & Co, wedi cynnwys y cymal a amlinellir ar dudalen 106-107 mewn perthynas â sefyllfa bresennol COVID-19. Fodd bynnag, fe wnaethant ddarparu'r sylwadau ychwanegol a ganlyn i gefnogi'r mynegeio a gymhwyswyd i'r ystad goedwig ar 31 Mawrth 2020.

*"Er mwyn osgoi amheuaeth, nid yw cynnwys y datganiad 'ansicrwydd prisio sylweddol' uchod yn golygu na ellir dibynnu ar y prisiad. Yn hytrach, defnyddir yr ymadrodd er mwyn bod yn glir ac yn dryloyw gyda'r holl bartion, mewn modd proffesiynol, y gellir o dan yr amgylchiadau anghyffredin presennol fod llai o sicrwydd ynghlwm wrth y prisiad nag a fyddai fel arall. Datgeliad yw'r cymal ansicrwydd sylweddol, nid ymwadiad."*

Mae Clegg & Co yn parhau i fod o'r farn ganlynol:

- Mae mynegeio gwerthoedd yn seiliedig ar y gweithgaredd hanesyddol yn y farchnad dros y flwyddyn ddiwethaf, cyn unrhyw effaith gan sefyllfa COVID-19, felly mae'r mynegeio a gymhwyswyd hyd at 31 Mawrth 2020 yn briodol.
- Ers brigiad o achosion, mae'r diddordeb mewn coedwigaeth fasnachol wedi parhau ac nid yw gwerthoedd yn dangos unrhyw arwydd o leihau hyd yn hyn. Yn y tebygolrwydd y bydd cyfraddau llog isel yn parhau, mae'n ymddangos bod coedwigaeth yn ddsbarth asedau synhwyrol iawn, yn enwedig i'r rheini sydd â diddordeb yn yr eiddo coedwig masnachol mwy o faint. Efallai y bydd y farchnad coetir llai yn cael ei heffeithio mewn ffordd wahanol, ond mae'n rhy gynnar i ragweld.
- Mae'r symudiad mewn gwerthoedd yn y dyfodol yn dibynnu ar sawl ffactor. Gallai'r rhain gynnwys hyd mesurau COVID-19, sut mae'r economi yn ymateb yn ystod ac ar ôl y rhain, canlyniad trafodaethau masnach Brexit, a phrotocolau ac uchelgeisiau o ran newid yn yr hinsawdd i enwi ond ychydig.
- Mae hanfodion tymor hir coedwigaeth yn dal yn dda ac nid yw Clegg & Co yn gweld unrhyw newid o ran hyn. Efallai y bydd gostyngiad yng ngweithgaredd y farchnad tra bo'r cyfnod critigol o gyfyngiadau COVID-19 mewn grym, ond disgwylir iddo wella ar ôl iddynt gael eu codi.

### 7.1.2 Ffermydd gwynt

Mae rhywfaint o dir ar yr ystad goedwig yn cael ei brydlesu i bartion allanol fel safleoedd fferm wynt. Rhennir datblygiad fferm wynt yn dri cham. Mae pob cam yn gofyn am fath gwahanol o gytundeb prydles.

- Y cam cyntaf yw'r Cytundeb Prydles Opsiwn. Mae hwn yn rhoi hawl i ddatblygwyr y fferm wynt ddefnyddio'r opsiwn i adeiladu ar y tir. Ar y cam hwn, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn derbyn ffi opsiwn yn seiliedig ar fformiwla ariannol a nodir yn y cytundeb.
- Yr ail gam yw'r Cytundeb Prydles Ddatblygu. Mae caniatâd cynllunio wedi'i roi ac mae'r gwaith adeiladu yn digwydd yn ystod y cam hwn. Yn debyg i'r cam cyntaf, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn derbyn ffi opsiwn yn seiliedig ar fformiwla ariannol a nodir yn y cytundeb.
- Y trydydd cam yw'r Cytundeb Prydles Weithredu. Mae'r fferm wynt yn gwbl weithredol ac yn cynhyrchu trydan. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn derbyn dwy elfen o incwm: rhent sylfaenol gwarantedig a rhent breindal yn seiliedig ar gynhyrchu trydan.

Mae mwy o wybodaeth am sut yr adroddir ar yr incwm i'w gael yn nodyn 1.4

Mae prydlesi ar gyfer ffermydd gwynt sydd yn y cam datblygu neu weithredu yn cael eu cyfalafu fel ased tir o fewn Tir Arall yn nodyn 7.1. Mewn blynyddoedd blaenorol, Cefn Croes fu'r unig fferm wynt a gynhwyswyd yn Eiddo, Peiriannau ac Offer. Cyfalafwyd tair fferm wynt ychwanegol yn ystod 2019/20. Ar y pwynt cyfalafu, tynnir gwerth y tir oddi ar y prisiad o'r ystad goedwig a ddatgelir o fewn Tir Arall ac a gynhwysir gyda'r prisiad fferm wynt. Gwneir prisiad Llyfr Coch RICS ar y pwynt cydnabod. Ar 31 Mawrth 2020, darparodd Savills brisiad proffesiynol llawn ar gyfer pob un o'r pedair fferm wynt ond nid oedd yn bosibl ymweld â'r safle oherwydd cyfyngiadau COVID-19 sy'n gwyro oddi wrth safon Llyfr Coch RICS.

Daeth Pen y Cymoedd a Gorllewin Brechfa yn weithredol yn ystod 2019/20 ac mae Clocaenog yn dal i fod yn y cam datblygu ond mae disgwyl y bydd y fferm yn cael ei chwblhau ar gyfer 2020/21. Ffermydd gwynt TAN 8 yw'r rhain (gweler nodyn 1.4 am ragor o wybodaeth)  
Dangosir isod werthoedd unigol y ffermydd gwynt ar 31 Mawrth 2020.

	<b>£000</b>
Cefn Croes	6,915
Pen y Cymoedd	80,400
Gorllewin Brechfa	14,400
Clocaenog	28,690
<b>Cyfanswm</b>	<b>130,405</b>

Mae dwy fferm wynt arall ar hyn o bryd yng nghanam y Cytundeb Prydles Opsiwn. Dau gam yn unig fydd i'r ffermydd gwynt hyn gan y bydd y cam datblygu a'r cam gweithredu yn cael eu huno. Bydd y rhain yn cael eu cyfalafu pan fyddant yn symud i'r cam nesaf.

Roedd Savills hefyd yn cynnwys y cymal ansicrwydd sylweddol yn ei adroddiad prisio i adlewyrchu'r sefyllfa ansicr a gyflwynwyd oherwydd COVID-19 fel yr amlinellwyd ar dudalen 106-107.

### 7.1.3 Asedau treftadaeth

Mae asedau treftadaeth yn asedau diriaethol gyda rhinweddau hanesyddol, artistig, gwyddonol, technolegol, geoffisegol neu amgylcheddol sy'n cael eu cynnal a'u cadw'n bennaf am eu cyfraniad at wybodaeth a diwylliant. Bwriedir iddynt gael eu cadw mewn ymddiriedolaeth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol oherwydd eu cysylltiadau diwylliannol, amgylcheddol neu hanesyddol.

Mae ein Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol yn bodloni'r meini prawf ar gyfer asedau treftadaeth. Maent yn cynnwys tir heb fod yn weithredol o fewn ardaloedd cadwraeth dynodedig a sefydlwyd i warchod ac i ganiatáu i bobl astudio eu bywyd gwyllt, cynefinoedd

Ar 31 Mawrth 2020, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn rheoli 58 o Warchodfeydd Natur Cenedlaethol Cymru, naill ai'n gyfan gwbl, neu mewn partneriaeth, ac un Warchodfa Natur Forol (MNR). Aiddosbarthwyd tir gwerth £99k o dir arall i dreftadaeth yn ystod y flwyddyn.

Mae rhagor o wybodaeth am asedau treftadaeth a pholisïau Cyfoeth Naturiol Cymru ar gaffael, cadwraeth, rheolaeth, gwaredu a mynediad at asedau treftadaeth i'w gweld ar ein gwefan yn:

<http://naturalresources.wales/guidance-and-advice/environmental-topics/wildlife-and-biodiversity/find-protected-areas-of-land-and-seas/national-nature-reserves/?lang=en>

## 7.2 Asedau tymor hir anniriaethol

	Trwyddedau meddalwedd	Trwyddedau eraill	Gwariant ar ddatblygu meddalwedd	Gwefan	Asedau sy'n cael eu hadeiladu	Cyfanswm asedau anniriaethol
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
<b>Cost neu Brisiad</b>						
<b>Ar 1 Ebrill 2019</b>	10,069	2,354	13,003	477	5,076	<b>30,979</b>
Ychwanegiadau	112	0	1,113	0	6,473	<b>7,698</b>
Asedau a gomisiynwyd yn ystod y flwyddyn	135	0	2,545	0	(2,680)	<b>0</b>
Gwarediadau a datgydnabod	0	0	(47)	0	(3)	<b>(50)</b>
Mynegeo ac ailbriso	0	0	0	0	0	<b>0</b>
Aiddosbarthu	(975)	(16)	973	0	0	<b>(18)</b>
<b>Ar 31 Mawrth 2020</b>	<b>9,341</b>	<b>2,338</b>	<b>17,587</b>	<b>477</b>	<b>8,866</b>	<b>38,609</b>
<b>Amorteiddiad</b>						
<b>Ar 1 Ebrill 2019</b>	6,153	41	7,832	349	0	<b>14,375</b>
Tâl a godwyd yn y flwyddyn	763	6	1,416	42	0	<b>2,227</b>
Gwarediadau a datgydnabod	0	0	(31)	0	0	<b>(31)</b>
Mynegeo ac ailbriso	0	0	0	0	0	<b>0</b>
Aiddosbarthu	(567)	(9)	565	0	0	<b>(11)</b>
<b>Ar 31 Mawrth 2020</b>	<b>6,349</b>	<b>38</b>	<b>9,782</b>	<b>391</b>	<b>0</b>	<b>16,560</b>
<b>Swm a gariwyd ar 1 Ebrill 2019</b>	<b>3,916</b>	<b>2,313</b>	<b>5,171</b>	<b>128</b>	<b>5,076</b>	<b>16,604</b>
<b>Swm a gariwyd ar 31 Mawrth 2020</b>	<b>2,992</b>	<b>2,300</b>	<b>7,805</b>	<b>86</b>	<b>8,866</b>	<b>22,049</b>
<b>Ariannu Asedau</b>						
Wedi'u perchnogi	2,992	2,300	7,805	86	8,866	22,049
<b>Swm a gariwyd at 31 Mawrth 2020</b>	<b>2,992</b>	<b>2,300</b>	<b>7,805</b>	<b>86</b>	<b>8,866</b>	<b>22,049</b>

Y swm a ddelir yn y Gronfa Ailbriso ar gyfer yr asedau hyn ar 31 Mawrth 2020 oedd £657k.

### Ffigurau cymharol ar gyfer y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2019

	Trwyddedau meddalwedd	Trwyddedau eraill	Gwariant ar ddatblygu meddalwedd	Gwefan	Asedau sy'n cael eu hadeiladu	Cyfanswm asedau anniriaethol
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
<b>Cost neu Brisiad</b>						
<b>Ar 1 Ebrill 2018</b>	8,139	2,354	12,573	477	2,392	<b>25,935</b>
Ychwanegiadau	198	0	137	0	4,607	<b>4,942</b>
Asedau a gomisiynwyd yn ystod y flwyddyn	1,732	0	293	0	(2,025)	<b>0</b>
Gwarediadau a datgydnabod	0	0	0	0	(231)	<b>(231)</b>
Mynegeo ac ailbriso	0	0	0	0	0	<b>0</b>
Aiddosbarthu	0	0	0	0	333	<b>333</b>
<b>Ar 31 Mawrth 2019</b>	<b>10,069</b>	<b>2,354</b>	<b>13,003</b>	<b>477</b>	<b>5,076</b>	<b>30,979</b>
<b>Amorteiddiad</b>						
<b>Ar 1 Ebrill 2018</b>	4,770	32	6,103	221	0	<b>11,126</b>
Tâl a godwyd yn y flwyddyn	1,383	9	1,729	128	0	<b>3,249</b>
Gwarediadau a datgydnabod	0	0	0	0	0	<b>0</b>
Mynegeo ac ailbriso	0	0	0	0	0	<b>0</b>
Aiddosbarthu	0	0	0	0	0	<b>0</b>
<b>Ar 31 Mawrth 2019</b>	<b>6,153</b>	<b>41</b>	<b>7,832</b>	<b>349</b>	<b>0</b>	<b>14,375</b>
<b>Swm a gariwyd ar 1 Ebrill 2018</b>	<b>3,369</b>	<b>2,322</b>	<b>6,470</b>	<b>256</b>	<b>2,392</b>	<b>14,809</b>
<b>Swm a gariwyd ar 31 Mawrth 2019</b>	<b>3,916</b>	<b>2,313</b>	<b>5,171</b>	<b>128</b>	<b>5,076</b>	<b>16,604</b>
<b>Ariannu Asedau</b>						
Wedi'u perchnogi	3,916	2,313	5,171	128	5,076	16,604
<b>Swm a gariwyd at 31 Mawrth 2019</b>	<b>3,916</b>	<b>2,313</b>	<b>5,171</b>	<b>128</b>	<b>5,076</b>	<b>16,604</b>

Y swm a ddelir yn y Gronfa Ailbriso ar gyfer yr asedau hyn ar 31 Mawrth 2019 oedd £686k.

## 8. Rhwymedigaethau ac offerynnau ariannol

### 8.1 Financial liability

Mae'r rhwymedigaeth ariannol o £39,942k a adroddwyd yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol yn cynnwys £39,844k o rwymedigaeth o gytundebau gweithredu cronfeydd dŵr.

Yn 1989, er mwyn ei gwneud yn bosibl i breifateiddio ddigwydd, trafododd Llywodraeth EM gytundebau gweithredu cronfeydd gyda'r cwmnïau dŵr. Roedd y cytundebau hyn yn cynnwys taliadau sefydlog (wedi'u mynegeo yn flynyddol ar y Mynegai Prisiau Manwerthu) sy'n daladwy am byth i'r cwmnïau dŵr. Erbyn hyn mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gyfrifol am y taliadau i Dŵr Cymru Welsh Water.

Gan fod cyfanswm y rhwymedigaeth wedi cael ei chyfrifo fel bythol-daliadau ar sail cost amorteiddiedig ni fydd yn newid o flwyddyn i flwyddyn ac eithrio mewn achos annhebygol lle bydd y cytundeb yn dod i ben. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gallu adennill llawn gost cytundebau gweithredu cronfeydd dŵr, gan gynnwys y mynegeo blynyddol drwy ei daliadau ar gyfer tynnu dŵr.

Talwyd £5,848k i Ddŵr Cymru yn ystod 2019/20 (2018/19: £5,729k) ar gyfer y taliadau sefydlog wedi'u mynegeo. Mae'r rhain yn cael eu cynnwys gyda thaliadau eraill o dan y cytundebau gweithredu cronfeydd yn Nodyn 5

Mae rhwymedigaethau deddfwriaethol a gyflwynwyd yn ddiweddar mewn perthynas â safonau uwch ar gyfer gorlifannau, pibellau ac argaeau yn ogystal ag asedau sy'n dod i ddiwedd eu hoes ddefnyddiol, wedi arwain at Dŵr Cymru Welsh Water yn gweithredu rhaglen gyfalaf dros 8 mlynedd ar draws Clwyd, Dwyfor, Aled, Dyfrdwy, Dalgylchoedd Gwy a Tywi. Mae'r rhaglen hon o weithiau newydd wedi cynyddu costau'n sylweddol i lefelau digynsail sydd wedi arwain at Cyfoeth Naturiol Cymru yn cytuno ar amserlen daliadau cynyddol gyda Dŵr Cymru Welsh Water dros 10 mlynedd, am gyfanswm cost ragamcanol o £27.2m.

Trwy'r lyfnhau'r costau hyn ynghyd â thaliadau uwch y gellir eu rheoli ar gyfer y tynnu dŵr, mae'r cyfleuster hwn wedi galluogi i Cyfoeth Naturiol Cymru ragweld Cyfrif Tâl Uned Safonol cynaliadwy dros gyfnod y llinell amser hon. Adroddir y gost o fewn cytundebau gweithredu cronfeydd dŵr yn Nodyn 5, ac adroddir y diffyg yn ystod y flwyddyn fel symiau taladwy tymor hir yn Nodyn 12. Adroddir yr incwm cyfatebol sydd i'w dderbyn o fewn costau tynnu dŵr yn Nodyn 6.1 a Symiau derbyniadwy tymor hir yn Nodyn 10.

### 8.2 Offerynnau ariannol

Gan fod gofyniad arian parod Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael ei fodloni yn bennaf drwy gymorth grant, mae offerynnau ariannol yn chwarae rhan fwy cyfyngedig o ran creu a rheoli risg nag a fyddai'n berthnasol i gorff yn y sector nad yw'n gyhoeddus. Mae'r rhan fwyaf o offerynnau ariannol yn ymwneud â chontractau i brynu eitemau anariannol yn unol â gofynion prynu a defnyddio disgwylidig Cyfoeth Naturiol Cymru ac felly mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael ei amlygu i ddim ond ychydig o risg o ran credyd, hylifedd neu'r farchnad.

Cyflwynodd Safon Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) 9 fodel Colled Credyd Disgwyliedig (ECL) newydd i amcangyfrif a rhoi cyfrif am golledion credyd disgwyliedig ar gyfer yr holl asedau ariannol perthnasol. Mae amcangyfrif Cyfoeth Naturiol Cymru yn seiliedig ar ein profiad hanesyddol o golledion credyd a ddiweddarir ar gyfer materion credyd hysbys yn y dyfodol.

## 9. Asedau ariannol

	<b>31 Mawrth 2020</b>	<b>31 Mawrth 2019</b>
	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>
Coedwig Llyn Efyrrwy	4,811	4,238
Forest holidays	710	425
	<u>5,521</u>	<u>4,663</u>

Ym mis Ebrill 2018, daeth Hafren Dyfrdwy yn gyfrifol am reoli'r goedwig yn Llyn Efyrrwy, gan gasglu'r incwm a mynd i'r costau perthnasol, lle roedd yn flaenorol yn gyfrifoldeb Cyfoeth Naturiol Cymru. Bellach mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru rôl gynghorol o dan y cytundeb cynllun coedwigo ac mae'n derbyn 50% o'r gwarged gweithredu gan Hafren Dyfrdwy. Ail-ddosbarthwyd yr ased fel ased ariannol yn 2018/19.

## 10. Dyledwyr masnachol a symiau derbyniadwy eraill

	<b>31 Mawrth 2020</b>	<b>31 Mawrth 2019</b>
	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>
<b>O fewn blwyddyn</b>		
Dyledwyr masnachol	5,629	4,320
Colled credyd disgwylidig	(672)	(418)
Asedau contract		
Masnachol ac arall	3,673	2,972
Incwm cronedig:		
Cyllid Ewropeaidd a cyllid allanol arall	1,044	1,196
Taliadau	1,325	1,297
Eraill	77	
TAW derbyniadwy	3,110	2,713
Rhagdaliadau	1,890	2,430
Blaendaliadau	0	377
Derbyniadau eraill	35	180
<b>Cyfanswm</b>	<u><b>16,111</b></u>	<u><b>15,067</b></u>
<b>Ar ôl blwyddyn</b>		
Derbyniadau tymor hir	3,982	2,052
<b>Cyfanswm Dyledwyr masnachol a symiau derbyniadwy eraill</b>	<u><b>20,093</b></u>	<u><b>17,119</b></u>



## 11. Arian parod a chyferthoedd arian

	31 Mawrth 2020	31 Mawrth 2019
	£'000	£'000
Balans agoriadol	49,025	43,539
Newid net mewn arian a chyferthoedd arian	(23,924)	5,486
<b>Cyfanswm</b>	<b>25,101</b>	<b>49,025</b>
Roedd y balansau canlynol yn cael eu dal ar 31 Mawrth		
Government Banking Service	20,980	46,594
Cyfrifon bank eraill	4,120	2,429
Arian mewn llaw	1	2
<b>Total</b>	<b>25,101</b>	<b>49,025</b>

Mae arian parod a chyferthoedd arian yn cynnwys arian mewn llaw, darpariaethau ariannol (gweler Nodyn 1.9) a balansau cyfredol sy'n cael eu dal yng Nghyfrifon Banc y Llywodraeth a chyfrifon banc Barclays. Gellir eu trosi'n hawdd yn symiau diffiniedig o arian parod, ac maent yn agored i risg ddbwys o newidiadau mewn gwerth. Nid yw darpariaethau ariannol ar gael i'w defnyddio gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Dim ond ar ôl i'r gweithredwr tirlenwi dorri amodau'r drwydded y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhoi ystyriaeth briodol i dynnu'r ddarpariaeth sydd mewn lle.

## 12. Credydwyr masnachol a symiau taladwy eraill

	31 Mawrth 2020	31 Mawrth 2019
	£'000	£'000
<b>O fewn blwyddyn</b>		
Credydwyr masnachol cronedig	12,561	8,286
Incwm gohiriedig:		
Cyllid Ewropeaidd a chyllid allanol arall	2,595	1,840
Taliadau	5,017	4,094
Rhwymedigaethau contract:		
Taliadau	478	564
Masnachol ac arall	101	730
Tâl gwyliau **	2,665	2,724
Credydwyr masnachol	3,153	1,875
Bondiau a blaendaliadau	1,301	1,256
Prydlesi cyllid (cyfredol)	20	12
Symiau taladwy eraill	4	172
Trethi a nawdd cymdeithasol	9	9
<b>Cyfanswm</b>	<b>27,904</b>	<b>21,562</b>
<b>Ar ôl blwyddyn</b>		
Symiau taladwy tymor hir	3,829	2,052
Prydlesi cyllid tymor hir	459	426
Incwm gohiriedig tymor hir	244	300
Bondiau a blaendaliadau tymor hir	190	190
<b>Cyfanswm</b>	<b>4,722</b>	<b>2,968</b>
<b>Cyfanswm Credydwyr masnachol a symiau taladwy eraill</b>	<b>32,626</b>	<b>24,530</b>

\*\* Nid yw'r cyfrifiad ar gyfer tâl gwyliau cronedig ar 31 Mawrth 2020 yn cynnwys cyfraniadau pensiwn.

Mae'r cymariaethau ar gyfer 18/19 yn cynnwys ac addasiad o incwm gohiriedig o £300k yn ymwneud â thaliadau a bondiau ac adneuron £190k sydd wedi'u hailddosbarthu o'r symiau taladwy cyfredol i symiau taladwy tymor hir.

### 13. Darpariaethau

	Costau ymadael yn gynnar £'000	Arall £'000	Cyfanswm £'000
<b>Balans ar 1 Ebrill 2019</b>	27	1,051	1,078
Darparwyd yn ystod y flwyddyn	39	80	119
Rhyddhawyd yn y flwyddyn	0	(55)	(55)
Defnyddiwyd yn y flwyddyn	(54)	(676)	(730)
<b>Balans ar 31 Mawrth 2020</b>	<b>12</b>	<b>400</b>	<b>412</b>
<b>Amcangyfrif o amseriad llifau arian wedi'u disgowntio</b>			
Yn ddyledus o fewn blwyddyn	12	400	412
Yn ddyledus rhwng un a phum mlynedd	0	0	0
<b>Cyfanswm</b>	<b>12</b>	<b>400</b>	<b>412</b>

Yn unol â gofyniad Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol (IAS) 37 (Darpariaethau, rhwymedigaethau amodol ac asedau amodol), lle mae hynny'n faterol berthnasol, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cydnabod darpariaeth ar gyfer rhwymedigaethau sy'n codi o ddigwyddiadau yn y gorffennol lle mae rhwymedigaeth bresennol ar y dyddiad adrodd, mae'n debygol y bydd gofyn i Cyfoeth Naturiol Cymru setlo'r rhwymedigaeth ac y gellir gwneud amcangyfrif ariannol yn ddibynadwy.

Mae darpariaeth ar gyfer costau gadael yn gynnar yn cynnwys taliadau iawndal blyneddol i gyn-staff a adawodd o dan raglenni ymddeol yn gynnar cyrff etifeddol.

Mae darpariaethau eraill yn cynnwys £269k o gynigion grant i ariannu gwaith sydd wedi ei wneud hyd at 31 Mawrth 2020, ond na fydd yn cael ei hawlio tan fis Mehefin 2020 a £131k ar gyfer hawliadau eraill. Disgwylir y bydd pob un o'r rhain yn cael eu talu o fewn y deuddeg mis nesaf. Adroddir ar ymrwymadau grant eraill yn nodyn 17 (Ymrwymadau ariannol eraill).

Dangosir costau'r darpariaethau eraill ychwanegol yn nodyn 5. Mae cyfanswm y darpariaethau a nodwyd uchod yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol o dan rhwymedigaethau. Mae'r ddarpariaeth ychwanegol ar gyfer y symudiad yn y golled credyd disgwylidig yn cael ei dangos yn nodyn 5, a chyfanswm y ddarpariaeth ar gyfer colled credyd disgwylidig yn nodyn 10 ac wedi ei gynnwys yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol o dan Symiau derbyniadwy.

## 14. Rhwymedigaethau pensiwn

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn aelod o ddau gynllun pensiwn, sef Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (CSPS) a Chynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS).

### Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil

Mae Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (CSPS) yn agored i weithwyr newydd.

Darperir buddion pensiwn drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 1 Ebrill 2015 cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil - Cynllun Pensiwn y Gweision Sifil ac Eraill neu alpha, sy'n darparu buddion ar sail cyfartaledd gyrfu gydag oedran pensiwn arferol sy'n cyfateb i Oedran Pensiwn y Wladwriaeth yr aelod (neu 65 os yw'n uwch). O'r dyddiad hwn, fe ymunodd pob gwas sifil a benodwyd o'r newydd a mwyafrif y rhai oedd eisoes mewn gwasanaeth ac alpha. Cyn y dyddiad hwnnw, roedd gweision sifil yn cymryd rhan yng Nghynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae gan y PCSPS bedair adran: 3 yn darparu buddion ar sail cyflog terfynol (classic, premium neu classic plus) gydag oedran pensiwn arferol o 60; ac un sy'n darparu buddion ar sail gyrfu gyfan (nuvos) gydag oedran pensiwn arferol o 65.

Nid yw'r trefniadau statudol hyn yn cael eu hariannu a chaiff costau'r buddion eu talu gan arian a bleidleisir gan y Senedd bob blwyddyn. Mae pensiynau sy'n daladwy o dan classic, premium, classic plus, nuvos ac alpha yn cael eu cynyddu'n flynyddol yn unol â deddfwriaeth Cynnydd Pensiynau. Arhosodd aelodau presennol o'r PCSPS a oedd o fewn 10 mlynedd o'u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn y PCSPS ar ôl 1 Ebrill 2015. Bydd y rhai a oedd rhwng 10 mlynedd a 13 mlynedd a 5 mis o'u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn newid i alpha rywbryd rhwng 1 Mehefin 2015 ac 1 Chwefror 2022. Bydd buddion PCSPS pob aelod sy'n newid i alpha yn cael eu 'bancio', gyda'r rhai sydd â buddion cynharach yn un o adrannau cyflog terfynol y PCSPS yn cael y buddion hynny wedi eu seilio ar eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael alpha. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnwyd ar gyfer swyddogion yn dangos pensiwn a enillwyd o fewn PCSPS neu alpha - fel y bo'n briodol. Lle bo gan y swyddog fuddion yn y PCSPS ac alpha y ffigur a ddyfynnir yw gwerth cyfunol eu buddion yn y ddau gynllun). Gallai aelodau sy'n ymuno o fis Hydref 2002 ddewis naill ai'r trefniant budd diffiniedig priodol neu bensiwn rhanddeiliad 'prynu ag arian' gyda chyfraniad cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

Mae cyfraniadau gweithwyr cyflogedig yn gysylltiedig â chyflog ac yn amrywio rhwng 4.6% ac 8.05% ar gyfer aelodau o classic, premium, classic plus, nuvos ac alpha. Mae buddion mewn classic yn cronni ar gyfradd o 1/80fed o enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, mae cyfandaliad sy'n gyfwerth â thair blynedd o bensiwn cychwynnol yn daladwy wrth ymddeol. Ar gyfer premium, mae buddion yn cronni ar gyfradd o 1/60ain o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i classic, nid oes unrhyw gyfandaliad awtomatig. Mae classic plus yn gynllun hybrid yn ei hanfod gyda buddion am wasanaeth cyn 1 Hydref 2002 wedi'u cyfrifo'n ras fel y cynllun classic a buddion am wasanaeth o Hydref 2002 wedi eu cyfrifo fel yn y premium. Yn nuvos mae aelod yn cronni pensiwn ar sail ei enillion pensiynadwy yn ystod ei gyfnod aelodaeth o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth) mae cyfrif pensiwn a enillwyd yr aelod yn cael ei gredydu â 2.3% o'i enillion pensiynadwy yn y flwyddyn honno o'r cynllun a chaiff y pensiwn cronedig ei uwchraddio yn unol â deddfwriaeth Cynnydd Pensiynau. Mae buddion mewn alpha yn cronni mewn ffordd debyg i nuvos, ac eithrio mai'r gyfradd gronol yw 2.32%. Ym mhob achos, gallai aelodau ddewis ildio (cyfnewid) pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a osodir gan Ddeddf Cyllid 2004.

Mae'r cyfrif pensiwn partneriaeth yn drefniant pensiwn rhanddeiliaid. Mae'r cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol o rhwng 8% ac 14.75% (yn ddibynnol ar oedran yr aelod) i gynnyrch pensiwn rhanddeiliaid a ddewisir gan y gweithiwr o blith panel o ddarparwyr. Nid oes rhaid i'r gweithiwr gyfrannu, ond os bydd yn gwneud cyfraniadau, bydd y cyflogwr yn cyfateb y rhain hyd at uchafswm o 3% o'r cyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.5% pellach o gyflog pensiynadwy i dalu cost yswiriant buddiant risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn gwasanaeth ac ymddeol oherwydd salwch).

Y pensiwn cronedig a ddyfynnir yw'r pensiwn y mae gan yr aelod hawl i'w dderbyn pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn, neu'n syth ar ôl peidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw eisoes wedi cyrraedd neu dros oedran pensiwn. Yr oedran pensiwn yw 60 ar gyfer aelodau classic, premium a classic plus, 65 ar gyfer aelodau nuvos, a'r uchaf o 65 neu Oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar gyfer aelodau o alpha. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnwyd ar gyfer swyddogion yn dangos pensiwn a enillwyd o fewn PCSPS neu alpha - fel y bo'n briodol. Lle bo gan y swyddog fuddion yn y PCSPS ac alpha y ffigur a ddyfynnir yw gwerth cyfunol eu buddion yn y ddau gynllun, ond noder y gallai rhan o'r pensiwn fod yn daladwy o wahanol oedranau).

Mae manylion pellach am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar gael ar y wefan:

[www.civilservicepensionscheme.org.uk](http://www.civilservicepensionscheme.org.uk)

## Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL)

Ar 1 Ebrill 2013, cafodd gweithgareddau pensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru (AAC) eu trosglwyddo i Cyfoeth Naturiol Cymru yn unol â Chynllun Trosglwyddo Corff Adnoddau Naturiol Cymru 2013 o dan Ddeddf Cyrrff Cyhoeddus 2011. Mae gweithwyr CNC a oedd yn weithwyr AAC yn parhau'n aelodau o Gronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd (EAPF) fel corff a dderbyniwyd.

Mae EAPF yn gweithredu cynllun pensiwn buddion diffiniedig statudol, a weinyddir yn unol â Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 a Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Darpariaethau trosiannol, cynilion a newid) 2014. Gall y rhain gael eu diwygio dros amser. Mae mwy o fanylion am y gronfa bensiwn, gan gynnwys ei hadroddiad blynyddol a'r cyfrifon, ar wefan EAPF, [www.eapf.org.uk](http://www.eapf.org.uk).

Cyfanswm y tâl pensiwn ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru am y flwyddyn ariannol 2019/20 oedd £12,513 miliwn (£13,865 miliwn yn 2018/19). Cafodd y tâl pensiwn yn ymwneud â'r cynllun ei asesu yn unol â chyngor actwari cymwysedig annibynnol gan ddefnyddio'r dull uned amcanol o brisio i gyfrifo costau gwasanaeth. Trefniadau cyllido Cyfoeth Naturiol Cymru yw talu cyfraniadau'r cyflogwr i'r Gronfa Bensiwn naill ai'n fisol neu fel taliadau cyfandaliad.

Roedd prisiad actiwaraid tair blynedd diweddaraf yr EAPF ar 31 Mawrth 2019. Roedd yr asedau a gymerwyd ar werth y farchnad (£3.6 biliwn) yn ddigonol i gwmpasu 106% o werth rhwymedigaethau mewn perthynas â buddion gwasanaeth yn y gorffennol a oedd wedi cronni i aelodau. Derbyniodd CNC argymhelliad yr actiwari annibynnol mewn perthynas â chyfraniadau cyflogwyr yn y dyfodol. Bydd y prisiad actiwaraid tair blynedd nesaf ar 31 Mawrth 2022 a chaiff ei ddefnyddio i bennu cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr am y cyfnod tair blynedd gan ddechrau ar 1 Ebrill 2023.

Amcangyfrifodd yr adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol ar gyfer yr EAPF fod ganddo ddigon o asedau i gwrdd â 100% o'i rwymedigaethau disgwylid yn y dyfodol ar 31 Mawrth 2020 ar sail ariannu barhaus. Mae cyfran CNC o rwymedigaethau EAPF fel yr adroddir yn y datganiadau ariannol hyn yn cael ei chyfrifo gan ddefnyddio gwahanol ragdybiaethau actiwaraid, sy'n ofynnol gan Safon Cyfrifo Rhyngwladol (IAS) 19, i'r rhai a ddefnyddir yn adroddiad blynyddol EAPF. Mae hyn yn arwain at lefel ariannu wahanol i'r hyn a adroddwyd gan yr EAPF.

Y prif wahaniaeth mewn rhagdybiaeth yw'r gyfradd ddisgowntio a ddefnyddir i brisio rhwymedigaethau pensiwn. Mae cyfradd ddisgownt EAPF at ddibenion cyllido yn seiliedig ar ddisgwyliad darbodus o'r enillion a gynhyrchir o'r portffolio o asedau sy'n eiddo i'r EAPF. Mae'r gyfradd ddisgowntio a ddefnyddir yn natganiadau ariannol Cyfoeth Naturiol Cymru, fel sy'n ofynnol gan Safonau Cyfrifo Rhyngwladol (IAS) 19, yn seiliedig ar enillion bondiau corfforaethol o ansawdd uchel, heb unrhyw ragdybiaeth perfformiad asedau ychwanegol. Felly mae'r gyfradd ddisgownt termau real yn y datganiadau ariannol hyn 0.3% yn is na'r gyfradd a ddefnyddir yn yr EAPF at ddibenion cyllido. Mae'r gyfradd is hon yn arwain at roi gwerth uwch ar rwymedigaethau.

Gwneir nifer o dybiaethau fel rhan o'r broses brisio actiwaraid. Nid yw'r rhagdybiaethau actiwaraid darbodus a ddefnyddir yn cynrychioli barn ar yr hyn y gall symudiadau cyflog fod yn y dyfodol. Tybiwyd y bydd pensiynau talu presennol ac yn y dyfodol yn cynyddu ar gyfradd o 2.5% y flwyddyn. Amcangyfrifir y bydd y cyfraniad sy'n daladwy gan CNC, ac eithrio unrhyw gyfandaliadau dewisol, am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2021 oddeutu £0 gan ei fod wedi talu ei holl gyfraniadau cyflogwr arferol.

Mae'r nodiadau isod yn nodi gofynion datgelu Safonau Cyfrifo Rhyngwladol (IAS) 19 ar gyfer y flwyddyn gyfredol mewn perthynas â chyfranogiad Cyfoeth Naturiol Cymru yn yr EAPF. Gwnaed yr holl gyfrifiadau gan actiwari annibynnol cymwys ac roeddent yn seiliedig ar brisiad actiwaraid diweddaraf y gronfa ar 31 Mawrth 2019 a ddiweddarwyd hyd 31 Mawrth 2020. Dim ond ar gyfer cyfrifyddu y defnyddir y rhagdybiaethau sy'n sail i gyfrifo rhwymedigaeth net ar 31 Mawrth 2020. dibenion fel sy'n ofynnol o dan Safonau Cyfrifo Rhyngwladol (IAS) 19. Nid yw'n ofynnol i'r rhwymedigaeth net yr adroddir amdani gael ei chyflawni fel cyfandaliad. Bydd cyfraniadau arian parod a delir gan Cyfoeth Naturiol Cymru i'r gronfa bensiwn yn parhau i gael eu gosod trwy gyfeirio at ragdybiaethau y cytunwyd arnynt ym mhob prisiad actiwaraid tair blynedd o'r cynllun.

Mae pandemig y coronfeirws (COVID-19) wedi effeithio ar farchnadoedd ariannol ac eiddo byd-eang. Oherwydd anwadalarwydd amodau'r farchnad, mae adroddiadau prasio diwedd blwyddyn a ddarparwyd i Gronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd yn cynnwys datganiad bod ansicrwydd prasio perthnasol ynghylch cronfa eiddo y DU a reolir ar ran Cronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd.

Cyfanswm gwerth y gronfa eiddo fel ar 31 Mawrth 2020 oedd £438m, y mae tua 10% ohono i'w briodoli i Cyfoeth Naturiol Cymru. Er nad oes ansicrwydd prasio wedi'i gysylltu â phob rhan o'r gronfa eiddo, mae elfen faterol berthnasol yng nghyswllt Cyfoeth Naturiol Cymru ag ansicrwydd o'r fath.

## Dyfarniad McCloud

Pan ddiwygiwyd y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn 2014, cymhwyswyd amddiffyniadau trosiannol i rai aelodau hŷn o fewn deng mlynedd i'r oedran ymddeol arferol. Mae'r buddion a gronnwyd o 1 Ebrill 2014 gan yr aelodau hyn yn destun 'sail' sy'n golygu na allant fod yn is na'r hyn y byddent wedi'i dderbyn o dan y strwythur budd-daliadau blaenorol. Mae'r sylfaen yn sicrhau nad yw'r aelodau hyn ar eu colled o gyflwyno'r cynllun newydd trwy roi'r buddion o'r cynlluniau hen a newydd iddynt i bob pwrpas.

Ym mis Rhagfyr 2018, cadarnhaodd y Llys Apêl ddyfarniad bod amddiffyniadau trosiannol tebyg yng Nghynlluniau Pensiwn y Barnwyr a'r Diffoddwyr Tân yn anghyfreithlon ar sail gwahaniaethu ar sail oedran. Cyfeirir at hyn fel achos McCloud. Roedd disgwyl i oblygiadau'r dyfarniad fod yn berthnasol i'r CPLIL a chynlluniau gwasanaeth cyhoeddus eraill hefyd.

Ym mis Mehefin 2019, gwrthododd y Goruchaf Lys ganiatâd y Llywodraeth i apelio yn erbyn achos McCloud mewn perthynas â gwahaniaethu ar sail oedran a diogelu pensiwn. Amcangyfrifodd actiwari'r cynllun pensiwn yr effaith ar Cyfoeth Naturiol Cymru yn £3,001k ac roedd prisiad cau'r gronfa ar gyfer 2018/19 yn adlewyrchu hyn. Y gost gwasanaeth gyfredol ar gyfer 2019/20 sy'n ymwneud â dyfarniad McCloud yw oddeutu £433k.

## 14.1 Tybiaethau ariannol a thybiaethau o ran hirhoedledd

Y cyfnod a ddaeth i ben	31 Maw 2020 % p.a.	31 Maw 2019 % p.a.
Y gyfradd cynnydd mewn pensiwn	1.6%	2.2%
Y gyfradd cynnydd mewn cyflogau	2.1%	2.5%
Y gyfradd ddisgowntio	2.3%	2.4%

Ar ddyddiad y prisiad diweddaraf, hyd rhwymedigaethau a ariennir gan y cyflogwr yw 22 mlynedd.

	Males	Females
Pensiynwyr presennol	21.9 years	23.8 years
Pensiynwyr yn y dyfodol*	22.9 years	25.5 years

\* mae'r ffigurau'n rhagdybio aelodau 45 oed fel ar y dyddiad priso ffurfiol diwethaf

## 14.2 Dadansoddiad o sensitifrwydd

Newid mewn tybiaethau ar 31 Mawrth 2020:	% bras o'r cynnydd i ymrwymiad y cyflogwr	Swm ariannol bras (£000)
Gostyngiad o 0.5% yn y Gyfradd Ddisgowntio Wirioneddol	11%	41,604
Cynnydd o 0.5% yn y Gyfradd Cynnydd mewn Cyflogau	2%	9,062
Cynnydd o 0.5% yn y Gyfradd Cynnydd mewn Pensiwn	9%	32,014

### 14.2.3 Hyd rhwymedigaethau buddion diffiniedig

Amcangyfrifwyd gan yr actiwari yn ystod y prisiad bob tair blynedd diweddaraf ar 31 Mawrth 2019 bod hyn y rhwymedigaethau buddion diffiniedig (h.y. cyfartaledd pwysol yr amser hyd at talu allan) ar gyfer aelodau o'r cynllun yn 22 mlynedd.



## 14.2.4 Gwerth Teg Asedau

Gwerth Teg Asedau ar gyfer y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2020

Categori o asedau	31 Mawrth 2020 (£000)				
	Dyfnynnwyd	Heb ei ddyfnynu	Heb ei ddiifinio	Cyfanswm	%
<b>Gwarannau Ecwiti:</b>					
Stoc Gyffredin	53,259.0	0.0	0.0	53,259.0	14%
Stoc a Ffefrir	0.0	0.0	0.0	0.0	0%
Hawliau / Gwarantau	0.0	0.0	0.0	0.0	0%
Asedau Ecwiti Eraill	109.2	0.0	0.0	109.2	0%
<b>Gwarannau Dyledion:</b>					
Bondiau Llywodraeth y DU	0.0	37,883.2	0.0	37,883.2	10%
Bondiau Corfforaethol	0.0	32,404.0	0.0	32,404.0	9%
Arall	0.0	2,095.3	0.0	2,095.3	1%
<b>Cyfrngau Buddsoddiad Cyfunol:</b>					
Ecwitiâu	0.0	83,132.2	0.0	83,132.2	22%
Bondiau	0.0	84,414.3	0.0	84,414.3	23%
Cronfeydd - Stoc Gyffredin	0.0	0.0	0.0	0.0	0%
Cronfeydd - Eiddo Tiro	0.0	17,009.6	0.0	17,009.6	5%
Cronfeydd - Cyfalaf Mentro	0.0	0.0	0.0	0.0	0%
<b>Cyfalaf Mentro a Phartneriaethau:</b>					
Partneriaethau ac Eiddo Tiro	0.0	53,428.9	0.0	53,428.9	14%
<b>Buddsoddiad arall:</b>					
Gwarannau wedi'u Staplo	0.0	0.0	0.0	0.0	0%
<b>Contractau Deilliadol:</b>					
Deilliadau Ecwiti - Dyfodolion	0.0	0.0	0.0	0.0	0%
Blaengontractau FX	0.0	(563.3)	0.0	(563.3)	0%
<b>Arian parod a chyfwerth arian</b>					
Pob un	0.0	0.0	8,898.6	8,898.6	2%
<b>Cyfansymiau</b>	<b>53,368.3</b>	<b>309,804.1</b>	<b>8,898.6</b>	<b>372,071.0</b>	<b>100%</b>

Gwerth Teg Asedau ar gyfer y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2019

Categori o asedau	31 March 2019 (£'000)				
	Quoted	Unquoted	Undetermined	Total	%
<b>Gwarannau Ecwiti:</b>					
Stoc Gyffredin	62,656.0	0.0	0.0	62,656.0	17%
Stoc a Ffefrir	0.0	0.0	0.0	0.0	0%
Hawliau / Gwarantau	336.8	0.0	0.0	336.8	0%
Asedau Ecwiti Eraill	3,474.4	0.0	0.0	3,474.4	1%
<b>Gwarannau Dyledion:</b>					
Bondiau Llywodraeth y DU	0.0	36,018.1	0.0	36,018.1	10%
Bondiau Corfforaethol	0.0	31,184.3	0.0	31,184.3	8%
Arall	0.0	2,157.0	0.0	2,157.0	1%
<b>Cyfrngau Buddsoddiad Cyfunol:</b>					
Ecwitiâu	0.0	79,765.8	0.0	79,765.8	21%
Bondiau	0.0	30,183.7	0.0	30,183.7	8%
Cronfeydd - Stoc Gyffredin	0.0	0.0	0.0	0.0	0%
Cronfeydd - Eiddo Tiro	58,510.7	13,342.5	0.0	71,853.2	19%
Cronfeydd - Cyfalaf Mentro	0.0	0.0	0.0	0.0	0%
<b>Cyfrngau Buddsoddiad Cyfunol:</b>					
Partnerships & Real Estate	0.0	46,166.2	0.0	46,166.2	12%
<b>Buddsoddiad arall</b>					
Gwarannau wedi'u Staplo	0.0	0.0	0.0	0.0	0%
<b>Contractau Deilliadol:</b>					
Deilliadau Ecwiti - Dyfodolion	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0
Blaengontractau FX	0.0	(424.4)	0.0	(424.4)	(0.0)
<b>Arian parod a chyfwerth arian</b>					
Pob un	0.0	0.0	9,732.9	9,732.9	3%
<b>Cyfansymiau</b>	<b>124,977.8</b>	<b>238,393.3</b>	<b>9,732.9</b>	<b>373,104.0</b>	<b>100%</b>

## 14.2.5 Newid yng ngwerth teg asedau'r cynllun, y rhwymedigaeth o ran buddion

Cyfnod yn diwedd 31 Mawrth 2020			
	Asedau	Ymrwymadau	(Rhwymedig- aethau) / Asedau net
	£(000s)	£(000s)	£(000s)
Gwerth teg asedau'r cyflogwr	373,104	0	373,104
Gwerth presennol rhwymedigaethau wedi'u hariannu	0	429,192	(429,192)
Gwerth presennol rhwymedigaethau heb eu hariannu	0	0	0
<b>Y Sefyllfa Agoriadol ar 31 Mawrth 2019</b>	<b>373,104</b>	<b>429,192</b>	<b>(56,088)</b>
Cost y gwasanaeth			
- Cost gyfredol y gwasanaeth*	0	13,497	(13,497)
- Cost flaenorol y gwasanaeth (gan gynnwys cwtogiadau ac effaith McCloud)	0	(984)	984
'- Effaith setliadau	0	0	0
<b>Cyfanswm cost y gwasanaeth</b>	<b>0</b>	<b>12,513</b>	<b>(12,513)</b>
Llog net			
- Incwm o log ar asedau'r cynllun	9,043	0	9,043
- Cost llog ar y rhwymedigaeth o ran buddion diffiniedig	0	10,412	(10,412)
- Effaith terfyn uchaf asedau ar log net	0	0	0
<b>Cyfanswm y llog net</b>	<b>9,043</b>	<b>10,412</b>	<b>(1,369)</b>
<b>Cyfanswm cost budd diffiniedig a gydnabyddir mewn Elw neu (Golled)</b>	<b>9,043</b>	<b>22,925</b>	<b>(13,882)</b>
Llifau arian parod			
- Cyfraniadau cyfranogwyr y cynllun	2,080	2,080	0
- Cyfraniadau 'r cyflogwr	11,959	0	11,959
- Cyfraniadau o ran buddion heb eu hariannu	0	0	0
- Buddion a dalwyd	(8,141)	(8,141)	0
- Buddion heb eu hariannu a dalwyd	0	0	0
Effaith cyfraniadau busnes a gwarediadau	0	0	0
<b>Sefyllfa gau disgwylidig</b>	<b>388,045</b>	<b>446,056</b>	<b>(58,011)</b>
Ailfesuriadau			
- Newid mewn tybiaethau demograffig	0	(37,917)	37,917
- Newid mewn tybiaethau ariannol	0	(10,258)	10,258
- Profiad arall	0	(24,301)	24,301
- Enillion ar asedau ac eithrio symiau a ginhwyswyd mewn llog net	(15,976)	0	(15,976)
- Newidiadau i derfyn uchaf asedau	0	0	0
<b>Cyfanswm yr ailfesuriadau a gydnabyddir mewn Incwm Cynhwysfawr Arall (OCI)</b>	<b>(15,976)</b>	<b>(72,476)</b>	<b>56,500</b>
Gwahaniaethau cyfnewid	0	0	0
Gwerth teg asedau'r cyflogwr	372,071	0	372,071
Gwerth presennol rhwymedigaethau a ariennir	0	373,582	(373,582)
Gwerth presennol rhwymedigaethau nas ariennir	0	0	0
<b>Closing position as at 31 March 2020</b>	<b>372,071</b>	<b>373,582</b>	<b>(1,511)</b>

\* Mae'r cost gwasanaeth cyfredol yn cynnwys lwfans ar gyfer costau gweinyddu o 0.6% o'r gyflogres.

## 14.5 Newid yng ngwerth teg asedau'r cynllun, y rhwymedigaeth o ran buddion diffiniedig a'r rhwymedigaeth net (Parhad)

Cyfnod yn diwedd 31 Mawrth 2019	Asedau	Ymrwymadau	(Rhwymedigaethau) /
	£(000s)	£(000s)	£(000s)
Gwerth teg asedau'r cyflogwr	341,141	0	341,141
Gwerth presennol rhwymedigaethau wedi'u hariannu	0	373,625	(373,625)
Gwerth presennol rhwymedigaethau heb eu hariannu	0	0	0
<b>Y Sefyllfa Agoriadol ar 31 Mawrth 2018</b>	<b>341,141</b>	<b>373,625</b>	<b>(32,484)</b>
Cost y gwasanaeth			
- Cost gyfredol y gwasanaeth *	0	11,623	(11,623)
- Cost flaenorol y gwasanaeth (gan gynnwys cwtogiadau effaith McCloud))	0	2,242	(2,242)
- Effaith setliadau	0	0	0
<b>Total service cost</b>	<b>0</b>	<b>13,865</b>	<b>(13,865)</b>
Llog net			
- Incwm o log ar asedau'r cynllun	9,233	0	9,233
- Cost llog ar y rhwymedigaeth o ran buddion diffiniedig	0	10,163	(10,163)
- Effaith terfyn uchaf asedau ar log net	0	0	0
<b>Cyfanswm y llog net</b>	<b>9,233</b>	<b>10,163</b>	<b>(930)</b>
<b>Cyfanswm cost budd diffiniedig a gydnabyddir mewn Elw neu (Golled)</b>	<b>9,233</b>	<b>24,028</b>	<b>(14,795)</b>
Llifau arian parod			
- Cyfraniadau cyfranogwyr y cynllun	2,094	2,094	0
- Cyfraniadau'r cyflogwr	7,089	0	7,089
- Cyfraniadau o ran buddion heb eu hariannu	0	0	0
- Buddion a dalwyd	(7,050)	(7,050)	0
- Buddion heb eu hariannu a dalwyd	0	0	0
Effaith cyfuniadau busnes a gwarediadau	0	0	0
<b>Sefyllfa cau ddisgwyliedig</b>	<b>352,507</b>	<b>392,697</b>	<b>(40,190)</b>
Ailfesuriadau			
- Newid mewn tybiaethau demograffig	0	0	0
- Newid mewn tybiaethau ariannol	0	36,495	(36,495)
- Profiad arall	0	0	0
- Ennillion ar asedau ac eithrio symiau a gynhwyswyd mewn llog net	20,597	0	20,597
- Newidiadau i derfyn uchaf asedau	0	0	0
<b>Cyfanswm yr ailfesuriadau a gydnabyddir mewn Incwm Cynhwysfawr Arall (OCI)</b>	<b>20,597</b>	<b>36,495</b>	<b>(15,898)</b>
Gwahaniaethau cyfnewid	0	0	0
Gwerth teg asedau'r cyflogwr	373,104	0	373,104
Gwerth presennol rhwymedigaethau wedi'u hariannu	0	429,192	(429,192)
Gwerth presennol rhwymedigaethau heb eu hariannu	0	0	0
<b>Sefyllfa cau ar 31 Mawrth 2019</b>	<b>373,104</b>	<b>429,192</b>	<b>(56,088)</b>

\* Mae'r cost gwasanaeth cyfredol yn cynnwys lwfans ar gyfer costau gweinyddu o 0.6% o'r gyflogres.

## 15. Ymrwymadau cyfalaf

Lle mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru ymrwymadau cyfalaf cytundebol na ddarperir ar eu cyfer yn y datganiadau ariannol, fe'u datgelir yn y tabl isod. Dangosir ymrwymadau sy'n ymwneud â Gwaith Cyfalaf a Wariwyd yn ystod y flwyddyn yn nodyn 4.

	31 Mawrth 2020 £'000	31 Mawrth 2019 £'000
<b>Eiddo, peiriannau a chyfarpar</b>		
Offer a pheiriannau	206	161
Offer trafnidiaeth	940	12
Strwythurau gweithredol	1,262	1,186
Strwythurau cyhoeddus	150	13
<b>Cyfanswm</b>	<b>2,558</b>	<b>1,372</b>
<b>Asedau anniriaethol</b>		
Technoleg gwybodaeth - trwyddedau meddalwedd	420	8
Technoleg gwybodaeth - datblygu meddalwedd	1,248	422
<b>Cyfanswm</b>	<b>1,668</b>	<b>430</b>
<b>Cyfanswm</b>	<b>4,226</b>	<b>1,802</b>

## 16. Ymrwymadau o dan brydlesi

Mae penderfynu a yw trefniant yn, neu'n cynnwys, prydles yn seiliedig ar sylwedd y trefniant hwnnw. Mae trefniant sy'n dibynnu ar y defnydd o ased penodol ac sy'n cyfleu'r hawl i ddefnyddio'r ased, yn cael ei ystyried fel prydles. Mae prydles gyllid yn un sy'n trosglwyddo risgiau a gwobrwyon perchnogaeth ased i'r prydlesai i raddau sylweddol. Prydles weithredol yw unrhyw brydles nad yw'n brydles gyllid. Caiff prydlesi eu hasesu gan ddefnyddio'r meini prawf a nodir yn Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol (IAS) 17 (Prydlesi). Nid yw tir sy'n cael ei ddal o dan brydles gyllid yn cael ei ddibrisio.

Mae costau sy'n ymwneud â phrydlesi gweithredol yn cael eu codi ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles ac yn cael eu dangos yn Nodyn 5.

Mae prydlesi cyllid yn cael eu cyfalafu ar y dechrau ar yr isaf o werth teg yr ased a brydlesir neu werth presennol y taliadau prydles lleiaf. Caiff dyled gyfatebol sy'n ddyledus i'r prydleswr ei chofnodi. Caiff ffioedd ariannol eu codi ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Caiff cerbydau sy'n cael eu dal o dan brydles cyllid eu dibrisio dros dymor y brydles.

### 16.1 Prydlesi gweithredu

Nodir cyfanswm y taliadau prydles gofynnol y dyfodol o dan brydlesi gweithredu yn y tabl isod ar gyfer pob un o'r cyfnodau canlynol.

	31 Mawrth 2020			
	Tir £'000	Adeiladau £'000	Cerbydau £'000	Cyfanswm £'000
<b>Ymrwymadau o dan brydlesi gweithredu yw:</b>				
O fewn blwyddyn	128	1,799	1,050	2,977
Ar ôl blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd	379	3,718	1,839	5,936
Ar ôl pum mlynedd	2,118	1,711	0	3,829
<b>Cyfanswm gwerth yr ymrwymadau</b>	<b>2,625</b>	<b>7,228</b>	<b>2,889</b>	<b>12,742</b>
	31 Mawrth 2019 (Ailddatganwyd)			
	Tir £'000	Adeiladau £'000	Cerbydau £'000	Cyfanswm £'000
<b>Ymrwymadau o dan brydlesi gweithredu yw:</b>				
O fewn blwyddyn	88	1,800	528	2,416
Ar ôl blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd	219	4,122	260	4,601
Ar ôl pum mlynedd	1,802	3,196	0	4,998
<b>Cyfanswm gwerth yr ymrwymadau</b>	<b>2,109</b>	<b>9,118</b>	<b>788</b>	<b>12,015</b>

Mae gwerthoedd adeiladau 31 Mawrth 2019 wedi cael eu hailddatgan gan gyfanswm o £4,551k i gynnwys ymrwymadau prydles mewn perthynas ac un adeilad a hepgorwyd trwy gamgymeriad.

## 16.2 Prydlesi cyllid

	31 Mawrth 2020	31 Mawrth 2019
	£'000	£'000
<b>Ymrwymadau o dan brydlesi cyllid yw:</b>		
O fewn blwyddyn	20	12
Ar ôl blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd	49	42
Ar ôl pum mlynedd	410	384
<b>Cyfanswm gwerth yr ymrwymadau</b>	<b>479</b>	<b>438</b>

## 17. Ymrwymadau ariannol eraill

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ymrwmo i gontractau na ellir eu canslo nas adroddir yn Nodyn 4 – Gwaith cyfalaf a wariwyd yn y flwyddyn, Nodyn 15 – Ymrwymadau cyfalaf a wariwyd yn y flwyddyn na Nodyn 16 - Ymrwymadau o dan brydlesi. Cyfanswm y taliadau eraill y mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ymrwmo iddynt ar 31 Mawrth 2019 yw:

	31 Mawrth 2020	31 Mawrth 2019
	£'000	£'000
O fewn blwyddyn	13,087	16,802
Ar ôl blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd	13,784	13,522
Ar ôl pum mlynedd	948	172
<b>Cyfanswm</b>	<b>27,819</b>	<b>30,496</b>

## 18. Symiau derbyniadwy prydlesi

Caiff asedau (tir ac adeiladau) a brydlesir i bartïon allanol o dan brydles weithredu eu cyfalafu o dan y polisi cyfrifyddu asedau tymor hir fel yr amlinellwyd yn Nodyn 7. Cyfrifir am incwm prydles gweithredu ar sail llinell syth ac mae'r taliadau prydles lleiaf yn y dyfodol y gellir eu derbyn o dan brydlesi gweithredu na ellir eu canslo fel a ganlyn:

	31 Mawrth 2020	31 Mawrth 2019
	£'000	£'000
O fewn blwyddyn	11,567	8,900
Ar ôl blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd	42,097	34,511
Ar ôl pum mlynedd	179,625	158,980
<b>Total</b>	<b>233,289</b>	<b>202,391</b>

Mae'r incwm o brydlesi fferm wynt yn cynrychioli rhan fawr o'r gwerthoedd a ddatgelir yn y tabl uchod. Lle mae ffermydd gwynt yn ddarostyngedig i Nodyn Cyngor Technegol 8: Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy (TAN 8), nid yw'r incwm yn cael ei gadw gan Cyfoeth Naturiol Cymru ac yn cael ei drosglwyddo i Lywodraeth Cymru. Mae mwy o wybodaeth am yr incwm hwn ar gael yn nodyn 1.4.



## 19. Rhwymedigaethau amodol

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn datgelu rhwymedigaethau amodol yn unol â Safon Cyfrifo Rhyngwladol (IAS) 37 pan fo rhwymedigaeth bosibl yn bodoli sy'n dibynnu ar ba un ai yw digwyddiad ansicr yn digwydd yn y dyfodol neu a oes rhwymedigaeth bresennol yn bodoli ond nad yw'r taliad yn debygol, neu na ellir mesur y swm yn ddibynadwy.

Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru y rhwymedigaethau amodol canlynol:

	31 Mawrth 2020	31 Mawrth 2019
	£'000	£'000
Hawliadau gwerthiannau pren	508	0
Hawliadau llifogydd	210	0
Hawliadau atebolrwydd cyhoeddus a gweithwyr	170	174
Adolygiad barnwrol	100	0
Eraill	0	20
<b>Total</b>	<b>988</b>	<b>194</b>

### Hawliadau gwerthiannau pren

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi derbyn hawliadau gan gwmnïau coed mewn perthynas â'u contractau â Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r swm a ddatgelir yn y tabl uchod yn ymwneud â dau hawliad.

### Hawliadau llifogydd

Yn dilyn y stormydd yn ystod mis Chwefror 2020 pan gafodd cymunedau yn Ne Cymru yn benodol eu heffeithio'n ddifrifol, mae saith hawliad wedi'u cyflwyno i Cyfoeth Naturiol Cymru ac mae eu gwerthoedd wedi'u cynnwys yn y tabl uchod.

### Hawliadau atebolrwydd cyhoeddus a gweithwyr

Mae gwerth chwe hawliad atebolrwydd cyhoeddus a gweithwyr wedi'i gynnwys yn y tabl uchod. Mae'r hawliadau hyn am anaf personol, difrod i eiddo a chwynion gweithwyr.

### Adolygiad barnwrol

Mae Wild Justice wedi cyhoeddi hawliad am adolygiad barnwrol yn erbyn Cyfoeth Naturiol Cymru lle maent yn ceisio datganiad gan y llys bod y trwyddedau cyffredinol a gyhoeddwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru o dan adran 16 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 yn anghyfreithlon. Mae'r swm a ddatgelir yn ymwneud ag amcangyfrif o'r costau llys.

### Hawliadau eraill

Daethpwyd i'r casgliad nad oedd angen y rhwymedigaeth amodol o £ 20k a ddatgelwyd yn 2018/19 yn ymwneud â chyfraniadau yswiriant gwladol ychwanegol ar gyfer budd-dal tanwydd.

## Rhwymedigaethau amodol heb eu meintoli

Yn unol â Safon Cyfrifo Rhyngwladol (IAS) 37, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn datgelu'r rhwymedigaethau amodol anfesuradwy canlynol. Nid yw'r tabl uchod yn cynnwys gwerthoedd ar gyfer y rhwymedigaethau amodol canlynol:

### Hawliadau gwerthiannau pren

Yn ychwanegol i'r hawliadau a gynhwysir yn y tabl uchod, mae trydydd hawliad wedi'i gyflwyno i Cyfoeth Naturiol Cymru ac nid yw'r gwerth wedi'i feintoli eto.

### Hawliadau llifogydd

Derbyniwyd tri hawliad lle nad yw'r gwerthoedd wedi'u meintoli eto.

## Hawliadau atebolrwydd cyhoeddus a gweithwyr

Derbyniwyd dau hawliad ond nid yw'r gwerthoedd wedi'u sefydlu eto.

## Archwiliad Cyllid a Thollau EM

Mae archwiliad Cyllid a Thollau EM o driniaeth Cyfoeth Naturiol Cymru o weithio oddi ar y gyflogres (IR35) ar y gweill a bydd yn parhau yn 2020/21. Datgelir rhwymedigaeth amodol anfesuradwy i gydnabod y posibilrwydd y bydd rhwymedigaethau diffyg cydymffurfio yn deillio o'r archwiliad.

## Mwynau

Cynhaliwyd treial rhwng 17 -26 Mehefin 2020 am hawliad sifil gan drydydd parti am y defnydd o gerrig gan Cyfoeth Naturiol Cymru ac un o'i gyrff rhagflaenol. Canfu'r llys yn llwyr o blaid Cyfoeth Naturiol Cymru a gwrthododd yr honiad bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi defnyddio cerrig trydydd parti heb ganiatâd. Gorchynnwyd i'r hawlwr dalu costau cyfreithiol Cyfoeth Naturiol Cymru gyda £500k wedi'i dalu ar gyfrif erbyn 25 Medi. Mae £250k arall ar gyfrif yn daladwy erbyn 4 Ionawr 2021, a bydd gweddill y costau yn destun asesiad manwl. Fodd bynnag, mae'r hawlwr wedi gwneud cais am ganiatâd i apelio yn erbyn y dyfarniad. Ar yr ymgais gyntaf, gwrthododd barnwr y treial eu cais yn ei gyfanrwydd. Mae'r hawlwr bellach wedi gwneud cais uniongyrchol i'r Llys Apêl gyda phapurau perthnasol wedi eu cyflwyno gan y ddau barti ers mis Medi. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn awr yn aros i glywed a fydd y Llys Apêl yn rhoi caniatâd i'r hawlwr apelio. Rhagwelir y byddai unrhyw wrandawriad apêl yn cael ei gynnal yn gynnar yn 2021 ac os bydd yn llwyddiannus, gellid gorchymyn Adnoddau Naturiol Cymru i ad-dalu £750k i'r hawlwr, talu costau cyfreithiol yr hawlydd a thalu iawndal. Nid yw'n bosibl gwybod gwir werth costau cyfreithiol yr hawlydd na gwerth unrhyw iawndal y gellid ei orchymyn hyd nes y daw yr apêl i ben a bod y llys yn gwneud penderfyniad terfynol.

Derbyniwyd ail hawliad tebyg ond mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cytuno i estyniad ar gytundeb disymud gyda'r parti arall. Ni thrafodwyd unrhyw werthoedd mewn perthynas â'r ail hawliad hwn.

## 20. Effaith Brexit

Ar 29 Mawrth 2017, cyflwynodd Llywodraeth y DU ei hysbysiad i adael yr UE yn unol ag Erthygl 50. Ar 31 Ionawr 2020, daeth y cytundeb ymadael rhwng y DU a'r UE yn gyfreithiol rwymol a gadawodd y DU yr UE. Bydd y berthynas rhwng yr UE a'r DU yn y dyfodol yn cael ei phennu gan drafodaethau sy'n digwydd yn ystod cyfnod pontio sy'n dod i ben ar 31 Rhagfyr 2020. Dyrannwyd cyllid yn 2020/21 i barhau â'r paratodau ar gyfer ein hymadawiad â'r UE.

## 21. Effaith COVID-19

Achosodd y pandemig COVID-19 aflonyddwch economaidd sylweddol ychydig cyn diwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r aflonyddwch parhaus a achosir gan y pandemig wedi creu ansicrwydd economaidd sylweddol, a disgwyliar i'r ansicrwydd hwn barhau trwy gydol 2020.

Fel y datgelwyd yn nodyn 7, mae'n bosibl bod yr ansicrwydd ynghylch COVID-19 wedi effeithio ar brisiadau ein hasedau ar 31 Mawrth 2020. O ganlyniad, roedd y prisiadau a dderbyniwyd gan gwmnïau allanol syrfewyr siartredig a phriswyr mewnol yn destun cymal ansicrwydd perthnasol. Ni fwriedir i'r cymal hwn awgrymu na ellir dibynnu ar y prisiad, ond mae'n adlewyrchu ansicrwydd cynyddol y prisiad oherwydd yr amgylchiadau presennol.

Mae COVID-19 hefyd wedi effeithio ar ffigurau Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol (IAS) 19 y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar 31 Mawrth 2020, fel yr adroddwyd yn nodyn 14. Mae canlyniadau IAS 19 yn defnyddio amodau gwirioneddol y farchnad ac enillion asedau gwirioneddol hyd at y dyddiad hwnnw, felly maent yn cyfrif am effaith y pandemig hyd at yr adeg honno.

## 22. Digwyddiadau ar ôl diwedd y cyfnod adrodd

Nid oes unrhyw ddigwyddiad i'w adrodd ar ôl y cyfnod adrodd.

## 23. Partion cystylliedig

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gorff a noddir gan Lywodraeth Cymru, sy'n cael ei ystyried yn barti cystylliedig. Yn ystod y flwyddyn mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cael trafodion sylweddol â Llywodraeth Cymru fel rhan o'i fusnes arferol (cofnodir y cymorth grant a'r grantiau a gafwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn yn y Datganiad o Ecwiti Trethdalwyr). Mae Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd wedi cael trafodion gydag endidau eraill yr ystyrir mai Llywodraeth Cymru yw eu rhiant-adran sef Awdurdodau Lleol Cymru a Pharciau Cenedlaethol yng Nghymru, a thrafodion ag adrannau eraill y llywodraeth a chyrrff llywodraeth ganolog eraill. Mae'r rhan fwyaf o'r trafodion hyn wedi bod gydag Asiantaeth yr Amgylchedd, y Comisiwn Coedwigaeth a Chyllid a Thollau EM.

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliodd Cyfoeth Naturiol Cymru, fel rhan o'i fusnes arferol, y trafodion canlynol â'r sefydliadau canlynol yr oedd gan Aelodau'r Bwrdd neu Aelodau Gweithredol neu bartion cystylliedig eraill fuddiant ynddynt. Nid yw Aelodau'r Bwrdd na'r Aelodau Gweithredol yn ymwneud yn uniongyrchol â'r trafodion a'r partion cystylliedig hyn. Rydym wedi dangos trafodion am y flwyddyn lawn gan gynnwys lle mae aelodau wedi ymuno neu adael yn ystod y flwyddyn.

Sefydliad	Aelod	Natur y berthynas	Cyfanswm taliadau	Cyfanswm incwm	Swm dyledus gan CNC ar 31 Mawrth 2020	Swm dyledus i CNC ar 31 Mawrth 2020
			£'000	£'000	£'000	£'000
Buglife	Steve Ormerod	Ymddiriedolwr	3	0	0	0
Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd	Partner Julia Cherrett	Ymddiriedolwr	0	40	0	0
Prifysgol Caerdydd	Steve Ormerod	Athro	46	8	0	0
Sefydliad Ymchwil Dwr Prifysgol Caerdydd	Steve Ormerod	Cyd-Gyfarwyddwr				
Arsyllfa Llyn Brianne Prifysgol Caerdydd	Steve Ormerod a'i briod	Prif Ymchwilwyr				
Canolfan Dechnoleg Amgen (CAT)	Rosie Plummer	Ymddiriedolwr	1	1	0	0
DEFRA yn cynnwys: Cydbwyllgor Cadwraeth Natur a Chwmni Cymorth (JNCC)	Karen Balmer	Aelod Annibynnol o Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Rosg JNCC	2	0	0	0
Asiantaeth yr Amgylchedd	Steve Ormerod	Aelod o Grwp Cyngori Gwyddoniaeth	3,832	2,684	2028	589
Farming and Wildlife Advisory Group	Geraint Davies	Cadeirydd	0	1	0	0
Groundwork Gogledd Cymru	Karen Balmer	Prif Weithredwr y grwp	4	0	0	0
Leonard Cheshire Disability	Elizabeth Haywood	Aelod Bwrdd ac Ymddiriedolwr	0	1	0	0
Cymdeithas Genedlaethol yr Ardaloedd o Harddwch Eithriadol	Howard Davies	Prif Weithredwr	30	0	30	0
Theatr Genedlaethol Cymru	Clare Pillman	Aelod Bwrdd	5	0	0	0
Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru	Howard Davies	Ymddiriedolwr ac Is-lywydd Anrhydeddus	145	0	0	0
Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro	Rosie Plummer	Aelod Bwrdd a benodwyd gan Lywodraeth Cymru	213	67	4	67
Plantlife International	Rosie Plummer	Ymddiriedolwr	18	0	0	0
Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar	Steve Ormerod	Is-lywydd	127	13	0	0
TGV Hydro Ltd	Chris Blake	Cyfarwyddwr	1	0	0	0

Yn ystod y flwyddyn, gwnaeth Cyfoeth Naturiol Cymru, yng nghwrs arferol ei fusnes, y trafodiad uniongyrchol canlynol gyda'r aelod canlynol o'r Bwrdd:

Aelod	Natur y trafodiad	Cyfanswm taliadau	Cyfanswm incwm	Swm dyledus gan CNC ar 31 Mawrth 2020	Swm dyledus i CNC ar 31 Mawrth 2020
		£'000	£'000	£'000	£'000
Geraint Davies	Cytundebau adran 16 o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016	3	0	0	0

# Adroddiad Amgylcheddol Corfforaethol 2019/20

## Ein Gweledigaeth

Yn falch o arwain y ffordd at ddyfodol gwell ar gyfer Cymru trwy reoli'r amgylchedd ac adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy.

## Ein Diben

Trwy'r Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 newydd, mae'n

- rhaid i geisio rheoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy, a
- chymhwyso egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

## Cyflwyniad

Mae ein system rheoli amgylcheddol yn helpu Cyfoeth Naturiol Cymru i ddatblygu'n sefydliad ardderchog drwy gynnal ein hardystiad ISO14001:2015, ein hardystiad coedwigoedd yn erbyn Safon Sicr Coetiroedd y Deyrnas Unedig a lleihau ein heffaith amgylcheddol a'n ôl-troed carbon.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn cefnogi datganiad Argyfwng Hinsawdd Llywodraeth Cymru a wnaed ym mis Ebrill 2019. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn cydnabod yr angen i fynd i'r afael â'r argyfwng amgylcheddol ehangach cysylltiedig, yn enwedig o ran colli bioamrywiaeth, a'r angen i wneud ecosystemau Cymru yn fwy gwydn i newid yn yr hinsawdd.

Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud yn bennaf â chynaliadwyedd amgylcheddol, ar wahân i gamau gweithredu neu ganlyniadau cynaliadwyedd ehangach, a gellir canfod y rhain trwy gydol ein Hadroddiad Blynyddol a'n Cyfrifon.

## Crynodeb o berfformiad

Yn 2019/20 rydym wedi:

- sicrhau lleihad o 5% yn ein hól troed carbon cyffredinol mewn perthynas ag allyriadau cwmpas 1, cwmpas 2 a mesuriadau cyfredol cwmpas 3 o gymharu â data 2018/19;
- lleihau ein defnydd o'r prif gyflenwad trydan mewn adeiladau a depos sydd wedi'u meddiannu am y chweched flwyddyn yn olynol, gyda gostyngiad o 3% yn 2019/20 o'i gymharu â data 2018/19;
- sicrhau lleihad o 3% yn ein milltiroedd busnes cyffredinol o'i gymharu â data 2018/19;
- cadw ardystiad i safon amgylcheddol ISO14001 a Safon Sicrwydd Coetir y Deyrnas Unedig, yn dilyn archwiliadau a gwirio allanol annibynnol.

Tabl 1: Tabl crynhoi'r Adroddiad Amgylcheddol Corfforaethol

	Unedau	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20
Allyriadau nwyon tŷ gwydr	Defnydd (tCO <sub>2</sub> e)	5,115	4,387	4,199	3,994
Ynni	Defnydd (miliwn kWh)	6.3	6.0	6.3	7.1
	Gwariant (£ mil)	776	618	583	729
Gwastraff	Cynhyrchwyd (tunellau)	1,424	1,141	966	1,772
	Gwariant (£ mil)	225	273	218	333
Dŵr	Defnydd (m <sup>3</sup> )	76,283	50,908	40,115	42,127
	Gwariant (£ mil)	32	25	30	13

Mae Tabl 1 yn dangos y newid cymharol ar gyfer meysydd allweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.


I grynhoi:

- Cafwyd gostyngiad sy'n gyfwerth â 205 tunnell o garbon deuocsid (tCO<sub>2</sub>e) mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr sefydliadol;
- cynyddodd ynni, gwastraff a dŵr i gyd oherwydd anghenion gweithredol oedd yn ymwneud â lliniaru llifogydd, stormydd difrifol ym mis Ionawr 2020 a gofynion deorfa pysgod.

Gellir dod o hyd i ragor o fanylion am bob un o'r rhain o fewn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

## Allyriadau nwyon tŷ gwydr

Amlinellir ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr isod:



Cafwyd gostyngiad o 4.9% mewn allyriadau carbon yn 2019/20 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

**Cwmpas 1** cafwyd gostyngiad o 14.8% mewn allyriadau uniongyrchol, a oedd yn bennaf o ganlyniad i ostyngiad yn y swm o danwydd a ddefnyddiwyd yn ein ceir cronfa a chan ein timau gweithredol.

**Cwmpas 2** cafwyd cynnydd o 5.0% mewn allyriadau anuniongyrchol ynni, a oedd o ganlyniad i gynnydd yn y defnydd o drydan yn ein gorsafoedd pwmpio er mwyn lleddfu llifogydd.

**Cwmpas 3** cafwyd cynnydd o 17.8% mewn allyriadau anuniongyrchol eraill, a oedd yn bennaf oherwydd cynnydd mewn gwastraff gweithredol (e.e. malurion a silt a dynnwyd o gyrsgiau dŵr).

Tabl 2: Allyriadau nwyon tŷ gwydr

Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20
Cwmpas 1: Allyriadau uniongyrchol (tCO <sub>2</sub> e)	2,835	2,466	2,499	2,129
Cwmpas 2: Allyriadau ynni anuniongyrchol (tCO <sub>2</sub> e)	1,662	1,317	1,077	1,130
Cwmpas 3: Allyriadau anuniongyrchol eraill (tCO <sub>2</sub> e)	617	603	624	735
<b>Cyfanswm gros allyriadau nwyon tŷ gwydr (tCO<sub>2</sub>e)</b>	<b>5,115</b>	<b>4,387</b>	<b>4,199</b>	<b>3,994</b>
<i>Tu allan i'r cwmpasau (h.y. biomas)</i>	220	208	187	184



Nodyn 1: Data heb ei ddilysu'n allanol – sicrwydd cyfyngedig.

Nodyn 2: Mae allyriadau nwyon tŷ gwydr anuniongyrchol Cwmpas 3 eraill yn cynnwys: teithio ar drên, hedfan, teithio fflyd lwyd, teithio mewn car prydles, teithio mewn car llog, dŵr a gwastraff.

Nodyn 3: Nid yw'r allyriadau Cwmpas 3 a ddaw yn sgil prynu nwyddau a gwasanaethau, defnyddio agregau mewn gwaith adeiladu a defnyddio pren wedi'u cynnwys.

## Ynni

Cafwyd gostyngiad o 67,721 kWh yn y defnydd o drydan o'r prif gyflenwad mewn adeiladau a depos sydd wedi'u meddiannu, sef gostyngiad o 3% yn 2019/20 o'i gymharu â data 2018/19

Fodd bynnag, cafwyd cynnydd o 13.5% yng nghyfanswm ein defnydd o ynni (sy'n cynnwys trydan, prif gyflenwad o nwy, LPG, olew gwresogi a biomas) ar sail data'r flwyddyn flaenorol.

Roedd hyn o ganlyniad i gynnydd yn y defnydd o drydan yn ein gorsafoddd pwmpio o 1,298,317 kWh i 1,985,005 kWh er mwyn lleddfu llifogydd.

Defnyddiodd ein saith gorsaf bwmpio fwyaf dros 700,000 kWh o drydan i ddargyfeirio a rheoli lefelau a llif dŵr er mwyn diogelu pobl, tir ac eiddo rhag llifogydd.

Ni chafwyd newid sylweddol yn lefel yr ynni a gynhrychir o ffynonellau adnewyddadwy a chafwyd gostyngiad bach oherwydd amrywiadau tymhorol. Gosodwyd paneli ffotofoltäig mewn dau safle newydd ar ddiwedd mis Mawrth 2020 ac mae cynlluniau i'w gosod mewn pedwar safle arall yn 2020/21 a fydd yn golygu y bydd swm y trydan o ynni adnewyddadwy a chanran y trydan a ddaw o ffynonellau adnewyddadwy yn cynyddu yn 2020/21.

Tabl 3: Ynni a ddefnyddiwyd

Adnodd a ddefnyddir – Ynni		2016/17	2017/18	2018/19	2019/20
Ynni a ddefnyddir: Safleoedd dan feddiant	Defnydd (kWh)	5,209,072	4,918,340	4,973,616	5,131,465
	Defnydd (tCO <sub>2e</sub> )	1,723	1,436	1,236	1,188
Ynni a ddefnyddiwyd: Safleoedd heb staff	Defnydd (kWh)	1,131,651	1,122,103	1,298,317	1,985,005
	Defnydd (tCO <sub>2e</sub> )	466	395	367	507
Ynni adnewyddadwy: Hunan-Gynhyrchu	Cynhyrchwyd (kWh)	76,649	106,856	167,879	161,193
	Defnydd (% o'r ynni a ddefnyddir)	1.4%	2.2%	3.4%	3.1%

<b>Ynni a ddefnyddir: Cyfanswm</b>	<b>Defnydd (kWh)</b>	<b>6,340,723</b>	<b>6,040,443</b>	<b>6,271,933</b>	<b>7,116,470</b>
	<b>Defnydd (tCO<sub>2</sub>e)</b>	<b>2,189</b>	<b>1,830</b>	<b>1,603</b>	<b>1,696</b>
	<b>Gwariant (£ mil)</b>	<b>777</b>	<b>618</b>	<b>583</b>	<b>729</b>

## Dŵr

Cafwyd gostyngiad o 565 m<sup>3</sup> yn y defnydd o ddŵr o'r prif gyflenwad, sef gostyngiad o 4.6% yn 2019/20 o'i gymharu â data 2018/19.

Cafwyd gostyngiad hefyd yn ein harddwysedd o ran defnydd o ddŵr (m<sup>3</sup>/cyfwerth ag amser llawn) o 3.2 i 2.9, oherwydd y gostyngiad yn y defnydd o ddŵr a chynnydd mewn staff cyfwerth ag amser llawn. (Arddwysedd swyddfa nodweddiadol ar gyfartaledd yw 4.0 o ran y defnydd o ddŵr.)

Rydym hefyd yn gweithio gyda Waterwise ar hyn o bryd er mwyn gwella ein rheolaeth o ddŵr mewn swyddfeydd a chanolfannau ymwelwyr i leihau ein defnydd o ddŵr ymhellach.

Cafwyd cynnydd o 2,012 m<sup>3</sup> yn y defnydd cyffredinol o ddŵr, sef cynnydd o 5.0% yn 2019/20 o'i gymharu â data 2018/19. Roedd hyn yn bennaf oherwydd cynnydd yn swm y dŵr a dynnwyd i alluogi deorfa bysgod Cyfoeth Naturiol Cymru i weithredu'n effeithlon (o 25,424 m<sup>3</sup> yn 2018/19 i 28,007 m<sup>3</sup> yn 2019/20).

Adnodd a ddefnyddir – Dŵr	Unedau	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20
Cyfanswm prif gyflenwad (m <sup>3</sup> )	Defnydd (m <sup>3</sup> )	11,411	11,894	12,368	11,803
Cyfanswm a echdynnwyd (m <sup>3</sup> )	Defnydd (m <sup>3</sup> )	64,850	39,014	27,747	30,324
Prif gyflenwad swyddfa (m <sup>3</sup> )	Defnydd (m <sup>3</sup> )	5,923	5,555	6,047	6,228
Echdynnwyd (m <sup>3</sup> )	Defnydd (m <sup>3</sup> )	15	22	32	26
Prif gyflenwad nid yw ar gyfer swyddfa (m <sup>3</sup> )	Defnydd (m <sup>3</sup> )	5,488	6,339	6,321	5,575
Echdynnwyd (m <sup>3</sup> )	Defnydd (m <sup>3</sup> )	64,835	38,992	27,715	30,298
Arddwysedd o ran defnydd o ddŵr (at ddefnydd swyddfa)	m <sup>3</sup> fesul cyfwerth ag amser llawn	3.3	3.0	3.2	2.9

<b>Dŵr a ddefnyddir: Cyfanswm</b>	<b>Defnydd (m<sup>3</sup>)</b>	<b>76,283</b>	<b>50,908</b>	<b>40,115</b>	<b>42,127</b>
	<b>Defnydd (tCO<sub>2</sub>e)</b>	<b>26.2</b>	<b>17.5</b>	<b>13.8</b>	<b>14.5</b>
	<b>Gwariant (£ mil)</b>	<b>32</b>	<b>25</b>	<b>30</b>	<b>13</b>

Tabl 4: Dŵr a ddefnyddiwyd

## Teithio

Mae ein hanghenion teithio'n cynnwys: teithio i reoli safleoedd, ymateb i ddiwyddiadau amgylcheddol difrifol, cymryd samplau, ymdrin â llifogydd, cyfarfodydd safle a theithio rhwng swyddfeydd.

Cafwyd gostyngiad o 218,457 o filltiroedd mewn milltiroedd teithio busnes, sef gostyngiad o 2.9% yn 2019/20 o gymharu â data 2018/19.

Cafwyd gostyngiad o 192 tCO<sub>2</sub>e mewn allyriadau carbon teithio busnes, sef gostyngiad o 9.6% yn 2019/20 o'i gymharu â data 2018/19, o ganlyniad i'r ffaith bod cyfran uwch o deithio busnes yn cael ei wneud ar y trên.

Cafwyd ychydig o ostyngiad yn y teithio a wnaed mewn cerbydau trydan, o ganlyniad i broblemau gyda'r seilwaith gwefru. Gyda chynlluniau i gynyddu nifer y pwyntiau gwefru ar gyfer cerbydau trydan a chyda phump ar hugain o gerbydau trydan ychwanegol wedi'u prynu yn barod, rydym am geisio cynyddu milltiroedd ein cerbydau trydan yn 2020/21.

Tabl 5: Teithio Busnes

Teithio mewn cerbyd	Unedau	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20
Cerbyd â bathodyn	Milltiroedd a deithiwyd	6,064,812	5,440,945	5,562,246	4,934,687
	Gwariant (£ mil)		749	789	720
Cerbydau prydles	Milltiroedd a deithiwyd	191,730	0	0	0
	Gwariant (£ mil)	18	0	0	0
Cerbydau fflyd lwyd	Milltiroedd a deithiwyd	639,064	590,998	614,868	554,375
	Gwariant (£ mil)	287	266	277	249
Cerbydau llog	Milltiroedd a deithiwyd	322,505	261,039	277,390	512,209
	Gwariant (£ mil)	74	88	124	195
Trên	Milltiroedd a deithiwyd	864,366	938,418	993,213	1,258,211
	Gwariant (£ mil)	223	183	328	397

Hedfan	Milltiroedd a deithiwyd	71,057	33,661	50,299	26,663
	Gwariant (£ mil)	19	5	7	7
Beic	Milltiroedd a deithiwyd	2,346	2,301	3,714	4,012
	Gwariant (£ mil)	< 1	< 1	< 1	< 1
Beic modur	Milltiroedd a deithiwyd	2,447	1,735	1,155	729
	Gwariant (£ mil)	< 1	< 1	< 1	< 1
Trydan	Milltiroedd a deithiwyd	0	0	32,832	26,374
<b>Cyfanswm teithio mewn cerbyd</b>	<b>Milltiroedd a deithiwyd</b>	<b>8,158,327</b>	<b>7,269,097</b>	<b>7,535,717</b>	<b>7,317,260</b>
	<b>Defnydd (tCO<sub>2</sub>e)</b>	<b>2,249</b>	<b>2,019</b>	<b>2,002</b>	<b>1,810</b>
	<b>Gwariant (£ mil)</b>		<b>1,291</b>	<b>1,525</b>	<b>1,568</b>

### Lleihau a rheoli gwastraff

Cafodd cyfanswm o 196 tunnell o wastraff swyddfa ei ddargyfeirio rhag cael ei waredu ar safleoedd tirlenwi yn 2019/20 o'i gymharu â data 2018/19.

Cynyddodd gwastraff gweithredol oherwydd y stormydd difrifol ym mis Ionawr 2020, a thynnwyd llawer iawn o wastraff (malurion a silt) o gyrsiau dŵr er mwyn atal llifogydd. Yn ogystal, mae'r gofyniad i gael gwared ar dipiau gwastraff peryglus wedi arwain at gynnydd mewn allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â gwastraff.

Tabl 6: Gwastraff a gynhyrchwyd

Categori gwastraff	Unedau	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20
Gwastraff swyddfa i safle tirlenwi	Defnydd (tunellau)	241	213	286	90
	Defnydd (tCO <sub>2</sub> e)	101	125	168	53
	Gwariant (£ mil)	22	25	25	24
Gwastraff swyddfa Ailgylchwyd / aildefnyddiwyd	Defnydd (tunellau)	934	600	431	972
	Defnydd (tCO <sub>2</sub> e)	20	13	9	21
Gwastraff swyddfa a losgwyd	Defnydd (tunellau)	15	27	31	31
	Defnydd (tCO <sub>2</sub> e)	< 1	< 1	< 1	< 1
Gwastraff gweithredol a	Defnydd (tunellau)	234	301	218	680
	Defnydd (tCO <sub>2</sub> e)	65	135	98	269

thipio anghyfreithlon					
	<b>Defnydd (tunellau)</b>	<b>1,424</b>	<b>1,141</b>	<b>966</b>	<b>1,772</b>
<b>Cyfanswm y gwastraff</b>	<b>Defnydd (tCO<sub>2e</sub>)</b>	<b>186</b>	<b>274</b>	<b>276</b>	<b>343</b>
	<b>Gwariant (£ mil)</b>	<b>225</b>	<b>273</b>	<b>218</b>	<b>333</b>

## Caffael cynaliadwy

Ein Gweledigaeth o ran Caffael yw darparu arweinyddiaeth a chyfeiriad caffael effeithiol i gefnogi cenhadaeth a gwerthoedd Cyfoeth Naturiol Cymru ac ymgorffori cysyniadau sylfaenol sefydliad sy'n dysgu gyda Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy fel ei egwyddor drefnu ganolog.

Mae'r adran Gaffael a'r tîm carbon bositif wedi bod yn gweithio ar y cyd i weithredu'r defnydd o Offeryn Cynllunio Carbon yn ein contractau. Nod hyn yw lleihau'r allyriadau carbon a gynhrychir yn anuniongyrchol gan ein contractwyr, sef y ffynonellau allyriadau mwyaf heriol i fynd i'r afael â nhw. Sicrhawyd cyllid fel y gall arbenigwr weithio gyda'r adran Gaffael i ddatblygu'r offer a methodoleg ar gyfer lleihau allyriadau yn ein cadwyn gyflenwi.

## Digwyddiadau amgylcheddol

Yn 2019/20 cafwyd ugain o ddigwyddiadau amgylcheddol o ganlyniad i'n gwaith neu oherwydd gwaith contractwyr rydym yn eu rheoli.

Ni ddosbarthwyd unrhyw ddigwyddiadau fel rhai Uchel, dosbarthwyd pymtheg fel rhai Isel, dosbarthwyd pedwar fel Digwyddiadau ac roedd un yn Ddi-ddosbarth.

Pan geir digwyddiadau oherwydd ein gwaith ni (neu waith ein contractwyr), rydym yn adolygu'r hyn sydd wedi digwydd, ac yn cymryd camau i fynd i'r afael ag achos sylfaenol y digwyddiad.

## Llywodraethu ac adrodd

Rydym yn adrodd ar ein hól troed carbon fel rhan o'n fframwaith perfformiad, a adroddir gan y Tîm Gweithredol i'r Bwrdd (mewn sesiwn gyhoeddus agored) bedair gwaith bob blwyddyn.

Rydym yn casglu'r data a ddefnyddir yn yr adroddiad cynaliadwyedd hwn trwy gyfuniad o ddarlleniadau mesurydd (e.e. nwy, trydan), anfonebau (e.e. pryniadau ar gardiau tanwydd), data gan gyflenwr (e.e. milltiroedd trên) a data cyllid, gan ddefnyddio'r ffynhonnell/ffynonellau mwyaf cywir sydd ar gael i ni. Rydym hefyd yn ceisio lleihau'r defnydd o unrhyw ddata amcangyfrifedig yn ein hadroddiadau.

## Prosiect Carbon Bositif

Cymeradwywyd y blaenoriaethau canlynol o'r prosiect carbon bositif gan fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru ym mis Mehefin 2019, ac ymrwymodd Cyfoeth Naturiol Cymru i bennu cwmpas a chost y prosiectau canlynol:

- Adfer mawn dwfn;
- Creu coetir;
- Cynhyrchu ynni adnewyddadwy;
- Cyflwyno seilwaith cerbydau trydan a cherbydau;
- Effeithlonrwydd o ran gwres ac ynni carbon isel yn ein hadeiladau a'n hasedau;
- Mynd i'r afael ag allyriadau sy'n ymwneud â chaffael;
- Dylanwadu ar ostwng allyriadau allanol ledled Cymru, trwy:
  - ehangu cefnogaeth a chyingor ar ddatgarboneiddio i Lywodraeth Cymru, cyrff sector cyhoeddus Cymru a Byrddau'r Sector Cyhoeddus;
  - gweithio gyda Llywodraeth Cymru er mwyn deall ein rôl bosibl wrth ystyried carbon o fewn trefniadau cynllunio, trwyddedu a rheoleiddio;
  - gweithredu newid o ran ymddygiad gan gynnwys ymgysylltiad staff er mwyn ymgorffori ystyriaeth o garbon ar draws Cyfoeth Naturiol Cymru a thu hwnt;
  - gwerthuso a throsglwyddo effeithiau presennol newid yn yr hinsawdd er mwyn ysgogi trafodaeth gyhoeddus bellach a chefnogaeth ar gyfer datgarboneiddio cyflym er mwyn lleihau effeithiau yn y dyfodol.

Cyflwynwyd y blaenoriaethau hyn i'r Prif Weinidog a Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig.

## Strategaeth ar gyfer y dyfodol

Dros y ddwy flynedd nesaf, yn unol â'n strategaeth gorfforaethol, rydym am wneud y canlynol:

- Parhau i gyflenwi cynllun gweithredu carbon bositif Cyfoeth Naturiol Cymru 2020/22 fel ei fod yn cynnwys; ôl-ffitio adeiladau â phaneli ffotofoltäig solar, datblygu seilwaith ar gyfer gwefru cerbydau trydan, cynyddu milltiroedd cerbydau trydan, nodi a chyflawni rhaglen o brosiectau ar gyfer mawndiroedd er mwyn lleihau ein hallyriadau carbon ymhellach;
- Datblygu mecanweithiau fel bod teithio llesol a chynaliadwy yn ddewis a ffefrir ar gyfer teithio gan gymudwyr Cyfoeth Naturiol Cymru ac ar gyfer teithiau busnes priodol;
- Parhau i gynnal ardystiadau i safon amgylcheddol ISO14001 ar gyfer holl weithgareddau Cyfoeth Naturiol Cymru ac ardystiadau i Safon Sicr Coetiroedd y Deyrnas Unedig ar gyfer Ystad Goetir Llywodraeth Cymru.





**Cyfoeth  
Naturiol**  
Cymru  
**Natural  
Resources**  
Wales

Cyhoeddwyd gan:  
Cyfoeth Naturiol Cymru  
Ty Cambria  
29 Heol Casnewydd  
Caerdydd  
CF24 0TP

0300 065 3000 (Llun-Gwener, 8am - 6pm)

[ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)  
[www.cyfoethnaturiol.cymru](http://www.cyfoethnaturiol.cymru)

© Cyfoeth Naturiol Cymru

Cedwir pob hawl. Gellir atgynhychu'r ddogfen hon gyda chaniatâd ymlaen  
llaw gan Cyfoeth Naturiol Cymru